# RHYBUDD O GYFARFOD


***Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri***

***Emyr Williams***
***Prif Weithredwr***
***Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri***
***Penrhyndeudraeth***
***Gwynedd LL48 6LF***
***Ffôn: (01766) 770274***
***E.bost: parc@eryri.llyw.cymru***


| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol<br>Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 15 Mehefin 2022 |
| **Amser:** | 10.00 y.b. |

***Gofynnir i'r Aelodau ymuno â'r cyfarfod 15 munud cyn yr amser cychwyn dynodedig***

***Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd***
*Y Cynghorydd: Elwyn Edwards, Annwen Hughes, Louise Hughes, June Jones, Kim Jones, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts;*

***Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy***
*Y Cynghorydd: Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Dilwyn Owain Roberts;*

***Aelodau wedi'u penodi gan Llywodraeth Cymru***
*Mr. Brian Angell, Ms. Tracey Evans, Mrs. Sarah Hattle, Mr. Tim Jones, Ms. Naomi Ludhe – Thompson, Mr. Owain Wyn.*

# R H A G L E N


1. **Cadeirydd** **Rhifau Tudalennau**
   Ethol Cadeirydd yr Awdurdod tan y cyfarfod blynyddol nesaf.

2. **Is-Gadeirydd**
   Ethol Is-Gadeirydd yr Awdurdod tan y cyfarfod blynyddol nesaf.

3. **Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd**

4. **Diweddariad Corfforaethol**
   Derbyn diweddariad llafar gan y Prif Weithredwr.

5. **Hawl i'r Cyhoedd Holi**
   Mae'r Awdurdod wedi clustnodi hyd at 20 munud ar ddechrau ei gyfarfod i roi cyfle i aelodau o'r cyhoedd ofyn cwestiynau penodol sy'n ymwneud â gwaith yr Awdurdod (ac eithrio ceisiadau cynllunio) sy'n berthnasol i ddyletswyddau a phwrpasau'r Parc.

   Rhaid cyflwyno'r cwestiynau'n ysgrifenedig (trwy'r post neu e-bost) i'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Chorfforaethol o leiaf 7 niwrnod cyn y cyfarfod.

6. **Datgan Diddordeb**
   Cael unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan aelodau neu swyddogion mewn perthynas ag unrhyw eitem fusnes.

7. **Aelodaeth yr Awdurdod** **4 - 5**
   Cofnodi aelodaeth yr Awdurdod yn ffurfiol. (Copi yma)

8. **Cofnodion yr Awdurdod** **6 - 11**
   Bydd y Cadeirydd yn cynnig bod cofnodion y cyfarfodydd o'r Awdurdod hwn a gynhaliwyd ar yr 27ain Ebrill 2022, yn cael eu harwyddo fel rhai cywir (copi yma) a derbyn y materion sy'n codi, er gwybodaeth.

9. **Taflen Gweithredu** **12 - 16**
   Cyflwyno'r Daflen Weithredu er gwybodaeth a phenderfyniad. (Copi yma)

10. **Twristiaeth Gynaliadwy Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri** **17 - 38**
    Derbyn adroddiad gan Archwilio Cymru. (Copi yma)

11. **Llythyr Cylch Gwaith y Llywodraeth ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**
    Derbyn llythyr Cylch Gwaith Tymor y Llywodraeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd **39 - 48**
    (Copi yma)

12. **Penodi Aelodau i wasanaethu ar Bwyllgorau, Paneli, Gweithgorau a Chynrychiolaeth Allanol** **49 - 52**
    Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr. (Copi yma)

13 **Adroddiad Blynyddol i'r Awdurdod** **53 - 55**
   Derbyn adroddiad gan Cadeirydd y Pwyllgor Safonau. (Copi yma)

14. **Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021/22** **56 - 88**
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer. (Copi yma)

15. **Rhaglen Waith Corfforaethol 2022-23** **89 - 123**
Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. (Copi yma)

16. **Rheoli'r Trysorlys - Adroddiad Blynyddol 2021/22** **124 - 127**
Cyflwyno adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid. (Copi yma)

17. **Presenoldeb Aelodau** **128 - 130**
Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. (Copi yma)

18. **Safonau'r Iaith Gymraeg** **131- 146**
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddiaeth a Gofal Cwsmer. (Copi yma)

19. **Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Eryri 2020/21**. **147 - 218**
Cyflwno adroddiad gan y Rheolwr Partneriaethau. (Copi yma)

20. **Adroddiad Gweithgor Aelodau** **219 - 222**
Cyflwyno adroddiad y Gweithgor Aelodau a gynhaliwyd ar 6ed Ebrill 2022. (Copi yma)

21. **Cynhadleddau 2022**
    i) **Cynhadledd Parciau Cenedlaethol y DG 2022 – Parc Cenedlaethol Exmoor 27ain i 29ain Medi 2022** – **NODYN I'R DYDDIADUR**
    Mae'n arferol anfon 4 cynrychiolydd (yn cynnwys y Cadeirydd) i'r Gynhadledd.
    ii) **Cynhadledd WLGA 2022 - NODYN I'R DYDDIADUR**
    Dydd Iau 22ain Medi, Venue Cymru (Llandudno)
    iii) **Cynhadledd Europarc Hydref 2022** **223 - 224**
    Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr (Copi yma)

22. **Cyfarfodydd Sefydliadau Eraill**
Cael adroddiadau llafar gan Aelodau am unrhyw gyfarfodydd sefydliadau eraill y buont ynddynt yn ddiweddar fel cynrychiolwyr yr Awdurdod.

23. **Cyflwyno'r cofnodion a ganlyn er gwybodaeth:-**
    (1) Cofnodion Cofnodion Cyfarfod Gweithredol Parciau Cenedlaethol Cymru a Gynhaliwyd ar 19 Tachwedd 2021. (Copi yma) **225 - 233**
    (2) Cofnodion Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 23ain Mawrth, 2022. (Copi yma) **234 - 238**
    (3) Cofnodion Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 1af Ebrill 2022. (Copi yma) **239 - 240**

**EITEM RHIF 7**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| **DYDDIAD** | 15 Mehefin 2022 |
| **TEITL** | **AELODAETH O'R AWDURDOD** |
| **ADRODDIAD GAN** | Prif Weithredwr |
| **PWRPAS** | Er gwybodaeth |

Mae'r Awdurdod yn cynnwys 18 o Aelodau, ac mae 9 o'r rhai hyn yn cael eu penodi gan Gyngor Gwynedd, 3 gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a 6 gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r Aelodaeth fel a ganlyn:-

**9 Aelod a benodwyd gan Gyngor Gwynedd**

1. Cynghorydd Elwyn Edwards Cynghorydd.ElwynEdwards@eryri.llyw.cymru
2. Cynghorydd Annwen Hughes Cynghorydd.AnnwenHughes@eryri.llyw.cymru
3. Cynghorydd Louise Hughes Cynghorydd.LouiseHughes@eryri.llyw.cymru
4. Cynghorydd June Jones Cynghorydd.JuneJones@eryri.llyw.cymru
5. Cynghorydd Kim Jones Cynghorydd.KimJones@eryri.llyw.cymru
6. Cynghorydd Edgar Wyn Owen Cynghorydd.EdgarOwen@eryri.llyw.cymru
7. Cynghorydd Elfed Powell Roberts Cynghorydd.ElfedRoberts@eryri.llyw.cymru
8. Cynghorydd John Pughe Roberts Cynghorydd.JohnPugheRoberts@eryri.llyw.cymru
9. Cynghorydd Meryl Roberts Cynghorydd.MerylRoberts@eryri.llyw.cymru

**3 Aelod a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Conwy**

10. Cynghorydd Ifor Glyn Lloyd Cynghorydd.IforGlynLloyd@eryri.llyw.cymru
11. Cynghorydd Jo Nuttall Cynghorydd.JoNuttall@eryri.llyw.cymru
12. Cynghorydd Dilwyn Owain Roberts Cynghorydd.DilwynOwainRoberts@eryri.llyw.cymru

**6 Aelod a benodwyd gan Lywodraeth Cymru**

13. Mr. Brian Angell Brian.Angell@eryri.llyw.cymru

14. Ms. Tracey Evans Tracey.Evans@eryri.llyw.cymru

15. Mrs. Sarah Hattle Sarah.Hattle@eryri.llyw.cymru

16. Mr. Tim Jones Tim.Jones@eryri.llyw.cymru

17. Ms. Naomi Luhde-Thompson Naomi.Ludhe-Thompson@eryri.llyw.cymru

18. Mr. Owain Wyn Owain.Wyn@eryri.llyw.cymru

**Manylion Cyswllt y Wefan**
Byddai swyddogion yn ddiolchgar pe gallech roi caniatâd i'ch enw, cyfeiriad, rhif ffôn cyswllt dewisol, a chyfeiriad e-bost gael eu gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.

**AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI**
**DYDD MERCHER 27 EBRILL 2022**

Cynghorydd Wyn Ellis Jones (Cadeirydd) (Conwy)

***PRESENNOL*** :

**Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Gwynedd**
Y Cynghorwyr Elwyn Edwards, Alwyn Gruffydd, Annwen Hughes, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Gethin Glyn Williams;

**Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
Y Cynghorwyr Philip Capper, Ifor Glyn Lloyd;

**Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru**
Mr. Brian Angell, Mr. Tim Jones, Mrs. Sarah Hattle, Mr. Owain Wyn;

**Swyddogion**
Emyr Williams, G.Iwan Jones, Jonathan Cawley, Dafydd Edwards, Sian Owen, Bethan Hughes, Angela Jones, Naomi Jones, Anwen Gaffey.

**Yn bresennol**
Rachel Freitag, Archwilio Cymru.

**Ymddiheuriadau**
Y Cynghorwyr Mike Stevens, Judith Humphreys; Ms. Tracey Evans.

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y cyfarfod yn ddarostyngedig i Reoliadau Covid-19 ar sut mae'r Awdurdod yn cynnal ei fusnes, a bod:

- Hysbysiad o'r Cyfarfod wedi'i gyhoeddi ac roedd yr Agenda a'r adroddiadau ar gael ar wefan yr Awdurdod.
- nid oedd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd.
- roedd y cyfarfod yn cael ei recordio i gynorthwyo i wirio'r cofnodion a byddai ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

1. **Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

(1) adroddodd y Cadeirydd ar gyfarfod cyswllt diweddar gyda Chymdeithas Eryri oedd wedi bod yn ddefnyddiol iawn.

(2) rhoddodd y Cadeirydd wybod am nifer o gyfarfodydd a drefnwyd gyda Julie James, y Gweinidog dros Newid Hinsawdd, a oedd yn anffodus wedi'u canslo gan y Gweinidog am wahanol resymau. Y gobaith oedd y byddai cyfarfod yn cael ei ail-drefnu maes o law.

(3) dywedodd y Cadeirydd fod y Gweinidog bellach wedi cadarnhau penodiad dau Aelod newydd o Lywodraeth Cymru. Byddai Naomi Luhde-Thompson yn ymuno â'r Awdurdod ar 1 Mai a Delyth Lloyd yn dechrau ar 1 Awst 2022.

(4) gan mai hwn oedd cyfarfod olaf y Cadeirydd o'r Awdurdod, manteisiodd ar y cyfle i ddiolch i'r holl Aelodau am eu cyfeillgarwch dros y blynyddoedd ac am eu gwaith yn gofalu am le mor arbennig ag Eryri. Mynegodd ei werthfawrogiad hefyd i Mr. Owain Wyn, cyn Gadeirydd yr Awdurdod, a oedd wedi ei gefnogi ers ei benodi i'r Gadair. Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn falch o fod wedi gallu cynrychioli pobl Conwy a'i fod wedi mwynhau bod yn Aelod o'r Awdurdod dros nifer o dymhorau ers 2003.

(5) mynegodd y Cadeirydd hefyd ddymuniadau gorau i holl Aelodau'r Awdurdod Lleol oedd â seddi a ymleddir amdanynt yn yr etholiad Llywodraeth Leol sydd i ddod.

Yn codi wedi hynny, diolchodd Mr. Owain Wyn, ar ran yr Aelodau, i'r Cadeirydd am ei eiriau caredig, ei waith, a'i arweiniad yn ystod y cyfnod heriol hwn.

2. **Diweddariad Corfforaethol**

Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad llafar ar faterion gweithredol:-

(1) roedd y cyfleuster archebu ymlaen llaw ym maes parcio Pen y Pass wedi'i ailsefydlu ac roedd bellach yn haws i'w defnyddio yn ogystal â bod ar gael yn yr iaith Gymraeg a'r Saesneg ar wefan yr Awdurdod.

(2) gan nad oedd Datganiad Ysgrifenedig Llywodraeth Cymru – Gwerthfawr a Chydnerth: Blaenoriaethau ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol yn cael ei adolygu, yn lle hynny bydd yr Awdurdod yn derbyn llythyr cylch gwaith strategol gyda blaenoriaethau gan y Gweinidog dros Newid yn yr Hinsawdd, a fydd yn cael ei gyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod ar 15 Mehefin 2022.

(3) roedd yr addasiad cynyddol ym mandiau cyflog yr Awdurdod o ddau bwynt cyflog wedi'i gymhwyso a'i gynnwys yn y cyflogau o fis Ebrill ymlaen. Manteisiodd y Prif Weithredwr ar y cyfle i ddiolch i holl Aelodau'r Awdurdod am eu cefnogaeth ddi-ffael i staff yr Awdurdod dros y 5 mlynedd diwethaf ac am y sefydlogrwydd a'r cyngor cadarn a ddarparwyd ganddynt.

(4) rhoddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fanylion i'r Aelodau am y ddarpariaeth yn Neddf yr Amgylchedd 1995 sy'n datgan nad yw person sy'n mddeol o fod yn aelod o gyngor yn rhinwedd etholiad yn terfynu ei swydd fel aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol tan fod cyfnod o dri mis ar ôl iddynt ymddeol o fod yn aelod o'r cyngor wedi mynd heibio, neu os yw'n gynharach, y diwrnod y mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cael hysbysiad o benodiad arall arfaethedig. Os nad yw Cyngor Gwynedd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi gwneud eu penodiadau erbyn 18 Mai 2022, bydd yn ofynnol i'r Aelodau presennol fynychu'r Pwyllgor Cynllunio a Mynediad ar y diwrnod hwnnw.

(5) mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod Rheolau Sefydlog yr Awdurdod yn ei gwneud yn ofynnol :- *"Caiff aelod newydd o'r Awdurdod eistedd a gwrando yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad ond ni chaiff gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau yn y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad hyd nes y bydd yr Aelod wedi mynychu cwrs hyfforddi Cynllunio a gymeradwyir o bryd i'w gilydd gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir".*

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiadau.**

3. **Hawli i'r Cyhoedd Holi**

Hysbyswyd yr aelodau na dderbyniwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

4. **Datgan Budd**

Ni ddatganwyd unrhyw Fuddiant Personol mewn perthynas ag unrhyw eitem.

5. **Cofnodion**

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 9 Chwefror 2022 a llofnododd y Cadeirydd hwy fel cofnod cywir.

6. **Materion er gwybodaeth yn codi o'r cofnodion**

<u>Eitem 9 – Crynodeb Archwilio Blynyddol 2021</u>

Cytunodd y Prif Weithredwr i ofyn i Mr. Nic Selwyn o Archwilio Cymru am y ddolen at yr 'Offeryn Data' a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn cymharu data ariannol ar gyfer pob Cyngor, Parc Cenedlaethol ac Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru, y gellid wedyn ei anfon ymlaen at yr Aelodau.

7. **Log / Cofnod Gweithredu**
Cyflwynwyd – Log o gamau gweithredu strategol yn deillio o benderfyniadau a wnaed yn ystod cyfarfodydd yr Awdurdod, er gwybodaeth ac i'w gweithredu.

Cyfarfod Awdurdod 25.09.19
Eitem Gweithredu 8 – Diweddariad ar y Gyllideb
Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod y Rheolwr Eiddo ar hyn o bryd yn paratoi adroddiad diweddaru ar gyfer Aelodau'r Is-Grŵp Asedau a fydd yn cael ei anfon allan yn fuan.

Cyfarfod Awdurdod 29.12.20
Eitem Gweithredu 7 – Log Gweithredu
Cadarnhaodd y swyddogion fod yr eitem weithredu hon yn cyfeirio at benderfyniad a wnaed o ganlyniad i'r eitem weithredu y cyfeiriwyd ati ym mharagraff 8 o'r cofnodion.

**PENDERFYNWYD nodi'r Log Gweithredu fel yr amlinellwyd.**

8. **Cynllun Archwilio 2022**
Cyflwynwyd – Cynllun Archwilio 2022 Archwilio Cymru.

Adroddwyd - Cyflwynodd Rachel Freitag o Archwilio Cymru'r adroddiad, amlinellodd y risgiau archwilio a'r gwaith i'w wneud gan Archwilio Cymru dros y flwyddyn i ddod, gan gynnwys yr archwiliad o ddatganiadau ariannol a gwaith archwilio perfformiad i'w gytuno gyda swyddogion. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi'r amserlen arfaethedig ar gyfer y gwaith a'r ffioedd amcangyfrifedig.

Manteisiodd y Prif Swyddog Cyllid ar y cyfle i ddiolch i aelodaeth bresennol yr Awdurdod am eu gwaith a'u cefnogaeth dros y pum mlynedd diwethaf. Croesawodd Rachel i'w chyfarfod Awdurdod cyntaf i gyflwyno ei hadroddiad ac adroddodd ar drafodaethau a diwygiadau y cytunwyd arnynt gydag Archwilio Cymru cyn ei gyflwyno.

Yn codi wedi hynny, dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai Prif Weithredwyr y tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru yn cyfarfod ag Archwilio Cymru cyn bo hir i drafod eu rhaglen archwilio perfformiad ar gyfer 2022-23. Dywedodd y Prif Weithredwr hefyd ei fod yn credu efallai y cynhelir dau archwiliad y flwyddyn nesaf, un ar lefel genedlaethol ac un ar lefel leol. Cadarnhaodd hefyd y byddai Archwilio Cymru yn mynychu cyfarfod yr Awdurdod ym mis Mehefin i gyflwyno eu hadroddiad archwilio ar Dwristiaeth Gynaliadwy.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys Cynllun Archwilio 2022.**

9. **Grŵp Tasg a Gorffen Llywodraethu**
Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i drafod a mabwysiadu'n ffurfiol yr argymhellion a wnaed gan y Grŵp Tasg a Gorffen Llywodraethu.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a dywedodd fod y diwygiadau, fel yr argymhellwyd gan y Gweithgor Aelodau, bellach wedi'u cynnwys.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth fanwl i'r argymhellion a gwnaethant y sylwadau a ganlyn:-

- Cytunodd yr Aelodau a'r swyddogion fod cyfleoedd i Aelodau newydd gyfarfod wyneb yn wyneb yn hanfodol i feithrin perthnasoedd gwaith da.
- mewn ymateb i gwestiwn dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau

Corfforaethol fod y dechnoleg ar gyfer darlledu byw yn datblygu'n gyflym iawn, ac unwaith y byddai'r penderfyniad i fwrw ymlaen wedi'i gytuno, ni fyddai'n cymryd yn hir i'w sefydlu.
- cododd rhai Aelodau amheuon ynghylch effeithiolrwydd cyfarfodydd hybrid a dylai swyddogion geisio cyngor arfer gorau gan sefydliadau a oedd eisoes yn defnyddio'r dull hwn.
- teimlai Aelod y dylid cynnal cyfran o gyfarfodydd yr Awdurdod wyneb yn wyneb er mwyn helpu i adeiladu ysbryd tîm ar gyfer staff ac Aelodau. Gofynnodd a ddylai cyfarfodydd 'yn bersonol' fod yn ddiofyn i ddiogelu rhag i Aelodau profiadol beidio â mynychu na fyddai wedyn o unrhyw fudd i'r Aelodau newydd.
- cytunwyd y dylai Aelodau gael y dewis i fynychu cyfarfodydd o bell neu wyneb yn wyneb yn y dyfodol er mwyn sicrhau tegwch i bawb.
- awgrymodd Aelod y gellid defnyddio'r Diwrnod Datblygu Aelodau, a drefnwyd ar gyfer dechrau mis Gorffennaf, i gyflwyno aelodau newydd, a rhoi cyfle i gyfarfod wyneb yn wyneb os yw'r tywydd yn caniatáu.

**PENDERFYNWYD**

1. **mabwysiadu'r Cod Llywodraethu Corfforaethol wedi'i ddiweddaru fel y nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad.**
2. **mabwysiadu'r broses ar gyfer adolygu perfformiad mewn perthynas â Datganiad Llesiant a Rhaglen Waith Gorfforaethol yr Awdurdod fel y nodir yn Atodiad 2 yr adroddiad.**
3. **cytuno ar y disgrifiadau rôl diweddaraf aelodau a chadeiryddion fel y nodir yn Atodiad 3 yr adroddiad.**
4. **datblygu Strategaeth Datblygu Aelodau fel y nodir ym mharagraffau 2.3.2.1 – 2.3.2.7 yr adroddiad.**
5. **penodi Ms. Sarah Hattle i arwain ar fentora Aelodau.**
6. **bod yr Awdurdod yn parhau gyda'i strwythur pwyllgorau presennol ond y dylai, yn y dyfodol, ystyried newid i Gynllun Dirprwyo'r Awdurdod i roi'r hawl i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau wneud penderfyniadau terfynol ar adroddiadau ariannol ac adroddiadau eraill (oni bai bod angen cymeradwyaeth yr Awdurdod yn ofynnol yn benodol).**
7. **Cylch Gorchwyl a gwaith Grwpiau Tasg a Gorffen yn y dyfodol i'w gosod fel y nodir ym mharagraffau 2.4.3 – 2.4.6 yr adroddiad.**
8. **bwrw ymlaen â chyfarfodydd y dyfodol a mynediad cyhoeddus fel y nodir ym mharagraffau 2.5.1 – 2.5.4 yr adroddiad.**
9. **bod Rheolau Sefydlog sy'n ymwneud â chontractau i'w hadolygu a'u cymeradwyo gan yr Awdurdod maes o law gyda hyfforddiant priodol i staff fel y nodir ym mharagraffau 2.6.1 – 2.6.3 yr adroddiad.**

10. **Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol**
Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i drafod Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a'r llythyr atodol oddi wrth y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

11. **Adroddiad Blynyddol Yr Ysgwrn**
Cyflwynwyd – Adroddiad Blynyddol i roi diweddariad i'r Aelodau ar weithgarwch yn Yr Ysgwrn.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol yr Adroddiad Blynyddol yn fanwl a manteisiodd hefyd ar y cyfle i ddiolch i Mr. Owain Wyn am ei gefnogaeth anfesuradwy i'r Ysgwrn a'i staff yn ystod ei gyfnod yn y swydd.

Croesawodd yr aelodau'r adroddiad a gwnaethant y sylwadau a ganlyn:-

- Diolchodd yr aelodau i'r Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol am yr adroddiad blynyddol a diolchwyd i holl staff a gwirfoddolwyr Yr Ysgwrn am eu gwaith.
- argymhellodd Aelod hyrwyddo’r Ysgwrn i gylchoedd llenyddol y tu allan i Gymru a hefyd yn rhyngwladol, fel rhan o’r nod o gyrraedd marchnad ehangach.
- awgrym arall oedd datblygu’r gynulleidfa drwy gysylltu â Ffederasiwn Ffermwyr Ifanc yr Alban, Cymru, a Lloegr a hefyd i farchnata’r Ysgwrn yn Iwerddon yn y dyfodol.
- mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol y bydd Yr Ysgwrn a Phlas Tan y Bwlch yn cydweithio i ddenu ysgolion o ymhellach i ffwrdd. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod Cynllun Busnes yn cael ei baratoi ar gyfer Plas Tan y Bwlch a fydd yn cael ei gyflwyno i Fwrdd Plas Tan y Bwlch yn fuan.
- nododd y Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol fod cyfleoedd i arbed ar gostau rhedeg yn gyfyngedig. Rhaid cadw'r Ysgwrn ar dymheredd cyson er mwyn gwarchod y dodrefn a'r creiriau a rhaid cwrdd â chostau staff hyd yn oed pan fo llai o fusnes. Mae Cynllun Datblygu Cynulleidfa Yr Ysgwrn yn anelu at ddatblygu marchnadoedd targed eraill ac er nad oedd data i gefnogi hyn ar hyn o bryd, bydd tystiolaeth ar gael erbyn yr adroddiad blynyddol nesaf.
- Trafododd yr aelodau'r problemau technegol gyda'r boeler biomas a oedd wedi bod yn siomedig iawn, ond gobeithio bod y sefyllfa wedi'i hunioni erbyn hyn.

**PENDERFYNWYD**

1. **nodi cynnwys yr Adroddiad Blynyddol, er gwybodaeth.**
2. **yn dilyn newidiadau i’r safle ac i aelodaeth yr Awdurdod, dylai Aelodau ymweld â’r Ysgwrn ar ddyddiad i’w drefnu yn 2022 i ymgyfarwyddo â’r safle ac i drafod materion penodol.**

12. **Parciau Cenedlaethol Cymru: Tirweddau i Bawb: Ein hagwedd at Gynhwysiant Cymdeithasol a Thlodi Plant (Diwygiwyd ar gyfer 2021)**

Cyflwynwyd - Adroddiad gan y Rheolwr Partneriaethau i fabwysiadu'r fersiwn diwygiedig 'Tirweddau i Bawb Parciau Cenedlaethol Cymru: Ein Hymagwedd at Gynhwysiant Cymdeithasol a Thlodi Plant.'

Adroddwyd – Cyflwynodd y Rheolwr Partneriaethau yr adroddiad a'r cefndir. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Arfordir Penfro wedi cymeradwyo'r ddogfen.

**PENDERFYNWYD nodi’r adroddiad a mabwysiadu ‘Parciau Cenedlaethol Cymru: Tirweddau i Bawb’ fel y nodir yn Atodiad 1 i’r adroddiad hwn ac fel y’i cyflwynwyd i Weithgor yr Aelodau ym mis Ionawr 2022.**

13. **Adroddiadau Gweithgorau Aelodau**

Cyflwynwyd – Adroddiadau o gyfarfodydd y Gweithgor Aelodau a gynhaliwyd ar 19eg Ionawr a’r 2il o Fawrth 2022.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiadau.**

14. **Calendr Cyfarfodydd**

Cyflwynwyd – Amserlen o gyfarfodydd am y cyfnod 2022/2023.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y Calendr Cyfarfodydd a gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod cyfarfod ychwanegol o'r Pwyllgor Safonau yn cael ei drefnu ar 28 Ebrill 2023, i gynorthwyo'r Pwyllgor Safonau yn ei ddyletswydd newydd i ddarparu'r Awdurdod gydag Adroddiad Blynyddol.

Yn codi wedi hynny, dywedodd y Prif Weithredwr fod Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn awyddus i gynnal Seminar Aelodau Tirwedd Dynodedig Cymru yn 2022, a bydd y dyddiad yn cael ei adrodd maes o law.

**PENDERFYNWYD yn ddarostyngedig y nodi'r cyfarfod ychwanegol uchod o'r Pwyllgor Safonau, cymeradwyo'r amserlen ar gyfer 2022/23 fel y'i cyflwynwyd.**

15. **Cyfarfodydd Cyrff eraill**

Cyflwynwyd - Adroddiadau llafar ar gyfarfodydd diweddar sefydliadau yr oedd Aelodau wedi'u mynychu fel cynrychiolwyr yr Awdurdod.

<u>Mr. Owain Wyn – Ymgyrch Parciau Cenedlaethol</u>

- canolbwyntiodd y cyfarfod ar ymateb Llywodraeth y DU i adolygiad Glover a arweiniodd at gyfres o gyflwyniadau ar Adfer Natur a Hawliau Tramwy Cyhoeddus. Yn ddiweddar, mae Llywodraeth y DU wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen ag ymestyn hawliau cyhoeddus i grwydro, sy’n wahanol iawn i Lywodraeth Cymru, sy’n cefnogi ymestyn yr hawliau.
- Cynhelir Cynhadledd Flynyddol CNP ar 12-14 Hydref 2022 ym Mhlas y Brenin ac os oedd gan Aelodau ddiddordeb mewn mynychu, dylent gysylltu â Chymdeithas Eryri.

<u>Cynghorydd John Pughe Roberts – Fforwm Mynediad Ardal y De</u>

Mynychu cyfarfod diweddar lle’r oedd trafodaethau’n canolbwyntio ar:-

- Hawliau Tramwy Cyhoeddus
- Mynediad i Ddŵr
- Cerbydau 4 x 4 ym Mhennal
- Llwybrau march / ceffylau
- diweddariad ar y £250k a wariwyd ar waith llwybrau troed

**PENDERFYNWYD diolch i'r Aelodau a nodi'r adroddiadau.**

16. **Cofnodion**

Cyflwynwyd - Cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 24ain Tachwedd 2021, er gwybodaeth.

**PENDERFYNWYD nodi'r cofnodion.**

Mynegodd y Cadeirydd ei ddymuniadau gorau a'i ddiolch i holl staff yr Awdurdod am eu gwaith a'u cefnogaeth dros ei gyfnod yn y swydd.

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.30**

# TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

## CYFARFOD YR AWDURDOD – 25.09.2019

| RHIF EITEM A THEITL | PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU | GWEITHREDIADAU | SWYDDOG CYFRIFOL | DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU | DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| 8. Diweddariad o'r gyllideb | - **adroddiad ar y pwysau cyllidebol a wynebir gan yr Adran Eiddo i'w gyflwyno i Weithgor y dyfodol.** | Cyflwyno'r adroddiadau. | EJ | Diweddariad - Cyfarfu'r Is-grŵp Asedau ar 4 Mawrth 2020 ac ystyried adroddiad a oedd yn amlinellu pwysau cyllidebol ac argymhellion i ail-fuddsoddi incwm o safleoedd cynhyrchu incwm mewn cyllidebau cynnal a chadw yn y dyfodol o 2021/22 ymlaen. Adroddiad dilynol i'w baratoi ar gyfer pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn yr Hydref. Nodwyd bod Covid 19 yn risg bosibl ac mae wedi arwain at ohirio'r adroddiad oherwydd pwysau ariannol ehangach yn deillio o'r pandemig.<br>Bu i'r Is-grŵp Asedau gyfarfod ar 15fed Ionawr 2021. Bydd adroddiad diweddaru yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau cyn Ebrill 2022 ac mae penodiad wedi'i wneud i'r swydd Swyddog Eiddo sydd newydd ei chreu.<br>Diweddariad - mae'r adroddiad yn cael ei baratoi ar hyn o bryd gan y Rheolwr Eiddo. | **NA** |
| | - **adroddiad gan Grŵp Prosiect Yr Ysgwrn i'w gyflwyno i'r Aelodau yn y Flwyddyn Newydd.** | | NJ | Diweddariad - ar ddiwedd tymor 2021 bydd y Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol yn cyflwyno adroddiad i Fwrdd Yr Ysgwrn cyn ei gyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod ddiwedd 2021 / dechrau 2022<br>**CWBLHAWYD** | |
| | - **rhoi copi o ddyfarniad Aberdyfi i'r Aelodau unwaith y bydd ar gael.** | I e-bostio Aelodau gyda'r dyfarniad. | GIJ | Rhoddwyd copi o'r dyfarniad i'r Aelodau ar 28.11.19.<br>**CWBLHAWYD** | |

# TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

## CYFARFOD YR AWDURDOD – 09.12.2020

| RHIF EITEM A THEITL | PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU | GWEITHREDIADAU | SWYDDOG CYFRIFOL | DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU | DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| 7 Taflen Gweithredu | **Cyfarfod yr Awdurdod 10.04.19 Eitem Weithredu 12 - Maniffesto Ieuenctid Europarc** | Symud ymlaen gyda'r weithred yma fel mater o frys. | AD | DIWEDDARIAD: Penodiad wedi ei wneud a bydd y swyddog yn ei swydd yn fuan.<br><br>DIWEDDARIAD: Dechreuodd y swyddog yn ei swydd ar 4ydd Ebrill 2022. Ers hyn mae'r swyddog wedi dechrau trafodaethau gyda'r Bartneriaeth Awyr Agored ynglŷn â'r Cynllun Ceidwaid Ifanc ac wedi ymweld â PC Sir Benfro i ddysgu am eu gwaith.<br>Ar ôl yr etholiad ac unwaith y bydd aelodau'r Awdurdod yn eu swyddi, bydd cyfarfod o'r 'grŵp tasg a gorffen Maniffesto Ieuenctid' yn cael ei drefnu. Gellir cyflwyno adroddiad cynnydd i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Mehefin os oes angen. | **NA** |

# TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

## CYFARFOD YR AWDURDOD – 13.10.2021

| RHIF EITEM A THEITL | PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU | GWEITHREDIADAU | SWYDDOG CYFRIFOL | DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU | DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| 11. **Adroddiad Cynnydd y Panel Craffu - Enwau Lleoedd** | **PENDERFYNWYD**<br>**1. disgwyl cyngor pellach ar yr opsiynau posibl a allai fod yn agored i'r Awdurdod ar sut i fynd i'r afael ag enwau lleoedd sydd â mwy nag 1 enw.**<br>**2. disgwyl adroddiad gan y Panel ar y ffordd orau i'r enwau lleoedd yn Eryri gael eu defnyddio a'u hyrwyddo.**<br>**3. bod y Grŵp Llywio (gyda'r un Aelodaeth) yn disodli'r Panel Craffu i fynd i'r afael â'r unrhyw faterion sy'n ymwneud ag enwau lleoedd a godir yn y dyfodol, ac i estyn gwahoddiad i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fynychu'r Grŵp Llywio yn ôl yr angen.** | Cyflwyno adroddiad pellach maes o law. | JC | Rhoddodd y Grŵp Llywio ystyriaeth i adroddiad gan Dr Dylan Foster-Evans, Pennaeth Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd ar 8 Mawrth. Bydd hyn yn sail i swyddogion baratoi arweiniad pellach ar ymdrin â lleoedd gyda mwy nag un enw lle. Yn seiliedig ar hyn, bydd nodyn canllaw cychwynnol yn cael ei baratoi gan swyddogion i'r Aelodau yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Medi.<br><br>Bydd yr adroddiad hwn hefyd yn cynnwys ffyrdd y gellir dathlu a hyrwyddo enwau lleoedd. | **NA** |

# TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

## CYFARFOD YR AWDURDOD – 09.02.2022

| RHIF EITEM A THEITL | PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU | GWEITHREDIADAU | SWYDDOG CYFRIFOL | DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU | DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| 13. Cydnerthedd yr Awdurdod: Telerau ac Amodau Staff | **PENDERFYNWYD**: **Cadeirydd yr Awdurdod i alw cyfarfod o'r Aelodau i ystyried capasiti / rôl y Tîm Rheoli. Enwebwyd yr Aelodau a ganlyn:-**<br>**Cynghorwyr Annwen Hughes, Alwyn Gruffydd, Elwyn Edwards; Mr Owain Wyn, Mr Tim Jones a Ms Sarah Hattle.** | Cadeirydd i alw cyfarfod. | Cadeirydd | Cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol ar 30 Mawrth 2022 gyda chyfarfod arall yn cael ei drefnu ar gyfer dechrau Mai 2022.<br><br>Yn anffodus, ni chynhaliwyd y cyfarfod oedd i'w drefnu ym mis Mai. Bydd cyfarfod pellach o'r grŵp yn cael ei drefnu cyn gynted ag y bydd Aelodau (newydd) wedi'u briffio. | **NA** |

# TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

## CYFARFOD YR AWDURDOD – 27.04.2022

| RHIF EITEM A THEITL | PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU | GWEITHREDIADAU | SWYDDOG CYFRIFOL | DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU | DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| 9. Grŵp Tasg a Gorffen Llywodraethu | **PENDERFYNWYD**:<br>- **yr Awdurdod i ystyried newid i Gynllun Dirprwyo'r Awdurdod i roi'r hawl i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau wneud penderfyniadau terfynol ar adroddiadau ariannol ac adroddiadau eraill (oni bai bod angen cymeradwyaeth yr Awdurdod yn ofynnol yn benodol).**<br>- **yr Awdurdod i adolygu Rheolau Sefydlog sy'n ymwneud â chontractau gyda hyfforddiant priodol i staff fel y nodir yn yr adroddiad.** | Cyflwyno adroddiad pellach maes o law. | GIJ | I'w symud ymlaen unwaith y bydd Awdurdod newydd wedi'i sefydlu ac aelodau newydd wedi ymgyfarwyddo â gwaith yr Awdurdod. | **NA** |
| 11. Adroddiad Blynyddol yr Ysgwrn | **PENDERFYNWYD**<br>- **yn dilyn y newid i aelodaeth yr Awdurdod, i drefnu ymweliad â'r Ysgwrn ar ddyddiad i'w drefnu yn 2022.** | Trefnu cyfarfod i'r holl Aelodau yn y dyfodol. | NJ | I'w symud ymlaen unwaith y bydd Awdurdod newydd wedi'i sefydlu ac aelodau newydd wedi'u briffio. | **NA** |

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Twristiaeth Gynaliadwy – Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Blwyddyn archwilio: 2021-22

Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 2902A2022

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri fel rhan o'r gwaith a wnaed/wneir yn unol ag adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru yn ysgwyddo unrhyw gyfrifoldeb o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac o ran unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae adran 45 o'r Cod yn nodi sut y disgwylir i awdurdodau cyhoeddus ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad manwl

Mae gan yr Awdurdod bartneriaethau sydd wedi ennill eu plwyf i fynd i'r afael â thwristiaeth gynaliadwy, ond nid yw wedi diffinio'i weledigaeth yn glir hyd yma, ac mae hynny'n peri iddi fod yn anodd iddo ddangos effaith ei waith 7

Atodiadau

Atodiad 1 – methodoleg 15

Atodiad 2 – safbwynt cenedlaethol 16

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Beth y gwnaethom ei adolygu, a pham?

1 Mae tri pharc cenedlaethol Cymru yn gyrchfannau adnabyddus ar gyfer ymwelwyr, ac mae eu statws yn darparu delwedd brand gref sy'n estyn tu hwnt i'w ffiniau. Ar adeg pan fo niferoedd yr ymwelwyr yn cynyddu, mae awdurdodau pob un o'r parciau cenedlaethol wedi gweld cynnydd yn y galwadau am iddynt warchod rhinweddau arbennig eu parciau.

2 Ers tro, mae blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y parciau cenedlaethol wedi cynnwys ffocws ar dyfu twristiaeth a hamdden awyr agored mewn ffordd gynaliadwy, ac ar ymgysylltiad rhagweithiol â darparwyr twristiaeth i bennu sut y gallant gyfrannu at sicrhau cynaliadwyedd yr ardal[1].

3 Mae'r cyd-destun polisi ehangach hefyd yn cynnwys uchelgais Llywodraeth Cymru am i'r economi ymwelwyr 'dyfu twristiaeth er budd Cymru'[2]. Mae'r llythyr cylch gwaith strategol a gyhoeddwyd gan Weinidog Llywodraeth Cymru dros yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ym mis Mawrth 2021 yn cadarnhau rôl bwysig awdurdodau'r parciau cenedlaethol o ran datblygu twristiaeth a hamdden awyr agored cynaliadwy.

**Arddangosyn 1: diffiniad Sefydliad Twristiaeth y Byd y Cenhedloedd Unedig o dwristiaeth gynaliadwy**

UNWTO
World Tourism Organization

'Twristiaeth sy'n ystyried yn llwyr ei heffeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn awr ac yn y dyfodol, gan roi sylw i anghenion ymwelwyr, y diwydiant, yr amgylchedd, a'r cymunedau sy'n lletya ymwelwyr.'

Ffynhonnell: unwto.org/sustainable-development

4 Gall rheoli mynediad, twristiaeth a'i heffaith fod yn her i awdurdodau'r parciau cenedlaethol. O ran cyfran, ychydig iawn o dir y maent yn berchen arno o fewn y

[1] Gwerthfawr a Chydnerth: Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol, Gorffennaf 2018

[2] Croeso i Gymru: Blaenoriaethau i'r Economi Ymwelwyr 2020-2025

parciau cenedlaethol, ac nid ydynt yn rheoli'n uniongyrchol strategaethau twristiaeth a rheoli cyrchfannau cenedlaethol na rhanbarthol. Tynnwyd sylw at y cydbwysedd brau rhwng dau ddiben statudol a dyletswydd statudol awdurdodau'r parciau cenedlaethol[3] pan fu i ymwelwyr heidio i'r parciau mewn niferoedd nas gwelwyd eu tebyg o'r blaen pan fu iddynt ailagor yn 2020.

5 O'r herwydd, mae COVID-19 wedi tanlinellu rôl bwysig awdurdodau'r parciau cenedlaethol o ran hyrwyddo cysyniad cynaliadwyedd ym maes rheoli twristiaeth. Mae economi leol pob parc yn dibynnu'n helaeth ar dwristiaeth, ond mae angen ei rheoli mewn ffordd gynaliadwy i sicrhau nad yw'r dirwedd naturiol, bioamrywiaeth, na chymunedau lleol yn cael eu gorlethu a'u gadael, at ei gilydd, ar eu colled o'r herwydd.

6 Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn hwn: **A yw'r Awdurdod yn gwneud popeth y gall i reoli twristiaeth gynaliadwy'n effeithiol yn y Parc Cenedlaethol?**

## Beth y gwnaethom ei ganfod?

7 Cynhaliwyd ein hadolygiad rhwng mis Hydref 2021 a mis Chwefror 2022. Yn gyffredinol, canfuom **fod gan yr Awdurdod bartneriaethau sydd wedi ennill eu plwyf i fynd i'r afael â thwristiaeth gynaliadwy, ond nid yw wedi diffinio ei weledigaeth yn glir hyd yma, ac mae hynny'n peri iddi fod yn anodd iddo ddangos effaith ei waith.**

8 Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau a ganlyn:

- mae Cynllun Eryri'n amlinellu uchelgais eang i fynd i'r afael â thwristiaeth gynaliadwy, ond hyd yma ni chafodd ei drosi'n weledigaeth glir â chanlyniadau pendant y mae partneriaid wedi ymrwymo'n llwyr i'w gwireddu;
- mae'r Awdurdod yn defnyddio partneriaethau strategol i lywio ei waith o ran twristiaeth gynaliadwy, ond mae angen iddo ddangos yn well effaith ei waith;
- mae'r Awdurdod yn canolbwyntio ar feithrin dealltwriaeth a rennir o economi ymwelwyr gynaliadwy, ond hyd yma nid yw'n gallu dangos ei allu i ddylanwadu ar dwristiaeth ac i reoli ei heffaith.

[3] Deddf yr Amgylchedd 1995

## Argymhellion

**Arddangosyn 2: argymhellion**

Mae'r tabl isod yn rhestru'r argymhellion a bennwyd gennym yn sgil yr adolygiad hwn.

| Argymhellion |
| --- |
| Oherwydd diffyg eglurder y canlyniadau allweddol a bennwyd o ran twristiaeth gynaliadwy, a'r gwendidau sy'n deillio o hynny o ran ei allu i ddangos effaith ei waith, rydym yn argymell bod yr Awdurdod:<br>A1 Yn adeiladu ar y cydweithio cadarnhaol â Chyngor Gwynedd i bennu canlyniadau clir ac amcanion cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol, synhwyrol (CAMPUS) i siapio ei waith o ran twristiaeth gynaliadwy.<br>A2 Yn adolygu ei gyfres bresennol o ddangosyddion perfformiad ar draws gweithgarwch partneriaethau allweddol sy'n ymwneud â thwristiaeth gynaliadwy, ac yn pennu mesurau ystyrlon sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i ddangos effaith ei waith yn well. |
| O ystyried rôl bwysig yr Awdurdod o ran mynd i'r afael ag effaith twristiaeth ar yr amgylchedd naturiol a'r angen i ddylanwadu ar ymddygiad, rydym yn argymell bod yr Awdurdod:<br>A3 Yn gweithio gyda busnesau twristiaeth i hyrwyddo cysyniad twristiaeth gynaliadwy, ac yn pennu beth y gallant ei wneud i helpu i wireddu uchelgeisiau'r Awdurdod a sut y gallant gyfrannu at y gwaith hwnnw. |

# Adroddiad manwl

## Mae gan yr Awdurdod bartneriaethau sydd wedi ennill eu plwyf i fynd i'r afael â thwristiaeth gynaliadwy, ond nid yw wedi diffinio'i weledigaeth yn glir hyd yma, ac mae hynny'n peri iddi fod yn anodd iddo ddangos effaith ei waith

### Mae Cynllun Eryri'n amlinellu uchelgais eang i fynd i'r afael â thwristiaeth gynaliadwy, ond hyd yma ni chafodd ei drosi'n weledigaeth glir â chanlyniadau pendant y mae partneriaid wedi ymrwymo'n llwyr i'w gwireddu


9 Cynllun Eryri (y Cynllun) yw cynllun rheoli statudol Parc Cenedlaethol Eryri. Ochr yn ochr â'r Cynllun Datblygu Lleol, mae'n ddogfen bwysig sy'n darparu fframwaith polisi strategol ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (yr Awdurdod) a'i bartneriaid dros gyfnod o bum mlynedd (2020-25). Yn 2020, bu inni adrodd bod yr Awdurdod wedi sefydlu dull effeithiol o lunio'r Cynllun dan arweiniad partneriaeth, a'i fod mewn sefyllfa dda i adeiladu ar y sylfaen hon yn y dyfodol.[4] Mae'r Cynllun, a fabwysiadwyd yn ffurfiol yn yr hydref 2020, yn nodi mai un o'r prif ganlyniadau a bennwyd gan yr Awdurdod yw cyflawni "egwyddorion twristiaeth gynaliadwy" erbyn 2025. Mae hwn yn un o saith canlyniad hirdymor a nodir yn y Cynllun, ac mae'n her a allai effeithio'n andwyol ar rinweddau arbennig[5] y Parc Cenedlaethol os nad eir i'r afael â hi'n effeithiol.

10 Mae'r Awdurdod yn defnyddio diffiniad Sefydliad Twristiaeth y Byd y Cenhedloedd Unedig o dwristiaeth gynaliadwy (gweler **Arddangosyn 1**). Dangosodd y swyddogion a'r Aelodau ddealltwriaeth glir a chyson o'r diffiniad hwn, yn enwedig o ran pwysigrwydd sicrhau bod yr economi ymwelwyr o fudd i lesiant pobl, amgylchedd, ac iaith a diwylliant yr ardal. Mae safbwyntiau'r busnesau twristiaeth y bu inni eu holi drwy ein harolwg yn dangos eu bod yn rhannu'r ddealltwriaeth eang hon o dwristiaeth gynaliadwy. Mae **Arddangosyn 3** yn awgrymu bod busnesau twristiaeth yn rhoi gwerth mawr ar rôl economi ymwelwyr gynaliadwy o ran helpu i gefnogi eu busnesau.

[4] Adolygiad o Gyfranogiad – Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Chwefror 2020

[5] Mae gan bob un o'r parciau cenedlaethol yng Nghymru, yr Alban a Lloegr restr wedi'i diffinio'n glir o 'rinweddau arbennig'. Maent yn nodi'r hyn sy'n peri i'r ardal fod yn arbennig ac yn unigryw. Y cyfuniad o'r rhinweddau arbennig hyn sy'n arwain at eu dynodi'n barciau cenedlaethol. Rhestrir y naw rhinwedd sy'n peri i Eryri fod yn arbennig yng Nghynllun Eryri (tudalen 26).

**Arddangosyn 3: mae busnesau twristiaeth Eryri'n dangos dealltwriaeth dda o fuddion economi ymwelwyr gynaliadwy**




Ffynhonnell: Arolwg Archwilio Cymru ymhlith busnesau twristiaeth, Chwefror 2022

11 Er bod cytundeb o ran y diffiniad o dwristiaeth gynaliadwy, canfuom wendidau yng nghynlluniau'r Awdurdod i wella cynaliadwyedd yr economi ymwelwyr, a'r mesurau i'w defnyddio i farnu ac i werthuso'i waith. Felly, mae'r gwaith o drosi ei uchelgais eang yn weledigaeth glir a ategir gan gynllun gweithredu yn dasg y mae angen i'r Awdurdod fynd i'r afael â hi o hyd.

12 Mae uwch-arweinwyr hefyd yn cydnabod bod angen i'r Awdurdod fireinio ac egluro'i uchelgeisiau yng ngoleuni'r pwysau a welwyd yn ystod y pandemig. Mae'n bwysig bwrw ymlaen â'r gwaith hwn i sicrhau bod swyddogion yn canolbwyntio ar wneud y cyfraniad gorau posibl at gyflawni canlyniadau ystyrlon, ac i sicrhau bod modd i'r Aelodau fonitro perfformiad a dangos gwerth am arian. Nid yw'r ffaith bod yr Awdurdod yn wynebu rhai heriau gweithredol sylweddol o gymorth yn hyn o beth.

13 Er enghraifft, dywedodd swyddogion fod angen gwneud rhai gwelliannau sylweddol i'r seilwaith i reoli'n well effaith ymwelwyr sy'n teithio mewn ceir, yn enwedig o amgylch atyniadau mwyaf poblogaidd y Parc Cenedlaethol ac yn ystod y cyfnodau prysur. Yn rhinwedd ei rôl fel awdurdod cynllunio lleol, mae'r Cynllun Datblygu Lleol a'r canllawiau cynllunio ategol a fabwysiadwyd ganddo, fel Datblygu Llety Ymwelwyr, yn darparu fframwaith i lywio penderfyniadau ar ddatblygiadau sy'n cefnogi twristiaeth gynaliadwy.

14 Yn ehangach, fodd bynnag, nid oes gan yr Awdurdod mo'r pŵer na'r capasiti i reoli'n uniongyrchol y newidiadau sylweddol y mae angen eu gwneud i'r seilwaith i helpu i gyflawni twristiaeth gynaliadwy, nac i gyflawni'r newidiadau hynny ar ei ben

ei hun. Serch hynny, drwy Ddeddf yr Amgylchedd 1995, mae'n gyfrifol am warchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol[6], felly nid yw gwneud dim byd yn opsiwn. Nid yw'r her hon yn unigryw i Eryri. Mae **Atodiad 2** yn amlinellu'r negeseuon cenedlaethol cyffredin a ddaeth i'r amlwg drwy ein hadolygiadau o awdurdodau'r tri pharc cenedlaethol.

## Mae'r Awdurdod yn defnyddio partneriaethau strategol i lywio ei waith o ran twristiaeth gynaliadwy, ond mae angen iddo ddangos yn well effaith ei waith

15 O ystyried cyfyngiadau ei gylch gwaith a'i adnoddau o ran rheoli twristiaeth yn uniongyrchol, nid yw'n syndod canfod bod yr Awdurdod yn adeiladu ar ddiwylliant cadarn o waith partneriaeth i siapio ac i wireddu ei uchelgeisiau o ran twristiaeth gynaliadwy. Cyngor Gwynedd yw prif Sefydliad Rheoli Cyrchfan yr ardal, ac mae brand y gyrchfan, 'Eryri: Mynyddoedd a Môr'[7], yn estyn i ddyffryn Conwy i gwmpasu'r Parc Cenedlaethol yn ei gyfanrwydd. Ystyrir yr Awdurdod yn bartner allweddol yn y broses o adolygu ac o lunio Cynllun Rheoli Cyrchfan newydd yr ardal. Ategir ei gyfraniad at y gwaith hwnnw gan femorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng yr Awdurdod a Chyngor Gwynedd a fabwysiadwyd gan y naill barti a'r llall ym mis Tachwedd 2021. Mae partneriaid, fel Cyngor Gwynedd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, hefyd yn ysgwyddo rhwymedigaeth statudol i ystyried dibenion yr Awdurdod pan fyddant yn gwneud unrhyw waith yn y Parc Cenedlaethol[8].

16 Roedd y swyddogion y bu inni eu cyf-weld yn disgrifio cydweithredu cadarnhaol drwy'r fframwaith partneriaeth hwn. Mae i'r strwythur ffurfiol â Chyngor Gwynedd – y Bartneriaeth Economi Ymweld Gynaliadwy – dri phrif grŵp:

- Bwrdd Strategol – sy'n cynnwys Aelodau etholedig ac uwch-swyddogion;
- Grŵp Llywio – sy'n goruchwylio ac yn cyfarwyddo'r grŵp gweithredu, ac yn rhoi adroddiadau i'r bwrdd strategol am berfformiad;
- Grŵp Gweithredu – sy'n canolbwyntio ar hyn o bryd ar weithgareddau ymchwil, llywodraethu ac ymgysylltu.

17 Drwy'r bartneriaeth hon, cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu i gytuno ar y cyd ar egwyddorion newydd ar gyfer economi ymwelwyr gynaliadwy. Mae llawer o'r gweithgarwch y bu i'r Awdurdod a'i bartneriaid ymgymryd ag ef drwy'r Grŵp Gweithredu (cyn ffurfioli'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth) yn parhau i fod yn y cam 'archwilio a hysbysu'. Isod, rhestrir rhai enghreifftiau:

- peri i'r dirwedd fod yn fwy hygyrch i ymwelwyr nad ydynt yn teithio mewn ceir, a sicrhau bod modd i'r rheini sy'n cyrraedd mewn ceir gael mynediad i'r ardal a'i hatyniadau drwy fodd arall. Mae hyn yn cynnwys dysgu gwersi o'r

[6] Deddf yr Amgylchedd 1995
[7] Eryri: Mynyddoedd a Môr – gwefan Visit Snowdonia
[8] Deddf yr Amgylchedd 1995 – Adran 62

cynllun i dreialu trefn archebu ar-lein ar gyfer maes parcio Pen y Pass, ac adeiladu arno. Yn ôl swyddogion, mae'r cynllun hwn wedi lleihau nifer yr ymwelwyr sy'n gyrru i'r maes parcio. Mae hefyd yn cynnwys gwaith ymgysylltu â'r prif gymunedau sy'n byrth i'r atyniadau hyn i fesur eu hawydd i weld mwy o seilwaith yn cael ei osod i beri i ymwelwyr fod yn llai dibynnol ar geir.

- casglu data ac ymchwil o ran effaith economaidd-gymdeithasol twristiaeth ar yr ardal, a sut y mae'n cymharu ag ardaloedd eraill ar draws y rhanbarth, gan gynnwys datblygu metrigau sy'n seiliedig ar ddata STEAM.[9]
- cynnal arolygon ymhlith preswylwyr ac ymwelwyr i ddod i ddeall eu safbwyntiau gwahanol am y Parc Cenedlaethol fel cyrchfan.

18 Er y gweithgarwch cadarnhaol hwn, mae gwendidau yn nhrefniadau monitro perfformiad cydweithredol yr Awdurdod yn cyfyngu ar ei allu i ddangos effaith ei waith. Er ei fod wedi sefydlu llwyfannau a rennir er mwyn i bartneriaid adrodd am y camau a gwblhawyd yn unol ag ymrwymiadau penodol o fewn strwythurau partneriaeth, fel Fforwm Eryri, byddai modd gwella'r trefniadau atebolrwydd drwy bennu canlyniadau ystyrlon, amcanion CAMPUS, a dangosyddion perfformiad.

19 Heb 'nod terfynol' sydd wedi'i ddiffinio'n glir, ni all yr Awdurdod ddangos yn effeithiol sut y mae'n dylanwadu ar bartneriaid er mwyn cyflawni ei ddibenion a'i ganlyniadau allweddol. Ar hyn o bryd, rydym yn dod i'r casgliad bod yr Awdurdod yn canolbwyntio ar gamau gweithredu ac allbynnau, yn hytrach na dangos sut y mae'r camau a gymerir ganddo'n cyfrannu at ddarlun ehangach. Mae angen i'r Awdurdod fynd i'r afael â hyn, neu mae perygl y bydd yn ystyried sefydlu partneriaethau newydd fel canlyniadau ynddynt eu hunain.

## Mae'r Awdurdod yn canolbwyntio ar feithrin dealltwriaeth a rennir o economi ymwelwyr gynaliadwy, ond nid yw hyd yma'n gallu dangos ei allu i ddylanwadu ar dwristiaeth ac i reoli ei heffaith

20 Nid yw'n hawdd dylanwadu ar ymddygiad pobl. Bu i swyddogion ac Aelodau a gafodd eu cyfweld gennym ddisgrifio'r cyfnod clo cyntaf yn 2020 fel y tro cyntaf ers blynyddoedd lawer y cafodd cymunedau lleol a'r amgylchedd naturiol seibiant yr oedd mawr ei angen arnynt heb ymwelwyr. Roeddent yn teimlo bod y pwysau a welwyd yn ystod y cyfnodau pan laciwyd y cyfyngiadau yn ystod yr haf 2020 a 2021 hyd yn oed yn drymach o'r herwydd, er bod niferoedd yr ymwelwyr wedi bod yn cynyddu cyn y pandemig (er enghraifft, cynnydd o 15% rhwng 2015 a 2020[10]).

[9] Mae STEAM yn cyfeirio at Fonitor Gweithgarwch Economaidd Twristiaeth Scarborough. Offeryn modelu economaidd ym maes twristiaeth yw hwn. Mae'n darparu data twristiaeth blynyddol i gyrchfannau am feysydd fel niferoedd yr ymwelwyr, gwariant, arosiadau dros nos, y niferoedd a gyflogir gan y sector twristiaeth, ac effaith economaidd twristiaeth.

[10] Data STEAM – Niferoedd yr ymwelwyr – Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

21 Mae diffiniad Sefydliad Twristiaeth y Byd y Cenhedloedd Unedig (**Arddangosyn 1**) yn canolbwyntio ar bedair prif elfen, gan danlinellu pwysigrwydd mynd i'r afael ag anghenion ymwelwyr, y diwydiant twristiaeth, yr amgylchedd, a chymunedau sy'n lletya ymwelwyr. I roi sylw i bob un o'r pedair elfen, rhaid taro cydbwysedd gofalus. O ganolbwyntio gormod ar y naill elfen, mae'n debygol o fod ar draul y tair elfen arall. Er bod ein harolwg yn awgrymu bod gan yr Awdurdod fwy o waith i'w wneud i ymgysylltu â'r diwydiant twristiaeth lleol, canfuom ei fod ar dir cadarnach o ran deall anghenion cymunedau lleol. Canfuom enghreifftiau cadarnhaol lle bu'r Awdurdod yn ceisio ymgysylltu â chymunedau lleol drwy ei ymgynghoriad i osod sail ar gyfer ei gynllun adfer yn ystod y cyfnod pan ailagorwyd y Parc yn 2020.

## Mae'r Awdurdod yn pwyso a mesur sut i atal problemau rhag dwysáu tra mae'n ymateb i broblemau tymor byr

22 Ar hyn o bryd, mae'r Awdurdod yn defnyddio adnoddau i fynd i'r afael â thwristiaeth gynaliadwy drwy ganolbwyntio ar gyfuniad o fesurau ataliol ac ymatebol. Mae wedi buddsoddi mewn swyddi i bwyso a mesur ffyrdd o fynd i'r afael â'r hyn sydd wrth wraidd economi ymwelwyr sydd, yn ei dyb ef, yn gynyddol anghynaliadwy. Yn y cyfamser, rhaid iddo hefyd barhau i liniaru effeithiau tymor byr y cynnydd yn y pwysau gan ymwelwyr, ac ymateb i'r effeithiau hynny.

23 Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (y Comisiynydd) yn diffinio atal fel 'gweithio mewn partneriaeth a chynhyrchu ar y cyd y canlyniadau gorau posibl, gan ddefnyddio cryfderau ac asedau sydd gan bobl a lleoedd i'w cyfrannu'. Mae'r Comisiynydd wedi dosbarthu gweithgareddau atal i bedair lefel wahanol:

- **Atal sylfaenol**: adeiladu cydnerthedd: creu'r amodau lle na fydd problemau'n codi yn y dyfodol. Ymagwedd gyffredinol.
- **Atal eilaidd**: targedu camau tuag at feysydd lle mae risg fawr y bydd problemau'n digwydd. Ymagwedd wedi ei thargedu sy'n sefydlu egwyddorion cyffredinoliaeth flaengar (penderfyniad i ddarparu cymorth i bawb, gan roi i bawb a phopeth lais a diddordeb personol, ond sy'n cydnabod y bydd mwy o gymorth yn ofynnol mewn ardaloedd lle mae mwy o angen).
- **Atal trydyddol**: ymyrryd pan fydd problem wedi digwydd i'w hatal rhag gwaethygu a'i hatal rhag digwydd eto yn y dyfodol. Ymagwedd ymyrryd.
- **Gwariant acíwt**: gwariant sy'n gweithredu i reoli effaith sefyllfa negyddol iawn sy'n gwneud ychydig neu ddim i atal problemau rhag digwydd yn y dyfodol[11].

24 Gan ddefnyddio meini prawf y Comisiynydd, rydym wedi categoreiddio'r gwaith rhagweithiol a wneir gan y Rheolwr Twristiaeth Gynaliadwy, y Swyddog Twristiaeth Gynaliadwy a'r tîm ymgysylltu ehangach yn fras fel gwaith sy'n canolbwyntio ar atal eilaidd. Er enghraifft:

[11] Proses gyllidebol a gwariant ataliol, gwefan Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

- cynllun Llysgennad Eryri a mentrau ehangach i ymgysylltu â busnesau a'r cyhoedd i godi ymwybyddiaeth o sut i ymddwyn yn y Parc Cenedlaethol;
- gwneud gwaith ymchwil a dadansoddi data i ddeall yn well effaith economaidd-gymdeithasol twristiaeth ar rinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol;
- meithrin a gwasanaethu partneriaethau newydd a phartneriaethau sy'n bodoli eisoes gyda rhanddeiliaid allweddol.

25 Ymhlith enghreifftiau o waith atal trydyddol yng nghyd-destun twristiaeth gynaliadwy mae'r gwaith cadarnhaol sy'n mynd rhagddo drwy Gynllun Bro Partneriaeth yr Wyddfa, gan gynnwys mentrau fel prosiect Wyddfa Di-blastig a chynllun peilot maes parcio Pen y Pass.

## Er bod ffocws clir ar atal, nid yw hyn yn cyfrannu'n sylweddol at newid ymddygiad ymwelwyr na gwaith busnesau twristiaeth


26 Gan fod pwerau gorfodi'r Awdurdod yn gyfyngedig, mae'n dibynnu'n helaeth ar 'ddulliau meddal', fel cyfathrebu, ymgysylltu a chynnwys, i ddylanwadu ar ymddygiad. Dangosodd y swyddogion y bu inni eu cyfweld ddealltwriaeth dda o'r angen i ymgysylltu ag ymwelwyr cyn gynted â phosibl i roi'r siawns orau iddo lwyddo i sicrhau eu bod yn ymddwyn mewn ffordd sy'n parchu'r ardal pan fyddant yn ymweld â hi. Yn ystod y pandemig, bu i ymgyrchoedd cyfathrebu, fel **#CynllunioCanfodCaru**, hyrwyddo negeseuon ynghylch parchu'r Parc Cenedlaethol a'r cymunedau sy'n lletya ymwelwyr. Drwy ei sianeli cyfryngau cymdeithasol, aeth yr Awdurdod ati i geisio targedu cynulleidfaoedd mewn ardaloedd fel gogledd-orllewin Lloegr i'w hannog i gynllunio'n well cyn ymweld. Drwy sicrhau bod ei negeseuon yn gydnaws â negeseuon partneriaid pwysig, fel Cyngor Gwynedd, awdurdodau parciau cenedlaethol eraill Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Chyfoeth Naturiol Cymru, canfuom fod hon yn enghraifft dda o ymgyrch gydgysylltiedig i estyn cyrhaeddiad cyfathrebiadau ac i sicrhau eu bod yn gyson.

27 Wynebodd awdurdodau'r parciau cenedlaethol gynulleidfa newydd a her wahanol yn ystod y pandemig. Yn draddodiadol, gall llawer o'r rheini sy'n ymweld â pharc cenedlaethol fod yn ymwelwyr sy'n dychwelyd dro ar ôl tro ac yn bobl sy'n dewis ymweld â'r ardal oherwydd ei dynodiad a'i rhinweddau arbennig. I'r gwrthwyneb, yn ystod y pandemig, bu i lawer o'r rheini a fu'n ymweld â pharciau cenedlaethol Cymru wneud hynny am na allent fynd ar wyliau dramor. Mae'r swyddogion yn disgrifio diffyg profiad a dealltwriaeth ymhlith ymwelwyr o'r hyn y mae'n ei olygu i ymweld â pharc cenedlaethol, ond yn dweud bod niferoedd mawr o bobl wedi ymweld. Roedd hyn yn rhaff achub i lawer o'r busnesau twristiaeth lleol a oedd wedi'i chael yn anodd oherwydd COVID-19.

28 I'r Awdurdod, fodd bynnag, parodd hyn iddi fod hyd yn oed yn anoddach iddo daro cydbwysedd gofalus rhwng ei ddau ddiben statudol a'i ddyletswydd statudol. Mae **Arddangosyn 4** yn awgrymu bod gan yr Awdurdod fwy o waith i'w wneud i gyfathrebu'n effeithiol i reoli effaith twristiaeth, o ystyried y lefelau bodlonrwydd isel a fynegwyd gan fusnesau twristiaeth.

**Arddangosyn 4: barn busnesau twristiaeth am y modd y mae'r Awdurdod yn mynd ati i hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy**

Ychydig iawn o fusnesau twristiaeth sy'n credu bod yr Awdurdod yn mynd ati'n effeithiol i hyrwyddo ac i fynegi pwysigrwydd twristiaeth gynaliadwy.




Ffynhonnell: Arolwg Archwilio Cymru ymhlith busnesau twristiaeth, Chwefror 2022

29 Canfuom fod gan yr Awdurdod strwythurau da i gasglu adborth gan staff rheng flaen sy'n ymdrin ag ymwelwyr, er enghraifft wardeiniaid a staff canolfannau ymwelwyr, yn ystod y pandemig. Disgrifiodd swyddogion fantais y berthynas waith agosach a gafodd ei meithrin â chydweithwyr ar draws y sefydliad drwy gyfarfodydd mewnol rheolaidd a fu o gymorth i sicrhau bod aelodau staff yn gwybod am y prif negeseuon cyfathrebu. Bu'r wardeiniaid tymhorol ychwanegol a ariannwyd drwy grantiau Llywodraeth Cymru hefyd yn hwb i allu'r Awdurdod i ymateb i broblemau ar lawr gwlad yn ystod y pandemig.

30 Mae gwirfoddolwyr yn chwarae rôl bwysig o ran rheoli twristiaeth, ac mae gan yr Awdurdod gysylltiadau da i gynorthwyo pobl i fanteisio ar gyfleoedd i wirfoddoli drwy sefydliadau fel Cymdeithas Eryri. Mae'r Awdurdod hefyd wedi lansio cynllun Llysgennad Eryri sy'n helpu i gyflawni uchelgais Llywodraeth Cymru am i awdurdodau'r parciau cenedlaethol ymgysylltu mewn ffordd ragweithiol â darparwyr twristiaeth[12].


31 Cafodd cynllun Llysgennad Eryri ei datblygu ar gyfer y diwydiant twristiaeth lleol, ond mae'n darparu hyfforddiant i unrhyw un sydd am ddysgu mwy am y Parc

[12] Gwerthfawr a Chydnerth: Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol, Gorffennaf 2018

Cenedlaethol[13]. Mae'r rhaglen hyfforddi ar-lein yn cynnwys deuddeg modiwl sy'n rhoi sylw i rinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol. Fe'i lansiwyd ym mis Tachwedd 2020 ac, erbyn hyn, mae dros 400 o lysgenhadon wedi cwblhau'r modiwlau gofynnol i ennill y safon aur. Yn ymarferol, ni all yr Awdurdod gyrraedd pob ymwelydd yn uniongyrchol drwy ei lwyfannau cyfathrebu, felly mae cael dros 400 o lysgenhadon hyfforddedig eraill sy'n meddu ar ddealltwriaeth fanwl o sut i warchod a pharchu'r Parc Cenedlaethol ac yn gallu trosglwyddo'r negeseuon hynny i ymwelwyr yn offeryn pwerus. Er ei bod yn anodd mesur effaith ei waith i ymgysylltu â busnesau o ran ymwybyddiaeth ac ymddygiad ymwelwyr, mae cynllun Llysgennad Eryri yn cynnwys cyrsiau diweddaru i helpu i sicrhau bod y llysgenhadon yn meddu ar yr wybodaeth ddiweddaraf, a gall yr Awdurdod fonitro cyrhaeddiad a dilyniant drwy wahanol fodiwlau hyfforddi.

32 Er gwaethaf gwaith cadarnhaol cynllun Llysgennad Eryri, mae **Arddangosyn 5** yn dangos darlun cymysg o ran barn busnesau am y graddau y maent yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yng ngwaith yr Awdurdod ac yn gweithio'n wahanol o ganlyniad i hynny.

**Arddangosyn 5: barn busnesau twristiaeth am eu hymdeimlad eu bod yn cael eu cynnwys yng ngwaith yr Awdurdod**




Ffynhonnell: Arolwg Archwilio Cymru ymhlith busnesau twristiaeth, Chwefror 2022

[13] Llysgennad Eryri, gwefan Llysgennad Cymru

# Atodiad 1

## Methodoleg

I osod sail ar gyfer ein casgliadau cyffredinol, aethom ar drywydd y llwybrau ymholi a ganlyn:

- A yw'r Awdurdod wedi rhoi'r weledigaeth, yr adnoddau a'r systemau cywir yn eu lle i hyrwyddo ac i reoli twristiaeth gynaliadwy yn effeithiol?
- A yw'r Awdurdod yn dylanwadu ar ymddygiad rhanddeiliaid allweddol i hyrwyddo ac i reoli effaith twristiaeth?

Cynhaliwyd ein hadolygiad yn ystod yr hydref 2021. Roedd ein dulliau yn cynnwys y rhai a ganlyn:

- Cydgrynhoi'r wybodaeth a'r profiad sy'n deillio o'n gwaith archwilio.
- Cynnal arolwg a hyrwyddwyd drwy Croeso Cymru ymhlith busnesau twristiaeth yn y parciau cenedlaethol. Ledled Cymru, bu i 281 busnes ymateb i'n harolwg. O'u plith, roedd 204 wedi'u lleoli o fewn ffiniau un o barciau cenedlaethol Cymru, neu'n gweithredu'n bennaf o fewn y ffiniau hynny, ac roedd 107 wedi'u lleoli yn Eryri. Mae'r data a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar yr ymatebion sy'n ymwneud yn benodol ag Eryri.
- Adolygu data a dogfennau pwysig.
- Cyfweld 11 swyddog a dau Aelod yn yr Awdurdod.
- Cyfweld swyddogion allweddol mewn sefydliadau sy'n bartneriaid, gan gynnwys Cyngor Gwynedd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.
- Cadw mewn cysylltiad rheolaidd ag Is-adran y Tir, Natur a Choedwigaeth yn Llywodraeth Cymru.

# Atodiad 2

## Safbwynt cenedlaethol: twristiaeth gynaliadwy ym mharciau cenedlaethol Cymru

Er bod pobl yn ymweld â'r parciau cenedlaethol am sawl rheswm, defnydd hamdden ac edmygu harddwch naturiol fel rheol, mae'r parciau hefyd yn gartref i ecosystemau nad oes modd eu hail-greu, a chymunedau byw. Felly, yn aml, caiff twristiaeth ei disgrifio fel gwrthddywediad dyrys, lle mae twristiaeth yn denu ymwelwyr, yn sicrhau buddion economaidd, ac yn addysgu'r cyhoedd, ond lle mae presenoldeb yr ymwelwyr hynny'n peryglu'r gwaith o warchod safleoedd diwylliannol a naturiol parc cenedlaethol. Gan fod cyfradd twristiaeth mewn parciau cenedlaethol yn cynyddu, mae twristiaeth gynaliadwy – cael hyd i ffyrdd o annog twf twristiaeth, gan warchod diwylliant a bioamrywiaeth yr ardaloedd hyn ar yr un pryd – wedi dod yn fwy a mwy pwysig.

Drwy ein gwaith, rydym yn gwybod bod awdurdodau'r parciau cenedlaethol gyda'i gilydd yn meddu ar flynyddoedd lawer o brofiad o reoli niferoedd mawr o ymwelwyr. Maent yn cyflogi aelodau staff amrywiol sy'n ymgysylltu ag ymwelwyr o ddydd i ddydd, gan gyfoethogi profiadau'r ymwelwyr a helpu i hyrwyddo pwysigrwydd mwynhau'r ardaloedd hyn heb effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd naturiol. Er y gwaith cadarnhaol hwn, yn ystod ein hadolygiad o dwristiaeth gynaliadwy, canfuom rai materion cyffredin sy'n destun pryder i awdurdodau pob un o'r tri pharc cenedlaethol.

### Rhaid i barciau cenedlaethol Cymru daro cydbwysedd rhwng annog twristiaeth a gwarchod yr amgylchedd naturiol

Mae gan y tri pharc cenedlaethol ddau ddiben statudol a dyletswydd statudol. Mae'r dibenion a'r ddyletswydd yn gosod sail ar gyfer holl waith yr awdurdodau, ac maent yn fan cychwyn ar gyfer y cynlluniau a'r strategaethau a lunnir ganddynt – **Arddangosyn 6**.

**Arddangosyn 6: dibenion statudol a dyletswydd statudol awdurdodau parciau cenedlaethol Cymru**

| | |
|---|---|
| Dibenion statudol | • Gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol.<br>• Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd fwynhau a deall rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol. |
| Dyletswydd statudol | • Meithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau sy'n byw yn y Parc Cenedlaethol. |

Ffynhonnell: Deddf yr Amgylchedd 1995

## Mae awdurdodau'r tri pharc cenedlaethol yn chwarae rôl bwysig o ran rheoli'r amgylchedd ac annog ymwelwyr i fwynhau'r awyr agored

Amcangyfrifir bod 12 miliwn o bobl yn ymweld â thri pharc cenedlaethol Cymru bob blwyddyn. Yn flynyddol, mae tri chwarter poblogaeth Cymru'n ymweld â pharc cenedlaethol i elwa ar fod allan yn yr awyr agored.

Mae hamdden a thwristiaeth yn bwysig i'r economi leol ac i iechyd a llesiant pobl. Mae hefyd angen i'r parciau cenedlaethol daro cydbwysedd rhwng y gofynion hyn a'u cyfrifoldebau dros warchod tir, anifeiliaid a chynefinoedd. Os ceir gwrthdaro rhwng y ddau ddiben hyn, rhoddir mwy o bwys ar warchod nag ar hamdden.

Mae'r tri awdurdod wedi cydnabod bod COVID-19 a COP26 wedi rhoi'r chwyddwydr ar yr argyfwng natur – mae mwy yn ymweld â pharciau cenedlaethol nag erioed o'r blaen, ond mae cynnydd yn niferoedd yr ymwelwyr yn niweidio bioamrywiaeth ac amgylcheddau unigryw'r parciau cenedlaethol. O'i hanfod, mae taro cydbwysedd rhwng anghenion y ddau ddiben yn anodd, ac mae awdurdodau pob un o'r parciau cenedlaethol wedi dweud wrthym eu bod yn ei chael yn anodd gwneud hynny.

Dywedodd yr ymatebwyr i'n harolwg ymhlith busnesau twristiaeth sydd wedi'u lleoli ym mharciau cenedlaethol Cymru wrthym fod gan yr awdurdodau rai cryfderau amlwg. Yn eu plith mae gwarchod ac amddiffyn yr amgylchedd naturiol, hyrwyddo rôl 'genedlaethol – Gymreig' y parciau, a hybu gweithgareddau a dewisiadau pan fydd pobl yn ymweld ag ardal parc cenedlaethol, fel llwybrau cerdded.

## Gan mwyaf, mae busnesau twristiaeth yn rhoi gwerth ar waith y parciau cenedlaethol, ond nid ydynt yn credu eu bod wedi taro'r cydbwysedd cywir rhwng eu dau ddiben statudol

Roedd y busnesau twristiaeth y bu inni eu holi drwy ein harolwg hefyd yn teimlo'n gadarnhaol ynghylch gwaith awdurdodau'r parciau cenedlaethol. Er enghraifft:


- roedd 95% o'r rheini a atebodd ein harolwg yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod parc cenedlaethol sy'n cael ei reoli'n dda yn bwysig i ddenu ymwelwyr;
- roedd 92% o'r busnesau hefyd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod gwarchod ac amddiffyn adnoddau naturiol a thwristiaeth yn gydnaws â'i gilydd;
- roedd 72% o'r busnesau'n credu bod twristiaeth gynaliadwy'n helpu eu busnesau, neu y bydd yn gwneud hynny.

Fodd bynnag, dim ond 29% o'r rheini a atebodd yr arolwg oedd yn cytuno bod awdurdod eu parc cenedlaethol lleol yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng gwarchod yr amgylchedd naturiol a hyrwyddo mwynhad o'r parc cenedlaethol ar hyn o bryd.

Mae ein harolwg ymhlith busnesau twristiaeth yn dangos bod lle i wella'r modd y mae awdurdodau'r parciau cenedlaethol yn ymgysylltu â'r sector preifat (**Arddangosyn 7**). Dim ond 31% o'r busnesau a atebodd ein harolwg a ddywedodd fod awdurdod eu parc cenedlaethol lleol wedi gofyn iddynt yn benodol am eu barn i'w helpu i siapio ei strategaeth ar gyfer twristiaeth gynaliadwy. Tua thraean y busnesau sy'n teimlo eu bod yn cael gwybod am waith y parc cenedlaethol, a'u cynnwys ynddo, a bod ganddynt berthynas waith dda ag awdurdod eu parc cenedlaethol lleol.

Nid yw tua hanner y busnesau'n credu ychwaith fod awdurdod eu parc cenedlaethol lleol yn dda am egluro'r hyn y gall busnesau ei wneud i helpu i gyflawni twristiaeth gynaliadwy. Dim ond 43% oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod awdurdod eu parc cenedlaethol lleol yn hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy'n effeithiol. Dim ond 18% oedd yn credu fod awdurdod eu parc cenedlaethol lleol yn dda am roi gwybod i'r cyhoedd am bwysigrwydd twristiaeth gynaliadwy – **Arddangosyn 7**.

**Arddangosyn 7: barn busnesau twristiaeth am y modd y mae awdurdodau'r parciau cenedlaethol yn mynd i'r afael â thwristiaeth gynaliadwy**




Ffynhonnell: Arolwg Archwilio Cymru ymhlith busnesau twristiaeth Cymru, Chwefror 2022[14]

## Mae'r rhan fwyaf o fusnesau twristiaeth yn ceisio gweithio mewn ffordd gynaliadwy ac yn cydnabod gwerth twristiaeth gynaliadwy


Yn ogystal â hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy, mae'n bwysig bod busnesau hefyd yn gweithio mewn ffordd gynaliadwy. Mae ymwelwyr heddiw'n fwy ymwybodol o'u gweithredoedd ac o'r effaith y gall y gweithredoedd hynny ei chael ar yr amgylchedd a'r gymdeithas. Felly, maent am weld mwy o fusnesau'n mynd ati i wneud rhywbeth. Bydd

[14] Cawsom 281 o ymatebion i'n harolwg. O ran y cwestiynau penodol hyn, atebodd 280 y cwestiwn cyntaf, 224 yr ail, 277 y trydydd, 276 y pedwerydd, a 279 y pumed.


arferion cynaliadwy hefyd yn arbed arian yn y pen draw. Canfu ein harolwg yr hyn a ganlyn:



Mae dros 80% o'r busnesau y bu inni eu holi drwy ein harolwg yn hybu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth ymwelwyr o rinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol



Mae tua 70% o'r busnesau y bu inni eu holi yn hyrwyddo diwylliant a threftadaeth leol – e.e. annog defnydd o'r Gymraeg




Mae dros 80% o'r busnesau twristiaeth y bu inni eu holi yn ceisio lleihau'r gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi, ac ailgylchu mwy o wastraff




Mae bron i 80% o'r busnesau twristiaeth y bu inni eu holi yn ceisio defnyddio llai o ynni



Mae bron i 60% o'r busnesau twristiaeth y bu inni eu holi yn ceisio defnyddio llai o ddŵr, neu beidio â'i wastraffu



Mae ychydig mwy na 30% o'r busnesau twristiaeth y bu inni eu holi yn cynhyrchu eu hynni gwyrdd eu hunain



Mae 82% o'r busnesau twristiaeth y bu inni eu holi yn cyflogi pobl leol yn bennaf (50%) (ystyr lleol fan hyn yw pobl sy'n byw o fewn 15 milltir at y busnes)



Mae 60% o'r busnesau twristiaeth y bu inni eu holi yn prynu'r rhan fwyaf (75%) o'u cyflenwadau gan gynhyrchwyr lleol (ystyr lleol fan hyn yw cynhyrchwyr sydd wedi'u lleoli o fewn 30 milltir at y busnes)

## Nid oes gan awdurdodau'r parciau cenedlaethol adnoddau na phwerau i reoli niferoedd yr ymwelwyr, eu hymddygiad na'u heffaith, nac i ddylanwadu ar y pethau hyn

Yn hanesyddol, nid yw awdurdodau'r parciau cenedlaethol wedi chwarae rôl uniongyrchol o ran hyrwyddo twristiaeth na marchnata eu cyrchfannau. O ran cyfran, nid ydynt ychwaith yn berchen ar lawer iawn o dir. Maent yn un o blith nifer o gyrff sy'n ymwneud â thwristiaeth a gwarchod yr amgylchedd yn eu hardaloedd. Mae gormod o'r liferi strategol ar gyfer twristiaeth gynaliadwy yn nwylo sefydliadau a chyrff nad ydynt yn rhannu'r un weledigaeth na chyfrifoldebau o ran gwarchod amgylchedd y parciau cenedlaethol.

Er enghraifft, nid yw cyllid na chylch gwaith awdurdodau'r parciau cenedlaethol yn cwmpasu gwaith uniongyrchol i farchnata twristiaeth yn y parciau cenedlaethol, a dim ond Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog sy'n sefydliad rheoli cyrchfan. Mae Arfordir Penfro ac Eryri yn cydweithio â'r cyrff lleol sy'n arwain yr agenda hon: Visit Pembrokeshire ar y naill law a Chyngor Gwynedd ar y llaw arall. I lwyddo, mae'r awdurdodau'n canolbwyntio'n bennaf ar ddylanwadu ar yr hyn y mae eraill yn ei wneud, ond nid yw hyn yn hawdd ac, yn aml, nid yw'n syml.

Ar ôl dwy flynedd o gyfnodau clo a chyfyngiadau, mae'n naturiol bod busnesau twristiaeth yn awyddus i annog ymwelwyr ac i elwa'n economaidd ar gynnydd mewn twristiaeth. Fodd bynnag, gall hyn roi pwysau ar seilwaith lleol a chreu problemau anfwriadol, fel tipio anghyfreithlon, parcio anghyfrifol ar ymyl y ffordd, cynnydd yn y perygl o ddamweiniau, cynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac effaith andwyol ar gymunedau lleol ym mhob un o'r parciau cenedlaethol.

Mae ein hadroddiadau am dwristiaeth gynaliadwy yn awdurdodau pob un o'r tri pharc cenedlaethol yng Nghymru yn pwysleisio pa mor bwysig yw hi fod pob awdurdod yn cyfathrebu â'r cyhoedd ynghylch defnyddio'r parciau mewn ffordd gyfrifol. Er mwyn i'r gwaith hwn fod mor effeithiol â phosibl, dylai Llywodraeth Cymru, a sefydliadau perthnasol fel Cyfoeth Naturiol Cymru, ei gefnogi ar lefel genedlaethol, gan gydweithio ag awdurdodau'r tri pharc cenedlaethol.

Bu i bob un o'r tri pharc cenedlaethol dynnu sylw at broblemau parhaus sy'n bodoli ers tro o ran seilwaith lleol eu hardaloedd, yn enwedig o ran trafnidiaeth gyhoeddus, parcio ceir, llwybrau teithio llesol integredig, ac ymateb i ymddygiad gwrthgymdeithasol. Serch hynny, mae llawer o'r cyfrifoldebau statudol dros ymateb i'r materion hyn yn cael eu hysgwyddo gan bartneriaid, yn enwedig yr awdurdodau lleol a/neu'r heddlu, neu dirfeddianwyr preifat, ac yn aml nid oes llawer y gall yr awdurdodau eu hunain ei wneud yn uniongyrchol.

Fodd bynnag, nid yw cyrff cyhoeddus eraill yn aml yn gallu ymateb yn effeithiol ac yn gyson oherwydd pwysau ar adnoddau a phwysau o fath arall. Ac mae llawer o dirfeddianwyr preifat yn canolbwyntio cymaint, os nad mwy, ar gynhyrchu incwm yn hytrach na rheoli effaith twristiaeth ar yr amgylchedd lleol. Oherwydd cyfyngiadau cyfrifoldebau statudol awdurdodau'r parciau cenedlaethol, nid oes neb yn aml yn rhoi sylw i'r materion hyn, ac maent yn parhau i achosi problemau, yn enwedig mewn cymunedau lleol. Gan fod twristiaeth yn tyfu o flwyddyn i flwyddyn, mae'n amlwg y bydd y broblem hon yn dwysáu.

Dywedodd awdurdodau pob un o'r tri pharc cenedlaethol wrthym nad yw cylch cyllido blynyddol Llywodraeth Cymru'n caniatáu iddynt baratoi cynlluniau hirdymor ar gyfer seilwaith i gefnogi twristiaeth gynaliadwy, na buddsoddi ynddo.

Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg.

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cadeirydd, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Swyddfa'r Parc Cenedlaethol
Penrhyndeudraeth
Gwynedd
LL48 6LF

9 Mai 2022

**Llythyr Cylch Gwaith Tymor y Llywodraeth ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

Mae ein Rhaglen Lywodraethu'n disgrifio blaenoriaethau'r Llywodraeth a'i hymrwymiadau i bobl Cymru. Rwy'n grediniol bod gan ein Hawdurdodau Parciau Cenedlaethol ran allweddol i'm helpu i gyflawni dros bobl Cymru. Yn arbennig, dylech alinio'ch gwaith â'r prif Nodau Llesiant, gan gynnwys:

- **Adeiladu economi ar sail egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol**
- **Adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth inni ddatgarboneiddio gymaint â phosibl**
- **Ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn**
- **Dathlu amrywiaeth a gweithredu i ddileu anghydraddoldeb o bob math**
- **Bwrw ymlaen tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg, a galluogi twristiaeth, chwaraeon a'r celfyddydau i ffynnu**
- **Gwneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell fyth i fyw a gweithio ynddynt**

Yn arbennig, rwyf am weld y Parciau Cenedlaethol yn dod yn esiamplau i eraill o ran eu hymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur. Rydych mewn sefyllfa unigryw i drafod â'r cymunedau o fewn eich ffiniau i ddatblygu atebion ddaw â budd i bobl a'r amgylchedd.

Mae'r Parciau Cenedlaethol yn gartref i gymunedau amaethyddol sydd wedi gweithio yn y tirweddau hyn a'u saernïo dros filoedd o flynyddoedd. Mae ffermio cynaliadwy'n rhan annatod o'n tirwedd a gall fod yn sail i amcanion llawer o'r polisïau a ddisgrifir yn y llythyr hwn. Hoffem eich gweld yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru wrth iddi ddatblygu trywydd ar gyfer ffermio cynaliadwy a chefnogi ffermwyr i weithredu mewn ffordd all wneud y Parciau Cenedlaethol yn fwy bioamrywiol, gyda gwaith coedwigo ac adfer cynefinoedd lle bo'u hangen, yn ogystal â chynhyrchu bwyd.

Fel rhan o'n hymateb ar gyfer taclo'r argyfwng natur, rwyf wedi ymrwymo i'r targed 30x30. Bydd dynodiadau ar raddfa'r tirlun, fel Parciau Cenedlaethol, yn bwysig i ni o ran taro'r targed hwn ond dydyn nhw ddim yn cael eu rheoli'n effeithiol ar hyn o bryd er lles bioamrywiaeth, hynny oherwydd y dynodiad gwreiddiol. Byddaf yn cynnal astudiaeth fanwl

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ddechrau 2022-23, yn canolbwyntio ar sut i daro'r targed 30x30. Hoffwn i'r APCau gymryd rhan yn y broses hon er mwyn i ni allu ystyried beth sydd angen ei wneud i ddwysáu'r gweithredu dros fioamrywiaeth yn y dynodiadau hyn.  Yn dilyn yr astudiaeth, bydd disgwyl wrth reswm i ni weithio gyda'n gilydd ar y camau y byddwn wedi cytuno arnyn nhw. Bydd y swyddi Bioamrywiaeth cydweithredol newydd rwyf wedi cytuno i'w cefnogi yn hwyluso hynny.

Mae twristiaeth yn faes arall rwy'n gweld y bydd gan Barciau Cenedlaethol ran bwysig ynddo.  Ein huchelgais yw tyfu twristiaeth er lles Cymru. Mae pobl yn dewis ymweld â Chymru i fwynhau'n hamgylchedd naturiol arbennig yn ogystal â phrofi'n diwylliant, gan gynnwys y Gymraeg.  Mae gan Awdurdodau'r Parciau rôl hollbwysig o ran ein helpu i reoli ymwelwyr, sicrhau bod cymunedau'n cael elwa ar dwristiaeth a lleihau'i heffeithiau negyddol ar bobl a'r amgylchedd.

Daeth yn amlwg bod gormod o bwysau ar y seilwaith lleol yn gallu amharu ar brofiad ymwelwyr a rhoi straen ar y berthynas â chymunedau lleol.  Ymgymerodd APCau â rôl arweiniol bwysig yn ystod y pandemig diweddar a byddwn yn disgwyl i hynny barhau wrth i ni ddod ohono.  Hoffwn ddiolch i chi am eich gwaith pwysig wrth ymateb i bandemig Covid-19.  Rwy'n ddiolchgar hefyd i'r APCau am y ffordd y gwnaethon nhw gydweithio â chyrff eraill ac â thimau Llywodraeth Cymru yn ystod y pandemig. Mae hon yn agwedd y carwn ei gweld yn datblygu yn y dyfodol.

Yn ein Rhaglen Lywodraethu, rydyn ni'n ymrwymo i greu Parc Cenedlaethol newydd yn y gogledd-ddwyrain, a hoffwn i chi ein helpu gyda'r broses hon yn ôl yr angen.

Rwyf am weld ein perthynas yn parhau'n seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch i'n gilydd, ac ar gyfathrebu gonest ac agored.  Trwy bartneriaeth waith effeithiol, gall yr Awdurdod ffynnu a chynyddu'n heffaith er lles pobl a'r amgylchedd.  Mae'ch statws fel Awdurdod ag iddo bwrpas arbennig yn rhoi cryn annibyniaeth weithredol i chi, a rhaid i chi wrth reswm gael eich arwain bob amser gan eich dibenion statudol. Rwy'n disgwyl i chi barhau i chwilio am ffyrdd i sicrhau'r safonau llywodraethu gorau posibl ac rydym yn awyddus i'ch helpu yn hynny o beth pan fydd hynny'n briodol.  Yn arbennig, rwyf am eich gweld yn rhoi'r arferion gorau ar waith ynghyd ag unrhyw argymhellion ddaw o'r gwaith thematig sy'n cael ei wneud gan Archwilio Cymru. Rydyn ni am ichi wneud mwy i hyrwyddo amrywiaeth, a manteisio'n llawn ar yr arweinydd strategol Cynhwysiant, Amrywiaeth a Rhagoriaeth Lywodraethu.

Yn unol â'r Ddogfen Fframwaith, y seilir perthynas APCau â Llywodraeth Cymru arni, dylech nawr adolygu'ch cynlluniau busnes a dangos sut y byddwch yn cyflawni yn y meysydd a ddisgrifir yn y llythyr hwn a'i atodiadau.  Bydd gofyn wrth reswm i ni fonitro'ch cynnydd o ran y blaenoriaethau hyn dros gyfnod y Llywodraeth hon, mewn ffordd a fydd yn addas i'ch cyd-destun lleol.  Carwn i chi weithio gyda'm swyddogion i glustnodi nifer fach o ddangosyddion priodol ar gyfer monitro cynnydd yn effeithiol yn unol â'r blaenoriaethau hyn. Y data hyn, ynghyd ag adroddiad naratif byr, fydd man cychwyn ein trafodaethau rheolaidd dros dymor y Llywodraeth hon.  Drwy hyn, byddwn yn gallu bodloni'n hunain, Archwilio Cymru a'r cyhoedd ein bod yn wir cyflawni, ac os down ar draws anawsterau, ein bod yn gweithio gyda'n gilydd i'w trechu.

Diben y llythyr Tymor Llywodraeth hwn yw rhoi fframwaith clir i chi weithio ynddo dros y blynyddoedd i ddod. Rwyf wedi rhestru yn Atodiad A y prif bethau y bydd disgwyl ichi eu cyflawni mewn perthynas â'r Rhaglen Lywodraethu.  Mae'r cyd-destun strategol ar gyfer yr

APCau yn un uchelgeisiol sy’n esblygu ac mae’r prif ystyriaethau wedi’u cofnodi yn Atodiad B.

Yn ogystal â’r llythyr Tymor Llywodraeth hwn sy’n disgrifio’n huchelgeisiau ar gyfer y blynyddoedd nesaf, byddaf yn anfon llythyr grant byrrach atoch i gadarnhau’n dyfarniad cyllidebol blynyddol.

Mae llawer eto i’w wneud, ond rwy’n argyhoeddedig y gall fy mhortffolio wneud gwahaniaeth positif a pharhaol i fywydau pobl Cymru. Rwy’n disgwyl ymlaen at wneud hynny gyda chi.

Yn gywir,

**Julie James AS/MS**
**Gweinidog Newid Hinsawdd**

(cc Emyr Williams, Prif Swyddog Gweithredol)

## ATODIAD A: Amcanion a Gweithredoedd â Blaenoriaeth ar gyfer tymor y Senedd

Rwyf wedi crynhoi fy mlaenoriaethau isod yn unol â phedair thema weithredu: ***Yr Amgylchedd; Pobl a Lleoedd; Rhagoriaeth Llywodraethu a Chynllunio*** *a* ***Chydweithio.***

### Yr Amgylchedd

Mae Adroddiad CNC yn 2022 ar Sefyllfa Adnoddau Natur (SoNARR) ynghyd â'i adroddiad llinell sylfaen ar Safleoedd Gwarchodedig yn 2020 yn creu darlun enbyd. Dros y 100 mlynedd diwethaf, mae bioamrywiaeth bron pob math o gynefin wedi dirywio, gyda’r dirywiad hwnnw’n prysuro o'r 1970au ymlaen. Ychydig iawn o gynefinoedd Cymru sydd mewn cyflwr da. Er gwaethaf yr amddiffyniad a ddaw o’u dynodi, ni chredir bod y safleoedd gwarchodedig yn y Parciau Cenedlaethol mewn cyflwr fawr gwell na'r rhai y tu allan iddyn nhw. Rhaid newid hynny. Fel Llywodraeth, yr ydym wedi ymrwymo i atal a gwyrdroi'r dirywiad yn natur Cymru, a chyfrannu'n gadarnhaol at yr agenda ryngwladol yn hyn o beth.

Ein huchelgais yw i'r sector cyhoeddus yng Nghymru gyda’i gilydd fod yn sero net erbyn 2030. Rydych eisoes wedi gwneud cynnydd da fel sefydliadau i leihau’ch allyriadau, a disgwyliaf i hyn barhau. Rhaid i chi ddal ati hefyd i edrych ar yr amgylchedd, y cymunedau a’r ymwelwyr sydd y tu hwnt i'ch sefydliadau. Rwy’n croesawu’r ymchwil sydd wedi’i chomisiynu i’r llinell sylfaen, i’ch tywys mewn ffordd fwy strategol yn eich rôl fel sbardunwyr newid. Bydd amrywiaeth o ymyriadau – dal carbon drwy adfer a chreu mawnogydd a choetiroedd, datgarboneiddio tai ac ynni adnewyddadwy. Dylai pawb chwarae ei ran.

**<u>Felly, hoffwn i chi:</u>**

- Gefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i greu economi ddi-garbon drwy weithio i fod yn garbon niwtral erbyn 2030 drwy’ch gwaith bob dydd ac amrywiaeth o ymyriadau datgarboneiddio
- Cefnogi’r symudiad oddi wrth geir preifat i drafnidiaeth fwy cynaliadwy ar gyfer y rhan fwyaf o deithiau staff, ymwelwyr a defnyddwyr y gwasanaeth er mwyn cyrraedd y targed o 45% o deithiau’n defnyddio dulliau cynaliadwy erbyn 2040
- Rhoi help rhagweithiol i ddal a storio carbon gan gynnwys drwy helpu i greu coetiroedd lle bo hynny'n briodol a chefnogi'n nod o gryfhau'r mesurau i ddiogelu coetiroedd hynafol, a chynyddu’r cysylltiad â rhaglen y Goedwig Genedlaethol
- Cymryd camau i wella cysylltedd, cyflwr, maint ac amrywiaeth ecosystemau, a chynnal a gwella rhwydweithiau ecolegol cydnerth, gan ymgorffori'r gwaith sydd ei angen i daro’r targedau cenedlaethol sy'n deillio o'r ymrwymiad 30x30
- Cefnogi'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawnogydd (NPAP) i adfer, gwella a chynnal rhwydweithiau ecolegol cydnerth, mynd i'r afael â’r newid yn yr hinsawdd a rheoli dŵr. Dylech weithio gyda CNC i daclo themâu'r NPAP, gan gynnwys y camau blaenoriaeth a'r themâu trawsbynciol.
- Cefnogi ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i sefydlu cynllun â thargedau i helpu i adfer cynefinoedd morwellt a morfeydd heli ar hyd ein harfordir, helpu i wireddu uchelgeisiau Fframwaith Rheoli’r Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig a chyfrannu at ddatblygu polisi ar garbon glas.
- Cronfa Gyfalaf Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy, a chynlluniau eraill Llywodraeth Cymru i gyflawni nodau natur a datgarboneiddio

- Cymryd rhan weithredol mewn Cynlluniau Ynni Lleol i helpu i drawsnewid y system ynni sydd ei hangen i gyrraedd Sero Net, gan sicrhau mwy o fanteision i'ch cymunedau
- Cymryd rhan gadarnhaol mewn mentrau i hyrwyddo ailddefnyddio a thrwsio, i gynyddu’r economi gylchol, a lleihau'r niwed a achosir i'r amgylchedd gan blastig untro drwy annog pobl i beidio â'i ddefnyddio lle gellir.

**Pobl a Lleoedd**

Dros y pandemig, roedd defnydd mawr ar fannau gwyrdd ac agored i bobl gael hoe ac i anadlu'n rhydd. Fodd bynnag, daeth yn amlwg bod y pwysau ar seilwaith lleol yn niweidio profiad ymwelwyr ac yn rhoi straen ar y berthynas â chymunedau lleol. Rwyf am ichi barhau i geisio annog pobl i’w mwynhau ond mewn ffordd sy'n sensitif o safbwynt amgylcheddol, economaidd a diwylliannol, ac i chwilio am atebion cynaliadwy lle ceir tensiynau a phroblemau. Rwy'n croesawu'r gwaith diweddar ar annog trafnidiaeth gynaliadwy mwy strategol a hoffwn i chi barhau i weithio gydag Awdurdodau Lleol a Thrafnidiaeth Cymru er mwyn i hyn barhau i fod yn ffocws ar gyfer gweithredu.

Mae gan y Parciau Cenedlaethol rai o'r problemau tai mwyaf difrifol yng Nghymru. Mae pryderon ynghylch ail gartrefi, llety gwyliau dros dro a pharhaol, prisiau uwch a diffyg stoc fforddiadwy i gyd yn rhoi pwysau mawr ar eich cymunedau. Mae'n hanfodol bod ein Parciau yn gartref i gymunedau byw sy'n gweithio; credaf fod ymwelwyr hefyd am weld hyn. Rydym wedi ymrwymo i gymryd camau i reoli nifer yr ail gartrefi, dod â mwy o gartrefi i berchnogaeth gyffredin, a thrwyddedu llety gwyliau. Gall APCau ddylanwadu ar yr agenda hon drwy eu gwaith fel Awdurdodau Cynllunio Lleol a dylent weithio gyda'r Awdurdod Tai, cymunedau lleol a datblygwyr i sicrhau bod mwy o dai fforddiadwy ar gael.

Mae cynaliadwyedd hirdymor llawer o'n tirweddau mwyaf sensitif a'u cymunedau hefyd yn cydblethu â'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg; Hoffwn eich gweld yn parhau i wireddu’n hymrwymiad i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

**Felly, hoffwn i chi:**

- Cyfrannu at gyd-lunio’r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ac at ei roi ar waith
- Cyfrannu, lle bo'n briodol, at ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i sefydlu Strategaeth Bwyd Cymunedol i annog cynhyrchu a chyflenwi bwyd lleol
- Gweithio gydag Awdurdodau Tai, Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol a datblygwyr preifat, i ddatblygu atebion arloesol i broblemau tai difrifol, a chyfrannu at Gynllun Tai Cymunedau Cymraeg
- Gweithio gyda phartneriaid fel Awdurdodau Lleol a Thrafnidiaeth Cymru i gael hyd i ffyrdd i leihau pwysau ymwelwyr ar y seilwaith lleol, gan gynnwys systemau trafnidiaeth mwy cynaliadwy, ac ymgyrchoedd cyfathrebu i sicrhau hamddena cyfrifol. Rhaid cofio yr un pryd am bwysigrwydd twristiaeth i'n heconomi, a'ch rôl allweddol o ran diwallu anghenion ymwelwyr. Dylech gael eich arwain gan argymhellion a chanfyddiadau'r gwaith diweddar gan Archwilio Cymru ar dwristiaeth gynaliadwy.
- Helpu i ddynodi dyfroedd ymdrochi ar y tir a defnyddio Systemau Draenio Cynaliadwy
- Bod yn rhan o’r gwaith o ddatblygu’r fframwaith Cymru gyfan arfaethedig ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol

- Cydweithio â phartneriaid allweddol i gyflawni yn unol â *Blaenoriaethau ar gyfer Amgylchedd Hanesyddol Cymru* i ddiogelu a dehongli'r amgylchedd hanesyddol a threftadaeth ddiwylliannol.
- Datblygu polisïau sy'n sicrhau bod y Gymraeg yn cael ffynnu, gan gyflawni *Cymraeg 2050: Ein cynllun ar gyfer 2021 i 2026*
- Cynyddu cyfleoedd i grwpiau agored i niwed, grwpiau difreintiedig a chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol i elwa ar y tirweddau rydych chi'n eu rheoli
- Cynyddu'r hyfforddiant sgiliau, prentisiaethau a chyfleoedd gwirfoddoli.

**Rhagoriaeth mewn Llywodraethu a Chynllunio**
Rwy'n gwerthfawrogi'n fawr cyfraniadau'r rheini gafodd eu penodi gan awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru i'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol. Pan fydd yn gweithio'n dda, mae persbectif lleol a chymunedol y rhai a benodir gan ALlau yn ategu'r safbwynt mwy cenedlaethol ac eang a geir gan y rhai a benodir gan Weinidogion.

Ceir strwythur cadarn eisoes ar gyfer craffu ar waith APCau drwy Archwilio Cymru, trefniadau archwilio mewnol a threfniadau monitro Llywodraeth Cymru. Ceir sawl maes lle gallwn wneud mwy gyda'n gilydd i helpu aelodau APCau, er mwyn iddynt allu cyfrannu mor effeithiol â phosibl. Bydd hynny'n cynnwys, ymhlith pethau eraill, gwella'r cymorth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i'r Aelodau rydym yn eu penodi i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.

A hwythau'n Awdurdodau Cynllunio, mae APCau yn endidau cynllunio unigryw sydd â chylch gwaith penodol i adlewyrchu nodweddion unigryw eu hardaloedd. Mae ganddynt rôl allweddol i ysgwyddo cyfrifoldebau statudol a hefyd, gyda'r Cyd-bwyllgorau Corfforaethol sydd newydd eu sefydlu, i gyfrannu at benderfyniadau strategol ar raddfa ranbarthol. Y ffordd orau i ranbarthau ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd strategol y maent yn eu hwynebu a chreu fframwaith cryf ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol yw trwy gyfrannu'n egnïol at baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol. Rhaid wrth gydweithio ffurfiol rhwng awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol yn hyn o beth. Dylai dyletswydd statudol APCau helpu i baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol.

**<u>Felly, hoffwn i chi:</u>**

- Gymryd rhan weithredol mewn rhaglen wella a chefnogi gan CLlLC o dan arweiniad y sector
- Cyfrannu at lunio pecyn hyfforddi newydd ar gyfer aelodau APCau a datblygu dull cydgysylltiedig o hyfforddi APCau i rannu arfer gorau
- Hyrwyddo protocol newydd Awdurdodau Lleol ar gyfer penodi aelodau APCau, cyn, yn ystod ac ar ôl etholiadau lleol, gan bwysleisio profiad a diddordeb uwchlaw ystyriaethau gwleidyddol cyn belled ag y bo modd o fewn y ddeddfwriaeth bresennol
- Croesawu'n llawn system flynyddol gryfach ar gyfer adrodd ar berfformiad yr aelodau a benodir gan Lywodraeth Cymru, ac ymchwilio sut i'w hestyn i benodiadau'r Awdurdodau Lleol

- Ymdrechu i sicrhau rhagoriaeth mewn llywodraethu gan gynnwys rhannu arfer gorau rhwng APCau, gwneud y gorau o'r arweinydd Strategol Cynhwysiant, Amrywiaeth a Llywodraethu newydd (gweler isod)
- Cyfrannu at lunio polisi cynllunio lleol a rhanbarthol, gan gynnwys drwy strwythur y CJC a thrwy gydweithio ar lefel ranbarthol a chenedlaethol i roi polisïau Cymru'r Dyfodol ar waith (gan gyfeirio'n benodol at Bolisi 9 a'r gofyn i gynnal rhwydweithiau ecolegol cydnerth a seilwaith gwyrdd).

**Cydweithio**
Mae adolygiadau'r gorffennol wedi nodi'r angen am atebion sy'n cynnal ffocws lleol Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol ond gellid gwneud yr atebion hynny'n fwy effeithiol trwy drefniadau cydweithio agosach. Rwy'n argyhoeddedig, er mwyn i'n tirweddau dynodedig adlewyrchu ein blaenoriaethau'n well, bod yn rhaid wrth fwy o gydweithio. Rwy'n awyddus i'r APCau ymateb gyda'i gilydd i'r her hon ac rwy'n falch o gael cynnig arian ychwanegol at y diben hwn.

Yn ein Rhaglen Lywodraethu, rydym wedi ymrwymo i sefydlu Parc Cenedlaethol newydd yn y gogledd-ddwyrain, a hoffwn ichi gefnogi'r broses yn ôl yr angen.

**Felly, hoffwn i chi:**

- Cefnogi Tirweddau Cymru (y Bartneriaeth Tirweddau Dynodedig Cenedlaethol) i ddatblygu ei huchelgais, sicrhau bod cydweithio'n digwydd ar bob lefel o fewn APCau ac AHNE a helpu i greu gweledigaeth strategol ar gyfer gweithredu ar gyfer 2022-24
- Rhoi cytundeb teiran trawsnewidiol rhwng yr APCau ar waith i gynnal tîm o Gydgysylltwyr Tirweddau Strategol a ariennir gan Lywodraeth Cymru i weithio ar draws ein Parciau a'n AHNE, a sicrhau bod amcanion ac allbynnau'r swyddi hyn yn cael eu cynnwys o fewn trefniadau monitro ehangach yr APCau a Tirweddau Cymru:
  i. **Arweinydd Strategol Adfer Natur a Dal a Storio Carbon** i ymdrin â'r holl goetiroedd a chynefinoedd heb eu gwella a'u bioamrywiaeth, gan gynnwys rhywogaethau goresgynnol, a chyfleoedd i leihau allyriadau carbon.
  ii. **Arweinydd Strategol Adfer Natur a Rheoli Maetholion** i ymdrin â rheoli pridd cynhyrchu, problemau i afonydd a'r môr oherwydd gwaith ar y tir, ewtroffigedd yn llynnoedd yr ucheldir, bioddiogelu dŵr rhag dŵr ffo amaethyddol, a chefnogi datblygiad Byrddau Rheoli Maetholion.

  Bydd y ddwy swydd yn helpu i:
  - ddatblygu cynllun strategol i ymateb i'r argyfyngau natur a hinsawdd;
  - helpu i ddatblygu ffyrdd i Dirweddau Dynodedig allu addasu i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd;
  - nodi sut y gall Tirweddau Dynodedig ddatblygu partneriaethau newydd a chefnogi blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru, a nodi ffrydiau ariannu arloesol.

  iii. **Arweinydd Strategol Rhagoriaeth Cynhwysiant, Amrywiaeth a Llywodraethu** i weithio ar draws yr holl APCau, gyda'i swyddfa yn un ohonynt. Agwedd allweddol ar ei

waith fydd cymryd camau beiddgar i wella amrywiaeth a chydraddoldeb – ar Fyrddau, yn eich proffil staffio a'ch ymwelwyr a chefnogi APCau i fodloni'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a chynyddu'u cyfraniad at daclo tlodi plant a gwledig.

- Rhannu profiad ac arfer gorau wrth i'r broses o greu Parc Cenedlaethol newydd fynd rhagddo.

**ATODIAD B: Y Cyd-destun Strategol**

Yn ogystal â chyflawni eich dibenion statudol, mae gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol gyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth sy'n benodol i Gymru. Rydym yn unigryw yn y DU o ran bod gennym ddeddfwriaeth sy'n rhoi datblygu cynaliadwy yn ganolog i bob penderfyniad; rwy'n rhoi pwys mawr ar ein fframwaith deddfwriaethol. Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn parhau i fod yn sbardun pwysig i'n blaenoriaethau llesiant a'r nodau a rennir gennym yng Nghymru. Mae'r amcanion llesiant a ddisgrifir yn y Rhaglen Lywodraethu yn bodoli i'n helpu i gyflawni'r nodau hyn yn ystod y tymor llywodraethu newydd hwn.

**Cymru gydnerth**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru oedd y Senedd gyntaf yn y byd i ddatgan ei bod yn argyfwng hinsawdd.  Ym mis Mawrth 2021 cymeradwyodd Senedd Cymru darged o sero net ar gyfer 2050. Sero net yw'r cydbwysedd rhwng allyriadau nwyon tŷ gwydr a faint o nwyon sy'n cael eu tynnu o'r atmosffer. Mae gennym hefyd dargedau interim ar gyfer 2030 a 2040, a chyfres o gyllidebau carbon 5 mlynedd: gweler Targedau newid hinsawdd a chyllidebau carbon

Mae cynnal a gwella rhwydweithiau ecolegol cydnerth yn cyfrannu at liniaru'r argyfwng hinsawdd a'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, fel y nodir yn y Cynllun Gweithredu newydd ar Adfer Natur. Dylai Parciau Cenedlaethol hefyd weithio gyda CNC drwy Ddatganiadau Ardal i sicrhau bod eu cynlluniau a'u gwaith yn cyfrannu at gyflawni ein Polisi Adnoddau Naturiol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan ei hymrwymiad i sicrhau allyriadau sero-net erbyn 2050 ac wedi cyhoeddi Gweithio gyda'n gilydd i gyrraedd sero net: cynllun Cymru gyfan (2021-2025). Ein huchelgais yw y bydd y sector cyhoeddus yn garbon niwtral erbyn 2030, gan arwain y ffordd at Gymru Sero Net. I gefnogi'r gwaith, rydym wedi cyhoeddi Canllaw i'r Sector Cyhoeddus ar gyfer Adrodd ar Garbon Sero Net  a bydd yn fframwaith clir i'r sector ynghylch sut i fynd yn sero net erbyn 2030.

Yn ogystal â lleihau allyriadau, mae angen i ni hefyd ddeall sut mae gwrthsefyll effeithiau'r newid yn yr hinsawdd er mwyn gallu parhau i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd newydd gyhoeddi ei drydydd Asesiad Risg Newid Hinsawdd ar gyfer y DU, sy'n disgrifio risgiau a chyfleoedd i'r amgylchedd, cymunedau a busnesau sy'n deillio o hinsawdd sy'n newid. Rhaid i Sector Cyhoeddus Cymru ddangos ei fod wedi deall ac ystyried y risgiau a'r cyfleoedd wrth ddarparu ei wasanaethau.

Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Mwy nag ailgylchu - strategaeth i wneud economi gylchol Cymru yn realiti, sy'n disgrifio'n nodau i fod yn ddiwastraff erbyn 2050 ac ar gyfer gwneud defnyddio adnoddau'n effeithlon yn rhan o ddiwylliant Cymru. Mae symud at economi gylchol yn hanfodol i ni allu cymryd camau allweddol er lles yr amgylchedd.

Mae bioamrywiaeth yn sail ac yn sbardun i effeithiolrwydd ecosystemau ac mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn cynnwys dyletswydd i gyfoethogi bioamrywiaeth a chryfhau

ecosystemau. Mae hyn yn bwysig ac mae gofyn i APCau ysgwyddo'r ddyletswydd. Mae **'30x30'** yn un o'r targedau a gynigir ar gyfer y **fframwaith bioamrywiaeth** ar ôl 2020. Mae'n derm llaw fer ar gyfer y targed i ddiogelu 30% o dir y byd a 30% o gefnfor y byd erbyn 2030. Mae pob gweinyddiaeth yn y DU wedi ymrwymo'n gyhoeddus i gefnogi'r targed 30x30.

Bydd **Coedwig Genedlaethol Cymru** yn cynnwys rhwydwaith ledled y wlad o goetiroedd a choedwigoedd sy'n hygyrch i'r cyhoedd o dan reolaeth o ansawdd uchel. Bydd yn golygu gwella safonau rheoli coetiroedd presennol a phlannu coed mewn ardaloedd nad oedd coed ynddynt o'r blaen, gan gyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o blannu 43,000 hectar o goed erbyn 2030 a 180,000 hectar erbyn 2050 i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Bydd y prosiect hwn yn digwydd dros ddegawdau lawer a bydd yn waddol barhaol i genedlaethau'r dyfodol. Dylai APCau weithio'n rhagweithiol gyda rhanddeiliaid ar lefel genedlaethol a lleol i gefnogi'r Goedwig Genedlaethol a chwilio am gyfleoedd priodol ar gyfer plannu coetiroedd, gan ddefnyddio'r Map Cyfleoedd Coetir fel sail.

Bydd y **Cynllun Ffermio Cynaliadwy** newydd yn cynyddu pŵer amddiffynnol natur drwy ffermio a bydd yn allweddol i ddiogelu'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau heddiw ac yfory. Bydd cymorth i ffermydd yn y dyfodol yn gwobrwyo ffermwyr sy'n ymateb i heriau'r argyfwng hinsawdd ac yn gwyrdroi'r dirywiad yn ein bioamrywiaeth. Byddwn yn gweithio'n agos gyda chyrff y Tirweddau Gwarchodedig ar sut y gall y cynllun gefnogi ffermwyr i wella'r amgylchedd naturiol, y dreftadaeth ddiwylliannol a hawl y cyhoedd i fynd ar eu tir.

**Cymru fwy cyfartal**
Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn dangos sut y bwriadwn ddileu anghydraddoldeb o bob math. Yn ystod tymor hwn y Llywodraeth byddwn yn cyhoeddi Cynllun Gweithredu ar Gydraddoldeb Hiliol (REAP) newydd i Gymru, a chynllun gweithredu ar gyfer hyrwyddo cydraddoldeb i bobl LGBTQ+ yng Nghymru. Dylid darllen y cynlluniau gweithredu hyn ochr yn ochr â'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol, ein Cynllun Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau a'n Fframwaith Gweithredu ar Anabledd. Fe'u cynlluniwyd i sicrhau newid cyson yn y tymor byr, canolig a hir, a dylech ymateb mewn ffordd glir a rhagweithiol i'r nodau yn y cynlluniau hyn. Yr ydym wedi ymrwymo i gydweithio â grwpiau pobl agored i niwed Cymru, gan sicrhau bod Cymru'n genedl sy'n ystyriol o oedran, lle na ddylai tlodi, anfantais gymdeithasol, afiechyd nac anabledd rwystro pobl rhan cymryd rhan.

Daeth y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol newydd i rym ar 31 Mawrth 2021 sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys APCau, ystyried sut y gall eu gweithredoedd strategol wella canlyniadau i'r rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. O dan Ran 1 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, mae'n rhaid ichi hefyd gyhoeddi amcanion tlodi plant.

**Cymru iachach**
Hoffwn weld pob corff yn ymgysylltu â rhanddeiliaid newydd ac amrywiol, gan weithio gyda chynulleidfaoedd a chymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, a mynd ati i gadarnhau'r cysylltiad rhwng eu gwaith ac iechyd a lles pobl Cymru.

**Cymru lewyrchus**
Mae tirweddau hardd Cymru yn cael sylw amlwg yn ein gwaith marchnata sy'n gyson â brand twristiaeth Cymru Wales ac mae Croeso Cymru, yn ei Strategaeth Dwristiaeth i Gymru 2020-25, yn cydnabod eu pwysigrwydd a'u breuder. Mae'r strategaeth honno'n hyrwyddo gwaith i wynebu'r heriau sy'n gysylltiedig â natur dymhorol y diwydiant, annog

mwy o wariant y pen gan dwristiaid a thaenu'r manteision yn well i ardaloedd sydd â chapasiti.

Mae ein Cynllun Gweithredu Economaidd yn seiliedig ar yr egwyddor o fuddsoddi cyhoeddus â phwrpas cymdeithasol. Yn ganolog i'r Cynllun mae'r Contract Economaidd sy'n golygu bod yn rhaid i'r rhai sy'n derbyn arian gan Lywodraeth Cymru ddangos twf cynhwysol, gwaith teg, hybu iechyd (gyda phwyslais arbennig ar iechyd meddwl), sgiliau a dysgu yn y gweithle, a lleihau ôl troed carbon. Mae ein hymrwymiad i waith teg a chynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol yn cynnwys rhoi gwarant i bobl ifanc ac addewid i greu 125,000 o brentisiaethau pob oed. Dylech chwilio am gyfleoedd i gyfrannu at y Gwarant i Bobl Ifanc a'r targed uchelgeisiol hwn.

**Cymru ag iddi ddiwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**
Mae'r strategaeth Cymraeg 2050 yn parhau i fod yn ffocws i'n hymdrechion i gyflawni'r nod llesiant o iaith Gymraeg ffyniannus, ac o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Rwy'n disgwyl i'r Gymraeg gael ei gwreiddio'n ddwfn ym mhopeth a wnewch, gan ddathlu dwyieithrwydd a galluogi pobl Cymru i ddefnyddio'r iaith fel rhan o'u bywydau bob dydd. Bydd canlyniadau Cyfrifiad 2021 yn hysbys yn ystod tymor y Llywodraeth, a byddwn yn diweddaru rhaglen waith Cymraeg 2050 ar gyfer y strategaeth, ond bydd y tair prif thema yn parhau – cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, a chreu amodau ffafriol lle gall yr iaith ffynnu.

Yn ystod tymor hwn y Llywodraeth byddwn yn creu ac yn cyhoeddi **strategaeth ddiwylliannol** newydd i Gymru a fydd yn diffinio ein blaenoriaethau diwylliannol ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Yr APCau yw ceidwaid yr amgylchedd hanesyddol a'r dreftadaeth adeiledig a diwylliannol yn y Parciau.

**EITEM RHIF 12**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| **DYDDIAD** | 15 Mehefin 2022 |
| **TEITL** | **PENODI AELODAU I WASANAETHU AR BWYLLGORAU, PANELI, GWEITHGORAU, AC I GYNRYCHIOLI'R AWDURDOD YN ALLANOL** |
| **ADRODDIAD GAN** | Prif Weithredwr |
| **PWRPAS** | Penodi Aelodau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod |

1. **CRYNODEB**

1.1 Gwahoddir yr Awdurdod i enwebu Aelodau i wasanaethu ar ei Bwyllgorau, ei Baneli, ei Weithgorau, ac i gynrychioli'r Awdurdod yng nghyfarfodydd sefydliadau eraill am y flwyddyn sydd i ddod. (Mae gwybodaeth cefndirol yn amgaeedig i'r Aelodau).

1.2 Mae pob Pwyllgor, Panel a Gweithgor yn gwbl wag ac eithrio'r Pwyllgor Safonau, oherwydd penodwyd Aelodau'r Pwyllgor hwnnw am gyfnod o 4 blynedd. Cynhwysir enwau'r aelodau blaenorol, er gwybodaeth yn unig, i gynorthwyo'r aelodau.

1.3 Atgoffir yr Aelodau bod cyfansoddiad y Pwyllgorau a'r Is-bwyllgorau wedi'i drefnu fel bod y gyfran o Aelodau Awdurdod Lleol ac Aelodau wedi eu penodi gan Lywodraeth Cymru ar yr un raddfa ag ar yr Awdurdod ei hun (2:1), cyn belled ag y bo hyn yn ymarferol wrth weithio gyda rhifau cyfan.

2. **ARGYMHELLIAD**
**Penodi Aelodau i wasanaethu ar y Pwyllgorau, y Paneli, y Gweithgorau a'r sefydliadau allanol sy'n dilyn.**

3. **PWYLLGORAU**

i) **Pwyllgor Cynllunio a Mynediad** - Holl Aelodau'r Awdurdod
(8 cyfarfod y flwyddyn)

ii) **Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau** – Holl Aelodau'r Awdurdod
(3 cyfarfod y flwyddyn)

iii) **Pwyllgor Safonau** (3 Aelod o'r Awdurdod - cyfnod o 4 blynedd mewn swydd) (1 cyfarfod y flwyddyn)

| | | |
|---|---|---|
| Penodir gan yr Awdurdod Lleol | (2) | 1) **Swydd Wag**<br>2) **Swydd Wag** |
| Penodir gan Lywodraeth Cymru | (1) | 1) Mrs. Sarah Hattle |
| Aelodau Annibynnol | (3) | 1) Mrs Sharon Warnes<br>2) Mrs Rachael Leah Jane Davies<br>3) Mr Martin James Hughes |

4. **PANEL**

i) **Panel Apeliadau Graddfa Statws Sengl** (3 Aelod + 2 Aelod Wrth Gefn) (dim cyfarfodydd wedi'u trefnu – cwrdd fel bo angen)

* (Dylid dethol yr holl aelodau o'r Pwyllgor Safonau gan y Pwyllgor Safonau)

5. **GWEITHGORAU**

i) **Gweithgor Aelodau** - Holl Aelodau'r Awdurdod (8 cyfarfod y flwyddyn)

ii) **Cyd Weithgor Lleol** (4 Aelod) (2 gyfarfod y flwyddyn)

| | | |
|---|---|---|
| Penodir gan yr Awdurdod Lleol | (3) | 1) Cyng. Ifor Glyn Lloyd<br>2) Cyng. Elwyn Edwards<br>3) **Swydd Wag** |
| Penodir gan Lywodraeth Cymru | (1) | 1) Mrs. Sarah Hattle |
| Cynrychiolwyr o'r Undebau Llafur | (4) | Wedi'u dyrannu yn unol â Chyfansoddiad y Gweithgor |

iii) **Bwrdd Rheoli Yr Ysgwrn** (3 Aelod o'r Awdurdod) (i gwrdd fel bo angen)

| | | |
|---|---|---|
| Penodir gan yr Awdurdod Lleol | (2) | 1) Cyng. Elfed Powell Roberts<br>2) Cyng. Elwyn Edwards |
| Penodir gan Lywodraeth Cymru | (1) | 1) **Swydd Wag** |

iv) **Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch** (3 Aelod) (i gwrdd fel bo angen)

Cynghorydd **Swydd Wag**; Ms. Tracey Evans, Mr. Tim Jones.

6. **PWYLLGORAU YMGYNGHOROL YR AWDURDOD**

i) **Cynhadledd Ymgynghorol Celyn, Tegid a Thryweryn** (4 Aelod)
(i gwrdd fel bo angen)

| | | |
|---|---|---|
| Penodir gan yr Awdurdod Lleol | (3) | 1) Cyng. Elwyn Edwards<br>2) Cyng. Ifor Glyn Lloyd<br>3) **Swydd Wag** |
| Penodir gan Lywodraeth Cymru | (1) | 1) Mr. Brian Angell |

ii) **Fforwm Eryri** (5 Aelod)
(4 cyfarfod y flwyddyn – bob chwarter)

Cadeirydd

Is-Gadeirydd

| | | |
|---|---|---|
| Penodir gan yr Awdurdod Lleol | (2) | 1) **Swydd Wag**<br>2) Cyng. Ifor Glyn Lloyd |
| Penodir gan Lywodraeth Cymru | (1) | 1) Mr. Brian Angell |

iii) **Fforymau Mynediad Lleol** (2 Aelod)
(4 cyfarfod y flwyddyn – bob chwarter)

| | | |
|---|---|---|
| Fforwm Mynediad y De | (1) | 1) Cyng. John Pughe Roberts |
| Fforwm Mynediad y Gogledd | (1) | 1) Mr. Tim Jones |

iv) **Fforwm Cydraddoldeb Eryri** (1 Aelod)
Cyng. Ifor Glyn Lloyd

7. **GRWPIAU TASG A GORFFEN A GRWPIAU LLYWIO**

(i) **Is-grŵp Asedau** (6 Aelod)
Cynghorwyr Ifor Glyn Lloyd + **2 Swydd Wag**;
Mr. Brian Angell, Ms. Tracey Evans, **Swydd Wag**;
(Wrth Gefn: Mr. Tim Jones)

(ii) **Cyfathrebu** (4 Aelod)
Y Cynghorydd Ifor Glyn Lloyd;
Ms. Tracey Evans, Mr. Tim Jones, **Swydd Wag**.

(iii) **Grŵp Maniffesto Ieuenctid Europarc** (3 Aelod)
Y Cynghorwyr **Swydd Wag**, John Pughe Roberts; Ms. Tracey Evans.

(iv) **Grŵp Tasg a Gorffen Rheoli Traffig** (3 Aelod)
Y Cynghorwyr John Pughe Roberts, Edgar Owen; Ms. Tracey Evans.

(v) **Grŵp Llywio Cyfrif Carbon** (3 Aelod)
Y Cynghorydd John Pughe Roberts; Mr. Brian Angell, **Swydd Wag**.

(vi) **Grŵp Llywio Enwau Lleoedd** (3 Aelod)
Y Cynghorwyr Elwyn Edwards + **2 Swydd Wag**.

(vii) **Grwp Llywio Strategaeth Hybu'r Gymraeg Newydd** (3 Aelod)
Sefydlu grŵp llywio newydd ar gyfer arwain datblygiad Strategaeth Hybu'r Gymraeg 5 mlynedd newydd ar gyfer yr Awdurdod.

8. **CYRFF ERAILL**

i) **Grŵp Budd-ddeiliad Safle Trawsfynydd** (1 Aelod)
1) Cynghorydd Elfed Powell Roberts

ii) **Cyd Gyngor Cymru** (1 Aelod)
1) **Swydd Wag**

iii) **Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Pwyllgor Cyswllt Lleol Beddgelert** (1 Aelod)
1) **Swydd Wag**

iv) **Ymgyrch y Parciau Cenedlaethol**
(Cytunwyd fod 3 Awdurdod Parc Cenedlaethol Cymru yn cael eu cynrychioli gan Aelod o'r Awdurdod sy'n dal Ysgrifenyddiaeth Parciau Cenedlaethol Cymru)

v) **Y Gynghrair dros Dirweddau Dynodedig Cymru** (1 Aelod)
1) **Swydd Wag**

vi) **Cyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru** (1 Aelod)
1) **Swydd Wag**

vii) **AGA Pen Llŷn a'r Sarnau** (1 Aelod)
1) **Swydd Wag**
2) Aelod wrth Gefn: Cynghorydd Annwen Hughes

viii) **Grŵp Gwaith Goriad Gwyrdd Eryri** (1 Aelod)
1) **Swydd Wag**

ix) **Fforwm Strategol y Rhaglen Ynys Ynni** (1 Aelod)
1) **Swydd Wag**

x) **Partneriaeth Biosffer Dyfi** (1 Aelod)
1) **Swydd Wag**
2) Aelod wrth Gefn: Mr. Tim Jones

xi) **Cynhadledd Gyswllt Rheilffordd Arfordir y Cambrian** (1 Aelod)
1) **Swydd Wag**
2) Aelod wrth Gefn: Cynghorydd Annwen Hughes

**EITEM RHIF 13**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| **DYDDIAD** | 15 Mehefin 2022 |
| **TEITL** | **ADRODDIAD BLYNYDDOL I'R AWDURDOD** |
| **ADRODDIAD GAN** | Cadeirydd y Pwyllgor Safonau |
| **PWRPAS** | Cytuno a nodi cynnwys yr Adroddiad Blynyddol |

**CEFNDIR**

1. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau yn cynnwys dwy swyddogaeth gyffredinol, sef:
   1.1. Hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan aelodau ac aelodau cyfetholedig yr Awdurdod.
   1.2. Cynorthwyo aelodau ac aelodau cyfetholedig yr Awdurdod i gadw at god ymddygiad yr Awdurdod.

2. Mae gan y Pwyllgor Safonau hefyd y swyddogaethau penodol a ganlyn:
   2.1. Cynghori'r Awdurdod ar fabwysiadu, neu adolygu, codau ymddygiad yr Awdurdod.
   2.2. Monitro gweithrediad codau ymddygiad yr Awdurdod.
   2.3. Cynghori ar hyfforddi aelodau ac aelodau cyfetholedig yr Awdurdod ar faterion yn ymwneud â chodau ymddygiad yr Awdurdod.
   2.4. Ystyried a lle bo'n briodol penderfynu ar faterion a gyfeiriwyd ato gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
   2.5. Ystyried Cwynion yn erbyn Aelodau ac Aelodau cyfetholedig.
   2.6. Caniatáu goddefebau i aelodau neu aelodau cyfetholedig sydd â buddiant personol yn unrhyw fusnes yr Awdurdod.
   2.7. Awdurdodi taliadau gan y Swyddog Monitro o lwfansau a threuliau i bersonau sydd wedi cynorthwyo mewn ymchwiliad gan y Swyddog Monitro.
   2.8. Sefydlu'r weithdrefn ar gyfer penderfynu ar gwynion a gyfeiriwyd ato i'w hystyried.

3. Yn olaf, mae gan y Pwyllgor Safonau hefyd rai swyddogaethau staff megis apêl fewnol derfynol ar faterion disgyblu ac fel apêl derfynol ar gwynion neu ar amodau gwasanaeth.

4. Mae aelodaeth bresennol y Pwyllgor Safonau yn cynnwys dau Aelod Awdurdod Lleol, un Aelod a benodwyd gan Lywodraeth Cymru a thri Aelod Annibynnol sef Mrs Rachael Leah Jane Davies (Cadeirydd), Mrs Sharon Warnes (Is-Gadeirydd) a Mr Martin James Hughes. Yn unol â'r rheoliadau sy'n llywodraethu Pwyllgorau Safonau mae'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd wedi'u penodi o blith yr Aelodau Annibynnol.

## DYLETSWYDD STATUDOL YCHWANEGOL

5. O fis Mai 2022 mae cylch gwaith y Pwyllgor Safonau yn cynnwys dyletswydd statudol ychwanegol i baratoi adroddiad blynyddol i'r Awdurdod ar sut mae swyddogaethau'r pwyllgor wedi'u cyflawni a darparu trosolwg o faterion ymddygiad yn gyffredinol o fewn yr Awdurdod.

6. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Safonau a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol wedi paratoi'r adroddiad hwn, ac mae drafft wedi'i ddosbarthu i holl aelodau'r Pwyllgor Safonau cyn cyflwyno'r adroddiad terfynol i'r Awdurdod.

7. Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau yn cyflwyno'r adroddiad i'r Awdurdod.

8. Mae Canllawiau drafft wedi'u cyhoeddi mewn perthynas â pharatoi'r Adroddiad Blynyddol sy'n nodi bod yn rhaid i'r adroddiad:

   8.1. ddisgrifio sut mae'r pwyllgor wedi cyflawni ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol.
   8.2. cynnwys crynodeb o adroddiadau ac argymhellion a wnaed neu a gyfeiriwyd at y pwyllgor gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ymwneud ag ymchwilio i achosion honedig o dorri cod ymddygiad aelodau, ac unrhyw gamau dilynol a gymerwyd gan y pwyllgor.
   8.3. cynnwys crynodeb o hysbysiadau a roddwyd i'r pwyllgor gan Banel Dyfarnu Cymru, yn ymwneud â phenderfyniadau'r Panel ar achosion posibl o dorri'r cod ymddygiad i aelodau.
   8.4. disgrifio'r cyngor y mae wedi'i roi ar hyfforddiant i'r holl aelodau a sut mae hwnnw wedi'i roi ar waith.

## ADRODDIAD BLYNYDDOL

9. Mae'r Pwyllgor Safonau wedi cyfarfod ddwywaith yn ystod y flwyddyn ac wedi ystyried hyfforddiant aelodau ar y ddau achlysur.

10. Ystyriodd y ffurflenni datgan diddordeb a gwblhawyd gan Aelodau'r Awdurdod a chynghori ar sut y gellid eu gwella.

11. Rhoddodd oddefeb cyffredinol i aelodau Cyngor Gwynedd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i alluogi'r aelodau hynny i gymryd rhan lawn yn y broses o benderfynu ar faterion yn ymwneud â Chyngor Gwynedd neu Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy am gyfnod hyd at 31 Rhagfyr 2022 oni bai y caiff ei ymestyn ymhellach drwy benderfyniad y Pwyllgor cyn 31 Rhagfyr 2022.

12. Mae wedi cyfrannu at adroddiad gwaith y Grŵp Tasg a Gorffen ar Lywodraethu ac wedi cefnogi'r pecyn o fesurau a gynigir. Roedd yn cytuno bod hyfforddiant i aelodau yn dilyn yr etholiadau Llywodraeth Leol yn flaenoriaeth. Cytunodd y Pwyllgor y dylid ailgyflwyno proses adolygu ffurfiol ar gyfer pob Aelod gyda matrics sgiliau i adnabod bylchau sgiliau unigol. Cytunodd y Pwyllgor Safonau hefyd y byddai sefydlu rhaglen fentora Aelodau newydd yn fuddiol. Cytunwyd y dylai'r mentora fynd law yn llaw â'r hyfforddiant a nododd yr Aelodau fod gan un o'r aelodau, sef Sarah Hattle, brofiad yn y maes hwn ac efallai y byddai ganddi ddiddordeb mewn cymryd yr awenau ar fentora Aelodau.

13. Nid oes unrhyw faterion wedi'u cyfeirio at yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus nac at Banel Dyfarnu Cymru yn ymwneud ag ymchwilio i achosion honedig o dorri cod ymddygiad aelodau fel aelodau o'r Awdurdod hwn.

14. Ni fu unrhyw achosion yn ystod y flwyddyn lle mae gweithdrefn Datrysiad Lleol yr Awdurdod wedi'i rhoi ar waith.

15. Fodd bynnag, cyfarfu'r Pwyllgor Safonau yn ystod y flwyddyn i benderfynu ar wrandawiad apêl yn unol â Threfn Gwyno'r Awdurdod.

16. Bydd y Pwyllgor Safonau yn parhau i fonitro cynnydd ar hyfforddiant yn enwedig gyda sefydlu aelodau newydd yn ystod y flwyddyn.

17. Yn ystod y flwyddyn cyfrannodd y Pwyllgor Safonau hefyd at Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru yn ystod yr adolygiad o'r Canllawiau ar y Cod Ymddygiad.

**GOBLYGIADAU ADNODDAU**

Dim

**ARGYMHELLIAD**

**1. Trafod a chytuno ar gynnwys yr adroddiad.**

**PAPURAU CEFNDIR**

**EITEM RHIF 14**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| **DYDDIAD** | 15 Mehefin 2022 |
| **TEITL** | **DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2021/22** |
| **ADRODDIAD GAN** | Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer |
| **PWRPAS** | I gymeradwyo'r Datganiad a chaniatáu iddo gael ei lofnodi gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr. |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Ymhlith y gofynion a osodir ar awdurdodau lleol yng Nghymru gan y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd yn 2010) yw'r angen i gynhyrchu Datganiad ar Reolaeth Fewnol (SIC) blynyddol.

1.2 Wrth baratoi'r datganiad, rhaid i'r Awdurdod sicrhau ei fod yn ymgorffori'r gofynion statudol fel yr amlinellir yn y Rheoliadau. Er mwyn sicrhau fod hyn yn digwydd, dilynwyd y canllawiau a gyhoeddwyd gan gyrff proffesiynol megis CIPFA a SOLACE.

1.1 Wrth ddarparu Datganiad Llywodraethu Blynyddol, mae'n hanfodol fod tystiolaeth yn ei le er mwyn cefnogi'r cynnwys cyn fod y ddogfen yn cael ei gyhoeddi. Wrth ddarparu'r datganiad yma, adolygwyd prif Strategaethau, Chynlluniau, Polisïau, Gweithdrefnau, Codau Ymarfer a Chanllawiau, fel manylir yn y Datganiad.

## 2. ARGYMHELLIAD

2.1 Gofynnir i'r Awdurdod gymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22.

**EITEM RHIF 14**

# Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
# Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021-22

Mae'r datganiad hwn yn diwallu'r angen i gynhyrchu Datganiad Rheolaeth Fewnol yn unol â Rheoliad 4 o
Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 (fel y'i diwygiwyd yn 2010)

## 1. Cyflwyniad

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn gyfrifol am sicrhau bod ei weithgareddau'n cael eu cynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrifo amdano yn briodol, ac yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd economaidd, effeithlon ac effeithiol.

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn ddarostyngedig i Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod i bennu Amcanion Lles sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni'r 7 Nodau Lles fel y nodir yn y Ddeddf, sef:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Ar ben hynny, mae'n rhaid i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gyflawni ei ddyletswyddau yn unol ag 'egwyddor cynaliadwyedd statudol', sy'n golygu bod yn rhaid i'r Awdurdod weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldebau eang hyn, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri hefyd yn gyfrifol am roi trefniadau priodol yn eu lle ar gyfer llywodraethu ei swyddogaethau, hwyluso gweithrediad effeithiol ei weithgareddau, sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi cymeradwyo a mabwysiadu cod llywodraethu corfforaethol, sy'n gyson ag egwyddorion Fframwaith CIPFA / Solace "Delivering Good Governance in Local Government". Mae'r datganiad hwn yn esbonio sut mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â'r cod a hefyd yn cwrdd â gofynion rheoliad 4(2) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 mewn perthynas â chyhoeddi datganiad rheolaeth fewnol.

Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol wedi'i adolygu a'i ddiweddaru eleni gan Grŵp Tasg a Gorffen a sefydlwyd yn benodol i adolygu trefniadau llywodraethu'r Awdurdod i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas i'r diben. Mabwysiadwyd y Cod Llywodraethu Corfforaethol newydd yn ffurfiol gan yr Awdurdod ym mis Ebrill 2022.

## 2. Pwrpas y Fframwaith Llywodraethu

Mae'r fframwaith llywodraethu yn cynnwys y systemau a'r prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd hynny sy'n cyfeirio ac yn rheoli'r awdurdod, a'r gweithgareddau ble mae'n adrodd i, cysylltu ag, ac yn arwain y gymuned. Mae'n galluogi'r awdurdod i fonitro llwyddiant ei amcanion strategol, ac ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau addas a chost effeithiol.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan allweddol o'r fframwaith hwnnw ac mae wedi'i ddylunio i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu'n gyfan gwbl y risg o fethiant i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion; gall felly ond darparu sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd yn hytrach na sicrwydd diamod. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sy'n adnabod ac yn blaenoriaethu risgiau sy'n berthnasol i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, i werthuso'r tebygolrwydd i'r risgiau hynny gael eu gwireddu a'r effaith petai hynny'n digwydd, ac i reoli'r risgiau mewn ffordd effeithlon, effeithiol ac economaidd.

## 3. Y Fframwaith Llywodraethu

Mae'r Fframwaith Llywodraethu yn cynnwys saith egwyddor i lywodraethu'n dda:

- **Egwyddor 1:** Ymddwyn gydag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf tuag at werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith
- **Egwyddor 2:** Sicrhau ein bod yn agored ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid trwy gyfrwng dull cynhwysfawr
- **Egwyddor 3:** Diffinio canlyniadau yn nhermau'r manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy
- **Egwyddor 4:** Penderfynu ar ymyriadau angenrheidiol i wneud y gorau o gyflawni'r canlyniadau a fwriedir
- **Egwyddor 5:** Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion ynddo
- **Egwyddor 6:** Rheoli risgiau a pherfformiad trwy gyfrwng rheolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref
- **Egwyddor 7:** Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd, ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn datblygu ac yn gweithredu ei gynllunio corfforaethol strategol trwy fabwysiadu:

- Cynllun Eryri (Cynllun Rheolaeth y Parc Cenedlaethol);
- Cynllun Datblygu Lleol Eryri;
- Datganiad Llesiant ac Amcanion Llesiant; a
- Rhaglen Waith Corfforaethol.

Mae'r 4 dogfen yma yn cynrychioli conglfaen gwaith yr Awdurdod wrth gyflawni ei brif bwrpasau, fel y diffinnir yn Ddeddf yr Amgylchedd 1995 ac wrth weithredu ei weledigaeth.

Strwythur Llywodraethu

Mae strwythur llywodraethu'r Awdurdod yn cynnwys 4 prif bwyllgor:

- Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gyda 18 o Aelodau a benodwyd, ac yn ystod 2021/22 cynhaliwyd 7 cyfarfod.

- Cynhaliwyd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau 3 gwaith yn ystod 2021/22. Fel rhan o'i gylch gwaith mae'n ymgymryd â swyddogaethau pwyllgor archwilio yn unol â gofynion CIPFA.

- Cynhaliwyd y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad 8 gwaith yn ystod 2021/22. Mae'r pwyllgor yn gyfrifol am gyflawni swyddogaethau cynllunio statudol yr Awdurdod.

- Cynhaliwyd y Pwyllgor Safonau'r Awdurdod unwaith yn ystod 2021/22. Mae aelodaeth y pwyllgor, sydd gyda gylch gwaith i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan Aelodau, yn cynnwys 3 Aelod o'r Awdurdod a 3 aelod annibynnol.

Mae'r Rheolau Sefydlog yr Awdurdod (a gyhoeddwyd ar y wefan) yn rhoi disgrifiad manwl o'r trefniadau ar gyfer pob pwyllgor. Ar gyfer pob pwyllgor, mae'r rhaglen, cofnodion ac adroddiadau cysylltiedig â phapurau cefndir i gyd yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.

Tîm Rheoli

Mae strwythur rheoli'r Awdurdod yn cynnwys y Prif Weithredwr (sydd hefyd yn 'Swyddog y Parc Cenedlaethol' ac yn Bennaeth y Gwasanaeth Taledig) a dau Gyfarwyddwr. Mae Tîm Rheoli'r Awdurdod yn cyfarfod bob pythefnos, gyda'r Pennaeth Cyllid a Phennaeth Personél yn mynychu.

Safonau

Mae'r Awdurdod wedi sefydlu Cod Ymddygiad i Aelodau, sy'n cynnwys adran sy'n cyfeirio'n benodol at fuddiannau a Chofrestr Buddiannau Aelodau. Y Cod Ymddygiad i staff yw'r cod ymddygiad safonol cenedlaethol ar gyfer cyflogeion awdurdodau cyhoeddus.

Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu'r polisïau a gweithdrefnau canlynol ar gyfer cynnal safonau uchel o ymddygiad ar gyfer staff ac Aelodau, ac i sicrhau atebolrwydd tuag at y cyhoedd:

- Y Drefn Gwyno – wedi'i sefydlu ar fodel drefn cwynion ymarfer da gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus;

- Polisi Seinio Rhybudd - i alluogi staff i leisio pryderon difrifol yn hyderus gyda'r sicrwydd o wybod y ceir eu hymchwilio yn drwyadl ac mewn ffordd deg, heb ofni dial;
- Strategaeth Gwrth-dwyll a Llygredigaeth - yn cynnwys mesurau sydd wedi'u cynllunio i rwystro unrhyw weithred o dwyll neu lygredigaeth, a pha gamau y dylid eu cymryd petai rywbeth o'r fath yn digwydd; ac y
- Cynllun Dirprwyo - yn amlinellu sut mae swyddogaethau'r Awdurdod llawn yn cael eu cyflawni trwy ddirprwyo i'w bwyllgorau a'i is-bwyllgorau

Rheoli Risg

Mae Polisi a Strategaeth Rheoli Risg wedi'i sefydlu. Caiff y broses o adnabod risgiau ei chydlynu gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer, gyda mewnbwn gan y Tîm Rheoli a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Mae'r Gofrestr Risg a'r mesurau lliniaru yn cael eu hadolygu a'i ddiweddaru'n chwarterol.

Archwiliad Mewnol

Mae'r adolygiad o effeithiolrwydd y system o drefniadau rheolaeth a llywodraethu mewnol yn cael ei lywio gan waith yr Archwilwyr Mewnol, a gynhaliwyd gan Gyngor Gwynedd. Darperir y gwasanaeth Archwilio Mewnolyn unol â Chod Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth leol yn y DU. Mae'r Rheolwr Archwilio Mewnol yn paratoi adroddiad blynyddol sy'n crynhoi canlyniadau gwaith archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn.

Archwiliad Allanol

Archwilio Cymru sy'n gweithredu fel archwilydd allanol i'r Awdurdod, ac felly sy'n adrodd ar reolaeth ariannol a pherfformiad yr Awdurdod. Yn ogystal, mae Archwilio Cymru yn rhoi barn ar ddigonolrwydd y gwaith archwilio mewnol.

Swyddog Monitro

Mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol wedi'i enwebu fel Swyddog Monitro. Mae gan y Swyddog Monitro'r ddyletswydd benodol i sicrhau bod Aelodau a benodwyd a Swyddogion yr Awdurdod yn cynnal y safon uchaf o ymddygiad ym mhopeth a wnânt. Mae'r Swyddog Monitro yn cynghori ar drefn gyfansoddiadol a chyfreithlondeb gweithredoedd yr Awdurdod.

Rheolaeth Ariannol

Mae trefniadau rheolaeth ariannol yr Awdurdod yn cydymffurfio â gofynion llywodraethu Datganiad CIPFA ar Rôl y Prif Swyddog Cyllid mewn Llywodraeth Leol (2010). Y Prif Swyddog Cyllid (sydd yn Brif Swyddog Cyllid Cyngor Gwynedd) yw'r swyddog sydd â chyfrifoldebau o dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

## 4. Materion Llywodraethu Arwyddocaol a Chamau a Gymerwyd yn ystod y Flwyddyn

Mae’r Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd craidd ar yr Awdurdod i osod amcanion lleisiant sy’n macsimeiddio ein cyfraniad at gyflawni’r 7 nodau llesiant a osodwyd yn y Ddeddf. Dylai amcanion llesiant yr Awdurdod fod yn amcanion ar gyfer newid yn y tymor hir.

Datblygwyd Datganiad Llesiant ar gyfer yr Awdurdod dros gyfnod o 18 mis ac mae’n nodi Amcanion Llesiant newydd sy’n disgrifio sut y byddant yn helpu’r Awdurdod i gyflawni’r saith nod llesiant ar gyfer Cymru. Mabwysiadwyd y Datganiad Llesiant a’r Amcanion Llesiant fel dogfennau strategol gan yr Awdurdod yn ystod y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar yr 23ain o Fawrth, 2021.

Mae’r Amcanion Llesiant yn canolbwyntio ar dri maes gwaith allweddol - Amgylcheddau Cydnerth, Cymunedau Cydnerth a Ffyrdd Cydnerth o Weithio - ac maent wedi’u halinio â phump is-thema i roi ffocws, fel yr amlinellir islaw.

Amgylcheddau Cydnerth
1. Gwella rheolaeth hamdden ag unrhyw effeithiau negyddol hamdden.
2. Ymateb i heriau newid yn yr hinsawdd.
3. Gwella rheolaeth a’r ddealltwriaeth o'n treftadaeth ddiwylliannol.
4. Mynd i'r afael â heriau a chyfleoedd senarios rheoli tir ar ôl Brexit.
5. Mynd i'r afael â'r dirywiad mewn natur.

Cymunedau Cydnerth
1. Cynnal a chynyddu ansawdd bywyd preswylwyr.
2. Cefnogi pobl ifanc.
3. Hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy i ychwanegu gwerth i gymunedau lleol.
4. Hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg yn weithredol.
5. Datblygu economi leol sy'n cefnogi dynodiad a rheolaeth Eryri fel Parc Cenedlaethol.

Ffyrdd Cydnerth o Weithio
1. Datblygu gweithlu medrus.
2. Datblygu a hyrwyddo arfer gorau.
3. Gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth.
4. Moderneiddio trefniadau llywodraethu.
5. Cynnal a gwella dealltwriaeth a chefnogaeth cymunedau lleol tuag at waith y Parc Cenedlaethol.

Bydd angen gweithredu i gwrdd â’n nodau llesiant mewn modd cynaliadwy. Mae datblygu cynaliadwy yn golygu pum gofyniad allweddol, sef:

1. Tymor Hir - pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu i gwrdd ag anghenion tymor hir, yn enwedig lle mae’r pethau a wneir i gwrdd ag anghenion tymor byr yn gallu cael effeithiau tymor hir niweidiol.

2. Integreiddio - sut y gall ein nodau llesiant effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, sut y gall y nodau llesiant effeithio ar ei gilydd neu ar nodau llesiant cyrff cyhoeddus eraill, yn enwedig lle y gallai camau a gymerwyd gennym i gyfrannu at gwrdd ag un amcan fod yn niweidiol o ran cwrdd ag un arall.
3. Cynnwys - pwysigrwydd cynnwys pobl eraill sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, ac i sicrhau bod yr unigolion hynny yn adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth Cymru neu ardal ddaearyddol yr Awdurdod.
4. Cydweithio - Gallai gweithredu ar y cyd ag unrhyw unigolyn (neu'r modd y mae gwahanol rannau o'r Awdurdod yn gweithredu gyda'i gilydd) gynorthwyo'r Awdurdod i gyflawni ei nodau llesiant, neu gynorthwyo corff arall i gyflawni ei amcanion.
5. Atal - i ystyried sut y gall defnyddio adnoddau i atal problemau rhag digwydd, neu waethygu, gyfrannu at gwrdd â nodau llesiant yr Awdurdod, neu amcanion corff arall.

Cyflwynwyd y Rhaglen Waith Gorfforaethol ar gyfer 2021/22 i'w chymeradwyo gan yr Aelodau yng nghyfarfod yr Awdurdod ar y 28ain o Ebrill 2021. Mae'r Rhaglen yn gosod y prosiectau, cynlluniau a chamau gweithredu penodol yr ymgymerir â hwy er mwyn cyflawni Amcanion Llesiant a Blaenoriaethau Gwasanaeth yr Awdurdod.

Mae cynnydd yn erbyn y Rhaglen wedi'i adrodd i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar yr 24ain o Dachwedd 2021 ac y 23ain o Fawrth 2022. Mae'r adroddiad blynyddol llawn ar y Rhaglen Waith Corfforaethol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ym mis Gorffennaf 2022.

Mae adolygiad sylweddol o weithdrefnau ac arferion llywodraethu'r Awdurdod wedi'i gynnal yn ystod 2021/22, gan fod y maes hwn wedi'i ddewis fel un o'r pynciau craffu gan yr Awdurdod.

Roedd cylch gwaith y Grŵp Tasg a Gorffen Adolygu Llywodraethu (fel y'i nodir yn y Cylch Gorchwyl) yn cynnwys canolbwyntio ar rhai o'r cynigion ar gyfer gwella fel y'u nodwyd yn adroddiad Archwilio Cymru ar Wasanaethau Cydnerth a Chynaliadwy a oedd yn ymwneud â llywodraethu.

Yn ogystal, roedd Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r Awdurdod adolygu rhai materion llywodraethu yn dilyn llythyr at y Gweinidog yn mynegi pryderon. Roedd y materion a godwyd yn gyfle i'r Awdurdod adolygu a gwella ei systemau llywodraethu ac o ganlyniad adeiladu ar y diwylliant o ddeialog agored a her adeiladol i uwch arweinwyr wrth iddynt wneud penderfyniadau anodd ynghylch darparu gwasanaethau a'r defnydd o adnoddau.

Un o ganlyniadau allweddol y Grŵp Tasg a Gorffen Adolygu Llywodraethu oedd adolygu a diweddaru Cod Llywodraethu Corfforaethol yr Awdurdod. Mae'r Cod newydd wedi'i fabwysiadu'n ffurfiol gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 27 Ebrill 2022.

Nodir canlyniadau allweddol eraill yn y Datganiad hwn o dan y penawdau priodol.

## 5. Effeithiolrwydd y Fframwaith Llywodraethu

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn gyfrifol am gynnal, o leiaf unwaith y flwyddyn, adolygiad o effeithiolrwydd ei fframwaith llywodraethu gan gynnwys y system rheolaeth fewnol. Mae'r adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol yn cael ei lywio gan waith yr archwilwyr mewnol a'r rheolwr uwch o fewn yr Awdurdod, sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu, a hefyd gan sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol ac asiantaethau adolygu ac arolygiaethau eraill. Mae'r adolygiad hwn yn seiliedig ar y saith egwyddor o'r Cod Llywodraethu Corfforaethol.

**Egwyddor 1:** Ymddwyn gydag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf tuag at werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith

| | |
|---|---|
| **Cod Llywodraethu Corfforaethol** | Nodwyd llywodraethu fel un o'r meysydd pwnc i graffu'n fanwl arno yn ystod 2021/22, ac o ganlyniad sefydlwyd Grŵp Tasg a Gorffen Adolygu Llywodraethu. Cyfarfu'r grŵp 4 gwaith rhwng Tachwedd 21 a Chwefror 22.<br><br>Adolygwyd y Cod Llywodraethu Corfforaethol yn fanwl a'i ailddrafftio gan y Grŵp, i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gonglfaen llywodraethu effeithiol ar gyfer y dyfodol.<br><br>Trafodwyd y Cod Llywodraethu diwygiedig drafft yn fanwl yn y Gweithgor Aelodau ar y 6ed o Ebrill 2022, cyn ei gyflwyno i'w gymeradwyo'n derfynol a'i fabwysiadu gan yr Awdurdod ddiwedd Ebrill 2022. |
| | |
| **Pwyllgor Safonau** | Cafodd y Pwyllgor Safonau ddiwrnod llawn ar y 3ydd o Fedi 2021.<br><br>Yn ystod y bore, cynhaliodd y Pwyllgor Safonau Wrandawiad Apêl a gynhaliwyd yn unol â Threfn Gwyno'r Awdurdod. Cafodd yr apêl ei gwrthod yn y pen draw.<br><br>Cynhaliwyd sesiwn y prynhawn i ystyried busnes arferol y Pwyllgor Safonau. Yn ystod y cyfarfod hwn, bu'n ystyried nifer o faterion gan gynnwys Rhoi Goddefeb i Aelodau Cyngor Gwynedd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.<br><br>Adolygodd yr Aelodau hefyd Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon ar gyfer 2020/21, a chawsant wybod am y datblygiadau sy'n berthnasol i'r Awdurdod hwn. Cyflwynwyd yr Adroddiad Monitro Cwynion Blynyddol hefyd i'r Pwyllgor Safonau, er gwybodaeth. |
| | |

| | |
|---|---|
| **Polisi Seinio Rhybudd** | Ymgymerwyd â'r adolygiad manwl olaf gan y Pwyllgor Safonau ym mis Medi 2016, gyda'r newidiadau a oedd yn deillio o hynny yn cael eu cymeradwyo yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Rhagfyr 2016.<br><br>Yn ystod 2021/22, ni dderbyniwyd unrhyw adroddiadau ac ni chodwyd unrhyw bryderon mewn perthynas ag unrhyw Aelod neu Swyddog o'r Awdurdod o dan y Polisi Seinio Rhybudd. |
| | |
| **Strategaeth Gwrth-dwyll a Llygredigaeth** | Yn ystod 2021/22 ni dderbyniwyd unrhyw gwynion honedig o dwyll neu lygredigaeth mewn perthynas â unrhyw Aelod neu Swyddog o'r Awdurdod, ac ni adnabuwyd unrhyw feysydd sy'n peri pryder gan yr Archwilwyr Mewnol yn ystod eu gwaith archwilio. |
| | |
| **Model Cod Ymddygiad** | Yn ystod 2021/22, ni fu unrhyw newidiadau neu ddiwygiadau i'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol. |
| | |
| **Cwynion – Swyddogion** | Yn ystod 2021/22, derbyniodd yr Awdurdod gyfanswm o 15 cwyn ffurfiol.<br><br>Ni fu'r Awdurdod yn destun ymchwiliad ffurfiol gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystod 2021/22.<br><br>Fodd bynnag, gwnaed cwyn i Gomisiynydd y Gymraeg fod yr Awdurdod yn torri ei Safonau Iaith Gymraeg, drwy fethu â darparu gwasanaeth archebu ar-lein cwbl ddwyieithog ar gyfer maes parcio Pen y Pass. Darparwyd y gwasanaeth gan ddarparwr allanol Just Park.<br><br>Cychwynnodd y Comisiynydd ymchwiliad a daeth i'r casgliad bod yr Awdurdod wedi methu â chydymffurfio â 3 safon benodol, sef safonau 50, 52 a 56. Datblygodd yr Awdurdod Gynllun Gweithredu y cytunwyd arno gan y Comisiynydd i sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r safonau hyn erbyn Pasg 2022. |
| | |
| **Cwynion – Aelodau** | Yn ystod 2021/22, ni dderbyniodd Swyddog Monitro'r Awdurdod unrhyw gwynion ffurfiol yn ymwneud â'r Aelodau, a ni chyflwynwyd unrhyw gwynion yn uniongyrchol i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. |
| | |

| | |
|---|---|
| **Cwynion – Eraill** | Yn ystod y flwyddyn cyflwynwyd cwyn yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru ynghylch amrywiol faterion llywodraethu a gweinyddu o fewn yr Awdurdod.<br><br>Ymatebodd yr Awdurdod i'r honiadau a darparwyd gwybodaeth berthnasol. Rhoddwyd argymhellion ar gamau gweithredu i'r Awdurdod i gryfhau llywodraethu mewn meysydd penodol, ac mae'r Awdurdod wedi'u derbyn:<br>• Newidiadau i'r Rheolau Sefydlog parthed Cytundebau (manylion newidiadau penodol o dan bennawd y Rheolau Sefydlog parthed Cytundebau).<br>• Gwneud Cais am Gyllid gan Lywodraeth Cymru – adolygu'r broses benderfynu i gwrdd â therfynau amser cyflwyno mewn rhai amgylchiadau. Trafodwyd hyn a chytunwyd arno gan yr Aelodau yn y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 23ain o Fawrth 2022.<br>• Lefel y cronfeydd wrth gefn i fod yn eitem sefydlog ym mhob cyfarfod rhwng APCE a Llywodraeth Cymru.<br>• Amrywiaeth - bydd cynnydd yn erbyn Cynllun Cydraddoldeb Strategol yr Awdurdod yn cael ei adolygu mewn cyfarfodydd monitro rhwng APCE a Llywodraeth Cymru. |
| | |
| **Rheolau Sefydlog** | Adolygwyd a diwygiwyd y Rheolau Sefydlog diwethaf gan yr Awdurdod ar y 26ain o Ebrill 2017, yn dilyn derbyn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) (Diwygiad) 2017.<br><br>Ni chodwyd unrhyw fater yn berthnasol a gweithrediad y Rheoliadau Sefydlog yn ystod 2021/22. |
| | |
| **Rheolau Sefydlog parthed Cytundebau** | Mae'r Awdurdod wedi derbyn argymhellion Llywodraeth Cymru i sicrhau bod prosesau'r Awdurdod mewn perthynas â chontractau yn ddigon tryloyw, sef:<br><br>1. Y trothwy ar gyfer cyhoeddi manylion contractau a ddyfarnwyd yn cael ei osod yn £1,000.<br>2. Adolygu'r prosesau ar gyfer adolygu a chofnodi manylion contractau lle mae Aelodau, staff, teuluoedd a ffrindiau wedi cael budd uniongyrchol o ddyfarnu contractau. Bydd hyn nawr yn cael ei ymestyn i'r holl staff, yn ogystal â'r gofyniad presennol ar y penaethiaid gwasanaeth a'r tîm rheoli.<br>3. Wrth ddyfarnu contractau, dylid gweithredu'r egwyddorion cyffredinol a nodir yn Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, hyd yn oed pan na fyddai gwerth contract yn sbarduno gofynion Rheoliadau 2015. |

| | |
|---|---|
| | Mae fersiwn drafft newydd o'r Rheolau Sefydlog sy'n ymwneud â Chontractau wedi'i gynhyrchu sy'n ymgorffori'r argymhellion uchod ac yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl reoliadau newydd sy'n ymwneud ag ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Mae angen gwneud rhagor o waith ar y drafft cyn y gellir ei gyflwyno i'r Aelodau i'w fabwysiadu yn 2022/23. |
| | |
| **Cynllun Dirprwyo** | Cafodd y Cynllun Dirprwyo ei adolygu a'i newid ddiwethaf gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar y 13eg o Ragfyr 2017.<br><br>Fel rhan o gylch gorchwyl y Grŵp Tasg a Gorffen Adolygu Llywodraethu, ystyriwyd sut yr oedd yr Awdurdod wedi mynd ati i wneud penderfyniadau yn ystod gwahanol gamau o bandemig Covid-19, ac a oedd unrhyw bwyntiau dysgu i'w hymgorffori ar gyfer y dyfodol.<br><br>Tra cydnabuwyd bod angen gwahaniaethu sut mae angen i'r Awdurdod weithredu ar adegau o argyfwng cenedlaethol ac mewn amseroedd arferol; roedd yn ddiddorol nodi bod yr arferion gwaith deinamig a weithredwyd yn ystod cam cyntaf y pandemig wedi'u galluogi o dan y Cynllun Dirprwyo Swyddogion presennol.<br><br>Daeth y Grŵp i'r casgliad bod y Cynllun Dirprwyo Swyddogion presennol yn parhau i fod yn addas i'r diben, ac felly ni roddwyd unrhyw argymhelliad ar gyfer newidiadau. |
| | |
| **Cofrestr Buddiant / Diddordebau Aelodau** | Mae'r Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 yn rhoi gofyniad ar yr Awdurdod i gyhoeddi'r Gofrestr gyfredol o Ddiddordebau / Fuddiant Aelodau ar wefan yr Awdurdod.<br><br>Mae'n gyfrifoldeb ar bob Aelod o'r Awdurdod i ddiweddaru eu cofnod buddion/diddordebau ac i adrodd ar unrhyw newidiadau mewn modd amserol. Serch hynny, mae'r Swyddog Gwasanaethau Aelodau yn anfon copi o'u cofnod cyfredol i bob Aelod ar ôl bob Cyfarfod Blynyddol o'r Awdurdod, ac yn gofyn iddynt eu hadolygu a'i diweddaru os yn berthnasol.<br><br>Yn ystod 2021/22, rhoddwyd cadarnhad i Lywodraeth Cymru bod y Gofrestr yn gyfredol ac ar gael i'r cyhoedd a bod trefniadau ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth. |

**Egwyddor 2:** Sicrhau ein bod yn agored ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid trwy gyfrwng dull cynhwysfawr

| | |
|---|---|
| **Cynllun Cydraddoldeb Strategol** | Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar 18fed Tachwedd 2020.<br><br>Adroddwyd ar gynnydd yr Awdurdod gyda'i gynllun gweithredu o ran cyrraedd ei Amcanion Cydraddoldeb, ynghyd â'r Asesiadau Effaith Cydraddoldeb yr ymgymerwyd â hwy yn ystod y flwyddyn, data monitro cyflog cyfartal a data cydraddoldeb staff.<br><br>Daeth y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol i rym yng Nghymru ar 31ain o Fawrth 2021. Rhaid nawr ystyried sut y gall penderfyniadau strategol yr Awdurdod wella anghyfartaledd canlyniadau i bobl sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae templed asesu effaith newydd wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth â chyrff eraill yn y sector cyhoeddus yng ngogledd Cymru i sicrhau y gallwn cofleidio ein cyfrifoldebau newydd yn llawn. |
| | |
| **Ymgynghori Uniongyrchol** | Wrth i gyfyngiadau amrywiol Covid-19 barhau yn eu lle drwy gydol y flwyddyn, parhaodd yr Awdurdod i ddefnyddio amrywiol atebion ar-lein i alluogi cyfathrebu, ymgynghori ac ymgysylltu uniongyrchol, fel ei brif ddull o gysylltu.<br><br>Yn ystod 2021/22, parhaodd yr Awdurdod i ymgysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid lleol drwy amrywiaeth o ddulliau, o ymgynghoriadau ysgrifenedig traddodiadol a holiaduron ar-lein i weminarau a chyfarfodydd a gweithdai ar-lein. Pan oedd cyfyngiadau'n caniatáu, cynhaliwyd digwyddiadau ymgynghori mewn person mewn mannau diogel o ran Covid.<br><br>Tra bod Fforwm Eryri, y Grŵp Cyswllt Amaeth Blynyddol, Fforymau Mynediad y Gogledd a'r De i enwi dim ond rhai, wedi parhau i gael eu cynnal yn rhithiol, mae trafodaethau ar sut i symud ymlaen yn y dyfodol wedi dechrau. Yr hyn sydd wedi dod yn amlwg yw bod llawer yn gweld manteision mawr i gynnal cyfarfodydd ar-lein ac yn dymuno parhau, tra bod eraill yn gweld anfanteision o beidio â chyfarfod mewn person a dymuniad i ailddechrau cyfarfodydd o'r fath. Yn ystod y flwyddyn i ddod bydd rhai cyfarfodydd mewn person yn ailddechrau, bydd rhai cyfarfodydd yn defnyddio datrysiadau hybrid tra bydd rhai yn aros yn gyfan gwbl ar-lein. |

| | |
|---|---|
| | Y tu allan i'r ymgynghoriadau uniongyrchol arferol ar fusnes yr Awdurdod sydd wedi digwydd eleni, mae ymgysylltu ac ymgynghori hefyd wedi digwydd gyda chymunedau lleol er mwyn galluogi i wybodaeth gael ei rhannu ac i roi cyfle i bobl roi eu barn ar heriau niferus mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol a'i gymunedau wedi wynebu oherwydd y cynnydd yn nifer yr ymwelwyr. |
| | |
| **Strategaeth Cyfathrebu a Ymgysylltu** | Mae cyfathrebu ac ymgysylltu yn elfen hanfodol ym mhopeth y mae'r Awdurdod yn ei wneud. Mae hefyd yn faes lle mae yna wastad lle i wella, ac mae strategaeth yr Awdurdod yn adlewyrchu hyn.<br><br>Mae datblygiadau technolegol cyflym a'r twf parhaus mewn llwyfannau cyfryngau cymdeithasol a lefelau cyfranogi yn golygu bod angen i'r Awdurdod ganolbwyntio'n llawn ar gyfathrebu'n effeithiol trwy'r sianeli cywir ar yr adeg iawn gydag ystod eang o gynulleidfaoedd. Mae hyn wedi bod yn amlwg iawn dros y flwyddyn ddiwethaf, lle bu cyfathrebu ac ymgysylltu clir a diamwys wedi bod yn hanfodol.<br><br>Mabwysiadwyd Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu newydd yr Awdurdod yn ffurfiol gan yr Awdurdod ar y 9fed o Fehefin 2021.<br><br>Cyflwynwyd yr adroddiad blynyddol ar y strategaeth i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar yr 23ain o Fawrth 2022. Roedd yr adroddiad yn cynnwys data ar gyfer y dangosyddion perfformiad a nodir yn y strategaeth.<br><br>Mae'r Rheolwr Cynnwys a Brand wedi bod yn gweithio gyda Creo, y cwmni a benodwyd ar gontract i ddatblygu dyluniad y wefan newydd ar gyfer yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn.<br><br>Lansiwyd y wefan newydd ym mis Ebrill 2022. |
| | |

| | |
|---|---|
| **Rhyddid Gwybodaeth** | Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu Cynllun Cyhoeddi Enghreifftiol y Comisiynydd Gwybodaeth ac wedi cyhoeddi canllaw ar wybodaeth, ac mae'r ddau ohonynt ar gael ar y wefan.<br><br>Yn ystod 2021, derbyniwyd 33 o geisiadau, ac o'r rhain fe dderbyniodd 30 yr holl wybodaeth y gofynnwyd amdani (91%). O'r 3 chais arall, cafodd 2 eu gwrthod neu eu gwrthod yn rhannol oherwydd nad oedd y wybodaeth y gofynnwyd amdani yn bodoli neu nid oedd yr awdurdod yn cadw'r wybodaeth, a gwrthodwyd 1 cais yn rhannol gan ei fod yn cynnwys data personol trydydd parti, a gafodd ei olygu o'r wybodaeth a ryddhawyd.<br><br>Ni chyflwynwyd unrhyw gwynion i'r Comisiynydd Gwybodaeth ynghylch unrhyw gais am wybodaeth. |
| | |
| **Rhaglenni Pwyllgorau ac Adroddiadau Cysylltiedig** | Mae rhaglenni ac adroddiadau cysylltiedig Pwyllgorau'r Awdurdod yn cael eu cyhoeddi ar y wefan o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn bob cyfarfod.<br><br>Mae archif o raglenni a dogfennau cysylltiedig o bwyllgorau'r gorffennol hefyd ar gael ar y wefan. |

**Egwyddor 3:** Diffinio canlyniadau yn nhermau'r manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy

| | |
|---|---|
| **Cynllun Partneriaeth y Wyddfa** | Er na chyflwynwyd adroddiad diweddaru ffurfiol ar Gynllun Yr Wyddfa i'r Aelodau yn ystod 2021/22, fe ryddhawyd tri chylchlythyr oedd yn rhoi diweddariad ar waith y Bartneriaeth ac fe gafwyd trafodaeth ar yr elfen parcio a thrafnidiaeth yn y Gweithgorau ar yr 22ain o Ionawr 2021 a'r 20fed o Hydref 2021.<br><br>Ers lansio'r cynllun yn 2018 mae nifer o'r prosiectau cychwynnol wedi eu cyflawni ac mae'r Bartneriaeth yn bwriadu adolygu'r Cynllun yn ystod 2023 gan lansio fersiwn diwygiedig - bum mlynedd ers creu'r Cynllun gwreiddiol. |

| | |
|---|---|
| | Un o flaenoriaethau'r Cynllun yw gweithredu'r Strategaeth Parcio a Thrafnidiaeth ardal Yr Wyddfa ac Ogwen. Mae nifer o'r elfennau cychwynnol wedi eu rhoi ar waith gyda chefnogaeth gan Drafnidiaeth Cymru. Mae oedi mewn perthynas â Phen Y Pass a'r cais cynllunio a gymeradwywyd yn ddiweddar i osod rhwystr fyddai'n gwella effeithlonrwydd y system rag archebu gan fod pryderon wedi ei godi gan y tirfeddiannwr.<br><br>Ysgrifennwyd cynllun ardal bwrpasol ar gyfer Nant Gwynant yn ystod y flwyddyn, ar y cyd a'r partneriaid perthnasol yn yr ardal.<br><br>Mae rhaglen Llysgennad Eryri wedi mynd o nerth i nerth gyda dros 700 wedi cymhwyso a tua 200 wedi ailgymhwyso yn ystod y flwyddyn.<br><br>Mae cyllid wedi ei sicrhau ar gyfer penodi swyddog i arwain ar y gwaith sy'n ymwneud â Wyddfa ddi-sbwriel gyda'r bwriad o hysbysebu'r swydd eleni.<br><br>Mae ap Llwybrau Yr Wyddfa ar fin cael ei lansio ar ei newydd wedd gan fod yr ap wedi ei diweddaru'n ddiweddar i gyd-fynd a'r ddeddf hygyrchedd i gyrff cyhoeddus. |
| | |
| **Cynllun Eryri** (Cynllun Partneriaeth Parc Cenedlaethol Eryri) | Mae Cynllun Eryri – sef Cynllun Partneriaeth y Parc Cenedlaethol ar gyfer 2020 – 25, wedi cael ei fabwysiadu'n ffurfiol gan yr Awdurdod yn ei Gyfarfod Blynyddol ar y 23ain o Fedi 2020.<br><br>Mae Cylch Gorchwyl Fforwm Eryri wedi'i ddiwygio i gynnwys cyfarfodydd partneriaeth o bell, ac mae bellach wedi'i nodi fel y dull gweithredu a ffefrir ar gyfer o leiaf 3 o'r 4 cyfarfod blynyddol.<br><br>Yn ystod haf 2021, dechreuodd y gwaith o gynhyrchu'r Adroddiad Monitro Blynyddol cyntaf ar gyfer Cynllun Eryri, gyda'r wybodaeth a'r data a gasglwyd yn cwmpasu'r cyfnod o fis Medi 2020 i fis Rhagfyr 2021.<br><br>Bydd pob Canlyniad yn cael ei asesu mewn perthynas â'r Mesurau Llwyddiant y cytunwyd arnynt gan yr holl Bartneriaid yng Nghynllun Gweithredu gwreiddiol Cynllun Eryri ac adroddir arnynt yn yr adroddiad.<br><br>Ar ddiwedd mis Mawrth 2022, roedd yr adroddiad yn y broses o gael ei gwblhau a'i gymeradwyo gan Fforwm Eryri, ac wedi hynny bydd yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod. |

| | |
|---|---|
| **Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031** | Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031 (CDLl) diwygiedig ar y 6ed o Chwefror 2019.<br><br>Cyflwynwyd yr ail Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) i'r Pwyllgor Cynllunio a Mynediad ar yr 20fed o Hydref 2021, ac roedd yn cwmpasu'r cyfnod Ebrill 2020 hyd at ddiwedd mis Mawrth 2021. Cyflwynir yr AMB i Lywodraeth Cymru erbyn 31ain o Hydref 2021 bob blwyddyn.<br><br>Nododd yr Adroddiad Monitro fod arwyddion cynnar yn pwyntio at newidiadau angenrheidiol yn y dyfodol i CDLl Eryri oherwydd canlyniadau Brexit a'r pandemig Covid-19, newidiadau mewn polisi cenedlaethol megis cyhoeddi Cynllun Cenedlaethol Cymru'r Dyfodol 2040 yn ogystal â pherfformiad rhai agweddau o'r Cynllun. |
| | |
| **Cynllun Corfforaethol 2021-22** | Gan fod yr Awdurdod bellach wedi mabwysiadu Datganiad Llesiant sy'n cynnwys ei Amcanion Llesiant am gyfnod o bum mlynedd o 2021-26; - ni fydd angen adolygiad blynyddol.<br><br>Bydd y camau y cytunwyd arnynt yn y Rhaglen Waith Gorfforaethol yn awr yn ddigon i alluogi'r Awdurdod i asesu ei gynnydd o ran cyflawni'r Amcanion Llesiant ac felly ni fydd angen adroddiad Dangosyddion Perfformiad ar wahân. Mabwysiadwyd y Rhaglen Waith Gorfforaethol 2021/22 gan yr Awdurdod ar yr 28ain o Ebrill 2021.<br><br>Rhoddwyd diweddariadau rheolaidd i'r aelodau ar y cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r Amcanion Llesiant, a amlinellwyd yn Rhaglen Waith Gorfforaethol 2021/22.<br><br>Adroddwyd ar gynnydd dau chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 24ain o Dachwedd 2021 a darparwyd adroddiad cynnydd y trydydd chwarter ar yr 23ain o Fawrth 2022.<br><br>Croesawodd yr aelodau'r cynllun newydd, gan nodi ei fod yn fwy cryno ac yn haws ei ddeall. |

**Egwyddor 4:** Penderfynu ar ymyriadau angenrheidiol i wneud y gorau o gyflawni'r canlyniadau a fwriedir

| | |
|---|---|
| **Strategaeth y Gyllideb 2021/22** | Cadarnhawyd cyllideb refeniw'r Awdurdod ar gyfer 2021/22 gan y Prif Swyddog Cyllid yn ei adroddiad i'r Awdurdod ar y 3ydd o Chwefror 2021. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cadarnhau'r lefi ar awdurdodau cyfansoddol.<br><br>Cyflwynwyd diweddariad i'r Gyllideb i'r Awdurdod ar y 8fed o Ragfyr 2021 ac i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 23ain o Fawrth 2022.<br><br>Roedd yr adroddiad mis Mawrth yn amlinellu'r cymorth ariannol a dderbyniwyd i liniaru effeithiau Covid-19, sydd wedi cynnwys grant cymorth gan Lywodraeth Cymru, rhyddhad trethi ac ad-daliadau cyflog trwy'r cynllun seibiant swyddi.<br><br>Yn dilyn cynnydd o 10% yng ngrant y Parc Cenedlaethol ar gyfer 2021/22, adroddwyd bod gan yr Awdurdod weddill o hyd o £476,251, sydd bellach wedi ei glustnodi ar gyfer dibenion penodol, gan gynnwys gwella cydnerthedd yr Awdurdod, cynyddu capasiti'r Awdurdod, yr agenda datgarboneiddio ac ymrwymiadau cyfalaf. |
| | |
| **Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2022/23 – 2025/26** | Yn ei gyfarfod ar y 9fed o Chwefror 2022, cyflwynodd y Prif Weithredwr y Cynllun Ariannol Tymor Canolig diwygiedig ar gyfer 2022/23 – 2025/26 i'r Awdurdod, sy'n amlinellu ystod o sefyllfaoedd ariannol a allai wynebu'r Awdurdod dros y pedair blynedd nesaf. Mae'r Cynllun yn amlinellu model o'r adnoddau ariannol sydd eu hangen ar yr Awdurdod ar gyfer y lefelau gwasanaeth y mae'n gobeithio eu darparu yn y tymor canolig.<br><br>Cadarnhaodd y Cynllun fod y targedau incwm ar gyfer 2022/23 wedi eu cynnal ar yr un lefel â 2021/22. Dywedwyd hefyd y bydd setliad craidd Grant y Parc Cenedlaethol yn debygol o aros ar yr un lefel dros y 3 blynedd nesaf, ac er nad oes darpariaeth ar gyfer chwyddiant, mae hyn o leiaf yn rhoi rhywfaint o sicrwydd o ran sefyllfa ariannol yr Awdurdod.<br><br>Mae unrhyw arian ychwanegol a dderbynnir trwy grantiau penodol (heblaw grantiau craidd) yn dod â gwaith gweinyddol ychwanegol yn ei sgil, felly mae angen ystyried y pwysau gwaith ychwanegol ar rai o wasanaethau'r Awdurdod. |

| | |
|---|---|
| **Rheoli Perfformiad** | Fel rhan o'r Grŵp Tasg a Gorffen Adolygu Llywodraethu, mae'r mecanwaith ar gyfer adolygu perfformiad mewn perthynas â Datganiad Llesiant yr Awdurdod a'r Rhaglen Waith Gorfforaethol bellach wedi'u nodi'n ffurfiol.<br><br>Mae'n cadarnhau y bydd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn craffu perfformiad ar y camau gweithredu a gynhwysir yn y Rhaglen Waith Gorfforaethol sy'n rhoi cipolwg ar gynnydd bob chwarter.<br><br>Hefyd, Adroddiad blynyddol i'w baratoi a'i ystyried gan yr Awdurdod yn dilyn diwedd y flwyddyn i asesu perfformiad cyffredinol ar gyrraedd Amcanion Llesiant yr Awdurdod. |

**Egwyddor 5:** Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion ynddo

| | |
|---|---|
| **Rol Disgrifiadau Aelodau** | Fel rhan o gylch gwaith y Grŵp Tasg a Gorffen Adolygu Llywodraethu, adolygwyd y disgrifiadau rôl bresennol ar gyfer Aelodau'r Awdurdod.<br><br>Gwnaethpwyd newidiadau i gryfhau pwyslais rôl aelodau wrth osod cyfeiriad strategol ac uchelgais ar gyfer yr Awdurdod, gan ddarparu cyflwyniad trosfwaol gan gynnwys pwrpas Parciau Cenedlaethol a rôl yr Awdurdod wrth gyflawni'r dibenion hyn, a chryfhau'r adran ar ddatblygiad personol a rôl.<br><br>Mabwysiadwyd y disgrifiadau rôl newydd ar gyfer Aelodau a'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd gan yr Awdurdod ar yr 27ain o Ebrill 2022. |
| | |
| **Presenoldeb Aelodau** | Parhaodd pob cyfarfod i gael ei gynnal ar-lein yn ystod y flwyddyn, wrth i donnau newydd o Covid-19 ddod i'r amlwg a chyfyngiadau gael eu tynhau ar wahanol adegau.<br><br>Mae platfform ar-lein Zoom ar gyfer cynnal pwyllgorau a chyfarfodydd eraill bellach wedi'i sefydlu'n dda ar draws yr Awdurdod ac mae'n gweithio'n dda.<br><br>Roedd presenoldeb aelodau mewn cyfarfodydd yn ystod 2021/22 yn 85%, o gymharu â 90% yn 2020/21 ac 81% yn 2019/20. |

| | |
|---|---|
| | Mae gwaith ar y gweill gan wasanaeth TG yr Awdurdod i adnabod platfform priodol ar gyfer cynnal cyfarfodydd hybrid yn y flwyddyn nesaf ac i argymell lleoliad priodol ar gyfer hyn.<br><br>Os bydd yr Awdurdod yn symud ymlaen lawr y trywydd hwn, mae'n debygol y bydd anghenion hyfforddi ychwanegol ar gyfer Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion pwyllgorau a chyfarfodydd, i sicrhau bod cyfarfodydd yn cael eu rheoli'n effeithiol i alluogi pawb i gyfrannu'n llawn. |
| | |
| **Hyfforddiant Aelodau** | Fel y nodwyd uchod, roedd cyfyngiadau Covid-19 ar waith am y rhan fwyaf o 2021/22, ac felly ychydig iawn o gyfleoedd hyfforddi wyneb yn wyneb oedd ar gael i Aelodau.<br><br>Fodd bynnag, ar yr 25ain o Fawrth 2022, cynhaliwyd y Diwrnod Datblygu Aelodau mewn person cyntaf ers 2 flynedd.<br><br>Yn 2021/22, roedd presenoldeb aelodau mewn digwyddiadau hyfforddi yn 75% (69% yn 2020/21).<br><br>Fel rhan o waith y Grŵp Tasg a Gorffen Adolygu Llywodraethu, mae argymhelliad wedi'i gyflwyno i ddatblygu Strategaeth Datblygu Aelodau. Bydd y gwaith cychwynnol yn canolbwyntio ar y newid disgwyliedig i Aelodau yn dilyn etholiadau llywodraeth leol ar y 5ed o Fai 2022. Cynigir:<br>• Cynnal asesiad sgiliau cyfunol, a fydd yn orfodol i bob Aelod newydd ei gwblhau;<br>• Bod y sesiynau sefydlu mewnol yn cael eu hadolygu a'u gwella;<br>• Cynnig hyfforddiant ar gadeirio cyfarfodydd i bawb a benodir yn Gadeirydd neu'n Is-Gadeirydd; a<br>• Ystyried penodi mentor ar gyfer pob Aelod newydd ym mis Mai 2022. |
| | |
| **Gwerthusiadau Perfformiad a Hyfforddiant Staff** | Mae anghenion dysgu a datblygu yn cael eu hadnabod mewn adolygiadau gwerthuso perfformiad blynyddol, ac mae cynllun hyfforddiant yn cael ei gynhyrchu gan y Pennaeth Personél sy'n amlinellu'r blaenoriaethau hyfforddiant ar gyfer y flwyddyn i ddod. |

| | |
|---|---|
| | Mynegwyd pryder dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau bod canran y staff a arfarnwyd yn parhau i fod yn isel, ac yn 2020/21 roedd wedi gostwng i 32%, sydd heb ei debyg. Oherwydd diffyg adnoddau personél, nid oes data ar gael ar hyn o bryd ar gyfer y ganran a arfarnwyd yn 2021/22.<br><br>Fodd bynnag, mewn arolwg staff a gynhaliwyd yn 2021/22, cytunodd 87% o'r staff eu bod yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau (81.5% yn 2020/21). |
| | |
| **Strategaeth Adnoddau Dynol** | Roedd absenoldebau salwch staff yn 11.5 diwrnod yn 2019/20, ond roedd hyn wedi gostwng yn sylweddol i 3 diwrnod yn 2020/21. Credir bod cyfuniad o'r rhan fwyaf o staff sy'n gweithio gartref a chysylltiadau cymdeithasol cyfyngedig oherwydd cloi lawr wedi lleihau salwch heintus yn sylweddol, sydd wedi arwain at lai o absenoldeb oherwydd salwch ymhlith staff o ganlyniad.<br><br>Fodd bynnag, nid oes data personél pellach ar gael ar hyn o bryd, gan nad yw'r Adroddiad Diweddaru Blynyddol ar weithredu Strategaeth Adnoddau Dynol yr Awdurdod wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn ystod 2021/22. Mae hyn oherwydd bod y Pennaeth Personél wedi ymddeol ar y 30ain o Fehefin 2021, a'r methiant dilynol i benodi i'r swydd.<br><br>Mae'n amlwg bod angen adolygu a diweddaru'r Strategaeth Adnoddau Dynol fel mater o flaenoriaeth. Mae recriwtio a chadw yn risgiau cynyddol i'r Awdurdod fel y mae cynllunio olyniaeth.<br><br>Mae Pennaeth Personél newydd wedi'i phenodi a disgwylir iddi ddechrau yn ei swydd ar y 13eg o Fehefin 2022. Y gobaith yw y bydd y Pennaeth Personél maes o law yn gallu adolygu'r strategaeth a chynhyrchu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r materion hyn. |
| | |
| **Gwydnwch yr Awdurdod: Telerau ac Amodau Staff** | Adnabuwyd adroddiad Archwilio Cymru ar Gydnerthedd yr Awdurdod a gallu'r Awdurdod i gwrdd â heriau cyfredol a heriau sy'n dod i'r amlwg ynghyd â materion yn ymwneud â chadw a recriwtio staff fel materion i fynd i'r afael â hwy.<br><br>Trafododd yr Aelodau y materion hyn yn fanwl a chomisiynwyd adroddiad, a ddaeth i'r casgliad nad oedd strwythur cyflogau'r Awdurdod yn gystadleuol, o'i gymharu â chyflogwyr eraill yn y sector cyhoeddus. |

| | |
|---|---|
| | Argymhellodd yr Aelodau hefyd y dylid cynnwys cydnabyddiaeth o ddwyieithrwydd yn yr adolygiad o strwythur tâl yr Awdurdod. Roedd yr Aelodau o'r farn bod y gallu i fod yn ddwyieithog yn hanfodol i alluogi'r Awdurdod i ddarparu ei wasanaethau, ac mae achos busnes i gydnabod hynny yn ei strwythur tâl.<br><br>Ar ôl ymgynghori â staff ac Undebau, rhoddwyd cymeradwyaeth gan yr Awdurdod ar y 9fed o Ebrill 2022 ar gyfer:<br><br>• Addasiad ym mandiau cyflog yr Awdurdod gan ddau bwynt cyflog (i fyny) ar y meingefn cyflogau.<br>• Diwrnod ychwanegol o wyliau ar Ddydd Gŵyl Dewi o 2022 ymlaen.<br>• Cadw'r pwynt cyflog olaf mewn unrhyw fand cyflog yn amodol ar gyrraedd safon y cytunwyd arni yn y Gymraeg a'r Saesneg. |

**Egwyddor 6:** Rheoli risgiau a pherfformiad trwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref

| | |
|---|---|
| **Datganiadau Ariannol** | Ni chwblhawyd y Datganiad Cyfrifon drafft o fewn yr amserlen estynedig sef y 31ain o Awst 2021. Cawsant eu hardystio (yn amodol ar archwiliad) gan y Prif Swyddog Cyllid yr Awdurdod a'u cyflwyno i'r Awdurdod ar y 13eg o Hydref 2021.<br><br>Cyn hyn, roedd yr Aelodau wedi cymeradwyo'r Adroddiad Alldro ar gyfer 2020/21 mewn cyfarfod arbennig o'r Awdurdod ar yr 30ain o Fehefin 2021.<br><br>Archwiliwyd y Datganiad Cyfrifon gan Archwilio Cymru, a chyflwynwyd y fersiwn derfynol (ôl-archwiliad) o'r Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2020/21 ynghyd â'r Llythyr Cynrychiolaeth Terfynol i'r Aelodau mewn cyfarfod arbennig o'r Awdurdod ar yr 24ain o Dachwedd 2021 i'w cymeradwyo yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018.<br><br>Yn yr un cyfarfod, cyflwynodd Archwilio Cymru ei adroddiad ISA260 blynyddol i'r Awdurdod. Cadarnhaodd yr Archwilydd y byddai'n cyflwyno barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol a nodiadau cysylltiedig yr Awdurdod. |
| | |

| | |
|---|---|
| **Rheoli Risg** | Mae’r Gofrestr Risg yn cael ei hadolygu a’i diweddaru’n chwarterol gan Benaethiaid Gwasanaeth a’r Tîm Rheoli.<br><br>Fel y nodir yn y Gofrestr Risg, mae’r cyfrifoldeb dros y risgiau a adnabuwyd yn cael eu dyrannu i swyddogion a enwir ac mae dyddiad targed yn cael ei osod ar gyfer mesurau lliniaru.  Mae’r Gofrestr Risg yn cael ei hadolygu gan Aelodau ym mhob Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ac mae unrhyw risgiau sy’n cael eu tynnu i ffwrdd o’r Gofrestr yn cael ei gadarnhau yn flynyddol mewn cyfarfod yr Awdurdod. |
| | |
| **Archwilio Allanol** | Yng nghyfarfod yr Awdurdod ar yr 28ain o Ebrill 2021, cyflwynodd Archwilio Cymru ei adroddiad yn nodi ei ganfyddiadau yn dilyn ei Adolygiad o Wasanaethau Cydnerth a Chynaliadwy. Mae manylion llawn y canfyddiadau wedi’u nodi o dan Adran 6 (Materion Llywodraethu Arwyddocaol) yn y Datganiad hwn.<br><br>Yn yr un cyfarfod, cyflwynodd Archwilio Cymru eu Cynllun Archwilio ar gyfer 2021/22. Roedd y Cynllun Archwilio wedi ymgorffori effeithiau posibl Covid-19 ar waith yr Awdurdod yn ogystal ag ar allu Archwilio Cymru i gyflawni ei waith.<br><br>Roedd y Cynllun Archwilio yn nodi trefniadau diwygiedig ar gyfer yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol, a fyddai'n dibynnu ar bryd y gallai'r Awdurdod gwblhau'r cyfrifon. Roedd hefyd yn nodi’r bwriad o gynnal archwiliad perfformiad a fyddai’n adlewyrchu’r risgiau a’r cyfleoedd a amlygwyd yn adolygiad 2019/20 o gyfranogiad ac adolygiad 2020/21 o gydnerth corfforaethol.<br><br>Ymhellach i hyn, yng nghyfarfod yr Awdurdod ar yr 8fed o Ragfyr 2021, cyhoeddodd Archwilio Cymru Dystysgrif i gadarnhau, yn dilyn archwiliad o Asesiad yr Awdurdod o'i berfformiad ar gyfer 2020/21, fod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswydd o dan adran 15(2) (8) a (9) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.<br><br>Yng nghyfarfod yr Awdurdod ar yr 9fed o Chwefror 2022, cyflwynodd Archwilio Cymru Grynodeb Archwilio Blynyddol o'r gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2021. Nododd yr adroddiad fod yr Archwilydd Cyffredinol wedi rhoi barn wir a theg ddiamod ar ddatganiadau ariannol yr Awdurdod ar yr 29ain o Dachwedd 2021, cyn y dyddiad cau statudol.<br><br>Dywedwyd hefyd bod Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac Adroddiad Naratif yr Awdurdod wedi'u paratoi yn unol â Chod CIPFA a chanllawiau perthnasol. |

| | |
|---|---|
| | Nododd yr Archwilydd Cyffredinol fod cynnydd wedi'i wneud o ran gwella ansawdd y datganiadau drafft a gyflwynwyd i'w harchwilio ar yr 27ain o Orffennaf 2021. Erys lle i wella ymhellach fod rhai anghysondebau rhwng y datganiadau ariannol a'r papurau gwaith ategol wedi'u nodi.<br><br>Yng nghyfarfod yr Awdurdod ar yr 28ain o Ebrill 2022, cyflwynodd Archwilio Cymru ei Gynllun Archwilio ar gyfer 2022. Mae'r adroddiad yn nodi'r risgiau archwilio a'r ymateb archwilio arfaethedig i'w cynnal yn ystod y flwyddyn. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi nad yw'r archwiliad perfformiad wedi'i gadarnhau eto. Cadarnhawyd y ffioedd archwilio hefyd. |
| | |
| **Archwiliad Mewnol** | Bydd y Rheolwr Archwilio Mewnol yn adrodd ar waith y flwyddyn ariannol ddiwethaf yng nghyfarfod y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ym mis Gorffennaf.<br><br>Cynlluniwyd i bedwar archwiliad mewnol gael eu cynnal yn ystod 2021/22, sef Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Trefniadau Tendro, Rheoli Absenoldebau a Chynlluniau Parhad Busnes.<br><br>Roedd archwiliadau Trefniadau Tendro a Chynlluniau Parhad Busnes wedi cael eu graddio fel "Cyfyngedig" - er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth gyda'r rheolaethau a / neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau y mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.<br><br>O ganlyniad i'r raddfa a roddwyd i hyn, cytunwyd ar bwyntiau gweithredu penodol ac ar amserlen i'w gwblhau gyda'r swyddogion perthnasol, er mwyn mynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd.<br><br>Yn yr archwiliad ar Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gafodd ei raddio fel "Digonol" - mae yna reolyddion yn eu lle i gyflawni'r amcanion ond mae rhai agweddau lle gellir tynhau'r trefniadau er mwyn lliniaru risgiau ymhellach.<br><br>Cafodd archwiliad Rheoli Absenoldebau a Llesiant Staff ei radio yn "Uchel" - gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion. |
| | |

| | |
|---|---|
| **Iechyd a Diogelwch** | Mae'r Grŵp Iechyd a Diogelwch yn cyfarfod bob chwarter i fonitro materion iechyd a diogelwch o fewn yr Awdurdod.<br><br>Mae'r Adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynyddol a gyflwynwyd gerbron y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn cynnwys manylion y cyrsiau hyfforddiant a wnaed yn ystod y flwyddyn a'r digwyddiadau / damweiniau a gofnodwyd.<br><br>Adroddwyd ei bod yn arferol cymharu data o flwyddyn i flwyddyn ar ddigwyddiadau a gofnodwyd, sydd hefyd yn cynnwys digwyddiadau y mae'n rhaid adrodd y neu cylch i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o dan y 'Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR)'. Fodd bynnag, nid yw data o 2020/21 yn gynrychioliadol oherwydd nifer o ffactorau gan gynnwys gweithio gartref ac atal busnes ym Mhlas Tan y Bwlch.<br><br>Mynegwyd pryder ynghylch y diffyg data cymaradwy, a chytunwyd y byddai'r Pennaeth Personél yn cylchredeg data pellach yn ôl y gofyn. |
| | |
| **Canolfannau Gwybodaeth** | Mae gan yr Awdurdod 3 Ganolfan Gwybodaeth ym Metws y Coed, Beddgelert ac Aberdyfi, sydd yn cael eu rheoli gan Reolwr Masnachol y Canolfannau, gyda'r prif nod i sicrhau bod y canolfannau yn hyfyw fasnachol / hunangynhaliol.<br><br>Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol y Canolfannau Croeso i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar yr 24ain o Dachwedd 2021. Roedd yr adroddiad yn rhoi trosolwg o'r flwyddyn 2021/22 hyd yma, a'r camau i'w cymryd yn 2022/23.<br><br>Adroddwyd bod y cyfyngiad ar niferoedd oherwydd cyfyngiadau Covid a gostyngiad mewn oriau agor yn ffactorau sydd wedi effeithio'n negyddol ar niferoedd ymwelwyr. Yn ogystal, mae lefelau recriwtio a chadw staff yn achosi problemau.<br><br>Roedd yr adroddiad yn amlinellu niferoedd ymwelwyr manwl a data gwariant y pen ym mhob un o'r Canolfannau. |
| | |
| **Strategaethau Benthyca a Buddsoddi / Rheoli'r Trysorlys** | Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol sy'n darparu'r gweithgaredd Rheoli Trysorlys gwirioneddol (benthyca a buddsoddi) yr Awdurdod yn ystod 2020/21, i gyfarfod yr Awdurdod ar y 9fed o Fehefin 2021. |

| | |
|---|---|
| | Yn ystod 2020/21 arhosodd gweithgarwch yr Awdurdod o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol. Ni fu unrhyw fenthyca.<br><br>Yn 2020/21, cyfanswm y llog a dderbyniwyd o fuddsoddiadau oedd £11,113. Mae llog a dderbyniwyd o fenthyciadau ceir o £1,194 yn cynyddu'r cyfanswm i £12,307 yn erbyn cyllideb o £23,000.<br><br>Mae swm llog banc a chymdeithas adeiladu o £11,113 ar gyfer 2020/21 yn llawer is na'r swm cyfatebol o £48,077 yn 2019/20. Y prif reswm yw bod cyfraddau llog wedi gostwng yn gyffredinol oherwydd effeithiau'r pandemig, a bod yr Awdurdod wedi rhoi'r gorau i adneuo cyfrifon rhybudd 95 diwrnod ar sail cyngor proffesiynol.<br><br>Rhoddwyd adroddiad ar lafar Intermin ar Reoli'r Trysorlys yn yr Awdurdod ar y 8fed o Rhagfyr 2021. Dywedodd y Prif Swyddog Cyllid fod cronfeydd a buddsoddiadau'r Awdurdod yn parhau i fod yn ddiogel a bod cyfraddau llog yn parhau i fod yn isel iawn.<br><br>Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Cyllid y Strategaeth Cyfalaf ar gyfer 2022/23 yng nghyfarfod yr Awdurdod ar y 9fed o Chwefror 2022.<br><br>Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg lefel uchel o sut mae gwariant cyfalaf, ariannu cyfalaf a gweithgarwch rheoli'r trysorlys yn cyfrannu at gyflawni gwasanaethau'r Parc Cenedlaethol ynghyd â throsolwg o sut y caiff y risg cysylltiedig ei reoli a'r goblygiadau ar gyfer cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol.<br><br>Mae'r adroddiad yn cadarnhau bod yr Awdurdod yn cychwyn 2022/23 yn ddi-ddyled. Cymeradwyodd yr Aelodau 'dim newid' i'r cyfyngiad benthyca awdurdodedig a'r ffin weithredol, a chymeradwywyd y Strategaeth Benthyca Cyfalaf a'r Strategaeth Buddsoddi ar gyfer 2022/23, a nodi'r cynnwys sy'n ymwneud a'r Cod Darbodus. |
| | |
| **Ganolfan Astudio Plas Tan y Bwlch** | Yng nghyfarfod yr Awdurdod Arbennig a gynhaliwyd ar yr 23ain o Hydref 2020, penderfynodd yr Aelodau barhau i weithredu Plas Tan y Bwlch fel llety Gwely a Brecwast yn y tymor byr i ganolig; bwrw ymlaen gyda'r gwaith o ailstrwythuro staff; parhau â'r ddeialog gydag ystod o bartneriaid posibl yn y dyfodol; ac adrodd ar y cynnydd i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau. |

| | |
|---|---|
| | Cynyddwyd y risgiau o fethu â chyrraedd y targed cynhyrchu incwm ar gyfer Plas Tan y Bwlch i Uchel ar Gofrestr Risg yr Awdurdod ym mis Mawrth 2022. Amlinellir y manylion o dan adran 6 y datganiad hwn.<br><br>Mae'r Prif Weithredwr eisoes wedi hysbysu'r Aelodau yn y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar yr 24ain o Dachwedd 2021, y bydd angen ystyried dyfodol Plas Tan y Bwlch ar ddiwedd tymor 2022. |
| | |
| **Yr Ysgwrn** | Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Yr Ysgwrn i'r Awdurdod ar yr 28ain o Ebrill 2022.<br><br>Mae'r adroddiad yn cadarnhau bod gan Yr Ysgwrn orwariant o £7,000 ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2021/22 oherwydd gostyngiad mewn incwm, cost comisiynu Cwricwlwm Yr Ysgwrn a chostau rheoli eiddo oherwydd amrywiol broblemau technegol gyda'r larwm a'r boeler biomas.<br><br>Mae'r adroddiad hefyd yn nodi'r cynlluniau safle arfaethedig ar gyfer y flwyddyn i ddod ac yn cydnabod bod targedau'r gyllideb yn heriol. Nid yw niferoedd ymwelwyr a thueddiadau incwm cyfatebol yn glir oherwydd yr aflonyddwch a achosir gan bandemig Covid-19. |
| | |

**Egwyddor 7:** Rhoi arferion da ar waith o ran tryloywder, adrodd, ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol

| | |
|---|---|
| **Datganiad Polisi Tâl** | Mae gofyniad ar Awdurdodau Lleol i baratoi datganiadau polisi tâl o dan Adran 38(1) o Ddeddf Lleoliaeth 2011. Er bod Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol wedi'u heithrio o'r gofyniad hwn ystyriwyd ei fod yn arfer da mabwysiadu datganiad o'r fath, ac yn unol â hynny gwneir hyn yn flynyddol gan y Pennaeth Personél.<br><br>Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol Polisi Tâl ar gyfer 2021/22 a Datganiad Polisi Tâl yr Awdurdod ar gyfer 2022/23 gerbron y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar yr 23ain o Fawrth 2022 gan sicrhau tryloywder o ran y taliadau cydnabyddiaeth ariannol i staff yn yr Awdurdod. |

| | |
|---|---|
| | Ar adeg adrodd, dim ond yn ddiweddar y cytunwyd ar y Dyfarniad Cyflog ar gyfer 2021/22, sy'n golygu bod ôl-dâl o fis Ebrill 2021 wedi'i dalu i'r holl staff yng nghyflogau Mawrth 2022. |
| | |
| **Adroddiad Blynyddol a Chynllun Gwella 2020/21** | Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol a'r Cynllun Gwella ar gyfer 2020/21 yng nghyfarfod yr Awdurdod ar y 13eg o Hydref 2021, cyn iddo gael ei gyhoeddi ar y wefan a'i ddosbarthu i brif ganolfannau'r Awdurdod, llyfrgelloedd cyhoeddus ac ati, o fewn y Parc Cenedlaethol.<br><br>Mae'n cynnwys Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd ar gyfer y flwyddyn, sy'n nodi'r hyn a gyflawnwyd, beth na chafodd ei gyflawni ac unrhyw broblemau a wynebwyd.<br><br>Mae hefyd yn cynnwys manylion am Flaenoriaethau Gwasanaeth yr Awdurdod ac Amcanion yr Awdurdod a osodir yn flynyddol sy'n bwydo i mewn ac yn dangos sut y bwriedir mynd â'r Parc Cenedlaethol yn ei flaen er mwyn gwireddu gweledigaeth yr Awdurdod; gwerthusiad cryno o'r cynnydd a wnaed o ran cwrdd ag Amcanion yr Awdurdod, y gweithgareddau gwaith allweddol ar gyfer 2020/21, a rheoli perfformiad (gan gynnwys canlyniadau dangosyddion perfformiad ar gyfer y flwyddyn).<br><br>Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol wrth yr Aelodau, yn dilyn mabwysiadu Datganiad Llesiant 2021 – 2026, fod y broses bellach wedi newid, ac mai dyma'r tro olaf i'r Adroddiad Blynyddol gael ei gyflwyno yn y fformat presennol o dan y Mesur Llywodraeth Leol. |
| | |
| **Darlledu Pwyllgorau** | Fel rhan o gylch gorchwyl y Grŵp Tasg a Gorffen Adolygu Llywodraethu, ystyriwyd sut y dylid cynnal cyfarfodydd pwyllgor yn y dyfodol yn ogystal â symud ymlaen gyda darlledu pwyllgorau.<br><br>Trafodwyd argymhellion a wnaed gan y Grŵp Tasg a Gorffen yn y Gweithgor Aelodau ar yr 6ed o Ebrill 2022, cyn eu cyflwyno i'w cymeradwyo'n derfynol a'u mabwysiadu gan yr Awdurdod ddiwedd Ebrill 2022. Y rhain oedd:<br><br>Darlledu'r Awdurdod a Phwyllgorau Cynllunio a Mynediad yn y dyfodol yn fyw ar y wefan. Recordiadau o'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau i'w uwchlwytho ar ôl y cyfarfod er mwyn i'r cyhoedd eu gweld. |

| | |
|---|---|
| | Symud ymlaen gyda threfniadau heb gyfieithu cyfraniadau Saesneg.<br><br>Cyflwyno system cyn-gofrestru ar gyfer y cyhoedd.<br><br>Staff i ymchwilio i'r lleoliad gorau ar gyfer pwyllgorau hybrid a gwneud argymhelliad i'r Awdurdod maes o law. |
| | |
| **Craffu Aelodau** | Yn ystod 2021/22, derbyniwyd adroddiad gan y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar yr 14eg o Orffennaf 2021 ynglŷn â chynnydd y Grŵp Tasg a Gorffen ar graffu ar Gyfrif Carbon Eryri (a sefydlwyd yn 2020/21); a derbyniwyd adroddiad gan yr Awdurdod ar y 13eg o Hydref 2021 ar gynnydd y Grŵp Tasg a Gorffen i graffu ar ddiogelu Enwau Lleoedd Cymru.<br><br>Adroddodd y Grŵp Tasg a Gorffen ar Adolygu Llywodraethu hefyd eu hargymhellion i'r Gweithgor Aelodau ar yr 6ed o Ebrill 2022. Rhan o gylch gorchwyl y grŵp oedd edrych ar Graffu Strategol. Gwnaed nifer o argymhellion, gan gynnwys:<br><br>1. Grwpiau Tasg a Gorffen i gytuno o'r cychwyn cyntaf ar Gylch Gorchwyl sy'n nodi dyddiad adrodd terfynol, er mwyn sicrhau bod y grwpiau'n parhau i ganolbwyntio.<br>2. Dylid adolygu penodi Aelodau ar Grwpiau Tasg a Gorffen. Dylid penodi pobl sydd ag arbenigedd neu ddiddordeb yn y pynciau.<br>3. Oedi wrth bennu pynciau craffu 2022/23 hyd nes y ceir y Llythyr Cylch Gwaith Terfynol gan y Gweinidog, ac yn amodol ar hyn, cefnogi'r meysydd canlynol ar gyfer Grwpiau Tasg a Gorffen yn y dyfodol, sef:<br>• Camau Gweithredu ar Newid yn yr Hinsawdd<br>• Camau Gweithredu ar yr Argyfwng Bywyd Gwyllt a Natur<br>• Cynllunio Wrth Gefn a sut rydym yn delio â Digwyddiadau'r Dyfodol |

## 6. Materion Llywodraethu Arwyddocaol a Chamau a Bwriedir eu Cymryd ar gyfer 2022/23

Archwilio Cymru: Gwasanaethau Cydnerth a Chynaliadwy
Yn ystod 2020-21 adolygwyd cydnerthedd corfforaethol o bell, trwy astudio ac archwilio dogfennau perthnasol ac anfon arolwg allan i Aelodau a staff yn gofyn am eu barn.

Wrth adrodd ar y canlyniadau ym mis Ebrill 2021, daeth Archwilio Cymru i'r casgliad bod "yr Awdurdod wedi ymateb yn dda yn y pandemig ond mae'r heriau a wynebwyd ganddo wedi amlygu angen i wella'i gydnerthedd a'i gynaliadwyedd yn y tymor hwy".

Cynigion ar gyfer Gwella
Mae'r tabl islaw yn gosod allan y cynigion ar gyfer gwella a adnabuwyd gan Archwilio Cymru wrth ymgymryd â'r adolygiad. Yn ystod 2021/22, bu'r Awdurdod yn gweithio i roi'r cynigion hyn ar waith, ac mae'r canlyniadau wedi'u hadrodd o dan y penawdau penodol yn y Datganiad hwn. Mae rhywfaint o'r gwaith yn parhau i fynd rhagddo a bydd yn cael ei ddatblygu ymhellach yn 2022/23.

| | |
|---|---|
| CaG1 | I gefnogi cydnerthedd dylai'r Awdurdod gadarnhau ac arfarnu ei ffyrdd newydd o weithio mewn perthynas â llywodraethu, parhad busnes a gweithio o bell. |
| CaG2 | I gynyddu effaith prosiectau a ariennir â grantiau i'r eithaf dylai'r Awdurdod ddatblygu fframwaith i arfarnu eu cyfraniad posibl at symud Cynllun Eryri yn ei flaen ac i sicrhau bod cynllunio priodol ar gyfer etifeddiaeth yn digwydd. |
| CaG3 | I gefnogi mwy o gydnerthedd dylai'r Awdurdod ystyried sut a phryd i adael i swyddogion gael profiadau newydd mewn gwasanaethau a thimau ehangach i feithrin sgiliau, gwybodaeth a chapasiti. |

Archwilio Cymru: Adolygiad o sut mae'r Awdurdod yn Hyrwyddo Twristiaeth Gynaliadwy
Mae'r archwiliad wedi cymryd lle, ond nid yw Archwiliad Cymru wedi cyhoeddi adroddiad canlyniad yr adolygiad hwn eto.

Proffil Risg yr Awdurdod

Mae'r tri risg uchaf i'r Awdurdod fel y'u diweddarwyd ym mis Mawrth 2022, fel a ganlyn:

| Risg | Canlyniad | Gweithred a Nodwyd / Cynnydd hyd yma |
|---|---|---|
| Targed Cynhyrchu Incwm (Plas Tan y Bwlch). | Methu â chadw o fewn cyllideb yr Awdurdod. | Yng nghyfarfod yr Awdurdod ar y 23ain o Hydref 2020 cymerwyd y penderfyniad i weithredu Plas Tan y Bwlch fel busnes G&B yn y tymor byr i ganolog, ac i symud ymlaen i ailstrwythuro staff fel amlinellwyd yn yr adroddiad. Mae'r penderfyniad yn golygu bod y risg i'r Awdurdod wedi ei leihau rhywfaint. Fodd bynnag, mae yna risg i'r Awdurdod o hyd, er bod yr effaith a'r effaith debygol wedi lleihau rhywfaint.<br><br>Yn dilyn y broses o ailagor yr economi, mae Plas wedi cael tymor prysur yn gweithredu fel yr amlinellwyd uchod. Gwnaethom adrodd yn ddiweddar i Fwrdd Plas. Yr un fath â gweddill y sector, rydym wedi dioddef o brinder staff mewn mannau ac ansicrwydd Covid. Ar hyn o bryd rydym yn y broses o gyfrifo'r incwm am y flwyddyn hyd yma, ond rydym yn ymwybodol bod gorwariant wedi bod ar staff yn ogystal â chostau tanwydd ar gyfer rhedeg a gwresogi'r Plas. Ni fydd y costau ychwanegol hyn yn cael eu gwrthbwyso gan gynhyrchu incwm ac mae ganddynt y potensial i gael effaith fach ar gyfrifon yr Awdurdod. |
| Risg (cyhoeddusrwydd) o ganlyniad i'r Cynllun Traffig / Polisi Goriad Gwyrdd Eryri | Camreoli yn arwain at ddiffyg hygrededd yn yr Awdurdod a'i bartneriaid. | Mae datblygu Cynllun Yr Wyddfa wedi sefydlu perthynas well rhwng yr elfennau unigol sy'n ymwneud â rheolaeth ar Yr Wyddfa, gan gynnwys y gwasanaeth Sherpa.<br><br>Mae is-grŵp i Gynllun yr Wyddfa wedi ei ffurfio i adolygu'r gwasanaeth Sherpa a materion trafnidiaeth / parcio yn yr ardal. Mae astudiaeth rheoli traffig ar gyfer Yr Wyddfa ac Ogwen wedi'i chomisiynu a'i derbyn. Mae'r |

| | | |
|---|---|---|
| | | partneriaid wedi ystyried argymhellion yr adroddiad gyda Llywodraeth Cymru. Mae ymgynghoriad cyhoeddus wedi ei gynnal gyda'r cymunedau. Mae Trafnidiaeth Cymru yn ystyried dull gweithredu rhanbarthol ar gyfer materion o'r fath a gallai ffurfio Cydbwyllgorau Corfforaethol sydd â chyfrifoldeb penodol am drafnidiaeth ddarparu cyfleoedd pellach.<br><br>Disgwylir niferoedd digynsail o ymwelwyr dydd y DU eto'r haf hwn wrth i'r cyfnod cloi lacio, a fydd yn achosi problemau i gymunedau lleol. Er y cymerir dull gweithredu ar sail partneriaeth, canfyddiad y cyhoedd fydd mai'r Awdurdod sy'n llwyr gyfrifol. Mae nifer o fesurau lliniaru wedi eu rhoi mewn lle gyda partneriaid ar gyfer tymor 2021 ac bydd yn parhaui'r tymor 2022. |
| Agweddau o risg ariannol sy'n gysylltiedig â phrosiect LIFE Coedwigoedd Glaw Celtaidd gan gynnwys methu â chydymffurfio â rheolau caffael neu wariant ar gostau anghymwys gan arwain at beidio â dyfarnu'r grant, neu amrywiad yn y gyfradd gyfnewid Ewro / bunt. | Mae angen i APCE a phartneriaid eraill hunan ariannu gwariant ar agweddau o'r prosiect hyd yn hyn. | Ail adroddiad canol tymor i'r CE (a'r hawliad grant cysylltiedig) i fod i ddod i ben Ebrill 2022. Prosiect wedi cyrraedd trothwy gwariant ar gyfer gwneud yr hawliad hwn mewn pryd.<br><br>Adborth swyddogol y Comisiwn i'r adroddiad canol tymor cyntaf yn gadarnhaol ar y cyfan, does dim pryderon mawr wedi'u codi. Mynd i'r afael â mân bryderon ochr yn ochr â monitro'r Prosiect mewn pryd ar gyfer yr adroddiad canol tymor nesaf.<br><br>Llwyddodd y prosiect i gyrraedd y trothwy gwariant oedd ei angen er mwyn hawlio'r cyfanswm o £2m gan y Llywodraeth. Mae cyfraniad ariannol Llywodraeth Cymru nawr wedi dod i ben. |

## 7. Barn

Rydym yn bwriadu cymryd camau i ymdrin â'r materion y cyfeiriwyd atynt yn rhan 6 yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn gwella ein trefniadau llywodraethu ymhellach. Rydym yn fodlon y bydd y camau hyn yn mynd i'r afael â'r angen i wella a bennwyd yn yr adolygiad effeithiolrwydd a byddwn yn monitro eu gweithrediad fel rhan o'n hadolygiad blynyddol nesaf.

| | |
|---|---|
| ______________________________ | ______________________________ |
| **EMYR WILLIAMS** | |
| **PRIF WEITHREDWR<br>AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI** | **CADEIRYDD<br>AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI** |
| **DYDDIAD** | **DYDDIAD** |

**EITEM RHIF 15**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| **DYDDIAD:** | 15 Mehefin, 2022 |
| **TEITL:** | **RHAGLEN WAITH CORFFORAETHOL 2022-23 (DRAFFT)** |
| **AWDUR:** | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol |
| **PWRPAS:** | Derbyn, trafod a mabwysiadu'r Rhaglen Waith Corfforaethol (Drafft) fel dogfen weithredol ar gyfer 2022-23 |

## 1. CEFNDIR:

1.1. O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus gyhoeddi Datganiad Llesiant wrth osod eu hamcanion llesiant yn egluro pam eu bod yn teimlo y bydd yr amcan yn eu helpu i gyflawni'r nodau a sut mae wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Rhaid iddynt hefyd sicrhau eu bod yn cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau a bod y bobl hynny yn adlewyrchu amrywiaeth eu hardal.

1.2 Mae'r Datganiad Llesiant a'r Amcanion Llesiant wedi cael eu mabwysiadu fel dogfennau strategol gan yr Awdurdod yn ystod Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar 23 Mawrth, 2021. (Fel dogfennau strategol mae Asesiad Effaith Cydraddoldeb o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sydd bellach hefyd yn cynnwys sylw dyledus i'r Ddyletswydd Gymdeithasol-economaidd, wedi'i baratoi ac mae hwn ar gael ar gais).

1.3 Mae Datganiad Llesiant ar gyfer yr Awdurdod yn gosod allan amcanion llesiant sy'n disgrifio sut y byddant yn ein helpu i gyflawni'r saith nod llesiant i Gymru ac yn sefydlu'r rhesymeg a'r camau y byddwn yn eu cymryd i'w cyflawni.

1.4 Mae anghymsywiad (gyda chafeatau) Mesur Llywodraeth Leol 2009 yn caniatáu i'r Awdurdod fabwysiadu amcanion tymor hwy a fydd yn hwyluso gwell aliniad rhwng gwaith yr Awdurdod â Chynllun Rheoli'r Parc, y Cynllun Datblygu Lleol, mecanweithiau adrodd a sefydlu amcanion realistig a CHAMPUS ar gyfer rhaglenni gwaith blynyddol.

1.5 Mae'r Amcanion Llesiant sydd wedi eu mabwysiadu yn canolbwyntio ar dri maes gwaith allweddol - Amgylcheddau Cydnerth, Cymunedau Cydnerth a Ffyrdd Cydnerth o Weithio - ynghyd â phum is-thema i ddarparu ffocws.

1.6 Mae'r tri maes gwaith allweddol wedi ei datblygu i Raglen Waith Corfforaethol blynyddol ac wedi ei diweddaru ar gyfer 2022-23 sy'n amlinellu prosiectau, mentrau a chamau gweithredol penodol a fydd yn cael eu cynnal i gyflawni'r Amcanion Gwelliant a Blaenoriaethau Gwasanaeth.

1.7 Unwaith y cwblheir y prosiectau a'r mentrau, bydd yr Awdurdod yn gallu mesur os yw'r gwelliannu wedi cael eu cyflawni ymhob un o'r tri maes allweddol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2022-23.

1.8 Yn ddiweddar, mae'r Awdurdod wedi derbyn Llythyr Cylch Gwaith Llywodraeth Cymru sy'n gosod allan yr Amcanion Blaenoriaeth a Gweithredoedd mae'r Llywodraeth yn disgwyl i'r Awdurdod weithredu yn ystod tymor y Senedd.

Mae'r blaenoriaethau wedi eu grwpio i bedair thema weithredu:

- Yr Amgylchedd
- Pobl a Lleoedd
- Rhagoriaeth mewn Llywodraeth a Chynllunio
- Cydweithio

sy'n unioni'n dda gyda'r amcanion llesiant sydd wedi'u mabwysiadu gan yr Awdurdod.

1.9 Mae Rhaglen Waith Corfforaethol yr Awdurdod wedi ei chroesgyfeirio gydag amcanion Llythyr Cylch Gwaith Llywodraeth Cymru a phrosiectau wedi eu nodi bydd, unwaith wedi'u gweithredu/cwblhau, yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion blaenoriaethau LlC.

## 2. GOBLYGIADAU ADNODDAU:

2.1 Bydd y Rhaglen Waith Corfforaethol yn cael effaith ar adnoddau staff a goblygiadau ariannol ill dau ond fe ystyriwyd y ffactorau hyn wrth baratoi'r Rhaglen Waith.

## 3. ARGYMHELLIAD:

**3.1 Bod yr Aelodau yn mabwysiadu'r Rhaglen Waith Corfforaethol (Drafft) fel dogfen weithredol ar gyfer 2022-23.**

## 4. PAPURAU CEFNDIROL:

4.1 Rhaglen Waith Corfforaethol 2022-23 (Drafft).

4.2 Datganiad Llesiant APCE 2021-26

JO/RWC/Adroddiad RhWC 2022
APCE 15 06 22

DOGFEN WEITHREDOL (DRAFFT)

**AMCANION LLESIANT 2021-26 (Cyfeiriwch hefyd at Ddatganiad Llesiant APCE 2021-26)**

# RHAGLEN WAITH CORFFORAETHOL 2022-23

**Yr Amcanion Llesiant, Prosiectau a Mentrau Cyfatebol a Chanlyniadau llwyddiant**
**(Wedi eu croesgyfeirio at Lythyr Cylch Gwaith Tymor y Llywodraeth, Llywodraeth Cymru ar gyfer APCE)**

## 1. AMGYLCHEDDAU CYDNERTH

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | AC 1 | GWELLA RHEOLAETH HAMDDEN AC UNRHYW EFFEITHIAU NEGYDDOL HAMDDEN |
|---|---|---|

| Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen i gwblhau | Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol |
|---|---|---|
| **AC 1.1**<br>**Monitro nifer yr ymwelwyr trwy gyfrifwyr pobl i sefydlu effaith defnyddwyr ar draws y Parc Cenedlaethol** | Mawrth 2023 | Pennaeth Ymgysylltu + Rheolwr Mynediad a Lles |
| **AC 1.2**<br>**Ymgyrch Negeseuon Tymor 2022 i godi ymwybyddiaeth o Rinweddau Arbennig, dylanwadu ar ymddygiad cadarnhaol a mynd i'r afael â gwersylla anghyfreithlon - ei weithredu ac adrodd ar y canlyniadau/ cyrhaeddiad.**<br>➢ **Mae tri Pharc Cenedlaethol Cymru wedi cynnal ymgyrch ymwelwyr ar y cyd i fynd i'r afael â heriau rheoli ymwelwyr**<br>➢ **Rydym yn gweithio'n agos gyda Chyngor Gwynedd i fynd i'r afael â materion gwersylla anghyfreithlon a chartrefi modur.**<br>➢ **Archwiliwyd cyfleoedd i ddatblygu Profiadau Parc Cenedlaethol Cymru sy'n canolbwyntio ar Rinweddau Arbennig a thwristiaeth gynaliadwy** | Rhagfyr 2022 a Parhaus | Pen. Ymgysylltu + Rheolwr Twristiaeth Gynaliadwy |

**Troed nodyn:**
1. Mae llawer o'r Prosiectau a'r Mentrau yn berthnasol i sawl amcan llesiant ond cyfeirir atynt unwaith o dan yr amcan mwyaf priodol yn y Rhaglen Waith
2. Swyddog(ion) cyfrifol: Y Swyddog sydd wedi'i nodi gyntaf sy'n arwain

| Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen i gwblhau | Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol |
|---|---|---|
| **AC 1.3** **Gwell darpariaeth ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yng Nghanolfan Gwybodaeth Betws y Coed trwy uwchraddio'r cyfleusterau i ymwelwyr** | Disgwylir gorffen erbyn Mawrth 2022 | Rheolwr Twristiaeth Gynaliadwy |
| **AC 1.4** **Nodi a meintioli gwaith mynediad i liniaru effeithiau pwysau pobl** | Parhaus | Pen. Gwas. Wardeinio |
| **AC 1.5** **Cynrhyrchu Strategaeth Ymgysyllu ar gyfer gwaith llwybrau yn Eryri** | Medi 2022 | Pen. Gwas. Wardeinio |
| **AC 1.6** **Cynhyrchu canllawiau ar gyfer cyflawni gwaith mynediad yn Eryri** | Medi 2022 | Pen. Gwas. WArdeinio |
| **AC 1.7** **Sicrhau fod llwybrau a hyrwyddir yn cael eu harolygu, eu cynnal a'u gwella'n rheolaidd pan fo angen** | Parhaus | Pen. Gwas. Wardeinio |
| **AC 1.8** **Wardeiniaid Ardal i weithio gyda'r Cymunedau a phartneriaid i nodi a manteisio ar gyfleoedd i ddarparu ystod o lwybrau a hyrwyddir ar gyfer galluoedd amrywiol** | Parhaus | Pen. Gwas. Wardeinio |
| **AC 1.9** **Gweithio ar draws yr Awdurdod i integreiddio rhaglenni gwaith a datblygu Cynlluniau Ardal** | Parhaus | Pen. Gwas. Wardeinio |
| **AC 1.10** **Sicrhau cyllid a recriwtio swyddog i ddatblygu prosiect Yr Wyddfa Di-blastig** | Hydref 2022 | Rheolwr Partneriaethau |

**Troed nodyn:**
1. Mae llawer o'r Prosiectau a'r Mentrau yn berthnasol i sawl amcan llesiant ond cyfeirir atynt unwaith o dan yr amcan mwyaf priodol yn y Rhaglen Waith
2. Swyddog(ion) cyfrifol: Y Swyddog sydd wedi'i nodi gyntaf sy'n arwain

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | AC 2 | YMATEB I HERIAU NEWID YN YR HINSAWDD |
|---|---|---|

| Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen i gwblhau | Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol |
|---|---|---|
| **AC 2.1**<br>**Sicrhau gweithrediad y polisïau CDLl cyfredol sy'n cyfrannu at liniaru newid yn yr hinsawdd.** | Adroddiad blynyddol | Pennaeth Rheolaeth Datblygu a Chydymffurfiaeth (Pen. RhDaC)<br>Prif Swyddog Cynllunio Polisi |
| **AC 2.2**<br>**Effeithlonrwydd ynni a lleihau ôl-troed carbon adeiladau APCE i fod yn rhan annatod o'r Cynllun Rheoli Asedau newydd (i'w fabwysiadu o Ebrill 2022) ymrochol gyda Ffyniant i Bawb – Targedau Carbon Isel yr Ystâd Gyhoeddus** | Mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau o Ebrill 2022 + ymlaen | Pen. Eiddo |
| **AC 2.3**<br>**Datblygu Cynllun Gweithredu yn seiledig ar argymhellion yr astudiaeth carbon i APCE fod yn niwtral o ran carbon erbyn 2030** | Parhaus 2030 | Prif Weithredwr<br>Rheolwr Eiddo |
| **AC 2.4**<br>**Comisiynu adroddiad i nodi sut y gall yr Awdurdod gynorthwyo i sicrhau bod ardal y Parc Cenedlaethol yn garbon niwtral erbyn 2050 i gynnwys cyfeirnod penodol i reoli tir a gweithio tu hwnt i eiddo'r Awdurdod** | Rhagfyr 2022 | Prif Weithredwr |
| **AC 2.5**<br>**Cefnogi partneriaeth strategol gyda Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Arfordir Penfro ar Adfer Natur ac Atafaeliad Carbon yn Nhirweddau Dynodedig Cymru a cynnal swydd arweinydd strategol** | Parhaus | Prif Weithredwr |

**Troed nodyn:**

1. Mae llawer o'r Prosiectau a'r Mentrau yn berthnasol i sawl amcan llesiant ond cyfeirir atynt unwaith o dan yr amcan mwyaf priodol yn y Rhaglen Waith
2. Swyddog(ion) cyfrifol: Y Swyddog sydd wedi'i nodi gyntaf sy'n arwain

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | AC 3 | GWELLA RHEOLAETH A DEALLTWRIAETH O'N TREFTADAETH DDIWYLLIANNOL |
|---|---|---|

| Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen i gwblhau | Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol |
|---|---|---|
| AC 3.1<br>**Datblygu a mabwysiadu Strategaeth Treftadaeth Ddiwylliannol APCE** | Hydref 2022 | Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol |
| AC 3.2<br>**Sicrhau fod Rhaglen Waith Cynllun Partneriaeth Tirwedd y Carneddau ar gyfer 2021/22 wedi'i chwblhau mewn pryd i sicrhau bod y Prosiect yn parhau i fod ar y trywydd iawn i'w gwblhau erbyn 2025** | Parhaus - 2025 | Rheolwr Prosiect y Carneddau |
| AC 3.3<br>**Adolygu cynnydd wrth gyflawni Cynllun Treftadaeth Treflun Dolgellau yn barod ar gyfer cwblhau'r cynllun** | Erbyn diwedd y cynllun | Rheolwr Prosiect TT Dolgellau |
| AC 3.4<br>**Datblygu prosiect Treftadaeth Ddiwylliannol Harlech ac Ardudwy a fydd yn galluogi'r Awdurdod i wneud cais am arian allanol maes o law** | Mawrth 2023 | Swyddog Prosiect Treftadaeth Ddiwylliannol |
| AC 3.5<br>**Cyfrannu'n weithredol at raglen waith Cynllun Gweithredu Safle Treftadaeth y Byd Tirweddau Llechi Gogledd Orllewin Cymru** | Mawrth 2023 | Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol |
| AC 3.6<br>**Wardeiniaid i arwain teithiau cerdded misol gydag arbenigwr gwadd i hyrwyddo natur, diwylliant a threftadaeth** | Parhaus | Pen. Gwas. Wardeinio |
| AC 3.7<br>**Cyfrannu'n weithredol at raglen waith barhaus y Grŵp Amgylchedd Hanesyddol (HEG) dan arweiniad Cadw a'i weithgorau cysylltiedig, gan gynnwys Llesiant, Lliniaru Newid Hinsawdd, mawndiroedd a Threftadaeth Leol** | Parhaus | Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol |
| AC 3.8<br>**Cynnal a datblygu Yr Ysgwrn fel amgueddfa a chanolfan ddiwylliannol o fri cenedlaethol gan gynnwys cyflwyno'r prosiect arddangosfa 'Geiriau Diflanedig' ar y safle yn 2022-23 yn y byd ôl-cofid** | Medi 2023 | Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol<br>Swyddog Cynllunio'r Amgylchedd Hanesyddol |

**Troed nodyn:**

1. Mae llawer o'r Prosiectau a'r Mentrau yn berthnasol i sawl amcan llesiant ond cyfeirir atynt unwaith o dan yr amcan mwyaf priodol yn y Rhaglen Waith
2. Swyddog(ion) cyfrifol: Y Swyddog sydd wedi'i nodi gyntaf sy'n arwain

| Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen i gwblhau | Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol |
|---|---|---|
| **AC 3.9**<br>**Datblygu Cynllun Gwerthuso Ardaloedd Cadwraeth a Chynllun Rheoli/Cynllun Cyflenwi fel llinell sylfaen o wybodaeth ar gyfer datblygu prosiectau cyfalaf posibl yn y blynyddoedd dilynol** | Mawrth 2023 | Pen. RhDaCh |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn:** | **AC 4** | **MYND I'R AFAEL Â HERIAU A CHYFLEOEDD SENARIOS RHEOLI TIR AR ÔL BREXIT** |

| | | |
|---|---|---|
| **AC 4.1**<br>**Cynorthwyo i ddatblygu a dylunio cynigion rheoli tir yn y dyfodol gyda Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru, i sicrhau bod Eryri yn elwa o gynigion yn y dyfodol a bod nodau strategol Cynllun Eryri yn cael eu hadlewyrchu yng nghynigion y dyfodol.** | Parhaus | Pen. Cadwraeth, Coed ac Amaeth (CAA), PW + Cyfarwydddwr Cynllunio a Rheoli Tir |
| **AC 4.2**<br>**Cynnal perthynas waith agos gyda'r sector tir i sicrhau bod gan yr Awdurdod ddealltwriaeth o oblygiadau parhaus Brexit ar reoli tir** | Mawrth 2023 + Parhaus | Pen. CCA |

**Troed nodyn:**

1. Mae llawer o'r Prosiectau a'r Mentrau yn berthnasol i sawl amcan llesiant ond cyfeirir atynt unwaith o dan yr amcan mwyaf priodol yn y Rhaglen Waith
2. Swyddog(ion) cyfrifol: Y Swyddog sydd wedi'i nodi gyntaf sy'n arwain

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | AC 5 | MYND I'R AFAEL Â'R DIRYWIAD MEWN NATUR |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| AC 5.1<br>**Datblygu cynllun gweithredu yn seiliedig ar ddealltwriaeth a chynnwys e.e. SoNaRR (adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol), Adroddiad Cyflwr y Parc Cenedlaethol ayb. i hysbysu'r blaenoriaethau ar gyfer adfer natur yn Eryri** | Mawrth 2022 | Pen. Cadwraeth, Coed ac Amaeth |
| AC 5.2<br>**Parhau i ddarparu gwelliant bioamrywiaeth trwy'r broses rheoli datblygu yn dilyn cyhoeddi unrhyw ganllawiau gan Lywodraeth Cymru** | Adroddiad blynyddol | Pen. RhDaCh |
| **Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)** | **Amserlen i gwblhau** | **Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol** |
| AC 5.3<br>**Unwaith bydd canllawiau wedi'u cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru, sicrhau bod CCA ar fioamrywiaeth yn cael ei gynhyrchu erbyn 2023 i gefnogi'r broses Rheoli Datblygu** | Mawrth 2023 | Pen. RhD a Ch<br>Prif Swyddog Cynllunio Polisi (PSCP) |
| AC 5.4<br>**Parhau i ddarparu prosiectau cymeradwy sy'n mynd i'r afael â nodau Safle Eryri (e.e. HLF Carneddau, LIFE (Coedwig Law Geltaidd, Cyforgorsydd, Corsydd Crynedig, prosiect y Gylfinir) SMS Dinas Mawddwy, Rhaglen Genedlaethol Mawn, ENRAW, prosiectau Awyr Dywyll) a datblygu rhaglenni pellach** | Dau adroddiad y flwyddyn yn diweddaru ar brosiectau unigol | Pen. CCA a Rheolwyr Prosiectau |
| AC 5.5<br>**Symud ymlaen ag arolwg ledled y Parc Cenedlaethol o safleoedd Coed a Choetiroedd Hynafol (PAWS)** | Mawrth 2023 | Pen. CCA |

**Troed nodyn:**
1. Mae llawer o'r Prosiectau a'r Mentrau yn berthnasol i sawl amcan llesiant ond cyfeirir atynt unwaith o dan yr amcan mwyaf priodol yn y Rhaglen Waith
2. Swyddog(ion) cyfrifol: Y Swyddog sydd wedi'i nodi gyntaf sy'n arwain

## AMGYLCHEDDAU CYDNERTH: **Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan llesiant pan:**

**AC1:** Fyddwn wedi datblygu a gweithredu egwyddorion a throthwyon arweiniol mewn perthynas ag effeithiau ymwelwyr ar yr amgylchedd a'r dirwedd ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri  A1.1)***

**AC1:** Rydym wedi sicrhau bod llwybrau'r ucheldir yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda i reoli effeithiau erydiad a blaenoriaethu gwaith yn seiliedig ar nifer y defnyddwyr llwybrau troed ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri  A1.2)***

**AC1, 2:** Rydym wedi lleihau effeithiau parcio a thrafnidiaeth ar yr amgylchedd a'r dirwedd ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri  A1.4)***

**AC1:** Rydym wedi lleihau unrhyw effeithiau negyddol gweithgareddau hamdden ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri  A1.5)***

**AC1:** Gan ddefnyddio'r strategaeth marchnata brand fel sylfaen, byddwn wedi datblygu cynllun a rennir gyda phartneriaid ar y wybodaeth a ddarparwn i ymwelwyr, gyda phwyslais ar y Rhinweddau Arbennig a newid ymddygiad ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri  B3.3)***

**AC2, 4:** Mae allyriadau carbon Parc Cenedlaethol Eryri yn cael eu lleihau ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri  A3.1)***

**AC2, 4:** Rydym wedi diogelu a chynyddu faint o garbon sy'n cael ei storio yn Eryri ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri  A3.2)***

**AC3, 4, 5:** Rydym wedi cydlynu a gweithredu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar gynnal, adfer ac ehangu cynefinoedd, rhywogaethau, nodweddion amgylcheddol hanesyddol a nwyddau cyhoeddus ehangach ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri  A2.1)***

**AC5:** Mae dirywiad bioamrywiaeth yn cael sylw trwy weithgareddau cynnal a chadw, adfer, ehangu a chysylltedd ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri  A2.2)***

**AC2, 4, 5:** Rydym wedi parhau i ehangu gweithredoedd cyfredol y Bartneriaeth i reoli a lleihau maint y rhywogaethau goresgynnol **(yn unol â Chynllun Eryri A4.2)**

**AC3:** Rydym wedi cefnogi atgyweirio ac adfer adeiladau rhestredig, wedi cefnogi diogelu Henebion Rhestredig ac wedi datblygu a gweithredu prosiectau ar raddfa tirwedd sydd o fudd i'r amgylchedd hanesyddol. **(yn unol â Chynllun Eryri A6.1. A6.2. A6.3).**

## LLYTHYR CYLCH GWAITH, LLYWODRAETH CYMRU: YR AMGYLCHEDD

| **Amcanion blaenoriaeth a chamau gweithredu LlC ar gyfer APCE** | **Prosiect/Gwaith APCE** |
|---|---|
| Cefnogi ymrwymiad Llywdoraeth Cymru i greu economi ddi-garbon drwy weithio i fod yn garbon niwtral erbyn 2030 drwy'ch gwaith bob dydd ac amrywiaeth o ymyriadau datgarboneiddio | **AC 2.1. AC 2.2 AC 2.3 AC 2.4** |
| Caefnogi'r symudiad oddi wrth geir preifat i drafnidiaeth fwy cynaliadwy ar gyfer y rhan fwyaf o deithiau staff, ymwelwyr a defnyddwyr y gwasanaeth er mwyn cyrraedd y targed o 45% o deithiau'n defnyddio dulliau cynaliadwy erbyn 2040 | **CC 3.3**<br>**CW 2.3** |
| Rhoi help rhagweithiol i ddal a storio carbon gan gynnwys drwy helpu i greu coetiroedd lle bo hynny'n briodol a chefnogi'n not o gryfhau'r mesurau i ddiogelu coetiroedd hynafol, a chynyddu'r cysylltiad â rhaglen y Goedwig Genedlaethol | **AC 5.5 (PAWS)** |
| Cymryd camau i wella cysylltedd, cyflwr, maint ac amrywiaeth ecosystemau, a chynnal a gwella rhwydweithiau ecolegol cydnerth, gan ymgorffori'r gwaith sydd ei angen i daro'r targedau cenedlaethol sy'n deillio o'r ymrwymiad 30x30 | **AC 5.1 - AC 5.5** |
| Cefnogi'r rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawnogydd (NPAP) i adfer, gwella a chynnal rhwydweithiau ecolegol cydnerth, myned i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a rheoli dŵr. Dylech weithhio gyda CNC i daclo themâu'r NPAP, gan gynnwys y camau blaenoriaeth a'r themâu trawsbynciol | **AC 2.4 AC 5.1 AC 5.4** |
| Cefnogi ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i sefydlu cynllun â thargedau i helpu i adfer cynefinoedd morwellt a morfeydd heli ar hyd ein harfordir, helpu i wireddu uchelgeisiau Fframwaith Rheoli'r Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig a chyfranu at ddatblygu polisi ar garbon glas | **AC 5.1** |
| Cronfa gyfalaf tirweddau cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy, a chynlluniau eraill Llywodraeth Cymru i gyflawni nodau nature a datgarboneiddio | **CW 3.3** |
| Cymryd rhan weithredol mewn Cynlluniau Ynni Lleol i helpu i drawsnewid y system ynni sydd ei hangen i gyrraedd Sero Net, gan sicrhau mwy o fanteisio i'ch cymunedau | |
| Cymryd rhan gadarnhaol mewn mentrau i hyrwyddo ailddefnyddio a thrwsio, i gynyddu'r economi gylchol, a lleihau'r niwed a achosir i'r amgylchedd gan blastig untro drwy annog pobl i beidio â'i ddefnyddio lle gellir | **AC 1.10** |

# 2. CYMUNEDAU CYDNERTH

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CC 1 | CYNNAL A GWELLA ANSAWDD BYWYD PRESWYLWYR |
|---|---|---|

| Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 2.) | Amserlen i gwblhau | Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol |
|---|---|---|
| CC 1.1<br>**Datblygu adnodd ar-lein fel rhan o'r wefan newydd sy'n ymwneud â gweithgareddau a llwybrau yn y Parc Cenedlaethol wedi'i dargedu a'i deilwra'n briodol** | Gwaith i ddechrau Ebrill 2022 [unwaith bydd y safle We newydd wedi ei lansio | Pen. Ymgysylltu, Pen. Gwas. Wardeinio + Rheolwr Brand a Cynnwys y We |
| CC 1.2<br>**Fel rhan o'r Strategaeth Gwirfoddolwyr APCE ac mewn cydweithrediad â phartneriaid, parhau i ehangu cyfleoedd gwirfoddoli o fewn y Parc Cenedlaethol sy'n cynnwys gweithgareddau corfforol a diwylliannol** | Parhaus | Pen. Ymgysylltu + Swyddog Gwirfoddoli a Lles |
| CC 1.3<br>**Datblygu cyfleoedd gwirfoddoli i gymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol, rhai agored i niwed a grwpiau difreintiedig** | Parhaus | Pen. Ymgysylltu + Swyddog Gwirfoddoli a Lles |
| CC 1.4<br>**Sicrhau bod cynllunio yn cymryd rôl ragweithiol wrth annog tai fforddiadwy trwy weithio gydag asiantaethau eraill yn y sector hwn, er mwyn ceisio cyflawni'r targed blynyddol a nodir yn y CDLl** | Adroddiad blynyddol | Pen. RhDaCh |
| CC 1.5<br>**Parhau i ddarparu arian a mesurau i gefnogi cymunedau ac economïau lleol drwy Cronfa Cymunedol Eryri, yn enwedig lle mae'r rhain yn cael eu harwain gan gymunedau eu hunain, mewn seilwaith gwyrdd, gwell mynediad at hamdden ar gyfer iechyd a lles, cynhyrchu ynni, gwelliannau amgylcheddol lleol megis rheoli sbwriel a gwastraff, datblygu cymunedol a'r Iaith Gymraeg.** | Mawrth 2023 | Rheolwr Partneriaethau |

**Troed nodyn:**
1. Mae llawer o'r Prosiectau a'r Mentrau yn berthnasol i sawl amcan llesiant ond cyfeirir atynt unwaith o dan yr amcan mwyaf priodol yn y Rhaglen Waith
2. Swyddog(ion) cyfrifol: Y Swyddog sydd wedi'i nodi gyntaf sy'n arwain

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CC 2 | CEFNOGI POBL IFANC |
|---|---|---|

| Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 2.) | Amserlen i gwblhau | Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol |
|---|---|---|
| CC 2.1<br>**Paratoi Maniffesto Ieuenctid drafft i'w drafod a'i gymeradwyo gan yr Aelodau** | Medi 2022 | Pen. Gwas. Wardeinio |
| CC 2.2<br>**Ailgychwyn cynllun Ceidwaid Ifanc a mabwysiadu cynllun ar gyfer De'r Parc** | Gorff. 2022 | Pen. Gwas. Wardeinio |

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CC 3 | HYRWYDDO TWRISTIAETH GYNALIADWY I YCHWANEGU GWERTH I GYMUNEDAU LLEOL |
|---|---|---|

| Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 2.) | Amserlen i gwblhau | Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol |
|---|---|---|
| CC 3.1<br>**Comisiynu a hyrwyddo Adroddiad Blynyddol Twristiaeth Gynaliadwy STEAM, er mwyn mesur effaith twristiaeth a darparu argymhellion yn seiliedig ar yr adroddiad ar sut i liniau'r effaith yn Eryri** | Mawrth 2023 | Pen. Ymgysylltu + Swyddog Twristiaeth Gynaliadwy |
| CC 3.2<br>**Datblygu cyfleoedd i annog trafnidiaeth mwy gwyrdd trwy'r canlynol:**<br>➢ **Dilyn yr argymhellion o'r adolygiad o drafnidiaeth a pharcio yn ardaloedd Yr Wyddfa ac Ogwen**<br>➢ **Gweithredu model Twristiaeth Gynaliadwy ar draws y rhanbarth. Mae cwmpasu Cam 1 bron wedi'i gwblhau ac mae Cam 2 wedi'i gadarnhau i'w ariannu gan TfW**<br>➢ **Mynd ati i chwilio am gyfleoedd i gyfrannu at Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru fydd yn helpu i gefnogi gweledigaeth trafnidiaeth gynaliadwy ar gyfer Eryri** | Parhaus tan Ebrill 2025<br>Mawrth 2022<br><br>Mawrth 2023 | Pen. Ymgysylltu<br><br>Rheolwr Partneriaethau |

**Troed nodyn:**

1. Mae llawer o'r Prosiectau a'r Mentrau yn berthnasol i sawl amcan llesiant ond cyfeirir atynt unwaith o dan yr amcan mwyaf priodol yn y Rhaglen Waith
2. Swyddog(ion) cyfrifol: Y Swyddog sydd wedi'i nodi gyntaf sy'n arwain

| Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 2.) | Amserlen i gwblhau | Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol |
|---|---|---|
| CC 3.3<br>**Annog ymwelwyr i ddod ar drafnidiaeth gyhoeddus ar wahanol adegau o'r flwyddyn ac i ardaloedd gwahanol er mwyn lleihau'r pwysau yn ystod y tymor brig a helpu busnesau gyda materion tymhorol, trwy ddatblygu Profiadau Parc Cenedlaethol Cymru** | Rhagfyr 2022 | Pen. Ymgysylltu + Swyddog Twristiaeth Gynaliadwy |
| CC 3.4<br>**Parhau i ddatblygu cynllun Llysgenhadon Eryri a'i ddefnyddio i helpu i ledaenu negeseuon mewn perthynas â'r uchod. Datblygu achrediad Llysgennad Gwyrdd fel rhan o gynllun Llysgenhadon Eryri gyda modiwlau twristiaeth gynaliadwy cysylltiedig. Cynnwys gwybodaeth am y rhai sy'n cyflawni'r achrediad ar ein gwefan.** | Parhaus Chwefror 2023 | Pen. Ymgysylltu Swyddog Partneriaeth Yr Wyddfa |
| CC 3.5<br>**Sicrhau bod y CDLl presennol yn rhoi ei bolisïau ar waith yn gadarnhaol i gyfrannu at dwristiaeth gynaliadwy, sy'n ychwanegu gwerth at gymunedau lleol.** | Adroddiad blynyddol | Pen. RhDa Ch |
| CC 3.6<br>**Ceisio sefydlu Grŵp Cyflawni a chylch gorchwyl ar gyfer ardal gogledd Eryri a fydd yn galluogi gwell gweithio mewn partneriaeth a blaenoriaethu a chyflawni prosiectau teithio a thrafnidiaeth gynaliadwy yn llwyddiannus.** | Mawrth 2023 | Pen. Ymgysylltu |
| CC 3.7<br>**Datblygu safiad strategol y Parciau Cenedlaethol ar ardoll twristiaeth a chymryd rhan weithredol yn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn Hydref 2022** | Parhaus Hydref 2022 | Pen. Ymgysylltu |

**Troed nodyn:**
1. Mae llawer o'r Prosiectau a'r Mentrau yn berthnasol i sawl amcan llesiant ond cyfeirir atynt unwaith o dan yr amcan mwyaf priodol yn y Rhaglen Waith
2. Swyddog(ion) cyfrifol: Y Swyddog sydd wedi'i nodi gyntaf sy'n arwain

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CC 4 | HYRWYDDO A CHEFNOGI'R CYMRAEG YN WEITHREDOL |
|---|---|---|

| Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 2.) | Amserlen i gwblhau | Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol |
|---|---|---|
| CC 4.1<br>**Cynhyrchu Strategaeth Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg 5 mlynedd newydd ar gyfer y cyfnod 2022-26** | Medi 2022 | Pen. Gwas. Gweinyddol a Gofal Cwsmer |
| CC 4.2<br>**Parhau i ddatblygu Yr Ysgwrn fel canolfan ddiwylliannol sy'n hyrwyddo diwylliant Cymraeg a mynd ati i ddarparu cyfleoedd i gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg** | Parhaus | Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol |
| CC 4.3<br>**Datblygu'r prosiect arddangosfa 'Geiriau Diflanedig' trwy gydweithrediad ag Amgueddfa Cymru ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro (gyda chefnogaeth arian grant), gan ddod ag arddangosfa 'The Lost Words' i Gymru am y tro cyntaf ac arddangos camp ddwyieithog epig y blodeugerddi** | Parhaus hyd at Mawrth 2023 ar gyfer arddangos yn 2024 | Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol |
| CC 4.4<br>**Diogelu a hyrwyddo'r defnydd o enwau lleoedd Cymraeg trwy ddatblygu canllawiau ar gyfer defnyddio enwau lleoedd gan APCE** | Medi 2022 | Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol |
| CC 4.5<br>**Darparu cyfleoedd i wirfoddolwyr ddysgu a defnyddio'r Gymraeg trwy'r strategaeth wirfoddoli** | Parhaus | Pen. Ymgysylltu + Swyddog Gwirfoddoli a Lles |
| CC 4.6<br>**Bydd prosiect Lleisiau ac Enwau Lleoedd y Carneddau a Chynllun Treftadaeth Ddiwylliannol Harlech ac Ardudwy yn cofnodi, diogelu a dathlu enwau lleoedd Cymru trwy ddigwyddiadau mapio cymunedol, cyfweliadau hanes llafar, prosiectau allgymorth a dehongli** | Parhaus hyd at Rhagfyr 2025 | Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol |
| CC 4.7<br>**Sicrhau bod Polisi Datblygu 18: yr Iaith Gymraeg a gwead Cymdeithasol a Diwylliannol Cymunedau yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol yn y broses rheoli datblygu** | Adroddiad blynyddol | Pen. RhDaCh |

**Troed nodyn:**
1. Mae llawer o'r Prosiectau a'r Mentrau yn berthnasol i sawl amcan llesiant ond cyfeirir atynt unwaith o dan yr amcan mwyaf priodol yn y Rhaglen Waith
2. Swyddog(ion) cyfrifol: Y Swyddog sydd wedi'i nodi gyntaf sy'n arwain

| | | |
|---|---|---|
| **CC 4.8**<br>**Cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol ar Safle Treftadaeth y Byd Tirweddau Llechi Gogledd Orllewin Cymru, i gefnogi'r broses Rheolaeth Datblygu** | Hydref 2022 | Pen. RhDaCh<br>Prif Swyddog<br>Cynllunio Polisi |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn:** | **CC 5** | **DATBLYGU ECONOMI LEOL SY'N CEFNOGI DYNODIAD A RHEOLAETH ERYRI FEL PARC CENEDLAETHOL** |

| **Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol**<br>**(Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 2.)** | **Amserlen i gwblhau** | **Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol** |
|---|---|---|
| **CC 5.1**<br>**Sicrhau gweithrediad cadarnhaol polisïau cyfredol y CDLl i ddatblygu economi leol sy'n cefnogi dynodiad y PC** | Adroddiad blynyddol | Pen. RhDaCh<br>Prif Swyddog<br>Cynllunio Polisi |
| **CC 5.2**<br>**Cyflwyno adroddiad monitro blynyddol i'r aelodau i'w drafod ac ystyried yr amserlen ar gyfer dechrau adolygiad o'r CDLl cyfredol** | Adroddiad blynyddol | Pen. RhDaCh<br>Prif Swyddog<br>Cynllunio Polisi |

**Nodyn:** Mae prosiectau AC4 (ôl Brexit) a CC3 (Twristiaeth Gynaliadwy) hefyd yn berthnasol i CC5

**Troed nodyn:**
1. Mae llawer o'r Prosiectau a'r Mentrau yn berthnasol i sawl amcan llesiant ond cyfeirir atynt unwaith o dan yr amcan mwyaf priodol yn y Rhaglen Waith
2. Swyddog(ion) cyfrifol: Y Swyddog sydd wedi'i nodi gyntaf sy'n arwain

## CYMUNEDAU CYDNERTH: Byddwn yn gwybod ein bod yn llwydo i gyflawni'r amcan llesiant pan:

**CC1, 2, 4:** Rydym wedi hyrwyddo a galluogi ystod amrywiol o weithgareddau sy'n gwella lles pobl *(yn unol â Chynllun Eryri B1.2)*

**CC1, 3, 5:** Rydym wedi creu cynllun ac yn canolbwyntio adnoddau ar hyrwyddo, datblygu a chynnal a chadw llwybrau pellter hir wedi'u marcio'n dda, llwybrau hygyrch, llwybrau aml-ddefnyddiwr (yn enwedig llwybrau beicio a llwybrau beicio mynydd), hyrwyddo llwybrau a chysylltiadau a dolenni rhwng trefi a phentrefi. *(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B2.1)*

**CC1, 2, 3, 5:** Rydym wedi annog ymwelwyr i ddod ar wahanol adegau o'r flwyddyn ac i wahanol ardaloedd er mwyn lleddfu pwysau yn ystod y tymor brig a helpu busnesau gyda materion tymhorol *(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B3.2)*

**CC1,3,5:** Rydym wedi archwilio a gweithredu cyfleoedd i annog trafnidiaeth wyrddach (*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B4.2)*

**CC2, 3, 4:** Rydym wedi creu cyfleoedd i bobl ifanc fod yn llysgenhadon dros iaith a diwylliant yr ardal (*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1*)

**CC4, 5:** Rydym yn arwain trwy esiampl wrth sicrhau bod yr iaith, diwylliant a threftadaeth Cymru yn cael ei hyrwyddo a'u defnyddio mewn digwyddiadau, gweithgareddau a gwybodaeth *(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1*)

**CC 4:** Rydym wedi gweithredu mesurau yn y Cynllun Datblygu Lleol a Chanllawiau Cynllunio Atodol cysylltiedig sy'n annog datblygiadau newydd i gynnal neu wella datblygiad y Gymraeg *(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1)*

**CC4:** Rydym wedi darparu cyfleoedd i ddysgwyr Cymru yn yr ardal (*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.2*)

**CC4:** Fyddwn ni wedi amddiffyn enwau lleoedd Cymreig (*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.3*)

**CC1, 2, 4:** Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â materion sylfaenol a datblygu atebion arloesol i ddarparu tai fforddiadwy sy'n diwallu anghenion lleol (*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C3.1*)

## LLYTHYR CYLCH GWAITH LLYWODRAETH CYMRU: POBL A LLEOEDD

| **Amcanion blaenoriaeth a chamau gweithredu LlC ar gyfer APCE** | **Prosiect/Gwaith APCE** |
|---|---|
| Cyfrannu at gyd-lunio'r Cynllun Ffermio cynaliadwy ac at ei roi ar waith | **AC 4.1** |
| Cyfrannu, lle bo'n briodol, at ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i sefydlu Strategaeth Bwyd Cymunedol i annog cynhyrchu a chyflenwi bwyd lleol | **-** |
| Gweithio gydag Awdurdodau Tai, Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol a datblygwyr preifat, i ddatblygu atebion arloesol i broblemau tai difrifol, a chyfrannu at Gynllun Tai Cymunedau Cymraeg | **CC 1.4** |
| Gweithio gyda phartneriaid fel Awdurdodau Lleol a Trhafnidiaeth Cymru i gael hyd i ffyrdd i leihau pwysau ymwelwyr ar y seilwaith lleol, gan gynnwys systemau trafnidiaeth mwy cynaliadwy, ac ymgyrchoedd cyfathrebu i sicrhau hamddena cyrfifol. Rhaid cofio yr un pryd am bwysigwrydd twristiaeth i'n heconomi, a'ch rôl allweddol o ran diwallu anghenion ymwelwyr. Dylech gael eich arwain gan argymhellion a chanfyddiadau'r gwaith diweddar gan Archwilio Cymru ar dwristiaeth gynaliadwy | **AC 1.2 1.4 1.5 1.6 1.9**<br>**CC 3.1 – 3.5** |
| Helpu i ddynodi dyfroedd ymdrochi ar y tir a defnyddio systemau Draenio Cynaliadwy | **-** |
| Bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r fframwaith Cymru gyfan arfaethedig ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol | **-** |
| Cydweithio â phartneriaid allweddol i gyflawni yn unol â *Blaenoriaethau ar gyfer Amgylchedd Hanesyddol Cymru* i ddiogelu a dehongli'r amgylchedd hanesyddol a threftadaeth ddiwylliannol | **AC 3.1 – AC 3.10** |
| Datblygu polisiau sy'n sicrhau bod y Gymraeg yn cael ffynnu, gan gyflawni *Cymraeg 2050: Ein cynllun ar gyfer 2021 i 2026* | **CC 4.1 – CC 4.7** |
| Cynyddu cyfleoedd i grwpiau agored i niwed, grwpiau difreintiedig a chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol i elwa ar y tirweddau rydych chi'n eu rheoli | **CC 1.2 1.3** |
| Cynyddu'r hyfforddiant sgiliau, prentisiaethau a chyfleoedd gwirfoddoli. | **CC 1.2 1.3**<br>**CC 2.1 2.2** |

# 3. FFYRDD CYDNERTH O WEITHIO

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CW 1 | DATBLYGU GWEITHLU MEDRUS |
|---|---|---|

| Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 3.) | Amserlen i gwblhau | Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol |
|---|---|---|
| **CW 1.1**<br>**Ymgysylltu â'n staff ar bob lefel i gynorthwyo rheoli perfformiad:**<br>➢ **Bydd holl aelodau staff yr Awdurdod yn cael eu gwerthuso o fewn 12 mis**<br>➢ **Cynnal asesiadau anghenion hyfforddi yr holl staff o fewn 12 mis** | Parhaus<br>Mawrth 2023 | Pen. Personel |
| **CW 1.2**<br>**Cefnogi staff i fynychu grwpiau cymheiriaid y Parc Cenedlaethol i'w hysbysu am ddatblygiadau ac i gynorthwyo rheoli perfformiad a dealltwriaeth o fewn eu priod ddisgyblaethau** | Parhaus<br>Mawrth 2023 | Pen. Personel<br>Pen. Gwasanaeth |
| **CW 1.3**<br>**Datblygu ein gweithlu ymhellach a rhoi pob cyfle i staff ddatblygu i gwrdd â heriau'r dyfodol** | Parhaus Mwrth 2023 | Pen. Gwas.<br>Per. Personel |

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CW 2 | DATBLYGU A HYRWYDDO ARFER GORAU |
|---|---|---|

| Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 3.) | Amserlen i gwblhau | Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol |
|---|---|---|
| **CW 2.1**<br>**Rhannu cyflawniadau prosiectau Datgarboneiddio trwy gyllid Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy gyda chyrff eraill o fewn tirweddau dynodedig a'r ystad gyhoeddus ehangach** | Mawrth 2023 | Pen. Eiddo |
| **CW 2.2**<br>**Pan y'u penodir, Pennaeth Personél newydd i goladu gwybodaeth parthed arfer gorau mewn Parciau Cenedlaethol eraill, cael adborth gan staff a drafftio papur i'w drafod/ystyried gan y Gweithgor Aelodau** | Mawrth 2023 | Pen. Personel |

**Troed nodyn:**
1. Mae llawer o'r Prosiectau a'r Mentrau yn berthnasol i sawl amcan llesiant ond cyfeirir atynt unwaith o dan yr amcan mwyaf priodol yn y Rhaglen Waith
2. Swyddog(ion) cyfrifol: Y Swyddog sydd wedi'i nodi gyntaf sy'n arwain

| | | |
|---|---|---|
| **CW 2.3**<br>**Adolygu trefniadau gweithio staff mewn ymateb i darged Llywodraeth Cymru o weithio gartref a gweithio cyfunol o'r cartref/swyddfa lle mae'n bosibl i staff wneud hynny** | Rhagfyr 2022 | Pen. Personel |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn:** | **CW 3** | **GWEITHIO'N EFFEITHIOL MEWN PARTNERIAETH** |

| Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 3.) | Amserlen i gwblhau | Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol |
|---|---|---|
| **CW 3.1**<br>**Cynllun Eryri yn cael ei weithredu'n llwyddiannus a chyflwyno'r adroddiad cynnydd blynyddol cyntaf i'r Awdurdod** | Mehefin 2022 | Rheolwr Partneriaethau |
| **CW 3.2**<br>**Cefnogi gwaith y Bartneriaeth Tirweddau Dynodedig Cenedlaethol (NDLP) yng Nghymru** | Parhaus | Prif Weithredwr |
| **CW 3.3**<br>**Parhau i gefnogi gwaith Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ledled y DU, y Bartneriaeth Parciau Cenedlaethol, Sefydliad Parciau Cenedlaethol a mentrau cydweithredol cysylltiedig eraill** | Parhaus | Prif Weithredwr |
| **CW 3.4**<br>**Cyfrannu at ffurffio a datblygu swyddogaeth cynllunio Cyd Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru** | Parhaus | Cyf. Cynllunio a Rheoli Tir |

**Troed nodyn:**

1. Mae llawer o'r Prosiectau a'r Mentrau yn berthnasol i sawl amcan llesiant ond cyfeirir atynt unwaith o dan yr amcan mwyaf priodol yn y Rhaglen Waith
2. Swyddog(ion) cyfrifol: Y Swyddog sydd wedi'i nodi gyntaf sy'n arwain

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CW 4 | MODERNEIDDIO TREFNIADAU LLYWODRAETHU |
|---|---|---|

| Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 3.) | Amserlen i gwblhau | Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol |
|---|---|---|
| **CW 4.1**<br>**Gweithredu canlyniadau Grŵp Tasg a Gorffen Llywodraethu fel sydd wedi'u cymeradwyo gan yr Awdurdod** | Parhaus<br>Mawrth 2023 | Cyfarwyddwr Gwas. Corfforaethol |
| **CW 4.2**<br>**Sefydlu rhaglen mentora ar gyfer Aelodau'r Awdurdod** | Parhaus drwy 2022 | Cyf. Gwas. Corfforaethol |
| **CW 4.3**<br>**Cefnogi a datblygu Aelodau'r Awdurdod drwy sefydlu rhaglen hyfforddiant a datblygu** | Parhaus drwy 2022 | Cyf. Gwas. Corfforaethol |
| **CW 4.4**<br>**Gosod peiriannau System Gwybodaeth newydd** | Mehefin/Gorffennaf 2022 | Pen. Ymgysylltu |

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CW 5 | CYNNAL A GWELLA DEALLTWRIAETH A CHEFNOGAETTH CYMUNEDAU LLEOL I WAITH Y PARC CENEDLAETHOL |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| **CW 5.1**<br>**Datblygu cyfleoedd gwirfoddoli pellach yn Yr Ysgwrn i wella'r garfan bresennol o wirfoddolwyr, gan geisio recriwtio pobl ifanc sy'n awyddus i ddatblygu sgiliau newydd ac ennill profiad, gan ganolbwyntio ar ddarparu gweithgareddau gan wirfoddolwyr yn ogystal â rolau mwy traddodiadol fel tywyswyr ymwelwyr.** | Parhaus | Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol + Rheolwr Profiadau Ymwelwyr (pan wedi'i apwyntio) |
| **CW 5.2**<br>**Pan gaiff ei mabwysiadu, gweithredu a monitro'r mesurau yn y Strategaeth Ymgysylltu i sicrhau bod cymunedau lleol yn deall ac yn ymwybodol o waith yr Awdurdod** | Parhaus | Pen. Ymgysylltu |

**Troed nodyn:**
1. Mae llawer o'r Prosiectau a'r Mentrau yn berthnasol i sawl amcan llesiant ond cyfeirir atynt unwaith o dan yr amcan mwyaf priodol yn y Rhaglen Waith
2. Swyddog(ion) cyfrifol: Y Swyddog sydd wedi'i nodi gyntaf sy'n arwain

| Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 3.) | Amserlen i gwblhau | Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol |
|---|---|---|
| **CW 5.3**<br>**Parhau i ymgysylltu â chymunedau lleol ar agweddau o Astudiaeth Rheoli Traffig Ardal yr Wyddfa** | Parhaus 2022 | Rheolwr Partneriaethau + Swyddog Partneriaeth yr Wyddfa |
| **CW 5.4**<br>**Ymgysylltu â chymunedau a'u hysbysu trwy gyfarfodydd â Chynghorau Cymuned** | Hydref 2022 Tefnu o leiaf 1 cyfarfod | Pen. Gweinyddol a Gofal Cwsmer |
| **CW 5.5**<br>**Adfer cyswllt â pherchnogion tir a phartïon â diddordeb trwy gyfarfodydd Fforymau Mynediad Parc Cenedlaethol Eryri** | Parhaus Mawrth 2023 | Rheolwr Mynediad |
| **CW 5.6**<br>**Parhau i gysylltu â'r gymuned ffermio ac undebau ffermio trwy gyfarfodydd y Grŵp Cyswllt Amaethyddol** | Cyfarfod blynyddol Tachwedd, 2022 | Pen. Cadwraeth Coed ac Amaeth |
| **CW 5.7**<br>**Cynnwys ein cymunedau lleol ym mhob agwedd bwysig o waith yr Awdurdod e.e. cyflwyno Cynllun Eryri a'r CDLl, llunio Canllawiau Cynllunio Atodol, Strategaethau Ymgysylltu wrth ddatblygu prosiectau newydd ayb.** | Parhaus Mawrth 2023 | ➢ Rheolwr Partneriaethau<br>➢ Rheolwr Cynllunio<br>➢ Rheolwyr Prosiect ayyb. |

**Troed nodyn:**
1. Mae llawer o'r Prosiectau a'r Mentrau yn berthnasol i sawl amcan llesiant ond cyfeirir atynt unwaith o dan yr amcan mwyaf priodol yn y Rhaglen Waith
2. Swyddog(ion) cyfrifol: Y Swyddog sydd wedi'i nodi gyntaf sy'n arwain

## FFYRDD CYDNERTH O WEITHIO: Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan llesiant pan:

**CW1, 2:** Rydym wedi buddsoddi yn ein staff i sicrhau bod ganddynt yr arbenigedd a'r sgiliau sydd eu hangen i gwrdd â heriau'r presennol a'r dyfodol.

**CW2, 3:** Pan fo Cynllun Eryri yn cael ei roi ar waith yn llwyddiannus.

**CW2, 4:** Rydym wedi cynnal adolygiad o'r trefniadau llywodraethu presennol i sicrhau bod yr Awdurdod yn parhau i weithredu'n effeithiol ac y bydd yn ddigon addasadwy i gwrdd â heriau yn y dyfodol. Monitro unrhyw newidiadau i sicrhau eu bod yn gweithio yn ôl y bwriad.

**CW5:** Mae cyfleoedd i gymunedau lleol, ysgolion, grwpiau anodd eu cyrraedd a difreintiedig ymgysylltu ag amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol Eryri, a dysgu amdanynt, a sut y gallant helpu i ofalu amdanynt wedi cael eu nodi. ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A5.1)***

**CW5:** Rydym wedi cefnogi, hyrwyddo a darparu cyfleoedd gwirfoddoli sy'n helpu i amddiffyn a gwella'r amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A5.2***)

**CW5:** Fyddwn yn cynyddu cyfleoedd i ddeialog rhwng Awdurdod y Parc Cenedlaethol a sefydliadau cymunedol (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C4.1)***

## LLYTHYR CYLCH GWAITH LLYWODRAETH CYMRU: LLYWODRAETHU A CHYNLLUNIO

| Amcanion blaenoriaeth a chamau gweithredu LlC ar gyfer APCE | Prosiect/Gwaith APCE |
|---|---|
| Cymryd rhan weithredol mewn rhaglen wella chefnogi gan CLlLC o dan arweiniad y sector | - |
| Cyfrannu at lunio pecyn hyfforddi newydd ar gyfer aelodau APCau a datblygu dull cydgysylltiedig o hyfforddi APCau i rannu arfer gorau | **CW 4** |
| Hyrwyddo protocol newydd awdurdodau Lleol ar gyfer penodi aelodau APCau, cyn, yn ystod ac ar ôl etholiadau lleol, gan bwysleisio profiad a diddordeb uwchlaw ystyriaeth gwleidyddol cyn belled ag y bo modd o fewn y ddeddfwriaeth bresennol | **CW 4** |
| Croesawu'n llawn system flynyddol gryfach ar gyfer adrodd ar berfformiad yr aelodau a benodir gan Lywodraeth Cymru, ac ymchwilio sut i'w hestyn i benodiadau'r Awdurdodau Lleol | **CW 4** |
| Ymderchu i sicrhau rhagoriaeth mewn llywodraethu gan gynnwys rhannu arfer gorau rhwn APCau, gwneud y gorau o'r arweinydd Strategol Cynhwysiant, Amrywiaeth a Llywodraethu newydd | **CW 4** |
| Cyfrannu at lunio polisi cynllunio lleol a rhanbarthol, gan gynnwys drwy strwythur y Cyd Bwyllgor Corfforedig (CJC) a thrwy gydweithio ar lefel rhanbarthol a chenedlaethol i roi polisiau Cymru'r Dyfodol ar waith (gan gyfeirio'n benodol at Bolisi 9 a'r gofyn i gynnal rhwydweithiau ecolegol cydnerth a seilwaith gwyrdd) | **CW 3.4** |

## LLYTHYR CYLCH GWAITH LLYWODRAETH CYMRU: CYDWEITHIO

| **Amcanion blaenoriaeth a chamau gweithredu LlC ar gyfer APCE (a Tirweddau Dynodedig Cymru (TDC))** | **Prosiect/ Gwaith APCE** |
|---|---|
| Cefnogi Tirweddau Cymru (y Bartneriaeth Tirweddau Dynodedig Cenedlaethol) i ddatblygu ei huchelgais, sicrhau bod cydweithio'n digwydd ar bob lefel o fewn APCau ac AHNE a helpu i greu gweledigaeth strategol ar gyfer gweithredu ar gyfer 2022-24 | **CW 3.3** |
| Rhoi cytundeb teiran trawsnewidiol rhwng yr APCau ar waith i gynnal tîm o Gydgysylltwyr Tirweddau Strategol a ariennir gan Lywodraeth Cymru i weithio ar draws ein Parciau a'n AHNE, a sicrhau bod amcnaion ac allbynnau'r swyddi hyn yn cael eu cynnwys o fewn trefniadau monitro ehangach yr APCau a TDC:<br>i. **Arweinydd Strategol Adfer Natur a Dal a Storio Carbon,** i ymdrin â'r holl goetiroedd a chynefinoedd heb eu gwella a'u bioamrywiaeth, gan gynnwys rhywogaethau goresgynnol, a chyfleoedd i leihau allyriadau carbon<br>ii. **Arweinydd Strategol Adfer, Nature a Rheoli Maetholion**, i ymdrin â rheoli pridd cynhyrchu, problemau i afonydd a'r môr oherwydd gwaith ar y tir, ewtroffigedd yn llynnoedd yr ucheldir, bioddiogelu dŵr rhag dŵr ffo amaethyddol, a chefnogi datblygiad byrddau Rheoli Maetholion.<br>Bydd y ddwy swydd yn helpu i:<br>• Ddatblygu cynllun strategol i ymateb i'r argyfyngau nature a hinsawdd;<br>• Cefnogi datblygu ffyrdd i Dirweddau Dynodedig allu addasu i'r Cynllun Ffermio Cynalidwy newydd;<br>• Nodi sut y gall Tirweddau Dynodedig ddatblygu partneriaethau newydd a chefnogi blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru, a nodi ffrydiau airannu arloesol.<br>iii. **Arweinydd Strategol Rhagoriaeth Cynhwysiant, Amrywiaeth a Llywodraethu** i weithio ar draws yr holl APCau, gyda'i, swyddfa yn un ohonynt. Agwedd allweddol ar eiwaith fydd cymryd camau beiddgar i wella amrywiaeth a chydraddoldeb – ar Fyrddau, yn eich proffil staffio a'ch ymwelwyr a chefnogi APCau i fodloni'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a chynyddu'u cyfraniad at daclo tlodi plant a gwledig. | <br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>**CW 4.3** |
| Rhannu profiad ac arfer gorau wrth i'r broses o greu Parc Cenedlaethol newydd fynd rhagddo | - |

# AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI

# DATGANIAD LLES
# 2021-2026

Mabwysiadwyd gan yr Awdurdod Mawrth 2021

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ymwneud â gwella lles economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol Cymru. Rhaid i gyrff cyhoeddus yng Nghymru weithio i gyflawni gweledigaeth a rennir, a fynegir yn y Ddeddf fel y saith nod llesiant cenedlaethol:

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru Lewyrchus | Cymru Gydnerth | Cymru Iachach | Cymru sy’ n fwy Cyfartal | Cymru o gymunedau Cydlynus | Cymru â Diwylliant bywiog lle mae’ r Gymraeg yn ffynnu | Cymru Gyfrifol ar lefel fyd-eang |

Mae gan gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf ddyletswydd gyfreithiol i fabwysiadu'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod amcanion llesiant ac wrth gymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny. Yn y Ddeddf mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn cael ei chynrychioli gan y pum ffordd o weithio, sef:

Hir Dymor Atal Integreiddio Cydweithio Cynhwysol




Mae'r ddogfen hon yn nodi amcanion llesiant diwygiedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, yn disgrifio sut y byddant yn ein helpu i gyflawni'r saith nod llesiant i Gymru ac yn sefydlu'r rhesymeg a'r camau y byddwn yn eu cymryd i'w cyflawni. Yn sail i'n hamcanion llesiant, mae ein hegwyddorion Datblygu Cynaliadwy, Gweledigaeth, Blaenoriaethau Gwasanaeth a'n Rhaglen Waith Gorfforaethol.

# DATGANIAD LLESIANT 2021-2026

# MYNEGAI


1. T. 1 — CYFLWYNIAD

2. T. 1-2 — Y CEFNDIR AR GYFER MABWYSIADU AMCANION LLES NEWYDD AR GYFER 2021-26

3. T. 3 — BLAENORIAETHAU GWASANAETH

4. T. 4-5 — AMCANION LLES AC EGWYDDORION DATBLYGU CYNALIADWY

5. T.6-8 — AMCANION GWELLA A LLES

6. T.9 — MANYLION CYSWLLT

# DATGANIAD LLESIANT
# 2021-2026

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi ymrwymo i egwyddorion Datblygu Cynaliadwy a Gwelliant Parhaus. Mae'r ddogfen hon yn ffurfio elfen allweddol yn y system lle mae'r Awdurdod yn sefydlu ei raglen waith ac yn monitro perfformiad a gwelliant.

1.2 Datganiad Llesiant yr Awdurdod yw'r ddogfen sy'n manylu ar weledigaeth gorfforaethol a chanlyniadau blaenoriaeth yr Awdurdod. Mae'r ddogfen yn ddogfen strategol lefel uchel sy'n nodi egwyddorion arweiniol a blaenoriaethau allweddol yr Awdurdod. Mae'r Datganiad Llesiant yn helpu i lunio pa fentrau a phrosiectau / rhaglenni newydd y gall yr Awdurdod eu datblygu neu gynnig amdanynt yn y blynyddoedd i ddod yn ogystal ag amlygu unrhyw feysydd i'w gwella.

## 2. Y CEFNDIR AR GYFER MABWYSIADU'R AMCANION LLESIANT NEWYDD

2.1 Yn 2018-19 cyfunodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ei amcanion gwella yn ei ddatganiad llesiant a'i gynhyrchu fel un ddogfen. Mae'r dull gweithredu hwn yn gyson ar draws y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol ac yn cael ei gefnogi ac yn cael ei archwilio gan Swyddfa Archwilio Cymru.

2.2 Ers cyhoeddi'r adroddiad "Gwerthfawr a Chydnerth" ym mis Gorffennaf 2018, a nododd flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Tirweddau Dynodedig Cymru, mae'n ofynnol i amcanion llesiant yr Awdurdod fodloni'r 10 thema drawsbynciol a geir yn y ddogfen.:

1. Tirweddau i bawb
2. Enghreifftiau o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy
3. Atal colli bioamrywiaeth
4. Ynni gwyrdd a datgarboneiddio
5. Gwireddu potensial economaidd y dirwedd
6. Twristiaeth gynyddol a hamdden awyr agored
7. Iaith Gymraeg ffynianus
8. Mae pob tirwedd yn bwysig
9. Cyflawni trwy gydweithio
10. Arloesi wrth ddarparu adnoddau

2.3 Mae anghymsywiad (gyda chafeatau) Mesur Llywodraeth Leol 2009 yn caniatáu i'r Awdurdod fabwysiadu amcanion tymor hwy a fydd yn hwyluso gwell aliniad rhwng gwaith yr Awdurdod â Chynllun Rheoli'r Parc, y Cynllun Datblygu Lleol, mecanweithiau adrodd a sefydlu amcanion realistig a CHAMPUS ar gyfer rhaglenni gwaith blynyddol.

2.4 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi bod yn rhaid i'r Awdurdod gyflawni datblygu cynaliadwy ac wrth wneud hynny rhaid iddo osod a chyhoeddi amcanion

("amcanion lles") sydd wedi'u cynllunio i gynyddu ei gyfraniad at gyflawni pob un o'r nodau lles, a chymryd pob cam rhesymol (wrth arfer ei swyddogaethau) i gyflawni'r amcanion hynny.

2.5 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod adlewyrchu'r pwrpasau a dyletswyddau o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 1995.

2.6 Yn 2019 cytunodd yr Aelodau ar yr angen i adolygu amcanion yr Awdurdod i sicrhau eu bod yn adlewyrchu ac yn cyd-fynd yn well â'r blaenoriaethau a nodwyd yn y dogfennau 2.2 - 2.5 uchod ac yn darparu ar gyfer blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer tirweddau dynodedig Cymru.

2.7 Mabwysiadwyd llinell amser gan yr Awdurdod i fabwysiadu amcanion lles a strategol newydd ar gyfer y cyfnod 2021-26.

Cynhaliwyd cyfres o sesiynau ymgysylltu a hwyluswyd gan Aelodau a staff trwy gydol 2020 pan nodwyd meysydd allweddol. Daeth tair prif thema i'r amlwg, dwy yn allanol ac un yn wynebu i mewn. Yn unol â'r tair prif thema, datblygwyd pum is-thema bellach i ganolbwyntio ar:

**AMGYLCHEDDAU CYDNERTH:**

1. Gwella rheolaeth hamdden ag unrhyw effeithiau negyddol hamdden
2. Ymateb i heriau newid yn yr hinsawdd
3. Gwella rheolaeth a'r ddealltwriaeth o'n treftadaeth ddiwylliannol
4. Mynd i'r afael â heriau a chyfleoedd senarios rheoli tir ar ôl Brexit
5. Mynd i'r afael â'r dirywiad mewn natur.

**CYMUNEDAU CYDNERTH:**

1. Cynnal a chynyddu ansawdd bywyd preswylwyr
2. Cefnogi pobl ifanc
3. Hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy i ychwanegu gwerth i gymunedau lleol
4. Hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg yn weithredol
5. Datblygu economi leol sy'n cefnogi dynodiad a rheolaeth Eryri fel Parc Cenedlaethol.

**FFYRDD CYDNERTH O WEITHIO:**

1. Datblygu gweithlu medrus
2. Datblygu a hyrwyddo arfer gorau
3. Gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth
4. Moderneiddio trefniadau llywodraethu
5. Cynnal a gwella dealltwriaeth a chefnogaeth cymunedau lleol tuag at waith y Parc Cenedlaethol.

2.8 Yn ystod haf 2020, cynhaliodd yr Awdurdod ymgynghoriad anffurfiol cychwynnol gyda rhanddeiliaid i fesur a oedd y themâu cychwynnol yn adlewyrchu nodau a gweledigaeth Awdurdod y Parc Cenedlaethol wrth ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn y ffordd fwyaf cynaliadwy. Cadarnhaodd adborth y themâu a rhoddodd awgrymiadau ar gyfer newidiadau a gwelliant pellach.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol yn hwyr yn 2020 cyn sesiynau Aelod / Staff pellach i drafod, ystyried a datblygu amcanion llesiant drafft terfynol a Rhaglen Waith Gorfforaethol.

2.9 Mae sefyllfa'r Awdurdod fel pob sector arall wedi newid yn ddramatig oherwydd yr angen i amddiffyn iechyd y cyhoedd rhag pandemig Covid-19 a'r gofynion o ddelio â'r bygythiad i gymdeithas. Yn unol â hynny, mae hyn wedi golygu bod angen newid Blaenoriaethau Gwasanaeth yr Awdurdod ac i rai elfennau o'r amcanion llesiant eu hunain er mwyn galluogi'r Awdurdod i ganolbwyntio ymdrechion ac adnoddau ar y lle mae ei angen.

## 3. BLAENORIAETHAU GWASANAETH

3.1 Wrth ddatblygu ei flaenoriaethau gwasanaeth a'i amcanion llesiant, mae'r Awdurdod yn ystyried deddfwriaeth allweddol a datganiadau polisi strategol, cynlluniau perthnasol eraill a barn staff, ei aelodau, rhanddeiliaid allweddol ac aelodau'r cyhoedd gan gynnwys:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Polisi Adnoddau Naturiol
- Llythyr cylch gwaith a gyhoeddir yn flynyddol gan Lywodraeth Cymru i'r Awdurdod
- Gweithredu Cynllun Rheoli'r Parc (Cynllun Eryri)
- Adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru ar yr Awdurdod
- Cynlluniau Lles Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn a Chonwy a Sir Dinbych
- Ymatebion ymgynghoriad annibynnol a barn rhanddeiliaid.

3.2 **NODIR EIN BLAENORIAETHAU GWASANAETH AR GYFER Y BLYNYDDOEDD ARIANNOL I DDOD FEL A GANLYN:**

- sicrhau bod yr amcanion yng Nghynllun Rheoli'r Parc yn cael eu cyflawni'n llwyddiannus gennym ni ein hunain, ein partneriaid a'n rhanddeiliaid er mwyn gwella cyflwr y Parc;

- sicrhau bod gan y swyddogaeth gynllunio statudol ddigon o adnoddau a'i bod yn cael ei rheoli'n effeithiol er mwyn bodloni polisïau cenedlaethol, disgwyliadau cwsmeriaid a chefnogi cymunedau cynaliadwy;

- dod o hyd i ffrydiau incwm newydd i gefnogi pwrpasau'r Parc a'r Awdurdod.

- sicrhau ein bod yn ymwneud yn llawn â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a blaenoriaethau Gwerthfawr a Chydnerth ac yn eu cyflawni;

- dangos yn lleol ac yn genedlaethol beth yw manteision cael Awdurdod Parc Cenedlaethol yn ei le yn rheoli lle mor arbennig ag Eryri, yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol;

- amddiffyn ein staff, preswylwyr, defnyddwyr a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol rhag lledaenu firws Cofid-19 ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol;

- sicrhau bod staff ac aelodau'n cael cefnogaeth ddigonol yn eu trefniadau gweithio mewn cyfnod o'r fath a bod lles staff yn cael ei gefnogi;

- mynd i'r afael â'r anghenion gweithredol a'r pwysau ariannol sy'n deillio o gyfyngiadau a heriau gweithredu mewn amgylchedd heriol a'r mesurau gofynnol wrth ddelio â phandemig Cofid-19 a thu hwnt;

3.3. **MAE'R MODD Y MAE'R AWDURDOD YN CYFLAWNI EI FUSNES YN YSTOD Y CYFNODAU ECONOMAIDD HYN YR UN MOR BWYSIG AC YNG NGHYD-DESTUN HYN BYDD YR AWDURDOD YN MABWYSIADU'R DULL GWEITHREDU A GANLYN:**

- ymgorffori datblygiad cynaliadwy yn ddyfnach fyth fel egwyddor graidd sy'n arwain ein holl waith;
- trwy weithio gyda'n partneriaid, mabwysiadu rôl o alluogi a hwyluso wrth gyflawni ein pwrpasau;
- gwerthuso holl ymrwymiadau ariannol tymor hir ac ymrwymiadau eraill ar gyfer pob prosiect posibl;
- gweithio gyda'n cymunedau wrth gyflawni gweledigaeth yr Awdurdod;

## 4. AMCANION LLES A'R EGWYDDORION DATBLYGU CYNALIADWY

4.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ("y Ddeddf") yn rhoi pwrpas cyffredin cyfreithiol rwymol, sef y saith nod lles. Y saith nod lles yw fel a ganlyn:

| Cymru Lewyrchus | Cymru Gydnerth | Cymru Iachach | Cymru sy'n fwy Cyfartal | Cymru o gymunedau Cydlynus | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru sy'n Gyfrifol yn fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|

Mae'r Ddeddf yn berthnasol i lywodraeth genedlaethol, llywodraeth leol, byrddau iechyd lleol a chyrff cyhoeddus penodol eraill, megis yr Awdurdod hwn.

I'r Awdurdod, dyletswydd graidd y Ddeddf (dyletswydd llesiant) yw bod yn rhaid i ni bennu amcanion llesiant sy'n gwneud y gorau o'n cyfraniad ni tuag at gyflawni'r nodau llesiant a nodir uchod. Wrth wneud hynny, mae'n rhaid i ni gymryd pob cam rhesymol i gwrdd â'r nodau llesiant hynny yn unol â'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy.

4.2 Dylai amcanion llesiant yr Awdurdod fod yn amcanion ar gyfer newid yn y tymor hir. Byddwn yn cwrdd â'n amcanion llesiant drwy gyfres o gamau a gall y camau gweithredu hyn fod yn rhai tymor byr, canolig neu hir ar gyfer newid, neu gyfuniad o'r un peth.

4.3 Gweler amcanion llesiant yr Awdurdod yn Adran 5 y Datganiad Llesiant. Maent yn cael eu gosod allan yn y fath fodd ag i ddangos yn glir sut mae pob un ohonynt yn berthnasol i bob un o'r saith nod llesiant. O dan yr amcan llesiant unigol, ceir gyfres o gamau sydd angen eu cyflawni ac mae'r rhain unwaith eto wedi eu hasesu'n unigol o ran sut y maent yn berthnasol i bob un o'r saith nod llesiant. Bydd y camau sydd i'w cymryd fel y nodir uchod ac yn Adran 5 yn cael eu cefnogi gan Raglen Waith Gorfforaethol flynyddol fanwl sy'n cael ei hadrodd i'r Awdurdod ac yn cael ei harchwilio ganddo'n rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Yna gellir mesur cynnydd drwy Ddangosyddion Perfformiad Lleol a fabwysiadwyd i'r diben penodol.

4.4 Mae cefnogi'r nodau llesiant yn ddyletswydd gyfochrog y mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus ei chyflawni drwy ddatblygu cynaliadwy. Gweler isod fanylion pellach ynghylch yr hyn a olygir gan ddatblygu cynaliadwy.

Bydd angen gweithredu i gwrdd â'n hamcanion llesiant mewn modd cynaliadwy. Mae datblygu cynaliadwy yn golygu pum gofyniad allweddol, sef:

1. **Tymor Hir** - pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu i gwrdd ag anghenion tymor hir, yn enwedig lle mae'r pethau a wneir i gwrdd ag anghenion tymor byr yn gallu cael effeithiau tymor hir niweidiol.
2. **Integreiddio** - sut y gall ein amcanion llesiant effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, sut y gall yr amcanion llesiant effeithio ar ei gilydd neu ar amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill, yn enwedig lle y gallai camau a gymerwyd gennym i gyfrannu at gwrdd ag un amcan fod yn niweidiol o ran cwrdd ag un arall.
3. **Cynhwysedd** - pwysigrwydd cynnwys pobl eraill sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, ac i sicrhau bod yr unigolion hynny yn adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth Cymru neu ardal ddaearyddol yr Awdurdod.

4. **Cydweithio** - Gallai gweithredu ar y cyd ag unrhyw unigolyn (neu'r modd y mae gwahanol rannau o'r Awdurdod yn gweithredu gyda'i gilydd) gynorthwyo'r Awdurdod i gyflawni ei amcanion llesiant, neu gynorthwyo corff arall i gyflawni ei amcanion.
5. **Atal** - ystyried sut y gall defnyddio adnoddau i atal problemau rhag digwydd, neu waethygu, gyfrannu at gwrdd amcanion llesiant yr Awdurdod, neu amcanion corff arall.

4.5 Wedi asesu'r gofynion datblygu cynaliadwy gyda amcanion llesiant yr Awdurdod, mae'n ymddangos bod datblygu cynaliadwy yn rhan annatod o'n amcanion llesiant, a cheir manylion pellach isod:

**Tymor hir:** Mae pob un o amcanion llesiant yr Awdurdod yn cwmpasu dyheadau tymor hir yr Awdurdod, yn benodol sut y byddwn fel Awdurdod yn cynnal ein busnes yn y dyfodol ac ethos ein ffordd o feddwl. Mae hyn yn cynnwys mwy o gydweithio gyda'n rhanddeiliaid, mwy o ymwybyddiaeth o fanteision iechyd y Parc Cenedlaethol i bobl yn gyffredinol, heriau newid yn yr hinsawdd, grymuso ein cymunedau tra'n cydnabod bod rhaid i'r Awdurdod barhau i weithredu o fewn yr adnoddau ariannol llai sydd ar gael iddo.

**Integreiddio:** Mae rhai o'n amcanion llesiant yn cael mwy o effaith ar nodau llesiant unigol nag eraill. Fel rhan o'r broses o fabwysiadu ein amcanion llesiant, ystyriodd yr Awdurdod sut maent yn cwrdd â'r nodau llesiant, a nodir y rhain nid yn unig mewn perthynas â phob un o'r amcanion llesiant ond hefyd ar gyfer y camau gweithredu sy'n gysylltiedig â'n amcanion llesiant.

**Cyfranogiad / Ymglymiad:** Mae'r rhan fwyaf o'n hamcanion llesiant yn cynnwys pobl eraill. Trwy gyfathrebu'n effeithiol ac ehangu dealltwriaeth y cyhoedd ar bynciau mor amrywiol â'r heriau sy'n wynebu Eryri wrth ymateb i newid yn yr hinsawdd, gan fynd i'r afael ag unrhyw effeithiau negyddol hamdden tra'n gwella dealltwriaeth o'n treftadaeth ddiwylliannol, disgwylir y bydd cyfathrebiadau o'r fath yn adlewyrchu poblogaeth Cymru. Yn yr un modd bydd sicrhau bod ein cymunedau'n gydnerth wrth fynd i'r afael â'r heriau sy'n eu hwynebu wrth gwrs yn cynnwys nid yn unig poblogaeth ardal ddaearyddol yr Awdurdod ond hefyd boblogaeth Cymru gyfan, oherwydd dim ond trwy gynnwys pawb y gallwn ni obeithio bod yn llwyddiannus yn y pen draw. Ein hamcan 'gweithio mewn ffordd gydnerth', er nad yw'n cynnwys pobl eraill yn uniongyrchol yw'r amcan sy'n sicrhau bod uchelgeisiau tymor hir yr Awdurdod yn parhau i fod yn gyraeddadwy.

**Cydweithio:** Fel Awdurdod cymharol fach mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wastad wedi cydnabod y manteision sylweddol y gellir eu hennill trwy gydweithio ag eraill a thrwy weithio mewn partneriaeth yn barhaus. Erbyn hyn mae'r math hwn o feddwl wedi'i wreiddio yng ngwead yr Awdurdod a'i staff ac nid yw'n syndod bod ein holl amcanion llesiant yn cynnwys cydweithio. Bydd ein holl amcanion llesiant yn cynnwys cymysgedd o gydweithredu mewnol ac allanol.

**Atal:** Ni ddylai fod yn syndod bod atal yn rhan ganolog o amcanion llesiant yr Awdurdod pan fydd rhywun yn ystyried ein pwrpasau statudol. Trwy gynnwys ein cymunedau ac eraill yng ngwaith yr Awdurdod; trwy gyfathrebu'n effeithiol ynghylch y cyfleoedd real iawn y mae'r Parc Cenedlaethol yn eu cynnig; trwy sicrhau ein bod yn cynnig amodau ffafriol ar gyfer adfer cynefinoedd; trwy gymryd y camau hyn a chamau gweithredu eraill yn awr, gallwn ddechrau'r broses o addasu i heriau newid yn yr hinsawdd. Os na ddefnyddir adnoddau yn awr i fynd i'r afael â'r materion hyn, mae risg wirioneddol y bydd yr heriau sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol yn anorchfygol.

Nodir amcanion llesiant yr Awdurdod yn Rhan 5. Bydd cynnydd ar weithredu ei amcanion llesiant yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan Bwyllgor Perfformiad ac Adnoddau'r Awdurdod. Mae'r Awdurdod yn ystyried adroddiad terfynol ar ôl i'r flwyddyn ariannol ddod i ben, trwy ystyried Adroddiad Blynyddol yr Awdurdod.

## 5. AMCANION LLESIANT

**Yr Amcanion Llesiant a'r Gweithgareddau Cyfatebol, a Chrynodeb o'r modd y maent yn cwrdd â'r Nodau Llesiant**

| **AMGYLCHEDDAU CYDNERTH** (AC) | Llewyrchus | Cydnerth | Iachach | Mwy Cyfartal | Cymunedau Cydlynus | Diwylliant Bywiog | Cyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn:** | | | | | | | |
| AC1<br>Gwella rheolaeth hamdden ac unrhyw effeithiau negyddol hamdden | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | | ✓ |
| AC2<br>Ymateb i heriau Newid yn yr Hinsawdd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ |
| AC3<br>Gwella rheolaeth a'r ddealltwriaeth o'n treftadaeth ddiwylliannol | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| AC4<br>Mynd i'r afael â heriau a chyfleoedd senarios rheoli tir ar ôl Brexit | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| AC5<br>Mynd i'r afael â'r dirywiad mewn natur | | ✓ | ✓ | | | | ✓ |

**Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan llesiant pan:**

**AC1:** Fyddwn wedi datblygu a gweithredu egwyddorion a throthwyon arweiniol mewn perthynas ag effeithiau ymwelwyr ar yr amgylchedd a'r dirwedd ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.1)***

**AC1:** Rydym wedi sicrhau bod llwybrau'r ucheldir yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda i reoli effeithiau erydiad a blaenoriaethu gwaith yn seiliedig ar nifer y defnyddwyr llwybrau troed ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.2)***

**AC1, 2:** Rydym wedi lleihau effeithiau parcio a thrafnidiaeth ar yr amgylchedd a'r dirwedd ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.4)***

**AC1:** Rydym wedi lleihau unrhyw effeithiau negyddol gweithgareddau hamdden ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.5)***

**AC1:** Gan ddefnyddio'r strategaeth marchnata brand fel sylfaen, byddwn wedi datblygu cynllun a rennir gyda phartneriaid ar y wybodaeth a ddarparwn i ymwelwyr, gyda phwyslais ar y Rhinweddau Arbennig a newid ymddygiad ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B3.3)***

**AC2, 4:** Mae allyriadau carbon Parc Cenedlaethol Eryri yn cael eu lleihau ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.1)***

**AC2, 4:** Rydym wedi diogelu a chynyddu faint o garbon sy'n cael ei storio yn Eryri ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.2)***

**AC3, 4, 5:** Rydym wedi cydlynu a gweithredu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar gynnal, adfer ac ehangu cynefinoedd, rhywogaethau, nodweddion amgylcheddol hanesyddol a nwyddau cyhoeddus ehangach ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.1)***

**AC5:** Mae dirywiad bioamrywiaeth yn cael sylw trwy weithgareddau cynnal a chadw, adfer, ehangu a chysylltedd ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.2)***

**AC2, 4, 5:** Rydym wedi parhau i ehangu gweithredoedd cyfredol y Bartneriaeth i reoli a lleihau maint y rhywogaethau goresgynnol **(yn unol â Chynllun Eryri A4.2)**

**AC3:** Rydym wedi cefnogi atgyweirio ac adfer adeiladau rhestredig, wedi cefnogi diogelu Henebion Rhestredig ac wedi datblygu a gweithredu prosiectau ar raddfa tirwedd sydd o fudd i'r amgylchedd hanesyddol. **(yn unol â Chynllun Eryri A6.1. A6.2. A6.3).**

| **CYMUNEDAU CYDNERTH** (CC) | Llewyrchus | Cydnerth | Iachach | Mwy Cyfartal | Cymunedau Cydlynus | Diwylliant Bywiog | Cyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn:** | | | | | | | |
| CC1<br>Cynnal a gwella ansawdd bywyd preswylwyr | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| CC2<br>Cefnogi pobl ifanc | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| CC3<br>Hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy i ychwanegu gwerth i gymunedau lleol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| CC4<br>Hyrwyddo a chefnogi'r Cymraeg yn weithredol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| CC5<br>Datblygu economi leol sy'n cefnogi dynodiad a rheolaeth Eryri fel Parc Cenedlaethol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

**Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan llesiant pan:**

**CC1, 2, 4:** Rydym wedi hyrwyddo a galluogi ystod amrywiol o weithgareddau sy'n gwella lles pobl ***(yn unol â Chynllun Eryri B1.2)***

**CC1, 3, 5:** Rydym wedi creu cynllun ac yn canolbwyntio adnoddau ar hyrwyddo, datblygu a chynnal a chadw llwybrau pellter hir wedi'u marcio'n dda, llwybrau hygyrch, llwybrau aml-ddefnyddiwr (yn enwedig llwybrau beicio a llwybrau beicio mynydd), hyrwyddo llwybrau a chysylltiadau a dolenni rhwng trefi a phentrefi. ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B2.1)***

**CC1, 2, 3, 5:** Rydym wedi annog ymwelwyr i ddod ar wahanol adegau o'r flwyddyn ac i wahanol ardaloedd er mwyn lleddfu pwysau yn ystod y tymor brig a helpu busnesau gyda materion tymhorol ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B3.2)***

**CC1,3,5:** Rydym wedi archwilio a gweithredu cyfleoedd i annog trafnidiaeth wyrddach (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B4.2)***

**CC2, 3, 4:** Rydym wedi creu cyfleoedd i bobl ifanc fod yn llysgenhadon dros iaith a diwylliant yr ardal (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1***)

**CC4, 5:** Rydym yn arwain trwy esiampl wrth sicrhau bod yr iaith, diwylliant a threftadaeth Cymru yn cael ei hyrwyddo a'u defnyddio mewn digwyddiadau, gweithgareddau a gwybodaeth ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1***)

**CC 4:** Rydym wedi gweithredu mesurau yn y Cynllun Datblygu Lleol a Chanllawiau Cynllunio Atodol cysylltiedig sy'n annog datblygiadau newydd i gynnal neu wella datblygiad y Gymraeg ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1)***

**CC4:** Rydym wedi darparu cyfleoedd i ddysgwyr Cymru yn yr ardal (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.2***)

**CC4:** Fyddwn ni wedi amddiffyn enwau lleoedd Cymreig (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.3***)

**CC1, 2, 4:** Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â materion sylfaenol a datblygu atebion arloesol i ddarparu tai fforddiadwy sy'n diwallu anghenion lleol (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C3.1***)

| **FFYRDD CYDNERTH O WEITHIO** (CW) | Llewyrchus | Cydnerth | Iachach | Mwy Cyfartal | Cymunedau Cydlynol | Diwylliant Bywiog | Cyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn:** | | | | | | | |
| CW1<br>Datblygu gweithlu medrus | ✓ | ✓ | ✓ | | | | |
| CW2<br>Datblygu a hyrwyddo arfer gorau | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | |
| CW3<br>Gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | |
| CW4<br>Moderneiddio trefniadau llywodraethu | ✓ | ✓ | | ✓ | | | ✓ |
| CW5<br>Cynnal a gwella dealltwriaeth a chefnogaeth cymunedau lleol i waith y Parc Cenedlaethol | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

**Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan llesiant pan:**

**CW1, 2:** Rydym wedi buddsoddi yn ein staff i sicrhau bod ganddynt yr arbenigedd a'r sgiliau sydd eu hangen i gwrdd â heriau'r presennol a'r dyfodol.

**CW2, 3:** Pan fo Cynllun Eryri yn cael ei roi ar waith yn llwyddiannus.

**CW2, 4:** Rydym wedi cynnal adolygiad o'r trefniadau llywodraethu presennol i sicrhau bod yr Awdurdod yn parhau i weithredu'n effeithiol ac y bydd yn ddigon addasadwy i gwrdd â heriau yn y dyfodol. Monitro unrhyw newidiadau i sicrhau eu bod yn gweithio yn ôl y bwriad.

**CW5:** Mae cyfleoedd i gymunedau lleol, ysgolion, grwpiau anodd eu cyrraedd a difreintiedig ymgysylltu ag amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol Eryri, a dysgu amdanynt, a sut y gallant helpu i ofalu amdanynt wedi cael eu nodi. ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A5.1)***

**CW5:** Rydym wedi cefnogi, hyrwyddo a darparu cyfleoedd gwirfoddoli sy'n helpu i amddiffyn a gwella'r amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A5.2***)

**CW5:** Fyddwn yn cynyddu cyfleoedd i ddeialog rhwng Awdurdod y Parc Cenedlaethol a sefydliadau cymunedol (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C4.1)***

## 6. MANYLION CYSWLLT

Croesawn eich mewnbwn ynghyd â'ch awgrymiadau. Cysylltwch ag Iwan Jones â'ch sylwadau.

Gellir cael rhagor o wybodaeth ynghylch y manylion a nodir yn y Datganiad Llesiant hwn drwy ysgrifennu neu anfon e-bost at:

**Iwan Jones**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Pencadlys APCE, Penrhyndeudraeth, Gwynedd, LL48 6LF

e-bost: iwan.jones@eryri.llyw.cymru
www.eryri.llyw.cymru

**EITEM RHIF16**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| **DYDDIAD** | 15 Mehefin 2022 |
| **TEITL** | **ADRODDIAD BLYNYDDOL AR Y GWIR WEITHGARWCH RHEOLAETH TRYSORLYS YN 2021/22** |
| **ADRODDIAD GAN** | Prif Swyddog Cyllid |
| **PWRPAS** | Adroddir yn unol â gofynion statudol. Gofynnir i aelodau'r Awdurdod nodi'r cynnwys er gwybodaeth yn unig. |

## 1. CRYNODEB

1.1 Mae'n ofynnol dan Gôd Ymarfer CIPFA i adrodd ar ganlyniadau gwir weithgarwch Rheolaeth Trysorlys yr Awdurdod. Yn ystod 2021/22 arhosodd gweithgarwch yr Awdurdod o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol. Ni fu unrhyw fenthyca. Nid oedd unrhyw fanciau yr oedd yr Awdurdod wedi'u defnyddio ar gyfer buddsoddi wedi methu â thalu.

1.2 Yn 2021/22, £10,846 oedd y cyfanswm llog a dderbyniwyd ar fuddsoddiadau, yn erbyn cyllideb o £8,000. Mae £790 o log a dderbyniwyd o fenthyciadau ceir yn cynyddu'r cyfanswm i £11,556.

1.3 Mae'r swm llog banciau a chymdeithas adeiladu o £10,846 am 2021/22 yn gymharol i'r swm cyfatebol o £11,113 yn 2020/21 oherwydd cyfraddau llog isel parhaus yn dilyn effeithiau'r pandemig. Er gwaethaf chwyddiant, mae cyfraddau llog wedi parhau yn isel drwy gydol y flwyddyn.

## 2. CEFNDIR

2.1 Mae buddsoddiadau rheolaeth trysorlys yn deillio o lif arian yr Awdurdod, incwm dderbyniwyd o flaen llaw gwariant, yn ogystal a balansau a reserfau sydd angen eu budsoddi hyd nes bydd angen yr arian ar gyfer dibenion yr Awdurdod. Drwy fuddsoddi symiau sylweddol, mae'r Awdurdod yn agored i risgiau ariannol gan gynnwys colled o gyllid sydd wedi ei fuddsoddi. Mae swyddogion cyllid yr Awdurdod yn adnabod, arolygu a rheoli y risgiau yma i gyd fynd a strategaeth rheolaeth trysorlys yr Awdurdod.  Gan gydymffurfio hefo gofynion CIPFA (*Chartered Institute of Public Finance and Accountancy*) cymeradwyodd yr Awdurdod ei Strategaeth ar

gyfer Rheolaeth Trysorlys 2021/22 yng nghyfarfod 3 Chwefror 2021.

2.2. Mae'n ofynnol yn ôl fframwaith CIPFA 'Rheolaeth Trysorlys yn y Sector Gyhoeddus: Côd Ymarfer' i'r Awdurdod gymeradwyo strategaeth rheolaeth trysorlys cyn cychwyn pob blwyddyn ariannol, ac ar y lleiaf i dderbyn adroddiad alldro trysorlys lled-flynyddol a blynyddol. Adroddir yma ar wir weithgaredd Rheolaeth Trysorlys (benthyca a buddsoddi) yr Awdurdod yn ystod 2021/22.

## 3. BENTHYCIADAU

3.1 Mae canllawiau buddsoddi CIPFA a Llywodraeth Cymru yn gofyn i'r Awdurdod fuddsoddi yn bwyllog, gan ystyried diogelwch a hylifedd ein balansau/buddsoddiadau, yn hytrach nac anelu i sicrhau'r enillion gorau posibl.

A. **Terfynau Benthyca 2021/22**

Ar 3 Chwefror 2021 cymeradwyodd yr Awdurdod Derfynau Benthyca fel a ganlyn ar gyfer 2021/22 :-

(i) Uchafswm Benthyca Cyffredinol o £500,000 ar gyfer 2021/22, gan gynnwys Terfyn benthyca Tymor Byr o £100,000.

(ii) Peidio â gosod uchafswm ar gyfran llog taladwy sydd a chyfradd llog newidiol.

Nodwyd pryd gosodwyd y terfynau yma eu bod 'rhag ofn', a 'doedd dim disgwyliad i'r Awdurdod fenthyg.

B. **Benthyca Gwirioneddol 2021/22**

Dechreuodd yr Awdurdod y flwyddyn ariannol heb ddyled, a thalwyd am wariant refeniw a chyfalaf yn ystod 2021/22 gydag arian grantiau a chronfeydd refeniw. Felly, o safbwynt Rheolaeth Trysorlys, mae'r Awdurdod yn parhau i fod yn di-ddyled.

## 4. BUDDSODDI

4.1 Bu'n bosibl i'r Awdurdod fuddsoddi ac ennill llog oherwydd ei sefyllfa'r balansau a'r llif-arian positif. Cafodd yr arian hwnnw ei fuddsoddi fel a ganlyn, yn unol â'r Strategaeth Rheolaeth Trysorlys:

- Rhoddwyd balansau y rhagwelwyd y byddwn yn eu dal yn y tymor byr – tymor canolig yng nghyfrifon "dim rhybudd" BOS (Bank of Scotland), HSBC (cyfrif cadw), Nationwide a Santander UK, cyfrifon rhybudd 32/35 diwrnod (Bank of Scotland, HSBC a Santander UK) a chyfrifon rhybudd 95 diwrnod (Nationwide a Santander UK) Yn ystod 2020/21, bu atal ar fuddsoddi mewn cyfrifon rhybydd 95 diwrnod yn ôl cyngor proffesiynol. Newidiodd y cyngor hwn yn ystod 2021/22 ac mi rydym bellach wedi ail-gychwyn buddsoddi yn y cyfrifon hyn.
- Gan bod newidiadau wedi bod i dreuliau banc Barclays, nid oes gofyn bellach i gadw balans o £1,250,000 mewn cyfrif nad yw'n ennill llog (y swm blaenorol angenrheidiol yn unol â'u telerau er mwyn osgoi ffioedd bancio).

4.2 Roedd y Cyfardd Banc yn 0.1% ar gychwyn y cyfnod adrodd (blwyddyn ariannol 2021/22). Mi wnaeth effaith cynydd parhaus chwyddiant, wedi ei yrru yn wreiddiol gan effaith prisiau egni, newid hyn ac mi gynyddodd Banc Lloegr y raddfa o 0.10%, i 0.25% ym mis Rhagfyr, ac yna yn bellach i 0.50% ym mis Chwefror a 0.75% ym mis Mawrth. Wrth gwrs, dim ond effaith ar chwarter olaf y flwyddyn gafodd y cynydd yma, gan i gyfraddau isel iawn barhau am ran fwyaf o'r flwyddyn ariannol. Gyda chyfraddau llog yn parhau'n isel yn 2021/22, ynghyd â'r angen i sicrhau dosbarthiad cymharol wastad o arian yr Awdurdod rhwng y sefydliadau unigol uchod, 'roedd cyfanswm y llog a enillwyd yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22 fel a ganlyn:

| **Cyfrif** | **Balans Cyfartalog dros y cyfnod buddsoddi** | **Cyfradd llog** | **Llog a enillwyd** |
|---|---|---|---|
| | | | |
| **Cyfrif Busnes Banc yr Alban (365 diwrnod mewn credyd)** | | | |
| 365 diwrnod (1 Ebrill - 31 Mawrth) | £483,500 | 0.01% | £48 |
| | | | |
| **Cyfrif Tymor 32 diwrnod Banc yr Alban (365 diwrnod mewn credyd) :** | | | |
| 351 dyddiau (1 Ebrill/April - 17 Mawrth) | £1,662,847 | 0.03% | £480 |
| 14 dyddiau (18 Mawrth - 31 Mawrth) | £1,175,821 | 0.05% | £23 |
| | | | |
| **Cyfrif Cadw HSBC (365 diwrnod mewn credyd) :** | | | |
| 365 dyddiau (1 Ebrill - 31 Mawrth) | £300 | 0.01% | £0 |
| | | | |
| **Cyfrif Cyfredol "MoneyMarket" HSBC (365 diwrnod mewn credyd) :** | | | |
| 365 dyddiau (1 Ebrill - 31 Mawrth) | £2,143,055 | 0.01% | £214 |
| | | | |
| **Cyfrif "Instant Saver" Nationwide (365 diwrnod mewn credyd) :** | | | |
| 365 dyddiau (1 Ebrill - 31 Mawrth) | £1,633,220 | 0.05% | £817 |
| | | | |
| **Cyfrif Tymor 95 diwrnod Nationwide (365 diwrnod mewn credyd)** | | | |
| 244 dyddiau (1 Ebrill - 30 Tachwedd) | £1 | 0.00% | £0.00 |
| 62 dyddiau (01 Rhagfyr - 31 Ionawr) | £1,542,419 | 0.25% | £655 |
| 59 dyddiau (01 Chwefror - 31 Mawrth) | £1,576,166 | 0.40% | £1,019 |
| | | | |
| **Cyfrif "Busnes Savings" Santander (365 diwrnod mewn credyd):** | | | |
| 63 dyddiau (1 Ebrill - 2 Mehefin) | £271,070 | 0.08% | £37 |
| 215 dyddiau (3 Mehefin - 3 Ionawr) | £522,629 | 0.02% | £62 |
| 29 dyddiadau (4 Ionawr - 1 Chwefror) | £170,228 | 0.08% | £11 |
| 29 dyddiadau (2 Chwefror - 2 Mawrth) | £350,772 | 0.23% | £64 |
| 29 dyddiadau (3 Mawrth - 31 Mawrth) | £365,246 | 0.41% | £119 |
| | | | |
| **Cyfrif Tymor 95 diwrnod Santander 95 day (365 diwrnod mewn credyd)** | | | |
| 275 dyddiau (1 Ebrill - 31 Rhagfyr) | £267,847 | 0.40% | £807 |
| 59 dyddiau (1 Ionawr - 28 Chwefror) | £801,048 | 0.45% | £583 |
| 31 dyddiau (1 Mawrth - 31 Mawrth) | £801,501 | 0.55% | £374 |
| | | | |
| **Cyfanswm gariwyd drosodd** | | | **£ 5,312** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm gariwyd drosodd** | | | **£ 5,312** |
| | | | |
| **Cyfrif Tymor 35 diwrnod Santander (365 diwrnod mewn credyd) :** | | | |
| 276 dyddiau (1 Ebrill - 1 Ionawr) | £1,340,110 | 0.30% | £3,040 |
| 59 dyddiau (2 Ionawr - 1 Mawrth) | £604,928 | 0.35% | £342 |
| 30 dyddiau/days (2 Mawrth - 31 Mawrth) | £437,594 | 0.45% | £162 |
| | | | |
| **Cyfrif Tymor 35 diwrnod Santander (365 diwrnod mewn credyd) :** | | | |
| 276 dyddiau (1 Ebrill - 1 Ionawr) | £151,462 | 0.10% | £115 |
| 59 dyddiau (2 Ionawr - 1 Mawrth) | £215,247 | 0.15% | £52 |
| 30 dyddiau/days (2 Mawrth - 31 Mawrth) | £290,005 | 0.25% | £60 |
| | | | |
| **Cyfrif Tymor 32 diwrnod Barclays 32 Day Notice (196 Days in Credit):** | | | |
| 90 dyddiau (19 Medi - 15 Rhagfyr) | £1,406,791 | 0.05% | £173 |
| 49 dyddiau (16 Rhagfyr - 2 Chwefror) | £1,477,356 | 0.20% | £397 |
| 42 dyddiau (3 Chwefror - 16 Mercher) | £952,959 | 0.45% | £493 |
| 15 dyddiau (17 Mercher - 31 Mercher) | £2,190,000 | 0.70% | £630 |
| | | | |
| **Cyfrif "Business Premium" Barclays (365 diwrnod mewn credyd) :** | | | |
| 365 dyddiau (1 Ebrill - 31 Mawrth) | £35,115 | 0.20% | 70 |
| | | | |
| **Cyfrif Busnes Santander :** | | | |
| Cyfrif sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer bancio arian Canolfannau - dim llog yn 2020/21 | | | £0 |
| | | | |
| **Cyfanswm llog ennillwyd** | | | **£10,846** |

4.3 Yn bwysicach, **cadwyd holl falansau'r Awdurdod yn ddiogel, gan nad oedd unrhyw fanciau**, o'r rheiny defnyddiwyd ar gyfer buddsoddi (adnau arian) yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22, **wedi methu ad-dalu.**

## 5. ARGYMHELLIAD

**Gofynnir i aelodau'r Awdurdod nodi cynnwys yr adroddiad er gwybodaeth.**

**EITEM RHIF 17**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| **DYDDIAD** | 15 Mehefin 2022 |
| **TEITL** | **PRESENOLDEB AELODAU** |
| **ADRODDIAD GAN** | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol |
| **PWRPAS** | Er gwybodaeth |

## 1.0 CEFNDIR

1.1 Mae'r Awdurdod wedi gofyn yn flaenorol i adroddiad blynyddol gael ei baratoi yn manylu ar bresenoldeb Aelodau yng nghyfarfodydd yr Awdurdod ac mewn Pwyllgorau. Isod, nodir manylion presenoldeb o'r fath ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022 i'w hystyried gan yr Awdurdod. Mae'r manylion wedi'u torri lawr i bresenoldeb aelodau unigol yn y cyfarfodydd rhithwir a gynhaliwyd o'r Awdurdod, Cynllunio a Mynediad, Perfformiad ac Adnoddau a'r Pwyllgor Safonau. Lle nad yw aelod wedi gallu bod yn bresennol oherwydd ei fod ef neu hi wedi bod i ffwrdd ar fusnes yr Awdurdod, nodir hyn yn y cofnod presenoldeb.

1.2 **PRESENOLDEB AELODAU 01/04/21 – 31/03/22**

| **Pwyllgor** | **Awdurdod** | **Cynllunio & Mynediad** | **Perfformiad & Adnoddau** |
|---|---|---|---|
| | **7** | **8** | **3** |
| **Aelodau** | **Mynychodd** | | |
| Cyng. Freya Bentham (ymddiswyddodd o'r Awdurdod ar 24.05.21) | 0 ( o 1 posib) | 0 (o 2 posib) | - |
| Cyng. Elwyn Edwards | 6 | 8 | 3 |
| Cyng. Alwyn Gruffydd | 7 | 7 | 3 |
| Cyng. Annwen Hughes | 7 | 8 | 2 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyng. Edgar W. Owen | 7 | 8 | 3 |
| Cyng. Elfed P. Roberts | 5<br>(yn absennol o 1 cyfarfod i fynychu digwyddiad dathlu 70 mlynedd yr Awdurdod) | 8 | 3 |
| Cyng. John Pughe Roberts | 5<br>(yn absennol o 1 cyfarfod i fynychu digwyddiad dathlu 70 mlynedd yr Awdurdod) | 8 | 3 |
| Cyng. Judith M. Humphreys | 7 | 7 | 3 |
| Cyng. Mike Stevens<br>(penodwyd ar yr Awdurdod ar 14.07.21) | 3<br>( o 4 posib) | 3<br>(o 5 posib) | 2<br>(o 2 posib) |
| Cyng. Gethin G. Williams | 3 | 4 | 0 |
| Cyng. Ifor Glyn Lloyd | 5 | 7 | 2 |
| Cyng. Philip H. Capper | 7 | 5 | 3 |
| Cyng. Wyn E. Jones | 7 | 8 | 3 |
| Mr. Brian Angell | 7 | 8 | 2 |
| Ms. Tracey Evans | 7 | 7 | 3 |
| Tim Jones | 5 | 5 | 2 |
| Mrs. Sarah Hattle | 4 | 5<br>*(absennol o 1 cyfarfod oherwydd ymrwymiad arall)* | 3<br>gwrthdaro |
| Mr. Owain Wyn | 7 | 8 | 3 |

| **Pwyllgor** | **Safonau** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|
| **Dyddiad** | **03.09.21** | **1** |
| Cyng. A. Gruffydd | ✓ | 1 |
| Cyng. Philip H. Capper | ✓ | 1 |
| Mrs. Sarah Hattle | ✓ | 1 |

1.3 Fel rhan o'r adroddiad hwn rwyf hefyd wedi casglu gwybodaeth am y presenoldeb cyfartalog cyffredinol mewn termau canrannol yng nghyfarfodydd yr Awdurdod a Phwyllgorau o 1 Ebrill 2021 ac mae hyn wedi'i nodi isod. Rwyf hefyd wedi cynnwys canran presenoldeb ar gyfer blynyddoedd blaenorol at ddibenion cymharu.

1.4 **PRIF GYFARFODYDD A DREFNWYD/ WEINYDDWYD**

| **CYFARFOD** | **CYNHALIWYD** | **2021-22** | **2020-21** | **2019-20** | **2018-19** |
|---|---|---|---|---|---|
| AWDURDOD | 7 | 8 5% | 88% | 82% | 85% |
| PERFFORMIAD AC ADNODDAU | 3 | 86% | 87% | 74% | 81% |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| CYNLLUNIO A MYNEDIAD | 8 | 79% | 87% | 81% | 82% |
| PWYLLGOR SAFONAU | 1 | 100% | 100% | 67% | 100% |
| **CYFANSWM** | **17** | **8 2%** | **88%** | **80%** | **83%** |

1.5 Fel y gwelir mae presenoldeb yn amrywio o 79% ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad i 86% ar gyfer y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a 100% ar gyfer y Pwyllgor Safonau (er mai dim ond un cyfarfod o'r Pwyllgorau Safonau a gafwyd yn ystod y flwyddyn). Mewn gwirionedd, ychydig iawn o amrywiad sydd mewn presenoldeb ac adlewyrchir hyn yn y presenoldeb cyfartalog cyffredinol o 82% sy'n dangos gostyngiad bach o gymharu â'r flwyddyn flaenorol ond sy'n gymharol debyg i'r blynyddoedd blaenorol.

## 2.0 GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU

Dim

## 3.0 ARGYMHELLIAD

3.1 Cyflwynir yr adroddiad hwn er gwybodaeth yn unig.

**PAPURAU CEFNDIR**

**EITEM RHIF 18**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| **DYDDIAD** | 15 Mehefin 2022 |
| **TEITL** | **SAFONAU’R IAITH GYMRAEG** |
| **ADRODDIAD GAN** | Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer |
| **PWRPAS** | Adroddiad Monitro Safonau Iaith Gymraeg yr Awdurdod |

## 1. CEFNDIR

1.1 Ar 30 Medi 2015, cyflwynodd Comisiynydd yr Iaith Gymraeg Hysbysiad Cydymffurfio i'r Awdurdod yn unol ag adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a oedd yn cadarnhau y Safonau Iaith Gymraeg y mae'r Awdurdod yn ddarostyngedig iddynt.

1.2 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gynhyrchu adroddiad blynyddol ar ei berfformiad yn erbyn y safonau yn unol â gofynion yr Hysbysiad Cydymffurfio.

## 2. ARGYMHELLIAD

2.1. **Bod yr Awdurdod yn cymeradwyo'r adroddiad ac yn awdurdodi'r Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.**

## 3. PAPURAU CEFNDIROL

3.1. Safonau’r Iaith Gymraeg: Adroddiad Monitro 2021/22.

# Safonau Iaith Gymraeg Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri: Adroddiad Monitro 2021/22

## 1. Cyflwyniad

1.1 Ar y 30ain o Fedi 2015, cyhoeddodd Comisiynydd yr Iaith Gymraeg Hysbysiad Cydymffurfio i'r Awdurdod yn unol ag adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a oedd yn cadarnhau'r Safonau Iaith Gymraeg y mae'r Awdurdod yn ddarostyngedig iddynt.

1.2 Fel sy'n ofynnol bob blwyddyn, mae'r Adroddiad Monitro hwn yn edrych yn ôl dros y flwyddyn ariannol 2021-22, ac yn adrodd ar sut mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio gyda, ac wedi perfformio yn erbyn bob un o'r 162 o'r Safonau a osodwyd arno.

1.3 Mae'r Adroddiad Blynyddol yma yn cael ei gyflwyno i Gyfarfod Blynyddol yr Awdurdod ym mis Mehefin bob blwyddyn ar gyfer cael ei gymeradwyo, cyn cael ei gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod. Mae cyhoeddusrwydd yn cael ei rhoi i'r Adroddiad Blynyddol trwy sianeli cyfryngau cymdeithasol yr Awdurdod.

1.4 Y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer sydd gyda'r cyfrifoldeb o ddydd i ddydd dros weithredu'r safonau, a dylid cysylltu yn uniongyrchol trwy yrru e-bost at Bethan.Hughes@eryri.llyw.cymru neu drwy ffonio 01766 772530 i drafod unrhyw fater sy'n ymwneud â'r adroddiad hwn.

## 2. Crynodeb Gweithredol

2.1. Gwelwyd trosiant parhaus ymhlith staff ym mlwyddyn ariannol 2021-22, gyda 35 o swyddi newydd neu wag yn cael eu hysbysebu yn ystod y flwyddyn. Ni wnaethpwyd penodiadau i bob swydd y tro cyntaf gyda llawer yn gorfod cael eu hail-hysbysebu. Ar y 31ain o Fawrth 2022, roedd gan yr Awdurdod 141 o staff, ac roedd 135 ohonynt yn gallu cyflawni dyletswyddau eu swydd yn ddwyieithog, sef 95.7%.

2.2 Mae recriwtio a chadw staff yn parhau i fod yn broblem fawr i'r Awdurdod, er nad ydym ar ein pennau ein hunain gyda'r broblem hon. Yn genedlaethol, mae pob math o sefydliadau a busnesau yn cael anawsterau wrth recriwtio ar gyfer swyddi ar bob lefel. Roedd Swyddfa Archwilio Cymru eisoes wedi amlygu hwn fel maes risg, yn eu hadroddiad ar gydnerthedd yr Awdurdod wrth ddarparu ei wasanaethau.

2.3 Yn ystod y flwyddyn, comisiynodd y Prif Weithredwr ymchwil i gyflogau'r Awdurdod, a ddaeth i'r casgliad nad oedd strwythur cyflogau'r Awdurdod yn gystadleuol, o'i gymharu â chyflogwyr sector cyhoeddus eraill yng Ngogledd Orllewin Cymru.

2.4 Hefyd, argymhellodd yr Aelodau y dylid cynnwys cydnabyddiaeth o ddwyieithrwydd yn yr adolygiad o strwythur tâl yr Awdurdod. Roedd yr Aelodau o'r farn bod y gallu i fod yn ddwyieithog yn hanfodol i alluogi'r Awdurdod i ddarparu ei wasanaethau - mae achos busnes i gydnabod hynny yn ei strwythur tâl.

2.5 Cytunodd yr Aelodau y byddai safon gyffredin ar draws y gweithlu yn ddymunol. Cytunwyd y gellid addasu'r fframwaith sgiliau iaith Gymraeg mabwysiedig presennol i'r diben hwnnw. Mae'r fframwaith yn nodi'n glir ddisgwyliadau a chyrhaeddiad y Gymraeg ar gyfer pob swydd mewn pedwar maes.

2.6 Ar ôl ymgynghori â staff ac undebau, cytunwyd ar y safon ieithyddol ddisgwyliedig ar gyfer y ddwy iaith cyn symud ymlaen i bwynt cyflog terfynol unrhyw fand cyflog. Fodd bynnag, bydd y safon ieithyddol ar gyfer y rhan fwyaf o swyddi fel y'i nodir o dan y fframwaith sgiliau iaith Gymraeg gan amlaf yn uwch na'r safon gyffredin ar draws yr Awdurdod.

2.7 Gosodwyd ar lefelau cyrhaeddiad y ddwy iaith ar gyfer y strwythur tâl
Gwrando (3)
Darllen (2)
Siarad (3) a
Ysgrifennu (2).

2.8 Drwy gydol 2021-22, parhaodd y rhan fwyaf o staff y brif swyddfa i weithio gartref, wrth i gyfyngiadau amrywiol gael eu rhoi ar waith a'u symud drwy gydol y flwyddyn.

2.9 Gosodwyd system ffôn Llais dros y Rhyngrwyd (LldyRh) newydd ym mis Ebrill 2021, sydd bellach yn galluogi'r holl staff i ateb galwadau ffôn i'w rhif swyddfa uniongyrchol dros eu gliniadur a thrwy ap ar ffôn symudol. Mae'r system newydd hon bellach yn sicrhau bod aelodau'r cyhoedd yn gallu cysylltu â staff sy'n gweithio gartref fel petaent yn y swyddfa, sy'n galluogi gwasanaeth di-dor.

2.10 Cyfarwyddir pob aelod o staff i osod neges ar y peiriant ateb yn ddwyieithog ar eu rhifau llinell uniongyrchol. Fodd bynnag, os nad yw neges wedi'i phersonoli wedi'i gosod am ba bynnag reswm, mae'r neges y peiriant ateb yn mynd yn ddiofyn i neges ddwyieithog safonol a osodwyd ar gyfer y dderbynfa, gan sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau perthnasol.

2.11 Ym mis Tachwedd 2021 cymeradwyodd yr Awdurdod adroddiad i'w gyhoeddi yn asesu canlyniad Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg yr Awdurdod. Amlygodd yr adroddiad enghreifftiau o'r gwaith cadarnhaol sydd wedi'i wneud dros y 5 mlynedd diwethaf i hybu a chodi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg.

2.12 Yn anffodus, heb ganlyniadau Cyfrifiad 2021, mae’n amhosib dod i gasgliad os yw’r targed o gynnydd o 2% yn nifer y siaradwyr Cymraeg o fewn y Parc Cenedlaethol wedi ei gyrraedd.

2.13 Mae gwaith cwmpasu cychwynnol wedi dechrau ar gynhyrchu strategaeth newydd ar gyfer y 5 mlynedd nesaf, gyda Grŵp Llywio Aelodau i'w sefydlu yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr Awdurdod yr haf hwn, i yrru'r broses yn ei blaen.

2.14 Ym mis Ebrill 2021, gwnaed cwyn i Gomisiynydd y Gymraeg nad oedd y system rhag-archebu pacio a weithredwyd ym Mhen y Pass yn galluogi unigolion i fynd drwy’r broses archebu gyfan trwy gyfrwng y Gymraeg.  Nid oedd y gwasanaeth hwn, sydd ar gael trwy glicio dolen o wefan yr Awdurdod i ddarparwr trydydd parti, yn gwbl ddwyieithog er gwaethaf sicrwydd gan y cwmni bod hyn yn bosib cyn arwyddo’r cytundeb cychwynnol.

2.15 Yn dilyn ymchwiliad gan Gomisiynydd y Gymraeg, cyhoeddwyd Hysbysiad Penderfyniad ar y 15fed o Hydref 2021 yn cadarnhau methiant yr Awdurdod i gydymffurfio â Safonau 50, 52 a 56.

2.16 Gofynnwyd i'r Awdurdod lunio cynllun gweithredu yn amlinellu'r camau i'w cymryd i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau priodol, a rhoddwyd amserlen o flwyddyn i gydymffurfio'n llawn.

2.17 Un o'r anawsterau y mae'r Awdurdod yn ei wynebu wrth weithredu system o'r fath yw bod yn rhaid iddi gael ei hintegreiddio'n llawn â thechnoleg Adnabod Rhifau Ceir Awtomatig (ANPR), gan mai'r bwriad yn y pen draw ar gyfer y dyfodol yw bod y system yn gallu gweithredu gyda'r adnoddau staffio lleiaf posibl.  Roedd nifer y cwmnïau a all gynnig y dechnoleg hon ac a oedd yn barod i ddatblygu datrysiad dwyieithog yn gyfyngedig iawn.

2.18 Serch hynny, ymrwymwyd i gytundeb gyda JustPark, a gweithredwyd system mewn pryd ar gyfer gwyliau'r Pasg ym mis Ebrill eleni.  Ar adeg ysgrifennu’r adroddiad hwn, mae yna gwpl o fân faterion sydd eto i'w datrys er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r Safonau perthnasol, ac mae swyddogion yn parhau i weithio gyda'r cwmni i fynd i'r afael â'r rhain.

2.19 Nid oedd unrhyw gwynion eraill ynghylch y ddarpariaeth o wasanaethau cyfrwng Cymraeg mewn unrhyw faes arall o waith yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn.

2.20 I gloi, mae’r Gymraeg yn parhau i fod yn rhan annatod o hunaniaeth a diwylliant yr Awdurdod, ac adlewyrchir hyn yn y gwaith a wneir a’r gwasanaethau a ddarperir.

## 3. Safonau Cyflawni Gwasanaeth

3.1 Gohebiaeth (Safonau 1-7): Mae'r Awdurdod yn anfon gohebiaeth yn iaith ddewisol y derbynnydd, neu mewn achosion pan nad yw hyn yn hysbys, anfonir fersiwn ddwyieithog o'r ohebiaeth.

3.2 Pan anfonir gohebiaeth ddwyieithog, ymdrinnir â'r iaith Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal drwy sicrhau eu bod yn ymddangos ochr yn ochr (pan fo hyn yn bosibl), gyda'r un ffont a maint yn cael eu defnyddio yn y ddwy iaith. Ar adegau prin pan gynhyrchir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg ar wahân, bydd y ddwy fersiwn yn union yr un fath o ran ffont a maint, gan gynnwys manylion cyswllt, llofnodion ac ati.

3.3 Galwadau Ffôn (Safonau 8-22): Mae'r holl staff sy'n gweithio ym mhrif dderbynfeydd yr Awdurdod a'r Canolfannau Croeso yn gwbl ddwyieithog ac yn unol â hynny, yn gallu delio â phob ymholiad drwy gyfrwng y Gymraeg fel pwynt cyswllt cyntaf.

3.4 Mae gan yr Awdurdod ddewislen awtomatig ar y prif rif cyswllt, sy'n rhoi dewis i symud ymlaen yn Gymraeg neu Saesneg. Yna rhoddir dewisiadau ar y ddewislen yn yr iaith a ddewiswyd. Mae'r neges a recordiwyd ymlaen llaw ar gyfer galwadau y tu allan i oriau gweithio arferol yn ddwyieithog gyda'r neges yn Gymraeg yn cael ei throsglwyddo yn gyntaf.

3.5 Pan fo cysylltiad yn cael ei wneud drwy gyfrwng llinell ffôn uniongyrchol, mae'r staff wedi cael cyfarwyddyd i gyfarch y sawl sy'n ffonio gyda chyfarchiad dwyieithog (gyda'r Gymraeg yn gyntaf) neu gyda chyfarchiad niwtral, gan sicrhau nad yw'r iaith Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg.

3.6 Pan fo cysylltiad yn cael ei wneud drwy gyfrwng llinell ffôn uniongyrchol, mae'r staff wedi cael cyfarwyddyd i adael neges ddwyieithog ar eu peiriannau ateb, gyda’r neges yn y Gymraeg yn cael ei chwarae yn gyntaf.

3.7 Gan fod y rhan fwyaf o staff yr Awdurdod yn ddwyieithog, ymdrinnir gydag unrhyw alwadau gan siaradwyr Cymraeg gan y pwynt cyswllt cyntaf. O ran y staff nad ydynt yn gwbl abl i gynnal sgwrs yn y Gymraeg, byddant yn trosglwyddo'r alwad i gydweithiwr yn ddi-oed.

3.8 Yn ystod y flwyddyn, mae mwyafrif y staff swyddfa wedi parhau i weithio gartref. Mae'r system ffôn newydd a osodwyd gan yr Awdurdod ym mis Ebrill 2021, bellach yn galluogi staff i ateb eu rhifau ffôn uniongyrchol yn y swyddfa drwy ap ar eu ffôn symudol a thrwy eu gliniadur.

3.9 Cyfarfodydd (Safonau 23-38): Rhaid i bob cyfarfod a drefnir gydag unigolyn gael ei gynnal yn iaith ddewisol yr unigolyn, a bydd y trefniant hwn yn parhau. Ar gyfer cyfarfodydd a drefnwyd i grŵp o unigolion, byddant yn cael eu cynnal yn y Gymraeg gyda chyfieithu ar y pryd yn cael ei drefnu ar gyfer unrhyw rai di-Gymraeg sy'n bresennol (oni bai bod yr holl wahoddedigion yn ddi-Gymraeg, ac os felly, cynhelir y cyfarfod yn Saesneg).

3.10 Rhaid i bob cyfarfod cyhoeddus o'r Awdurdod gael ei gynnal yn y Gymraeg gyda chyfieithu ar y pryd ar gael ar gyfer y rhai nad ydynt yn gallu cyfathrebu trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, a bydd y trefniant hwn yn parhau.

3.11 Yn ystod y flwyddyn, parhawyd i gynnal mwyafrif o gyfarfod cyhoeddus yn rhithiol trwy ddefnyddio Zoom, oherwydd hwn yw’r unig feddalwedd sydd yn gallu cynnal gwasanaethau cyfieithu ar y pryd yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid oedd pwyllgorau’r Awdurdod, sydd fel arfer yn agored i’r cyhoedd arsylwi arnynt, wedi cael eu darlledu yn fyw nac ychwaith yn agored i’r cyhoedd gael ymuno’n rhithiol.

3.12 Mae newidiadau'n cael eu rhoi ar waith ar hyn o bryd i alluogi'r Awdurdod i ddechrau darlledu rhai o'i bwyllgorau ac i roi systemau ar waith i alluogi cyfarfodydd hybrid, gan alluogi'r cyhoedd i gael mynediad i'r cyfarfodydd yn rhithiol neu wyneb yn wyneb.

3.13 Mae pob cyhoeddusrwydd, deunyddiau ysgrifenedig ac unrhyw ddogfennaeth a gynhyrchir gan yr Awdurdod sy'n cael ei ddosbarthu mewn digwyddiadau cyhoeddus neu mewn cyfarfodydd yn gwbl ddwyieithog, gyda'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal.

3.14 Dogfennaeth Gyhoeddus (Safonau 40-51): Mae holl ddogfennau cyhoeddus yr Awdurdod, gan gynnwys ffurflenni dwyieithog yn dangos y Gymraeg yn gyntaf neu ar ochr chwith y ddogfen. Mae'r iaith Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal, gyda'r un ffont a maint testun yn cael eu defnyddio ar gyfer y ddwy iaith. Mae fersiynau Cymraeg a Saesneg mewn dogfennau ar wahân fel arfer pan gyhoeddir y dogfennau ar y wefan, ac mae brawddeg yn cael ei chynnwys ar y fersiwn Saesneg, yn nodi bod fersiwn Gymraeg ar gael.

3.15 Yn ystod y flwyddyn, nododd ymchwiliad cydymffurfio gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg nad oedd brawddeg o fewn bob dogfen a gyhoeddwyd ar y wefan yn nodi bod fersiwn Gymraeg ar gael ar y ddogfen Saesneg. Yn ystod y broses o drosglwyddo dogfennau i'r wefan newydd, gwiriwyd yr holl ddogfennau ac ar gyfer y rhai nad oeddent yn cynnwys y datganiad, - ychwanegwyd hyn i sicrhau cydymffurfiaeth.

3.16 Y Wefan, Apiau a Chyfryngau Cymdeithasol (Safonau 52-59): Mae gwefan ac apiau yr Awdurdod yn gwbl ddwyieithog gyda'r defnyddiwr yn gallu dewis iaith ar y dudalen gartref. Mae botwm togl ar bob tudalen ar y wefan newydd y gellir ei ddefnyddio er mwyn cael mynediad at yr iaith arall. Mae pob tudalen yn cyfateb yn gyfan gwbl yn y ddwy iaith.

3.17 Yn ystod y flwyddyn, nododd ymchwiliad cydymffurfio gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg fod 2 bennawd yn Saesneg ar y tudalennau Cymraeg ar y tudalennau recriwtio ar y wefan. Cafodd y broblem ei hunioni'n gyflym gyda chwmni'r wefan.

3.18 Mae gan yr Awdurdod fersiynau cyfatebol o'i gyfrifon Trydar a fersiwn ddwyieithog o’i dudalennau Gweplyfr. Mae pob neges gan yr Awdurdod yn cael eu hailadrodd yn union yr un fath yn y fersiynau Cymraeg a Saesneg ar yr amrywiol safleoedd cyfryngau cymdeithasol, neu'n ddwyieithog mewn rhai achosion. Bydd unrhyw negeseuon a dderbynnir yn Gymraeg trwy gyfryngau cymdeithasol yn cael eu hateb yn y Gymraeg bob amser.

3.19 Peiriannau Hunanwasanaeth (Safon 60): Mae holl beiriannau talu ac arddangos yr Awdurdod yn y meysydd parcio yn gallu darparu’r gwasanaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ar beiriannau hŷn, mae'r sgrin gychwynnol yn dangos dewis iaith cyn symud ymlaen tra bo’r peiriannau sy’n fwy newydd yn newid iaith bob 3 eiliad.

3.20 Ers haf 2020, mae Eryri wedi profi niferoedd digynsail o ymwelwyr, a achosodd broblemau diogelwch y cyhoedd ynghylch parcio anghyfrifol a brofwyd o amgylch Yr Wyddfa. Yn dilyn cynllun peilot rhag-archebu parcio oedd wedi’i sefydlu am rai wythnosau ym Mhen y Pass ym mis Awst 2020, arwyddwyd cytundeb blwyddyn gyda Just Park i dreialu ateb cynaliadwy hirdymor. Er gwaethaf y sicrwydd o allu darparu gwasanaeth Cymraeg a Saesneg, nid oedd y system yn gwbl ddwyieithog a chyflwynwyd cwyn ffurfiol i Gomisiynydd y Gymraeg yn gynnar ym mis Ebrill 2021.

3.21 Ar 15 Hydref 2021, cyhoeddodd y Comisiynydd Hysbysiad Penderfyniad a ddaeth i’r casgliad bod yr Awdurdod yn torri Safonau’r Gymraeg 50, 52 a 56.

3.22 Gofynnwyd i'r Awdurdod gynhyrchu Cynllun Gweithredu yn nodi sut y byddai'n sicrhau cydymffurfiaeth a rhoddwyd blwyddyn i gydymffurfio.

3.23 Rhoddwyd system rhag-archebu ddwyieithog ar waith mewn pryd ar gyfer gwyliau’r Pasg ym mis Ebrill 2022.

3.24 Arwyddion (Safonau 61-63): Mae pob arwydd sy’n cael ei osod gan yr Awdurdod yn hollol ddwyieithog, gyda’r Gymraeg yn ymddangos yn gyntaf neu ar yr ochr chwith. Mae'r iaith Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal, gyda'r un ffont a maint testun yn cael eu defnyddio ar gyfer y ddwy iaith.

3.25 Gwasanaethau Derbynfa (Safonau 64-68): Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r holl staff sy'n gweithio yn y prif dderbynfeydd neu yn y Canolfannau Croeso yn gwbl ddwyieithog. Mae'r logo 'Iaith Gwaith' yn cael ei arddangos ym mhob derbynfa i ddangos bod gwasanaeth Cymraeg ar gael ac mae gan bob un o staff y dderbynfa fathodynnau 'Iaith Gwaith'.

3.26 Hysbysebion Swyddogol (Safonau 69-70): Pan fo’r Awdurdod yn cyhoeddi neu’n arddangos Hysbyseb Swyddogol maen nhw’n hollol ddwyieithog, gyda’r Gymraeg yn ymddangos yn gyntaf neu ar yr ochr chwith. Mae'r iaith Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal, gyda'r un ffont a maint testun yn cael eu defnyddio ar gyfer y ddwy iaith.

3.27 Cynlluniau Grant (Safonau 71-75): Mae'r Awdurdod yn gweinyddu sawl cynllun grant, sef

- Cronfa Partneriaeth Eryri;
- Grantiau ar gyfer atgyweirio adeiladau rhestredig sydd mewn perygl yn Eryri;
- Grantiau adeiladau yn Nolgellau trwy gyfrwng Menter Treftadaeth Treflun Dolgellau;
- Cronfa Cymunedol y Carneddau sy’n cael ei ariannu gan Chronfa Treftadaeth y Loteri; ac
- Cronfa Coedwigoedd Glaw Celtaidd sy’n cael ei ariannu gan Gronfa LIFE Undeb Ewropeaidd.

3.28 Mae'r holl ddogfennau, gan gynnwys y ffurflenni cais a’r nodiadau cyfarwyddyd yn gwbl ddwyieithog, ac mae'r ohebiaeth yn cael ei chynnal yn iaith ddewisol yr ymgeisydd neu'n ddwyieithog.

3.29 Yn ogystal, ar gyfer y grantiau hynny sydd ar gyfer prosiectau, digwyddiadau a gweithgareddau cymunedol, gosodir amodau ar y grant i sicrhau bod yr holl weithgareddau a dogfennaeth a ariennir gan y grantiau yn gwbl ddwyieithog.

3.30 Er bod y mesurau hyn wedi bod yn eu lle ers blynyddoedd, mae Safonau’r Gymraeg yn mynnu bod gennym Bolisi Dyfarnu Grantiau ffurfiol yn ei le mewn perthynas â goblygiadau’r Gymraeg. Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safon berthnasol, datblygwyd a mabwysiadwyd Polisi Dyfarnu Grantiau ffurfiol yn ystod y flwyddyn.

3.31 Mae'r holl staff sydd â chyfrifoldeb dros weinyddu cynlluniau grant wedi cael gwybod am y polisi newydd ac yn deall sut i'w weithredu.

3.32 Tendrau Cytundebau/ Contractau: Mae pob Hysbysiad Cyhoeddus fel Gwahoddiadau i Dendro neu ar gyfer Mynegi Diddordeb yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog ac fel arfer yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod. Maent hefyd yn cael eu cyhoeddi ar wefan GwerthwchiGymru yn ddwyieithog.

3.33 Mae’r holl geisiadau a dderbyniwyd yn Gymraeg wedi cael eu prosesu a’u trin yn yr un modd â'r ceisiadau yn Saesneg, a gohebir yn iaith ddewisol yr ymgeisydd neu’n ddwyieithog.

3.34 Hunaniaeth Gorfforaethol a Hyrwyddo Gwasanaethau (Safonau 81-83): Bu hunaniaeth gorfforaethol yr Awdurdod yn hollol ddwyieithog ers y dechrau un, gyda'r iaith Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin ar sail cydraddoldeb. Sicrhawn fod unrhyw newidiadau neu ail-frandio hunaniaeth gorfforaethol yn y dyfodol yn glynu at yr egwyddor sylfaenol hon.

3.35 Nid yw'r Awdurdod yn darparu'r un gwasanaethau ar wahân yn y Gymraeg a'r Saesneg, ond yn hytrach yn cynnig gwasanaeth dwyieithog gydag un pwynt cyswllt. Mae unrhyw waith hyrwyddo'r gwasanaethau felly yn cael ei wneud yn ddwyieithog, i gyd fynd â hunaniaeth gorfforaethol yr Awdurdod, sy'n sicrhau fod yr iaith Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin ar sail cydraddoldeb.

3.36 Cyrsiau Addysg (Safonau 84-86): Tan fis Mawrth 2020, roedd Plas Tan y Bwlch, Canolfan Astudiaeth yr Awdurdod, yn cynnig cyrsiau addysg gyhoeddus, a oedd yn destun i asesiad o'r angen i gynnig y cyrsiau hynny drwy gyfrwng y Gymraeg.

3.37 Ers dechrau pandemig Covid-19, mae rhedeg cyrsiau dydd a phreswyl wedi dod i ben. Mae gweithgaredd masnachol yn y Ganolfan ar hyn o bryd yn ymestyn i lety Gwely a Brecwast a digwyddiadau trydydd parti yn unig.

3.38 Y System Annerch Gyhoeddus (Safon 87): Ar hyn o bryd nid oes gan yr Awdurdod unrhyw systemau annerch cyhoeddus ar waith ar draws ei adeiladau.

3.39 Cwynion perthnasol i Gydymffurfio â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaeth
Yn ystod y flwyddyn derbyniwyd 1 gŵyn yn ymwneud â'r ffordd yr oedd yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau. Roedd y gŵyn honno'n ymwneud â'r system rhag-archebu parcio sydd ar gael drwy wefan yr Awdurdod. Mae manylion wedi eu cynnwys o dan 3.20 – 3.23.

## 4. Safonau Gwneud Polisi

4.1 Ffurfio Polisi a'r Ymgynghori Cysylltiol (Safonau 88-93): Gyda phob polisi newydd* sy'n cael ei ddatblygu (neu os yw polisi presennol yn cael ei ddiwygio a'i ddiweddaru) ymgymerir â phroses sgrinio Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar yr iaith Gymraeg fel rhan o'r broses. Mae'r broses asesu effaith integredig hon wedi cael ei ehangu eleni i ymgorffori'r ddyletswydd cymdeithasol-economaidd.
**Mae Polisi yn cael ei ddiffinio yn ei gyd-destun ehangach i gynnwys cynlluniau a strategaethau.*

4.2 Bydd y broses sgrinio yn penderfynu a fydd y polisi arfaethedig yn cael, neu'n debygol o gael, effaith negyddol ar y Gymraeg neu ar allu pobl i ddefnyddio'r Gymraeg. Bydd yr asesiad hefyd yn nodi'r posibilrwydd i'r polisi arfaethedig gael effaith gadarnhaol ar yr iaith naill ai drwy ei defnyddio neu ei hyrwyddo.

4.3 Os bydd y polisi arfaethedig yn destun i ymgynghoriad cyhoeddus, bydd yr ymatebion sy’n dod i law yn ystod yr ymgynghoriad hwnnw yn cael eu hystyried yn llawn wrth gynnal yr asesiad effaith. Bydd aelodau'r Awdurdod hefyd yn cael cyfle i graffu'r polisi arfaethedig ar wahanol adegau o’r broses. Os pennir bod effaith negyddol, yna cynhelir asesiad llawn o'r effaith ar gydraddoldeb i bennu beth yw’r mesurau lliniaru sy’n angenrheidiol a phenderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r polisi ai peidio.

4.4 Yn ystod ymchwiliad cydymffurfio, nododd swyddfa Comisiynydd y Gymraeg nad oedd holl ddogfennau ymgynghori’r Awdurdod gan y gwasanaeth Polisi Cynllunio yn cynnwys y geiriad gofynnol sy’n gofyn yn benodol am yr effaith bosibl y gallai polisi penodol ei gael ar y Gymraeg neu’r gallu i ddefnyddio’r iaith Gymraeg.

4.5 O ganlyniad, trafodwyd y gofynion o dan y Safonau a'u gwneud yn glir i staff Polisi Cynllunio. Yn ogystal, cynhyrchwyd Dogfen Ganllaw a oedd yn amlinellu'r gofynion ac yn rhoi enghreifftiau o eiriad priodol i'w ddefnyddio mewn gwahanol ddogfennau ymgynghori, sydd wedi'i dosbarthu i holl wasanaethau'r Awdurdod.

4.6 Dyfarnu Grantiau a Chomisiynu Ymchwil a Phrosiectau (Safonau 94-97): Mae’r angen i ystyried yr effaith (boed hynny’n negyddol neu’n gadarnhaol) ar yr iaith Gymraeg wedi cael ei integreiddio’n llawn i mewn i brosesau'r gronfa gomisiynu newydd, Cronfa Eryri. Bydd amodau ychwanegol o ran defnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg, a sicrhau cydraddoldeb i’r Gymraeg, yn parhau i fod yn rhan o ofynion y gronfa.

4.7 Yn ystod y flwyddyn, comisiynwyd ymchwil gan Gronfa Eryri ar un o rinweddau arbennig Eryri, sef Llonyddwch ac Unigedd. Cynhaliwyd arolwg gyda thrigolion y Parc Cenedlaethol i geisio eu barn. Roedd ymatebwyr yr arolwg yn gallu cynnal yr arolwg yn Gymraeg neu yn Saesneg.

4.8 Casglodd yr ymchwil farn trigolion ar sawl agwedd ar yr ansawdd arbennig hwn. Cododd nifer o drigolion bryderon ynghylch perchnogion ail gartrefi a’r effaith y mae ymwelwyr yn eu cael ar ein diwylliant a’n hiaith. Bydd canlyniadau'r ymchwil yn cael eu defnyddio fel rhan o waith parhaus i wireddu gweledigaeth Cynllun Eryri.

4.9 Cwynion yn ymwneud â Chydymffurfio â'r Safonau Llunio Polisi
Yn ystod y flwyddyn, ni chafwyd unrhyw gwynion yn ymwneud â'r ffordd y mae’r Awdurdod yn cydymffurfio â’r Safonau Llunio Polisi.

## 5. Safonau Gweithredu

5.1 Ar 31 Mawrth 2022, roedd yr Awdurdod yn cyflogi 142 aelod o staff; mae 136 o'r rheiny'n gwbl ddwyieithog, sy'n cynrychioli 95.7%.

5.2 Defnyddio'r Gymraeg yn Fewnol (Safon 98): Ers iddo gael ei sefydlu, mae'r Awdurdod wedi sefydlu trwy arferiad a gweithrediad mai'r Gymraeg yw'r brif iaith gyfathrebu fewnol, gyda'r Saesneg yn cael ei defnyddio fel bo'r angen. Mae'r staff yn ymwybodol bod unrhyw gyfathrebu ysgrifenedig cyffredinol (fel e-byst) sydd wedi'u hanelu at yr holl staff yn cael ei gynhyrchu yn ddwyieithog.

5.3 Dogfennaeth Staff (Safonau 99-104): Mae gan yr Awdurdod bolisi cwbl ddwyieithog yn ei le ar gyfer yr holl faterion personél. Mae hyn yn golygu bod pob dogfen sy'n ymwneud â chyflogaeth unigolyn yn cael eu cynhyrchu yn ddwyieithog yn safonol a'i rhoi i bob aelod o staff. Mae unrhyw ohebiaeth sy'n cael ei hanfon allan o bryd i'w gilydd gan y gwasanaeth personél at aelodau unigol o staff hefyd yn cael ei pharatoi'n ddwyieithog.

5.4 Polisïau Personél (Safonau 105-111): Mae pob polisi personél yn cael ei gynhyrchu yn ddwyieithog yn safonol.

5.5 Gweithdrefnau Cwyno a Disgyblu (Safonau 112-119): Mae croeso i staff ohebu trwy gyfrwng eu hiaith ddewisol. Mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal ac ni fyddai unrhyw oedi cyn ymateb i ohebiaeth sy'n dod i law yn y naill iaith na'r llall. Mae pob gwrandawiad disgyblu neu apeliadau yn cael eu cynnal yn iaith ddewisol yr aelod o staff dan sylw, ynghyd â phob dogfennaeth a gohebiaeth berthnasol.

5.6 Meddalwedd Cyfrifiadurol (Safon 120): Mae meddalwedd Cysgliad wedi ei osod yn safonol ar bob cyfrifiadur a gliniadur staff, er mwyn gwirio sillafu a gramadeg yn y Gymraeg.

5.7 Mewnrwyd Staff ac Aelodau (Safonau 121-126): Ar hyn o bryd, nid oes gan y wefan newydd a lansiwyd ym mis Ebrill 2022 fewnrwyd Staff ac Aelodau.

5.8 Asesiad Sgiliau (Safon 127): Ceir data o'r asesiad sgiliau staff yn Atodiad 1.

5.9 Hyfforddiant (Safonau 128-133): Darperir cyrsiau hyfforddiant cyffredinol trwy gyfrwng y Gymraeg bob amser lle bo'n bosibl. Yn ystod 2021-22, ni fynychodd unrhyw aelod o staff gyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig.

5.10 Anogir cyflogeion sy'n methu â chyfathrebu'n llawn yn y Gymraeg i fynychu cyrsiau a hyfforddiant Cymraeg, a gellir gwneud hynny yn ystod amser gwaith. Mynychodd 1 aelod o staff cyrsiau Cymraeg/gloywi iaith yn ystod y flwyddyn.

5.11 Llofnodion E-byst a Manylion Cyswllt (Safonau 134-135): Mae'r Awdurdod yn defnyddio bathodyn 'Iaith Gwaith' ar gyfer siaradwyr a dysgwyr Cymraeg i'w osod fel rhan o'r llofnod e-bost. Mae'r holl fanylion cyswllt sy'n cael eu darparu fel rhan o'r llofnod yn hollol ddwyieithog, fel sy'n ofynnol yn y daflen 'Cyfathrebu'n Glir', yr arweinlyfr staff ar safonau gwasanaeth cwsmeriaid ac arddull safonol.

5.12 Swyddi Gwag a Recriwtio (Safonau 136-140): Yn ystod 2021-22, hysbysebwyd 35 swydd wag. Roedd bob un o'r 35 o swyddi yn nodi fod y Gymraeg yn hanfodol.

5.13 Datblygwyd fframwaith sgiliau iaith Gymraeg ar ddechrau 2020, sy'n graddio'r lefel sgil sydd ei hangen ym mhob swydd o 0 hyd at 5+ mewn 4 prif gategori, sef gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu. Mae pob Pennaeth Gwasanaeth yn sgorio bob swydd wag gyda'r Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer yn cymedroli bob sgôr, cyn iddo fynd i'r Tîm Rheoli am ganiatâd terfynol. Cyn cyflwyno cais, mae ymgeiswyr nawr yn ymwybodol o'r union lefel o sgil sydd ei angen ar gyfer y swydd.

5.14 Mae pob hysbyseb recriwtio yn Gymraeg. Mae'r Awdurdod yn defnyddio Webrecruits i dderbyn a phrosesu ceisiadau, sy'n caniatáu i ymgeiswyr gyflwyno ceisiadau ar-lein. Mae'r holl ddogfennau ar gael yn ddwyieithog e.e. ffurflen gais, swydd ddisgrifiad, manyleb y person a'r ffurflen monitro cydraddoldeb. Cynhelir cyfweliadau am swyddi yn y Gymraeg.

5.15 Mae system Webrecruits yn anfon e-bost at ymgeiswyr am swyddi os ydynt wedi bod yn aflwyddiannus yn eu cais ac nad ydynt wedi cael eu dewis ar gyfer cyfweliad. Mae'r e-bost hwn yn Gymraeg a Saesneg. Anfonir llythyrau neu e-byst at ymgeiswyr am swyddi yn eu hysbysu o ganlyniad eu cyfweliad yn Gymraeg yn unig neu'n ddwyieithog.

5.16 Arwyddion Mewnol ac Anerchiadau (Safonau 141-144): Mae pob arwydd sy'n cael ei osod gan yr Awdurdod yn hollol ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn ymddangos yn gyntaf neu ar yr ochr chwith. Mae'r iaith Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal, gyda'r un ffont a maint testun yn cael eu defnyddio ar gyfer y ddwy iaith. Nid oes gan yr Awdurdod system anerchiadau mewnol ar hyn o bryd.

5.17 Cwynion yn ymwneud â Chydymffurfio â Safonau Gweithredu
Yn ystod y flwyddyn ni chafwyd unrhyw gwynion yn ymwneud â'r ffordd yr oedd yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r Safonau Gweithredu.

## 6. Safonau Hybu

6.1. Hybu'r Iaith Gymraeg (Safonau 145-146): Yn ystod 2016/17, mabwysiadwyd Strategaeth Hybu'r Gymraeg gan yr Awdurdod. Mae'r strategaeth yn cynnwys targed ar gyfer gweld 'cynnydd o 2% yn nifer y siaradwyr Cymraeg ym mhoblogaeth Parc Cenedlaethol Eryri erbyn 2021'.

6.2 Ym mis Tachwedd 2021, cyhoeddodd yr Awdurdod adroddiad yn asesu canlyniad y Strategaeth Hybu. Heb ryddhad data Cyfrifiad 2021 ar niferoedd siaradwyr Cymraeg, ni fu'n bosibl asesu a yw'r Awdurdod wedi cyrraedd ei darged o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg o fewn y Parc Cenedlaethol o 2%.

6.3 Mae gwaith wedi dechrau ar ddatblygu Strategaeth newydd, er bod y gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg yn parhau fel arfer yn rhan annatod o waith beunyddiol yr Awdurdod.

## 7. Safonau Cadw Cofnodion a Safonau Atodol

7.1 Cadw Cofnodion am Gydymffurfiaeth gyda'r Safonau (Safonau 147-176): Cynhyrchwyd dogfen o'r enw 'Safonau Iaith Gymraeg Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri', sydd ar gael yn swyddfeydd yr Awdurdod ac ar y wefan. Mae'r ddogfen yn amlinellu'r holl Safonau y mae'n rhaid i'r Awdurdod lynu atynt ac mae'n nodi sut y gall aelodau o'r cyhoedd gwyno ynghylch sut mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â'r Safonau neu unrhyw agwedd o'r gwasanaeth iaith Gymraeg a gynigir gan yr Awdurdod.

7.2 Mae'r Awdurdod wedi cadw cofnodion o'r ffordd y mae'n cydymffurfio â'r Safonau, yn unol â gofynion Comisiynydd y Gymraeg.

**ATODIAD 1**

## 1. Lefelau Sgiliau Staff - Trosolwg

| Nifer a % y staff o fewn gwasanaethau'r Awdurdod sy'n gallu siarad Cymraeg yn ôl cyfarwyddiaeth | | | |
|---|---|---|---|
| | **Nifer y Staff** | **Nifer y Siaradwyr Cymraeg** | **%** |
| Corfforaethol | 92 | 90 | 98% |
| Cynllunio a Rheoli Tir | 49 | 45 | 92% |

| Nifer a % y staff o fewn gwasanaethau'r Awdurdod sy'n gallu siarad Cymraeg yn ôl graddfa'r swydd | | | |
|---|---|---|---|
| | **Nifer y Staff** | **Nifer y Siaradwyr Cymraeg** | **%** |
| Tîm Rheoli | 3 | 3 | 100% |
| Penaethiaid Gwasanaeth | 10 | 9 | 90% |
| Graddfa 7+ | 57 | 53 | 93% |
| Hyd at Radd 6 | 71 | 70 | 98.6% |

| Nifer a % y staff o fewn gwasanaethau'r Awdurdod sy'n gallu siarad Cymraeg yn ôl gweithle | | | |
|---|---|---|---|
| | **Nifer y Staff** | **Nifer y Siaradwyr Cymraeg** | **%** |
| Pencadlys | 87 | 82 | 94% |
| Canolfannau Croeso | 10 | 10 | 100% |
| Staff Allanol | 31 | 31 | 100% |
| Plas Tan y Bwlch | 13 | 12 | 92% |

## 2. Lefelau Sgiliau Staff yn ôl Gwasanaeth

### Cyfarwyddiaeth Gorfforaethol

| Nifer a % y staff o fewn y gwasanaeth sy'n gallu siarad Cymraeg | | | |
|---|---|---|---|
| **Adran** | **Nifer y Staff** | **Nifer y Siaradwyr Cymraeg** | **%** |
| Tîm Rheoli | 2 | 2 | 100% |
| Cyllid | 5 | 5 | 100% |
| Personél | 1 | 1 | 100% |
| Gweinyddol | 12 | 12 | 100% |
| Systemau Gwybodaeth | 5 | 4 | 80% |
| Eiddo | 4 | 4 | 100% |
| Cyfreithiol | 1 | 1 | 100% |
| Ymgysylltu | 25 | 25 | 100% |
| Plas Tan y Bwlch | 13 | 12 | 92% |
| Wardeinio | 24 | 24 | 100% |

| Nifer a % y staff o fewn y gwasanaeth, yn ôl graddfa'r swydd, sy'n gallu siarad Cymraeg | | | |
|---|---|---|---|
| **Adran** | **Nifer y Staff** | **Nifer y Siaradwyr Cymraeg** | **%** |
| Prif Weithredwr | 1 | 1 | 100% |
| Cyfarwyddwyr | 1 | 1 | 100% |
| Penaethiaid Gwasanaeth | 7 | 7 | 100% |
| Graddfa 7+ | 30 | 29 | 97% |
| Hyd at Radd 6 | 53 | 52 | 98% |

**Cynllunio a Rheoli Tir**

| Nifer a % y staff o fewn y gwasanaeth sy'n gallu siarad Cymraeg | | | |
|---|---|---|---|
| **Adran** | **Nifer y Staff** | **Nifer y Siaradwyr Cymraeg** | **%** |
| Cyfarwyddwr | 1 | 1 | 100% |
| Cynllunio | 17 | 14 | 82% |
| Treftadaeth Ddiwylliannol | 15 | 15 | 100% |
| Cadwraeth, Coed ac Amaethyddiaeth | 16 | 15 | 94% |

| Nifer a % y staff o fewn y gwasanaeth, yn ôl graddfa'r swydd, sy'n gallu siarad Cymraeg | | | |
|---|---|---|---|
| **Adran** | **Nifer y Staff** | **Nifer y Siaradwyr Cymraeg** | **%** |
| Cyfarwyddwr | 1 | 1 | 100% |
| Pennaeth Gwasanaeth | 3 | 2 | 67% |
| Graddfa 7+ | 27 | 24 | 89% |
| Hyd at Radd 6 | 18 | 18 | 100% |

## 3. Lefelau Sgiliau Staff – Derbynfa

| Nifer a % y swyddi yn y prif dderbynfeydd sydd wedi'u dynodi'n 'Cymraeg yn hanfodol' ac a gafodd eu llenwi gan staff dwyieithog. | | | |
|---|---|---|---|
| **Adran** | **Nifer y Staff** | **Nifer y Siaradwyr Cymraeg** | **%** |
| Pencadlys | 7 | 7 | 100% |
| Plas Tan y Bwlch | 4 | 4 | 100% |
| Canolfannau Croeso | 10 | 10 | 100% |

**EITEM RHIF 19**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| **DYDDIAD** | 15 Mehefin 2022 |
| **TEITL** | **ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL CYNLLUN ERYRI 2020-21** |
| **ADRODDIAD GAN** | Rheolwr Partneriaethau |
| **PWRPAS** | Adrodd ar flwyddyn gyntaf weithredol Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol o 2020-21 |

## 1. CEFNDIR

1.1 Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i Awdurdod y Parc Cenedlaethol baratoi cynllun i ddarparu rheolaeth effeithiol sy'n cynnwys pawb sy'n ymwneud â dyfodol Eryri. Mae'r cynllun yn nodi sut y byddwn ni i gyd yn gweithio gyda'n gilydd i ofalu am Barc Cenedlaethol Eryri.

1.2 Er mwyn cynnwys partneriaid yn y gwaith o ddatblygu a chyflawni'r Cynllun, mae Fforwm Mae Eryri yn cyfarfod yn chwarterol ac mae'n gyfle i bawb sy'n ymwneud â llunio dyfodol Eryri i symbylu eu hymagwedd at gydweithio yn y rhanbarth a thu hwnt. Drwy'r diben hwn, mae'r Fforwm yn darparu ffordd newydd o weithio gyda phartneriaid perthnasol i gyflawni dyletswyddau Adran 62 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995.

1.3 Datblygwyd Cynllun Eryri - y Cynllun Rheoli newydd - dros gyfnod helaeth o ymgynghori ac ymgysylltu o 2016-2019.

1.4 Gyda dyfodiad y pandemig byd-eang yn gynnar yn 2020, bu oedi cyn mabwysiadu Cynllun Eryri er mwyn sicrhau bod modd sicrhau cadernid o dan amgylchiadau newydd.

1.5 Ym mis Hydref 2020 mabwysiadodd yr aelodau Gynllun Eryri fel Cynllun Rheoli (Partneriaeth) newydd y Parc Cenedlaethol ar gyfer y cyfnod 2020-25.

1.6 Lansiwyd Cynllun Eryri yn swyddogol mewn digwyddiad ar-lein ym mis Tachwedd 2020.

1.7 Ers hynny, mae Partneriaid wedi bod yn rhoi'r Cynllun Gweithredu ar waith ac yn adrodd yn ôl i'r Rheolwr Partneriaethau ac yng nghyfarfodydd ar-lein chwarterol Fforwm Eryri.

1.8 Mae'r Cynllun Gweithredu wedi'i rannu'n themâu ac mae'n dair adran - sy'n ymwneud â dau ddiben statudol a dyletswydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

1.9 Yr Adroddiad Monitro Blynyddol amgaeedig (Atodiad 1) yw'r cyntaf o'i fath ac mae'n cwmpasu'r cyfnod rhwng **Hydref 2020 a Rhagfyr 2021.**

## 2 . ADRODDIAD CYNNYDD

2.1 Yn ei flwyddyn gyntaf o weithredu, mae cryn gynnydd wedi'i wneud ar Gynllun Gweithredu Cynllun Eryri, yn enwedig o ystyried effeithiau anrhagweladwy Covid-19 a gweithio o bell fel anghenraid.

2.2 Addasodd Fforwm Eryri yn gyflym i gyfarfodydd dwyieithog ar-lein ac mae wedi diwygio ei Gylch Gorchwyl i sicrhau mai dyma'r dull gweithredu a ffafrir ar gyfer o leiaf 3 o'i 4 cyfarfod blynyddol. Mae hyn wedi hwyluso presenoldeb ac wedi osgoi'r angen i bawb deithio cryn bellter i gyfarfod wyneb yn wyneb.

2.3 Wrth gasglu tystiolaeth gan Bartneriaid ar gyfer yr adroddiad hwn, daeth yn amlwg bod enghreifftiau rhagorol o gyflawni'r Cynllun Gweithredu yn mynd rhagddynt ar draws y rhanbarth. Penderfynwyd mai ffordd newydd a phriodol o gyfleu'r wybodaeth hon fyddai trwy gynhyrchu micro-safle ar gyfer y Cynllun y gellir ei ddiweddaru gan Bartneriaid. Mae hwn ar gael nawr yn fan hyn www.cynlluneryri.org

2.4 Mae'r Adroddiad yn dechrau gyda Chyflwyniad a Chrynodeb Gweithredol.

2.5 Mae adroddiad llawn yn dilyn lle mae pob Canlyniad / Allbwn yn cael ei asesu mewn perthynas â'r Mesurau Llwyddiant fel y cytunwyd arnynt gan yr holl Bartneriaid yng Nghynllun Gweithredu gwreiddiol Cynllun Eryri.

2.6 Mae pob Canlyniad / Allbwn yn dechrau gydag asesiad cyffredinol, sydd wedi'i liwio yn ôl system goleuadau traffig. Rhoddir ystyriaeth i ba un a yw'r amserlen wreiddiol yn dal yn berthnasol, a beth (os o gwbl) a allai atal y Cam Gweithredu rhag cael ei gyflawni erbyn 2025.

2.7 Isod mae nodyn atgoffa manwl o'r Cynllun Gweithredu sy'n ymwneud â'r Canlyniad / Allbwn hwn a diweddariad ar gynnydd gan yr holl bartneriaid perthnasol.

## 3. PWYNTIAU ALLWEDDOL I'W NODI

3.1 Mae'n deg dod i'r casgliad bod cynnydd wedi'i gyflawni yn dilyn blwyddyn o gyflawni – mewn amgylchiadau heriol – ym mhob Canlyniad ar Gynllun Gweithredu Cynllun Eryri.

3.2 Dim ond un cam gweithredu ( *Cam Gweithredu 2.1 Cydlynu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar gynnal, adfer ac ehangu cynefinoedd, rhywogaethau, nodweddion amgylchedd hanesyddol a nwyddau cyhoeddus ehangach* ) sydd wedi'i asesu fel Coch = Heb ei symud ymlaen/mewn perygl. Mae hyn allan o'n rheolaeth ar hyn o bryd gan ein bod yn aros i'r Bil Amaethyddiaeth (Cymru) gael ei gyflwyno. Bydd y Cam Gweithredu hwn yn cael ei ailasesu gan yr holl Bartneriaid unwaith y bydd gennym well dealltwriaeth o'r sefyllfa yn y dyfodol.

3.3 Serch hynny, mae effeithiau Covid-19 a newidiadau staffio wedi golygu bod llinellau amser wedi - a bydd angen – cael eu hail-asesu ar gyfer y Camau Gweithredu canlynol A1.1; A1.5; A2.2; A3.3; A6.3; A7.1; B1.1; B2.2; B3.1; B3.2; B3.3; B5.1; B5.2; C3.2; C4.1. Bydd y rhain yn cael eu cynnwys yn yr Adroddiad Cynnydd Blynyddol nesaf (2021-22).

3.4 Bydd angen diwygio camau gweithredu A3.3 a B1.3 hefyd i adlewyrchu amgylchiadau sy'n newid. Yma mae gwaith sydd eisoes wedi'i wneud, wedi disodli'r gweithgareddau hyn. Bydd y newidiadau hyn hefyd yn cael eu hadlewyrchu yn yr Adroddiad Cynnydd Blynyddol nesaf gyda mewnbwn gan yr holl Bartneriaid.

3.4 Bydd Adroddiad Cynnydd Blynyddol 2021-2022 felly yn manylu ar yr amserlenni a ailaseswyd a bydd yn parhau i ystyried unrhyw risgiau a allai ddylanwadu ar gyflawni’r Cynllun Gweithredu llawn erbyn 2025.

**ARGYMHELLIAD**

Bod yr aelodau yn:

1. Nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran cyflawni Cynllun Eryri; a

2. Darparu argymhellion pellach ynghylch fformat yr Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer 2021-2022

**Atodiad 1: Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Eryri 2020-8**

CYNLLUN

# ERYRI

## CYNLLUN PARTNERIAETH PARC CENEDLAETHOL ERYRI

**ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL 2020-21**

# CYNLLUN ERYRI — ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL 2020-21

Mabwysiadwyd Cynllun Eryri gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri fel ei Gynllun Rheoli (Partneriaeth) statudol ym mis Hydref 2020 ac fe'i lansiwyd yn swyddogol ym mis Tachwedd 2020. Dyma'r adroddiad cyntaf ar gynnydd blynyddol yn casglu mewnbwn gan yr holl Bartneriaid hyd at ddiwedd 2021. Mae'r cyfnod hwn wedi bod yn un eithriadol i bawb, ac mae symud i gyfarfodydd ac adrodd ar-lein wedi annog ailfeddwl am ddulliau ac ymagweddau. Wrth gasglu tystiolaeth gan Bartneriaid, daeth yn amlwg fod yna enghreifftiau rhagorol o waith tuag at symud Nodau Cynllun Eryri ymlaen ar draws y rhanbarth. Penderfynwyd mai ffordd newydd a phriodol o gyfleu'r wybodaeth hon fyddai trwy gynhyrchu meicro-wefan ar gyfer y Cynllun, y gellir ei diweddaru gan Bartneriaid yn flynyddol. Mae hwn yn dal i gael ei fireinio, ond gellir ei weld yma: www.cynlluneryri.org

## Partneriaethau

Wrth gyflawni Cynllun Eryri, yn ogystal â Fforwm Eryri, mae sawl Partneriaeth arall yn bodoli sy'n gweithio tuag at yr amcanion a osodwyd, megis:

**Partneriaeth Yr Wyddfa:** Gwirfoddolwyr a Chymdeithas Marchnata Betws y Coed; Cyfoeth Naturiol Cymru; Cymdeithas Eryri; FUW; CLA; Partneriaeth Awyr Agored; Cyngor Gwynedd; Cyngor Conwy; Ymddiriadolaeth Genedlaethol; Cymdeithas Twristiaeth Beddgelert; Eryri Bywiol; Hwb Eryri; Rheilffordd Yr Wyddfa; Tîm Achyb Mynydd; NFU; Bukeley Estates; YHA Pen y Pass.

**Partneriaeth Y Carneddau:** Prif bartner APCE; Partneriaid craidd: Cadw, Yr Ymddiriadolaeth Genedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cymdeithas Eryri.

Partneriaid cyflawni: Abergwyngregyn Regeneration Company; Prifysgol Bangor; Cyngor Mynydda Prydain; Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (Canolfan Diwylliant Conwy) ; Cyngor Gwyn-ed; Cymdeithas Enwau Lleoedd; Ymddiriodolaeth Archeolegol Gwynedd; Yr Ymddiriadolaeth Genedlaethol; Cyfoeth Naturiol Cymru; Partneriaeth Awyr Agored; Partneriaeth Ogwen; Cymdeithas Hanes ac Amgueddfa Penmaenmawr; Plantlife Cymru; PONT Cymru; RSPB; Eryri Bywiol; Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri; Cymdeithas; Eryri; Prifysgol Sheffield; Partneriaid ehangach: Cymdeithas Merlod y Carneddau; Undeb Amaethwyr Cymru; NFU Cymru;

**Partneriaeth Cwm Idwal Partnership,** Prif bartner YG: SNPA & NRW

**UE Prosiect Coedwigoedd Glaw LIFE,** Prif bartner APCE: Llywodraeth Cymru, RSPB Cymru a Choed Cadw.

Bu 2020-21 yn flwyddyn anodd ar gyfer symud ymlaen â gwaith ar lawr gwlad a amlinellwyd yng Nghynllun Gweithredu Cynllun Eryri oherwydd y cyfyngiadau a gychwynnwyd gan bandemig Covid-19 – felly mae nifer o linellau amser wedi cael eu hailasesu yn unol â hynny. Mae'r mesuriadau goleuadau traffig isod yn adlewyrchu hyn ac a yw pob amcan ar y trywydd iawn i gael ei gyflawni o fewn amserlen y cynllun cyffredinol h.y.erbyn 2025.

**Statws:**

- **Wedi symud ymlaen, o fewn y terfynau amser gwreiddiol**
- **Symud ymlaen gydag amserlenni / llinellau amser wedi'u hail asesu**
- **Heb ei symud ymlaen a / neu mewn perygl**

## Crynodeb gweithredol

Ym mlwyddyn gyntaf ei weithrediad, gwnaed cryn gynnydd ar Gynllun Gweithredu Eryri, yn enwedig o ystyried effeithiau anrhagweladwy COVID-19 a bod gweithio o bell yn anghenraid. Addasodd Fforwm Eryri yn gyflym i gynnal cyfarfodydd dwyieithog ar-lein ac mae wedi diwygio ei Gylch Gorchwyl i sicrhau mai dyma'r dull gweithredu a ffafrir ar gyfer o leiaf 3 o'i 4 cyfarfod blynyddol. Mae hyn wedi hwyluso presenoldeb ac wedi osgoi'r angen i bawb deithio cryn bellter i gyfarfod wyneb yn wyneb.

Mae'r adroddiad yn manylu ar gynnydd yr holl bartneriaid cyflawni, ond yn gryno, o fis Hydref 2020 – Rhagfyr 2021 gellir dod i'r casgliad a ganlyn:

### Adran A Amgylchedd Eryri : Rydym yn gofalu am ein hasedau naturiol a hanesyddol a'n hamgylchedd trawiadol yn llwyddiannus.

- Canlyniad A1: Egwyddorion Twristiaeth Gynaliadwy yn cael eu cyflawni - mae 3 cham gweithredu yn cael eu datblygu ac maent o fewn yr amserlenni gwreiddiol a osodwyd ac mae 2 yn symud ymlaen gyda llinellau amser wedi'u hail asesu.
- Canlyniad A2: Mae bioamrywiaeth yn cael ei gynnal a'i wella, tra bod gwytnwch / cadernid ecosystemau yn cynyddu - mae 3 cham gweithredu yn cael eu datblygu ac maent o fewn yr amserlenni gwreiddiol a osodwyd, mae 1 yn symud ymlaen gyda llinellau amser wedi'u hail asesu, ac mae 1 heb ei symud ymlaen a mewn peryg.
- Canlyniad A 3: Rydym yn barod ar gyfer effeithiau newid yn yr hinsawdd ac yn lleihau ein hôl troed carbon - mae 1 cam gweithredu wedi'i symud ymlaen ac mae o fewn yr amserlen wreiddiol ac mae 2 yn symud ymlaen gydag amserlenni wedi'u hail asesu.
- Canlyniad A4: Mae Eryri ar flaen y gad yn rhyngwladol wrth fynd i'r afael yn llwyddiannus â rhywogaethau ymledol, plâu a chlefydau sy'n effeithio ar rywogaethau brodorol - mae 1 cam gweithredu wedi'u datblygu o fewn yr amserlenni gwreiddiol a osodwyd, ac mae 2 yn symud ymlaen gydag amserlenni wedi'u hail asesu.
- Canlyniad A5: Mae cymunedau, busnesau ac ymwelwyr yn chwarae rhan weithredol wrth ofalu am dirweddau, cynefinoedd, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol - mae 1 cam gweithredu wedi'u datblygu o fewn yr amserlenni gwreiddiol a osodwyd, ac mae 1 yn symud ymlaen gyda'r amserlen wedi'u hail asesu.
- Canlyniad A6: Mae Eryri yn enghraifft flaenllaw yng Nghymru o sut i ofalu am a hyrwyddo treftadaeth ddiwylliannol a'r amgylchedd hanesyddol - mae 2 cam gweithredu wedi'u datblygu ac maent o fewn yr amserlenni gwreiddiol a osodwyd, ac mae 1 yn symud ymlaen gyda'r amserlen wedi'u hail asesu.
- Canlyniad A7: Mae ein Nodweddion Arbennig wedi'u diogelu'n dda - mae 3 cham gweithredu wedi'u datblygu ac maent o fewn yr amserlenni gwreiddiol a osodwyd ac mae 3 yn mynd rhagddynt gyda llinellau amser wedi'u hail asesu.

**Adran B: Iechyd a Lles Eryri : Cyfleoedd i ddysgu a darganfod, a gwella ein lles ar yr un pryd.**

- Canlyniad B1: Mae'r Parc Cenedlaethol yn cael effaith gadarnhaol ar Les - mae 1 cam gweithredu wedi'u datblygu ac maent o fewn yr amserlenni gwreid-diol a osodwyd ac mae 2 yn symud ymlaen gydag amserlenni wedi'u hail asesu.
- Canlyniad B2: Gall trigolion ac ymwelwyr gael mynediad at amrywiaeth o lwybrau yn y Parc Cenedlaethol gyda'r nod o wella iechyd corfforol a meddyliol -1 cam gweithredu wedi'i symud ymlaen ac mae o fewn yr amserlen wreiddiol ac mae 2 yn symud ymlaen gyda llinellau amser wedi'u hail asesu.
- Canlyniad B3: Mae ein Rhinweddau Arbennig yn cael eu cydnabod yn eang ac mae pob un o'r 3 cham gweithredu yn mynd rhagddynt gyda llinellau ams-er wedi'u hail asesu.
- Canlyniad B4: Opsiynau cynaliadwy ar gyfer parcio a thrafnidiaeth yn cael eu cyflawni - mae'r ddau camau gweithredu yn symud ymlaen gydag amserlenni wedi'u hail asesu.
- Canlyniad B5: Mae ein cyfleusterau ymwelwyr o ansawdd uchel ac yn sensitif i'r dirwedd - mae 1 cam gweithredu wedi'u datblygu ac maent o fewn yr amserlenni gwreid-diol a osodwyd ac mae 2 yn symud ymlaen gydag amserlenni wedi'u hail asesu.

**Adran C: Cymunedau ac Economi Eryri : Lle gwych i ddatblygu, byw a gweithio**

- Canlyniad C1: Mae iaith, diwylliant a threftadaeth Eryri yn cael eu dathlu, eu cefnogi a'u cryfhau - mae pob un o'r 3 cham gweithredu wedi'u datblygu ac maent o fewn yr amserlenni gwreiddiol a osodwyd.
- Canlyniad C2: Swyddi a chyfleoedd yn annog pobl i aros yn yr ardal – mae pob un o'r 3 cham gweithredu yn mynd rhagddynt gydag amserlenni wedi'u hail asesu
- Canlyniad C3: Rydym yn rhoi atebion ar waith ar gyfer tai fforddiadwy i'w prynu a'u rhentu - mae 2 gam gweithredu wedi'u datblygu ac maent o fewn yr amserlenni gwreiddiol a osodwyd ac mae 1 yn symud ymlaen gydag amserlenni wedi'u hail asesu.
- Canlyniad C4: Cymunedau lleol yn cael eu cefnogi i ffynnu ym mhob agwedd ar lesiant – mae'r ddau gam gweithredu yn mynd rhagddynt gydag amser-lenni wedi'u hail asesu

Mae'n deg dod i'r casgliad bod cynnydd wedi'i gyflawni yn dilyn blwyddyn o gyflawni – mewn amgylchiadau heriol – ym mhob un o feysydd Cynllun Gweithre-du'r Cynllun Eryri.

Fodd bynnag, mae llinellau amser wedi'u hailasesu'n sylweddol ac mewn rhai achosion bydd angen diwygio camau gweithredu i adlewyrchu amgylchiadau sy'n newid.

Bydd adolygiad 2021-2022 yn manylu ar amserlenni wedi'u hail asesu a bydd yn parhau i ystyried unrhyw risgiau a allai ddylanwadu ar gyflawni'r Cynllun Gweithredu llawn erbyn 2025.

## Adroddiad Llawn

Yn yr adroddiad llawn hwn, asesir pob Canlyniad mewn perthynas â'r Mesurau Llwyddiant fel y cytunwyd gan yr holl Bartneriaid yng Nghynllun Gweithredu gwreiddiol Cynllun Eryri.

Mae pob Canlyniad yn dechrau gydag asesiad cyffredinol, sydd wedi'i liwio yn ôl y system goleuadau traffig isod.

Isod mae nodyn atgoffa manwl o'r Cynllun Gweithredu sy'n ymwneud â'r Canlyniad a Chynnydd hwn gan yr holl Bartneriaid.

Sylwch fod cynnydd yn ymwneud â'r cyfnod amser Hydref 2020 - Rhagfyr 2021

## Byrfoddau a ddefnyddir ar gyfer partneriaid cyflawni:

**Awdurdod Parc Cedlaethol Eryri: APCE**

**Cyfoeth Naturiol Cymru : CNC**

**Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru: YNGC**

**Coed Cadw : CC**

**Coleg Glynllifon: CoG**

**Undeb Amaethwyr Cymru : UAC Cymru**

**Cymdeithas Tir a Busnes Cefngwlad: CLA Cymru**

**Eryri Bywiol : EB**

**Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Pen Llŷn a'r Sarnau: PLAS**

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy: CBSC**

**Iechyd Cyhoeddus Cymru: ICC**

**Partneriaeth Awyr Agored: PAA**

**Cyngor Gwynedd: CG**

**Ymddiriadolaeth John Muir: YJM**

**Cymdeithas Eryri: CESS**

**Ymddiriedolaeth Genedlaethol: YG**

**Statws:**

- 🟢 **Wedi symud ymlaen, o fewn y terfynau amser gwreiddiol**
- 🟡 **Symud ymlaen gydag amserlenni / llinellau amser wedi'u hail asesu**
- 🔴 **Heb ei symud ymlaen a / neu mewn perygl**

## Amgylchedd Eryri: Rydym yn gofalu am ein hasedau naturiol a hanesyddol a'n hamgylchedd trawiadol yn llwyddiannus

## CANLYNIAD A1

### Cyflawnir egwyddorion Twristiaeth Gynaliadwy.

**Ydyn ni o fewn ein hamserlen? Ydym**

**A oes unrhyw beth yn atal y canlyniad rhag cael ei gyflawni erbyn 2025?**

- Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth APCE / Cyngor Gwynedd wedi ei arwyddo gyda dyddiad dod i ben yn 2035 – bydd asesiad o gynnydd y gwaith hwn yn digwydd yn flynyddol yn erbyn y pwyntiau gweithredu a nodir yng Nghynllun Eryri.
- Buddsoddiad parhaus gan LIC / TC a chytundebau partneriaeth i barhau i gyflawni'r Strategaeth Parcio a Thrafnidiaeth – asesiad blynyddol o'r sefyllfa hon.
- GNG Yr Wyddfa: mae'r brydles sydd wedi dod i ben yn golygu nad yw CNC yn gallu gwneud na chomisiynu gwaith ar ran Baron Hill.
- Mae'r pandemig Covid wedi cael rhywfaint o effaith ar waith gwella llwybrau – mae'r amserlen yn dal yn gyraeddadwy ar hyn o bryd.

**Casgliad:**

Bu cynnydd amlwg yn erbyn pob mesur llwyddiant o fewn Cynllun Gweithredu Cynllun Eryri ar gyfer Canlyniad A1. Mae'r amcan yn dal ar y trywydd iawn i'w gyflawni erbyn 2025.

## Adroddiad cynnydd manwl 2021/22

| Rhif canlyniad | Statws cynnydd | Trosolwg o'r Canlyniad a'r Camau | Mesurau llwyddiant | Sefydliad/au'n gyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **A1.1** | | Datblygu egwyddorion arweiniol a throthwyon ar gyfer effaith ymwelwyr ar yr amgylchedd a'r tirwedd. Bydd yr egwyddorion yn dangos lle bydd angen camau pellach ar ffurf cynllun rheoli ardal.<br>• Datblygu map gwres<br>• Archwilio ymarfer gorau mewn ardaloedd eraill<br>• Diffinio trothwyon ac egwyddorion<br>• Dewis ardaloedd treialu er mwyn peilotio'r cynllun<br>• Lle bydd yr amgylchedd yn caniatau ac awydd gan aelodau'r gymdeithas i gynyddu nifer yr ymwelwyr, archwilio dewisiadau ar gyfer ail ddosbarthu ymwelwyr i ffwrdd o ardaloedd sy'n cael eu gorlenwi. | Erbyn diwedd 2021 caiff map gwres ei gynhyrchu, caiff trothwyon ac egwyddorion eu diffinio.<br>Caiff sail resymegol, methodoleg a chanlyniadau eu cyflwyno mewn adroddiad canfyddiadau.<br>Caiff strategaethau eu sefydlu ar sail egwyddorion arweiniol y cytunir arnynt. | APCE<br>CNC<br>Fforwm Eryri<br>Cyngor Gwynedd<br>CBC Conwy |

***Adroddiad cynnydd:*** *APCE Arolwg cynhwysfawr o ymwelwyr a thrigolion yn cael ei gynnal yn ystod 2021 Disgwylir canlyniadau yn gynnar yn 2022.*

*Mae APCE a Chyngor Gwynedd wedi arwyddo Memorandwm o Ddealltwriaeth i ddatblygu a gwreiddio egwyddorion Twristiaeth Gynaliadwy ar draws y rhanbarth a dechrau rhaglen waith gyda'i gilydd. Mae mesuriadau newydd o effaith Twristiaeth yn cael eu datblygu gan APCE a CG a fydd yn bwydo i mewn i fapiau gwres ar gyfer y rhanbarth. Bydd angen llinellau amser ar gyfer y gwaith hwn cael ei ymestyn wrth i gwmpas y gwaith ehangu a chanolbwyntio bellach ar ddatblygu set gyfannol o fesuriadau.*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **A1.2** | ● | Sicrhau bod llwybrau'r ucheldir yn cael eu cynnal yn ddigonol er mwyn rheoli effeithiau erydiad a blaenoriaethu gwaith ar sail nifer y rhai sydd yn defnyddio'r llwybrau.<br>• Sefydlu grŵp gweithredol aml-sefydliad i gydlynu rheolaeth<br>• Parhau i gyllido ac archwilio ffynonellau newydd (e.e. rhoddion)<br>• Cynyddu'r defnydd o wirfoddolwyr ar gyfer gwaith cynnal a chadw<br>• Sefydlu perthynas gyda chontractwyr lleol ar gyfer gwaith mwy arbenigol | Cynhelir asesiadau cynny-dd, caiff gwaelodlinau eu sefydlu a chaiff ffynonellau cyllid eu meintioli. | APCE<br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br>CNC<br>Cymdeithas Eryri<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Cyngor Gwynedd<br>Grwpiau Gwirfoddol<br>Ramblers Cymru |

***Adroddiad cynnydd:*** *Mae CNC wedi cytuno ar adrannau blaenoriaeth Mynydd Llwybr Moel ar Gader Idris gyda thîm mynediad APCE ar gyfer cam cyntaf prosiect llwybrau mawr. Mae gwaith arall yn cynnwys: Mân waith llwybrau GNG Rhinogydd yn y rhan wlyb i'r dwyrain o Fwlch Drws Ardudwy; GNG Cwm Idwal : gwaith ar raddfa fach gan dîm yr YG; Gosod gatiau mynediad newydd wrth fynedfa GNG ar Lwybr Watkin. Paratoi arwydd GNG newydd.*

*CESS: wedi datblygu ac achredu uned cynnal a chadw llwybrau troed – lefel mynediad. Wedi sefydlu cytundeb yn ne'r Parc - ond nid oes cyllid ynghlwm i hyn eto. Hefyd yn cynnal rhaglen flynyddol ar lwybrau'r Wyddfa, Llwybr Llechi, Lon Gwyrfai , Llwybr Mawddach a'r Carneddau / Glyderau gyda Staff yr YG.*

*YG: Tîm 4 aelod llawn amser yn blaenoriaethu gwaith o amgylch Ogwen a Nant Gwynant .*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **A1.3** | | Cymryd camau pragmatig ac yn rhagweithiol er mwyn lleihau sbwriel<br><br>Archwilio manteision pecynnu mwy cynaladwy yn ein siopau<br><br>• Archwilio sefydlu 'parthau di-blastig' yn Eryri ac adnabod dewisiadau eraill posibl<br>• Archwilio sefydlu 'parthau di-blastig' yn Eryri ac adnabod dewisiadau eraill posibl<br>• Archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu pentref/ardal adlenwi dŵr yn rhad ac am ddim yn y Parc Cenedlaethol<br>• Gweithio gydag ymgyrchwyr lleihau sbwriel presennol a gweithredu ar raddfa leol.<br>• Parhau i weithio mewn partneriaeth gyda gwirfoddolwyr er mwyn cadw'r Parc Cenedlaethol yn rhydd oddi wrth sbwriel<br>• Gweler hefyd: A1.5 | Bydd astudiaethau ymarferoldeb yn adnabod pa rwystrau a gweithdrefnau fydd eu hangen ar gyfer sefydlu newidiadau pell gyrhaeddol o ran ymddygiad pobl.<br><br>Gydol cyfnod y Cynllun, caiff ymgyrchoedd lleihau sbwriel eu lansio'n llwyddiannus a chaiff eu heffaith ei fonitro.<br><br>Cynnal astudiaethau canfyddiad i fesur barn pobl am sbwriel yn yr ardal. | APCE<br><br>Cymdeithas Eryri<br><br>Cyngor Gwynedd<br><br>CBS Conwy<br><br>CNC<br><br>Cadw Cymru'n Daclus Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br><br>Plas y Brenin<br><br>Ymddiriedolaeth John Muir |

***Adroddiad cynnydd:*** *Rhaglen APCE gydag Uned Newid Ymddygiad Prifysgol Bangor a CESS i ddatblygu negeseuon dylanwadol ynghylch sbwriel.*

*Partneriaeth Yr Wyddfa i dreialu ardal Yr Wyddfa i ddod yn ardal ddi-blastig yn 2022*

*Datblygodd APCE, CESS, YG ac OP Rhaglen wirfoddolwyr Eryri Caru Eryri yn llwyddiannus sydd wedi arwain ar gasglu sbwriel ac addysg dros dymor 2021.*

*CESS: Defnydd arloesol o fapiau gwres ac arolygon sbwriel.*

*CBSC: ar hyn o bryd yn llunio amserlenni ar gyfer rhaglen 3 blynedd gyda Cadwch Gymru'n Daclus / Llywodraeth Cymru ar brosiect Caru Cymru a fydd yn ychwanegu gwerth at gymryd camau pragmatig a rhagweithiol i leihau sbwriel. Mae cyllid LEADER wedi cefnogi sawl cymuned yn ardal APCE gyda Chodwyr Sbwriel ac ati er mwyn annog pobl leol i ymfalchïo yn eu cymunedau a hefyd yr elfen rhyngweithio cymdeithasol a lles.*

*Ymddiriedolaeth John Muir::Archwiliad cadwraeth o'r rhai sy'n cwblhau Gwobr John Muir i fwydo i mewn i fesuriadau o 2022 ymlaen*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **A1.4** | | Lleihau effeithiau parcio a thrafnidiaeth ar yr amgylchedd a’r tirwedd.<br>• Llunio arolwg o drafnidiaeth cyhoeddus a pharcio yn ardaloedd yr Wyddfa ac Ogwen er mwyn llunio a gweithredu argymhellion<br>• Sefydlu a chytuno ar gylch gorchwyl ar gyfer gweithgor trafnidiaeth a pharcio i Eryri<br>• Gweithio gyda phartneriaid i geisio canfod dulliau teithio mwy gwyrdd.<br>• Gweithio gyda thirfeddianwyr i adnabod meysydd parcio ychwanegol sydd yn gymwys o fewn y tirwedd, yn unol â pholisïau y CDLl ac fel rhan o’r cynlluniau rheoli traffig.<br>• Cynyddu’r wybodaeth am ddewisiadau teithio mwy cynaladwy ar gyfer ymwelwyr<br>• Gweler hefyd polisi A3.1 | Bydd gweithgor wedi ei sefydlu erbyn 2022.<br>Bydd argymhellion Adolygiad cynhwysfawr Partneriaeth Yr Wyddfa o Barcio a Thrafnidiaeth yn cael eu hehangu i gwmpasu ardal gyfan y Parc Cenedlaethol.. | APCE<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Trafnidiaeth Cymru<br>Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru<br>Llywodraeth Cymru |

***Adroddiad cynnydd:*** *Mae argymhellion o Adolygiad cynhwysfawr Partneriaeth yr Wyddfa o Barcio a Thrafnidiaeth yn cael eu datblygu a’u gweithredu’n gynyddrannol yn ardaloedd Yr Wyddfa ac Ogwen.*

*Mae buddsoddiad gan Trafnidiaeth Cymru wedi sicrhau bod prosiectau cychwynnol yn cael eu gweithredu i alinio â rhaglen Metro Gogledd Cymru mewn partneriaeth â chynghorau Gwynedd a Chonwy. Gweithgor yn cael ei ddatblygu*

*Fflecsi Dyffryn Conwy - gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus sy’n ymateb i’r galw a ddisodlodd 6 gwasanaeth bws rheolaidd â chefnogaeth wael yng Nghonwy wledig gan gynnwys Ysbyty Ifan, Penmachno, Nebo, Capel Garmon a Woodbank yn Nhrefriw ddiwedd 2020. Mae’n integreiddio â’r gwasanaeth Sherpa, Traws Cymru T10/ T3/T19 a Rheilffordd Dyffryn Conwy ar gyfer teithiau ymlaen. Cynhyrchwyd taflen arhosiad ar gyfer Haf 2021 i annog ymwelwyr i fynd ar y bws i atyniadau a theithiau cerdded i ymwelwyr. Mae’r gwasanaeth hefyd yn rhan o fenter 1Busticket. Mae deialog rheolaidd yn parhau gyda TC i wneud y mwyaf o gyfleoedd i gydweithio â gwasanaethau trafnidiaeth prif linell i leihau effeithiau parcio a thrafnidiaeth ar yr amgylchedd.*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **A1.5** | | Lleihau unrhyw effeithiau negyddol ynghlwm wrth weithgareddau hamdden.<br><br>• Gweithio gyda phartneriaid perthnasol er mwyn sicrhau agwedd gydlynol ar gyfer sicrhau rheolaeth gynaladwy dros ddigwyddiadau a drefnir<br>• Gweithio o fewn partneriaethau cenedlaethol i rannu arfer da<br>• Cynnal a gweithredu Strategaeth Hamdden i reoli mewn ffordd gynaliadwy unrhyw wrthdaro rhwng grwpiau defnyddwyr<br>• Mynd i'r afael â gweithgareddau gyrru oddi ar y ffordd anghyfreithlon neu niweidiol trwy weithio gyda grwpiau defnyddwyr cyfreithlon ac Uned Troseddau Gwledig Heddlu Gogledd Cymru, i annog defnydd cynaliadwy o'r rhwydwaith<br>• Rhoi sylw i fynediad a gwersylla heb awdurdod er mwyn rhwystro ardaloedd a ddiogelir rhag dirywio<br>• Hwyluso perthnasoedd gwaith da rhwng defnyddwyr a rheolwyr tir e.e. tanlinellu peryglon cŵn oddi ar dennyn a gweithgareddau amhriodol eraill.<br>• Hybu'r Côd Morol, a monitro effeithiolrwydd.<br>• Gweler hefyd Canlyniad B5 | Erbyn diwedd 2021 bydd diweddariad o 'Canllawiau ar gyfer Digwyddiadau Cystadleuol, Hamdden ac Elusen a drefnir o fewn y Parc Cenedlaethol' ar gael ar wefan APCE, gyda mewnbwn oddi wrth bartneriaid perthnasol.<br><br>Mae'r Partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â digwyddiadau anghyfreithlon a bydd prosesau ar y gweill i ystyried opsiynau ar gyfer safleoedd ACA gyda nodweddion penodol yn cael eu cofnodi fel rhai 'anffafriol' oherwydd effaith y gweithgareddau hamdden. | APCE<br>CNC<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br>Cymdeithas Eryri<br>ACA Pen Llŷn a'r Sarnau (PLAS)<br>Grŵp Ymgynghorol Diogelwch Conwy a Gwynedd<br>Ymddiriedolaeth John Muir |

***Adroddiad cynnydd:*** *Mae Strategaeth Hamdden APCE ar ffurf drafft.*

*Mae treial o gofrestru digwyddiadau ar raddfa fawr yn ardal Yr Wyddfa yn cael ei ddatblygu mewn partneriaeth rhwng APCE a Chyngor Gwynedd*

*SA: rhannu arfer gorau ac uwchsgilio darparwyr awyr agored trwy ganllawiau safle ar gyfer lleoliadau allweddol a chanllawiau iSee ar gyfer cynefinoedd gwahanol. Cyflwyno'r prosiect Hyfforddi'r Hyfforddwr ar gyfer Partneriaeth y Carneddau*

*SA yn gweithio gyda CNC a rhanddeiliaid eraill i sefydlu hamdden cynaliadwy o fewn Ceunentydd Gogledd Cymru (Cod Ymddygiad a ddatblygwyd yn 2020)*

*CBSC: Mae arwyddion 'Pori defaid' wedi'u gosod ym mhob mynedfa i geisio mynd i'r afael â phroblemau sy'n peri pryder i ddefaid ac mae digwyddiad wedi'i gynnal gyda cherddwyr cŵn lleol i godi ymwybyddiaeth a hybu newid ymddygiad.*

*AGA PLAS: wedi gwneud llawer o waith ar y cod morol eleni. Gan gynnwys: Cynhyrchu adroddiad ar effeithiolrwydd codau ymddygiad morol; Cynhyrchu a gosod panel ar gyfer y cod; Cydweithio ar draws siroedd gogledd a chanolbarth Cymru; Dechrau gweithio ar daflen cod a deunydd i helpu i hyrwyddo'r cod; Dechrau gwaith ar gynhyrchu ap newydd i hyrwyddo codau ymddygiad ledled Cymru; Dechrau gwaith ar nodi cyfleoedd i godi ymwybyddiaeth ymwelwyr o'r cod; Gwaith hyrwyddo trwy gyfryngau cymdeithasol, gwefan, cylchgrawn O Dan y Don, siarad â defnyddwyr a busnesau.*

*JMT: mae mynediad hamdden cyfrifol yn rhan o hyfforddiant arweinwyr Gwobr John Muir.*

## CANLYNIAD A2

**Cynnal a gwella bioamrywiaeth a chynyddu cadernid ecosystemau.**

Ydyn ni o fewn ein hamserlen? Bydd angen adlinio'r amseriadau yn unol â datblygiadau gan Lywodraeth Cymru, effaith Covid-19 ar brosiectau ymarferol a recriwtio Swyddog Bioamrywiaeth newydd.

A oes unrhyw beth yn atal y canlyniad rhag cael ei gyflawni erbyn 2025?

- Gweithred A2.1. yn dal i aros am ganllawiau strategol gan Lywodraeth Cymru ac efallai y bydd angen eu diwygio yn unol â pholisi'r Llywodraeth wedi'i ddiweddaru – i'w ail asesu yn 2021-2
- Mae Pandemig Covid-19 wedi cael effaith ar gyflawni gwaith prosiect, sy'n cael ei adlinio ar hyn o bryd i amserlenni newydd.
- Ar hyn o bryd yn hysbysebu am Swyddog Bioamrywiaeth ar gyfer Partneriaeth Natur Eryri i lenwi'r swydd wag o Hydref 2021. Bydd hyn yn cael effaith ar yr amserlen a gynigir yng Nghynllun Eryri o ran creu Cynllun Gweithredu Adfer Natur (CGAN) ar gyfer y rhanbarth. Ar hyn o bryd mae'n dal yn gyraeddadwy erbyn 2025 ond bydd angen addasu'r amseriadau yn y Cynllun Gweithredu i adlewyrchu hyn.

**Casgliad**:

Bu rhywfaint o gynnydd yn erbyn pob mesur llwyddiant o fewn y Cynllun Gweithredu Cynllun Eryri ar gyfer Canlyniad A1. Mae'r amcan yn dal ar y trywydd iawn i'w gyflawni erbyn 2025.

| Rhif can-lyniad | Statws cynnydd | Trosolwg o'r Canlyniad a'r Camau | Mesurau llwyddiant | Sefydliad/au'n gyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **A2.1** | | A2.1. Cydlynu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol yn canol-bwyntio ar gynnal, adfer ac ehangu cynefinoedd, rhywogaethau, nodweddion hanesyddol yr amgylchedd a nwyddau cyhoeddus ehangach.<br>• Dod â'r rhanddeiliaid at ei gilydd i ffurfio consensws<br>• Diffinio nwyddau cyhoeddus Eryri<br>• Llunio datganiad uchelgais<br>• Ymgymryd â'r broses enfawr o fapio tir a chreu'r darlun presennol o'r holl gynefinoedd o fewn y Parc Cenedlaethol<br>• Ymchwilio defnydd tir a phatrymau newid er mwyn gallu llunio gwell penderfyniadau<br>• Asesu beth sydd wedi llwyddo/ heb fod yn llwyddiant mewn cynlluniau rheoli tir blaenorol<br>• Creu a mireinio cynllun nwyddau cyhoeddus<br>• Diffinio rôl partneriaid yn y gwaith o weithredu'r cynllun<br>Uwch sgilio'r gweithlu lleol er mwyn cyflawni'r cynllun yn llwyddiannus | Erbyn diwedd 2025 rydym yn anelu at sefydlu fforwm a datganiad uchelgais cyffredinol.<br>Byddwn wedi lunio cofrestr asedau o nwyddau cyhoeddus ac yn mapio tir.<br>Byddwn yn ystyried arferion rheoli tir presennol a blaenorol, yn asesu eu cryfderau er mwyn creu a mireinio cynllun nwyddau cyhoeddus y bydd y bartneriaeth yn hyderus i'w gweithredu | Llywodraeth Cymru a'r holl bartneriaid<br>*Yn ddibynnol ar ganlyniadau ymgynghoriad Ffermio Cynaladwy a'n Tir Ni a thrafodaethau Brexit* |

*__Adroddiad cynnydd:__ Ar hyn o bryd allan o'n rheolaeth fel yr ydym yn aros i'r Bil Amaethyddiaeth (Cymru) gael ei gyflwyno Mae'r holl bartneriaid perthnasol wedi ymateb i Ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ar y materion hyn.*

*APCE: Cynllun Ffermio Cynaliadwy datblygiad cynnar ar y gweill a chynrychiolir PC ar lefel strategol o ran mewnbwn. Cais wedi'i wneud i Lywodraeth Cymru am gefnogaeth ar gyfer Astudiaeth Dichonoldeb i'r Farchnad Garbon yng Nghymru.*

*CBSC: ymatebodd i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Bapur Gwyn Amaethyddol (Cymru) ym mis Awst 2021 a oedd yn canolbwyntio ar Nwyddau Cyhoeddus. O ystyried effaith COVID19 ar gadwyni cyflenwi a chyfanrwydd safonau cynhyrchu, hoffer i Lywodraeth Cymru gydnabod diogelwch bwyd, bwyd diogel a chynnal safonau uchel o ran iechyd a lles anifeiliaid fel 'nwyddau cyhoeddus' allweddol sy'n haeddu cydnabyddiaeth a chymorth fel rhan cynllun cymorth fferm ar gyfer y dyfodol. Mae CBSC yn ymateb i gais am dystiolaeth ar effeithiau economaidd a diwylliannol masnach a pholisi amgylcheddol ar ffermydd teuluol yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor Materion Cymreig yn cynnal ymchwiliad byr i archwilio effaith newidiadau polisi mawr (yn enwedig, ond nid yn gyfan gwbl, masnach ryngwladol a newid yn yr hinsawdd) ar ffermydd teuluol yng Nghymru. Wrth sôn am 'ffermydd teuluol' mae'r Pwyllgor yn cyfeirio at ffermydd bach a chanolig eu maint, er enghraifft ffermwyr mynydd, yn hytrach na ffermydd mawr o faint diwydiannol. Bydd yr ymchwiliad yn archwilio effaith polisïau Llywodraeth y DU mewn meysydd fel masnach ryngwladol a newid yn yr hinsawdd ar y cysylltiadau a thraddodiadau cymdeithasol yn y cymunedau ffermio hyn sy'n arwyddocaol yn ddiwylliannol, ac yn cwestiynu beth, os o gwbl, y gall llywodraeth y DU ei wneud i gefnogi'r cymunedau hyn, eu diwylliant unigryw a gwarchod y dreftadaeth hon.*

*Mae FUW wedi bod yn lobïo ac yn ymateb i'r ymgynghoriadau sydd wedi digwydd hyd yn hyn. Pryderon i'r sector amaethyddiaeth i'r dyfodol.*

*Cytundeb DU - Awstralia yn debygol o fod yn fygythiad i gymunedau gwledig.*

*CLA Cymru fel uchod.*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **A2.2** | | Delio gyda dirywiad mewn bioamrywiaeth trwy gynnal, adfer, ehangu a chysylltu..<br>• Gwneud y mwyaf o gyfleoedd ariannu er mwyn sicrhau bod buddsoddiad yn cyrraedd y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol a thargedau cynefinoedd a rhywogaethau Adran 7<br>• Gweithio mewn Partneriaeth i gytuno ar weithdrefnau pori addas lle byddant yn hanfodol ar gyfer cynnal/adfer nodweddion cymwys safleoedd ACA, AADd a Ramsar i statws cadwraeth ffafriol e.e. ACA Eryri fel ardal flaenoriaeth<br>• Bydd gofynion rheoli penodol ar gyfer safleoedd a ddiogelir yn genedlaethol ac ar lefel Ewrop<br>• Cydlynu cynhyrchiad o Cynllun Gweithredu Adferiad Natur (NRAP) ar gyfer Eryri i gynnwys y data mwyaf diweddar a thargedau bioamrywiaeth penodol.<br>• Mae gweithgareddau dehongli yn annog deall a diogelu bioamrywiaeth ymysg cymunedau lleol ac ymwelwyr<br>• Sefydlu Partneriaeth Natur Leol i arwain ar faterion bioamrywiaeth ar gyfer Eryri | Gydol y Cynllun bydd prosiectau dynodedig yn cael eu dilyn hyd y diwedd a llunir adroddiadau arnynt fel bo'n addas, gan dargedu gofynion rheoli safleoedd a ddiogelir a rhywogaethau a chynefinoedd Adran 7. Lle bo hynny'n bosibl, bydd Cytundebau Rheoli Tir mewn lle erbyn 2025.<br><br>Erbyn 2020 bydd Swyddog Bioamrywiaeth wedi ei benodi fel pwynt canolog ar gyfer gweithgareddau dehongli, a chyd-lynnu ac yn gweithio ochr yn ochr gyda swyddogion prosiectau penodol.<br><br>Erbyn 2022 bydd Partneriaeth Natur Leol wedi'i sefydlu a bydd NRAP wedi'i chynhyrchu drwy bartneriaeth ar draws y Parc. | APCE<br><br>CNC<br><br>Llywodraeth Cymru<br><br>Yr holl bartneriaid perthnasol |

***Adroddiad cynnydd** : APCE: Cyflawni nifer o brosiectau rhagweithiol gydag adfer bioamrywiaeth yn greiddiol iddynt ee prosiectau TCLlC; Prosiect LIFE.*

*Mae YNGC yn mynd ati i reoli gwarchodfeydd o fewn ac ar ffiniau'r Parc , sy'n gerrig camu ar gyfer cysylltedd cynefinoedd.*

*CNC: Prynu tir allweddol ym Mronaber ar gyfer rheoli bioamrywiaeth gan gynnwys misglod perlog dŵr croyw.*

*YBG: cydweithio ar brosiectau SMS a gwaith ar annog sefydlu coetir ac adfywio naturiol. Prosiectau delweddu ar raddfa tirwedd fel ysgogiad i drafod dirywiad bioamrywiaeth.*

*CESS: Gwaith gwirfoddol ar wlyptiroedd, mawndiroedd, coetiroedd a chynefinoedd eraill yn ogystal â rhywogaethau estron goresgynnol.*

*YG: Gwaith helaeth gan gynnwys adfer afonydd, dolydd blodau gwyllt, rheoli ymledol, adfer PSCH / PAWS, plannu coed.*

*CBSC: y llynedd o brosiect gwella cynefinoedd partneriaeth 3 blynedd a oedd yn cynnwys 40 o safleoedd pori ar draws Gogledd Cymru (dan arweiniad Cyngor Sir Ddinbych). Mae'r prosiect wedi ariannu contractwyr i reoli rhedyn, Rhodendron ponticum a bedw ar y safle.*

*NFU: Aelod o Bartneriaeth Natur Eryri / Nature Partnership.*

*Mae Cyngor Gwynedd wedi sefydlu Partneriaeth Natur newydd*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **A2.3** | ● | Sicrhau bod ansawdd dŵr a'r amgylchedd morol yn cael eu cynnal a'u gwella.<br>• Gwella ansawdd dŵr trwy fonitro, gorfodi, addysgu a gwella arferion rheoli tir<br>• Defnyddio'r drefn cynllunio i ddiogelu ansawdd dŵr<br>• Cefnogi grwpiau lleol sydd yn gweithio i wella ansawdd dŵr e.e. prosiect Tir Afon a gwaith Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau<br>• Parhau i gefnogi chynghori prosiectau LIFE a HLF sydd yn anelu at wella safleoedd dŵr croyw a dŵr morol o fewn y Parc Cenedlaethol | Caiff ein prosiect Afon Eden ei ddilyn i'r diwedd a chaiff statws y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD) ei gynnal a'i wella ar draws y Parc. Erbyn diwedd 2020 bydd y CDLl yn cynnwys testun perthnasol i ansawdd dŵr mewn datblygiadau newydd. | CNC<br>Dŵr Cymru<br>ACA Pen Llŷn a'r Sarnau (PLAS)<br>APCE<br>Llywodraeth Cymru |

***Adroddiad cynnydd*** *SMS Eden bellach wedi'i gwblhau, gyda chamau dilynol yn cael eu hystyried gyda CNC. Prosiectau rhagweithiol ar sawl corff dŵr yn cyfrannu i fynd i'r afael â materion Cyfarwyddyd Fframwaith Dwr CFfD. Mae rhai o afonydd SAC Eryri hefyd yn rhan o system Cynllunio fwy caeth am phophad, yn cynnwys Yr Eden, Dyfrdwy, Gwyrfai a Glaslyn*

*AGA PLAS: yn cynnal prosiect ansawdd dŵr o fewn y prosiect SMS Tir a Môr. Gweithio'n agos gyda CNC i gynyddu nifer y lleoliadau monitro ar hyd dalgylch Daron a chynnal gweithdai gyda thirfeddianwyr i fynd trwy'r canlyniadau a'r argymhellion .*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **A2.4** | | Adfer, ehangu a gwella maint ac amrywiaeth o ran rhywogaethau coed a choedlannau cynhenid<br>• Mapio coed a choedlannau hynafol<br>• Parhau i ddatblygu cynlluniau plannu addas o fewn y Parc<br>• Ailgysylltu ardaloedd coediog sydd wedi eu darnio<br>• Cynyddu nifer y coed brodorol ar dir sydd yn eiddo'r Parc Cenedlaethol<br>• Archwilio'r posibilrwydd o sefydlu arboretwm brodorol<br>• Annog rheolaeth o'r radd flaenaf dros goetiroedd presennol er mwyn diogelu eu cyflwr ecolegol | Trwy gyfrwng nifer o brosiectau a gynllunir dros y pum mlynedd nesaf, caiff safleoedd eu harchwilio o safbwynt cymhwyster ac add-asrwydd a chyflwynir adroddiadau arnynt.<br><br>Caiff cynlluniau plannu eu datblygu.<br><br>Bydd prosiect Fforestydd Glaw Celtaidd LIFE yn arwain ar nifer fawr o'r amcanion hyn hyd 2025.<br><br>Bydd adolygiad i weld beth sydd wedi ei ddys-gu wedi digwydd erbyn diwedd 2025.. | APCE<br>Coed Cadw<br>Coed Cymru<br>Undebau Amaethyddol<br>CNC<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>RSPB<br>Dŵr Cymru<br>Llywodraeth Cymru |

***Adroddiad cynnydd** : APCE LIFE Mae prosiect Coedwig Law Geltaidd yn cyflawni'n dda o dan amgylchiadau anodd. Cyllid ychwanegol ar gyfer arolwg PSCH / PAWS a gwaith cyfalaf ar y gweill.*

*CESS: rheoli aildyfiant conwydd mewn safleoedd ar draws Eryri gyda CNC, YNGC / NWWT, APCE, YG.*

*YNGC: rheoli aildyfiant conwydd ym Modgynydd, rheoli rhododendron ar ac oddi ar warchodfeydd lleol, meithrinfa goed yn y Gwaith Powdwr .*

*CNC: trwy Raglen Creu Coetir genedlaethol, yn gallu ehangu mwy o goetiroedd brodorol a helpu i ail gysylltu ardaloedd coetir*

*YBG / WT: Cynhyrchu Gwreiddiau at Adferiad Gwyrdd yng Nghymru 2021; cynlluniau cymorthdaledig ar gyfer creu coetir; Gweminarau ar gyfer adfer Coetir Hynafol a chanllawiau newydd wedi'u creu; cynnydd yn nifer y ceisiadau am gymorth ers y cloi. Cynyddu casglu data ar goed hynafol a hynafol ar draws y rhanbarth.*

*YG: Adfer PSCH / PAWS yn Aberglaslyn. Coetir 8ha newydd wedi'i blannu yn Hafod Garegog .*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| A2.5 | | Sicrhau nad yw unrhyw gynigion sy'n gysylltiedig â rheolaeth yn cael unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safle (oedd) Ewropeaidd, SoDdGA, a nodweddion gwarchodedig ardaloedd eraill.<br><br>• Mae pob prosiect - naill ai ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad â chynlluniau a phrosiectau eraill - yn destun asesiad yng ngoleuni'r fframwaith deddfwriaethol perthnasol sy'n berthnasol. | Bydd unrhyw botensial ar gyfer effeithiau andwyol ar nodweddion a ardaloedd<br><br>gwarchodedig yn y Parc Cenedlaethol o weithgareddau rheoli generig yn destun asesiad llawn unwaith y bydd y manylion ar gael a chyn i unrhyw waith ddechrau. | Pob Partner |
| ***Adroddiad cynnydd:*** *Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) fel safon ar draws yr holl ardaloedd gwarchodedig.* | | | | |

## CANLYNIAD A3

**Rydym wedi paratoi ar gyfer effeithiau newid hinsawdd ac yn lleihau ein hôl troed carbon.**

**Ydyn ni o fewn ein hamserlen?**

Mae methodoleg Indecs Peryglon Hinsawdd (CVI) wedi'i gohirio tra bo'r gwaith cwmpasu Carbon wedi'i gwblhau, ac mae'r capasiti'n cael ei ganfod i ddwyn yr ateb mwyaf priodol ymlaen ar gyfer APCE.

A oes unrhyw beth yn atal y canlyniad rhag cael ei gyflawni erbyn 2025?

- Mae'n hanfodol bod APCE fel corff cyhoeddus wedi cyflawni'r Canlyniad hwn erbyn 2025.

**Casgliad**:

Mae peth cynnydd wedi'i wneud yn erbyn y mesuriadau llwyddiant a amlinellwyd yng Nghynllun Eryri , ond mae angen mwy o ddealltwriaeth a blaenoriaeth i gyflawni'r Canlyniad hwn erbyn 2025.

## Adroddiad cynnydd manwl 2021/22

| Rhif canlyniad | Statws Cynnydd | Trosolwg o'r Canlyniad a'r Camanu | Mesurau llwyddiant | Sefydliad/au'n gyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| A3.1 | | Lleihau allyriadau carbon Parc Cenedlaethol Eryri<br>• Cyfrannu'n broactif tuag at gynllun gweithredu lleihau allyriadau Llywodraeth Cymru<br>• Gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan mewn lleoliadau strategol o fewn y Parc Cenedlaethol<br>• Gweithredu mesurau trafnidiaeth a theithio mwy gwyrdd i leihau allyriadau carbon.<br>• Annog cymunedau i sefydlu eu cynlluniau hwythau.<br>• Hyrwyddo a chefnogi gwelliannau o ran effeithiolrwydd ynni mewn adeiladau newydd a thraddodiadol yn unol â pholisi cynllunio<br>• Partneriaid i asesu cynaladwyedd y prif adeiladau o fewn y Parc Cenedlaethol<br>• Parhau i gefnogi cynlluniau ynni gwyrdd sydd yn eiddo'r cymunedau pan fyddant ar raddfa ac mewn lleoliad addas – yn unol â'r Cynllun Datblygu Lleol<br>• Sefydlu llinellau sylfaen ar gyfer gosod targedau allyriadau yn y dyfodol | Bydd llinellau sylfaen ar gyfer mesur allyriadau carbon yn y dyfodol yn cael eu sefydlu erbyn 2023, yn seiliedig ar gyngor gosod targedau gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Erbyn diwedd y Cynllun byddwn wedi cyfrannu'n llwyddiannus tuag at gynllun lleihau allyriadau Llywodraeth Cymru, wedi gosod rhagor o bwyntiau gwefru cerbydau trydan a - trwy gyfrwng ceisiadau cynllunio - wedi monitro nifer y cartrefi sydd yn uwchraddio i ddulliau ynni adnewyddol newydd.<br><br>Gweler hefyd bolisi B4.1 ar gyfer dulliau gwella trafnidiaeth | APCE<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Ynni Cymunedol<br>Cyd Ynni<br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br>Cymdeithas Eryri<br>Menter Môn<br>Grŵp Cynefin<br>Adra<br>Datblygiadau Egni Gwledig (DEG)<br>Canolfan Ecoleg a Heidroleg (CEH)<br>Prifysgol Aberystwyth |

***Adroddiad cynnydd:*** *APCE: Mae grŵp Craffu Carbon wedi'i sefydlu gydag aelodau APC i werthuso polisïau strategol gan gynnwys y Cynllun Eryri . Ar y cyd ag APCau eraill yng Nghymru, mae system ar gyfer sefydlu llinellau sylfaen allyriadau Carbon yn cael ei rhoi ar waith a bwriedir llunio Strategaeth Garbon o'r gwaith sylfaenol hwn.*

*YNGC: gosod system solar oddi ar y grid yng Ngwaith Powdwr , a dechrau meithrinfa goed i gyflenwi mwy o stoc o darddiad lleol i brosiectau yn yr ardal.*

*YG: meithrinfa goed ynni'r haul oddi ar y grid wedi'i sefydlu yn yr Hafod Garegog .*

*CG: mae'r Cyngor wedi sefydlu Bwrdd Newid Hinsawdd ac yn ddiweddar wedi penodi Rheolwr Rhaglen i arwain y gwaith. Mae gwaith ar lunio cynllun newid hinsawdd ar gyfer y Cyngor yn mynd rhagddo ar hyn o bryd gyda golwg ar ei fabwysiadu yn y misoedd nesaf.*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **A3.2** | | Diogelu a chynyddu swm y carbon a gedwir yn Eryri<br>• Parhau i ddefnyddio a gwella dalfeydd carbon naturiol o fewn y Parc Cenedlaethol<br>• Lleihau a - lle bo'n bosibl – cildroi erydiad a dirad-diad mawndiroedd, gan gynnwys cau ffosydd yn yr ucheldiroedd ac adfer mawndir amaethyddol yn yr ardaloedd ïs<br>• Sicrhau ymrwymiad hirdymor i goetiroedd amrywiol a reolir yn dda<br>• Ymchwilio i wrthbwyso carbon a chwilio am gefno-gaeth ariannol er mwyn gwrthbwyso carbon<br>• Annog cynnal tir glas parhaol ac osgoi aflonyddu ar bridd | Erbyn diwedd 2022, byddwn wedi cynyddu nifer y prosiectau Côd Mawndir a Chôd Coed a Choetiroedd a gefnogir gennym.<br><br>Gydol cyfnod y Cynllun bydd APCE yn monitro camau adfer mawndir, yn gofalu am blannu coetiroedd mewn safleoedd addas ac hefyd yn monitro cy-flwr coetiroedd presennol ac yn gwella cynefinoedd gwry-choedd, yn ogystal â gweithio mewn partneriaeth i gynghori ar ddulliau pori addas. | APCE<br>CNC<br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br>Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad (CLA)<br>Undeb Amaethwyr Cenedlaethol (NFU)<br>Undeb Amaethwyr Cymru (FUW)) |

***Adroddiad cynnydd:*** *APCE: mae tystiolaeth yn ein hysbysu nad yw'r Cod Carbon Mawndiroedd presennol yn effeithiol i'r senario yng Nghymru, a dyna pam mae cais am ddichonol-deb ar gyfer dull a datrysiad Cymru gyfan. Gwaith parhaus drwy'r Rhaglen Weithredu Mawndiroedd genedlaethol ar waith arolygu ac adfer.*

*Rhaglen CESS o waith gwirfoddol ar fawndiroedd a choetiroedd.*

*YNGC: gwell rheolaeth ar fawndiroedd yng Nghors Bodgynydd, ehangu gorchudd coetir yng Nghoed Crafnant .*

*CNC: Mae Cynllun (iau) Adnoddau Coedwig (CAC) yn cynnal cydbwysedd rhwng safleoedd adfer mawn dwfn wedi'u cynllunio lle bo'n addas i'w hadfer a chynnal atafaeliad carbon trwy orchudd coed a newidiadau mewn rheolaeth coedwigoedd trwy Goedwigaeth Gorchudd Di-dor wedi'i chynllunio a llai o gwympglirio yn y tymor hir.*

*NFU/FUW/CLA: Ymgyrchu cenedlaethol a chefnogaeth i brosiectau atafaelu Carbon ar ran aelodau.*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **A3.3** | | Gweithredu mesurau lliniaru newid hinsawdd<br>• Archwilio’r posibilrwydd o fabwysiadu trefn Indecs Peryglon Hinsawdd (CVI) o ran asedau naturiol a diwylliannol y Parc Cenedlaethol<br>• Sicrhau bod llwybrau’r ucheldir yn cael eu cynnal i safon fydd yn gwrthsefyll amlder stormydd trwy Bolisi A1.2 | Erbyn diwedd 2021 byddwn yn gweithio gyda Thirweddau Dynodedig eraill sydd eisoes yn defnyddio dulliau CVI, i fapio asedau a llunio astudiaeth posibilrwydd o fewn y Parc Cenedlaethol.<br><br>Caiff ein llwybrau ucheldir eu monitro yn gyson ar gyfer manylebau newydd neu uwchraddedig. | APCE<br><br>Yr holl bartneriad perthnasol |
| *APCE: Mae gwaith cychwynnol wedi dechrau ar gwmpasu’r fethodoleg CVI, a allai gael ei goddiweddyd gan ddatblygiadau ymhlith 3 Pharc Cenedlaethol Cymru*<br><br>*Mae llinellau sylfaen carbon yn cael eu sefydlu ar hyn o bryd ac mae gweithgor wedi’i sefydlu i fonitro cynnydd. Bydd y cam gweithredu hwn yn cael ei ailasesu o ran perthnasedd yn 2021-2.* | | | | |

## CANLYNIAD A4

**Mae Eryri ar flaen y gâd yn rhyngwladol o ran mynd i'r afael yn llwyddiannus â rhywogaethau, pla a heintiau ymledol.**

Ydyn ni o fewn ein hamserlen? Mae llinellau amser / amserlenni wedi llithro oherwydd effaith Covid-19 ar brosiectau gwaith ymarferol

A oes unrhyw beth yn atal y canlyniad rhag cael ei gyflawni erbyn 2025?

Mae cais am estyniad posibl yn cael ei drafod gan dîm Coedwigoedd Glaw Celtaidd Prosiect LIFE, er mwyn sicrhau bod rhaglen driniaeth Cam 3 yn cael ei chyflawni i'w llawn effaith.

Casgliad:

Er bod Covid-19 wedi cael effaith ar gamau ymarferol, mae'n dal yn bosibl mesur llwyddiant erbyn 2025.

## Adroddiad cynnydd manwl 2021/22

| Rhif canlyn-iad | Statws Cynnydd | Trosolwg o'r Canlyniad a'r Camau | Mesurau llwyddiant | Sefydliad/au'n gyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **A4.1** | | Codi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd o'r modd y gallant gymryd camau i rwystro rhywogaethau ymledol rhag sefydlu ac ehangu<br>• Sicrhau bod gwirfoddolwyr a grwpiau cymunedol sydd yn mynd i'r afael â rhywogaethau ymledol yn deall natur y problemau ac yn defnyddio dulliau ystyrlon<br>• Monitro a chofnodi lleoliad a graddfa rhywogaethau ymledol<br>• Codi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd o rywogaethau anfrodorol (INNS) ar y tir, mewn dŵr croyw ac yn nŵr y môr a'r effaith a gânt<br>• Sefydlu gwaelodlin ar gyfer gosodiad targed allyriadau'r dyfodol | Cofnodir gostyngiad yn nifer a chwmpas daearyddol rhywogaethau goresgynnol.<br>Bydd digwyddiadau addysgol wedi eu trefnu gyda grwpiau penodol a bydd arolygon adborth yn cael eu monitro ar gyfer gwelliannau yn y ddarpariaeth. | APCE<br>CNC<br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br>Cymdeithas Eryri<br>Prifysgol Bangor<br>ACA PLAS<br>Coed Cadw<br>Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru<br>Prifysgol Aberystwyth<br>Cofnod<br>Gweithgor Rhywogaethau Ymledol Anfrodorol Cymru<br>Ymddiriedolaeth John Muir |

***Adroddiad cynnydd:*** *APCE: arwain y gwaith o gyflawni Prosiect LIFE Coedwigoedd Glaw Celtaidd.*

*CESS: Gwaith helaeth gyda gwirfoddolwyr gan gynnwys ar goed conwydd. Cynhyrchwyd taflen ac adnoddau ar y Ffromlys Chwarennog. Prosiect Carneddau FfCh yn gweithio gyda chymunedau – model ar gyfer ffordd o weithio yn y dyfodol.*

*CNC: Gwaith adfywio conwydd wedi'i wneud ar Warchodfeydd Natur Cenedlaethol gerllaw planhigfeydd*

*YBG: Cyflwyniadau a chanllawiau i gontractwyr fel rhan greiddiol o brosiect LIFE.*

*Mae gan ACA PLAS brosiect Rhywogaethau Ymledol (INNS) ar y gweill i greu cynllun bioddiogelwch morol.*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| A4.2 | | Parhau i ehangu gwaith presennol y Bartneriaeth er mwyn rheoli a lleihau graddfa rhywogaethau ymledol<br>• Parhau gyda gwaith Partneriaeth *Rhododendron ponticum* trwy weithredu'r Cynllun Partneriaeth Rhododendron<br>• Gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael ag ymlediad Rhododendron, Jac y Neidiwr a Chlymog Japan yn ogystal ag eraill gaiff eu blaenoriaethu neu a ddaw i'r amlwg<br>• Sicrhau bod cyfarwyddyd clir a chadarn ar gyfer adrodd am unrhyw fygythiadau posibl | Gydol cyfnod y Cynllun byddwn yn cefnogi camau'r Bart-neriaeth ac yn sicrhau lleihad yn y gorchudd gan rywogaethau ymledol.<br>Caiff y canllawiau ym Mesurau Rheoli ar gyfer Rhywogaethau Ymledol sydd wedi lledaenu'n eang gan DEFRA eu dilyn yn ofalus, a chaiff y cy-hoedd eu diweddaru trwy gyfrwng y wê ac ymgyrchoedd addys-giadol pan / os bydd angen.<br>Bydd adolygiad i weld beth sydd wedi ei ddysgu wedi digwydd erbyn diwedd 2025. | APCE<br>CNC<br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br>Cymdeithas Eryri<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>CLA<br>NFU<br>FUW<br>Llywodraeth Cymru<br>Coed Cadw |

***Adroddiad cynnydd: CNC: Rhaglen rheoli rhywogaethau*** *arodorol yn safleoedd PCSCH Meirionnydd wedi dechrau gaeaf 20/21. Lludw wedi'i reoli mewn mannau mynediad cyhoed-dus.*

*YBG: Gweithio'n agos gyda thirfeddianwyr i nodi rhywogaethau a chynefinoedd, gwaith partneriaeth parhaus trwy brosiect LIFE.*

*CLA/NFU/FUW: Gwaith partneriaeth parhaus ar ran yr aelodau.*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| A4.3 | ● (gwyrdd) | Ehangu ar y camau er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw haint neu bla sydd yn effeithio ar rywogaethau brodorol<br>• Cefnogi cynllun bioddiogelwch morol Pen Llŷn a'r Sarnau<br>• Cefnogi Cyfoeth Naturiol Cymru yn eu gwaith i atal ymledi-ad a heintiau eraill sydd yn bresennol neu yn dod i'r amlwg | Trwy weithio mewn Partneriaeth byddwn yn gweld cyhoeddi manylion am leihâd mewn achosion ac am iechyd planhigion.<br>Bydd adolygiad i weld beth sydd wedi ei ddysgu wedi digwydd erbyn diwedd 2025. | PLAS<br>CNC<br>Llywodraeth Cymru<br>APCE<br>Coed Cymru<br>Coed Cadw<br>Undebau ffermio |
| APCE: Parhau i gefnogi'r amcanion trwy waith prosiect amrywiol neu gyllid craidd lle bo modd. | | | | |

## CANLYNIAD A5

**Cymunedau, busnesau ac ymwelwyr yn chwarae rhan weithredol mewn gwarchod tirweddau, cynefinoedd, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol.**

Ydyn ni o fewn ein hamserlen? Ydyn

A oes unrhyw beth yn atal y canlyniad rhag cael ei gyflawni erbyn 2025?

- Cyfnodau cloi pellach neu gyfyngiadau yn y dyfodol oherwydd pandemig Covid-19

**Casgliad**:

Bu cynnydd amlwg yn erbyn pob mesur llwyddiant o fewn y Cynllun Gweithredu Cynllun Eryri ar gyfer Canlyniad A5. Mae'r amcan yn dal ar y trywydd iawn i'w gyflawni erbyn 2025

| Rhif canlyn-iad | Statws cynnydd | Trosolwg o'r Canlyniad a'r Camau | Mesurau llwyddiant | Sefydliad/au'n gyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **A5.1** | | Chwilio am gyfleoedd i gymunedau lleol, ysgolion, grwpiau anhygyrch a grwpiau difreintiedig ymddiddori a dysgu am amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol Eryri, a'r modd y gallant hwy helpu i ofalu amdanynt.<br>• Gwerthuso'r cyfleoedd sydd gennym ar gyfer cymunedau lleol, ysgolion, grwpiau anhygyrch a difreintiedig ac ehangu ar y cynnig.<br>• Codi ymwybyddiaeth ynghylch effeithiau erydu a'r hyn y gall cerddwyr ei wneud i helpu.<br>• Ennyn diddordeb busnesau a chymunedau mewn cynorthwyo yn y gwaith o leihau effaith goleuni ar yr awyr dywyll a bioamrywiaeth | Erbyn diwedd 2021 byddwn wedi sefydlu gwaelodlin perthynas gyda phob grŵp, ac wedi gweithio gyda'n Cydlynydd gwirfoddoli a'r Swyddog Awyr Dywyll i ehangu gwelededd y Parc Cenedlaethol ym mhob ardal.<br>Bydd adolygiad yn cael ei gynnal cyn 2025 i werthuso llwyddiant. | APCE<br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br>Partneriaeth Awyr Agored<br>CNC<br>Cymdeithas Eryri<br>Ramblers Cymru<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru(CGGC)<br>Cynghorau Gwirfoddol Cymru (CGC)<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)<br>Ymddiriedolaeth John Muir |

***Adroddiad Cynnydd:*** *APCE: Mae Cydlynydd Gwirfoddolwyr yn ei le. Mae Strategaeth Gwirfoddoli wedi'i chynhyrchu a'i mabwysiadu gan APCE (Ebrill 2021). Mae rhaglen Gwirfoddolwyr Awyr Dywyll wedi'i sefydlu ar gyfer Gaeaf 2021/2.*

*APCE, CESS, YG, Mae cynllun Caru Eryri wedi'i sefydlu'n llwyddiannus (Ebrill 2021) ac wedi'i dargedu at gymunedau lleol – gan rannu arfer da gyda Pharciau Cenedlaethol eraill yng Nghymru.*

*YBGC: fel rhan o CNLl bydd yn gweithio gydag 8 grŵp cymunedol sy'n gofalu am fynwentydd yn y PC i annog rheolaeth sy'n gyfeillgar i fywyd gwyllt gan gynnwys ardaloedd i'w rheoli fel dolydd.*

*Cwm Idwal CNC, PCE, YG*

*Carneddau yn 2020-1 wedi ymgysylltu â 1857 o bobl gan gynnwys 6 diwrnod ymgysylltu ysgol; 11 o ddigwyddiadau gwirfoddoli; 26 o ddigwyddiadau wyneb yn wyneb a 26 o sgyrsiau ar-lein – bydd hyn yn cael ei ymestyn ymhellach yn 2022-25.*

*CAMAU: Mae taflen bywyd gwyllt Yr Wyddfa wedi ei chynhyrchu.*

*Mae CBSC: Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar hyn o bryd yn llunio amserlenni ar gyfer rhaglen 3 blynedd gyda Cadwch Gymru'n Daclus/Llywodraeth Cymru ar brosiect Caru Cymru a fydd yn ychwanegu gwerth at ddarparu cyfleoedd gwirfoddoli sy'n helpu i warchod a gwella'r amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol.*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **A5.2** | 🟢 | Cefnogi, hyrwyddo a darparu cyfleoedd gwirfoddoli fydd o gymorth i ddiogelu a gwella'r amgylchedd a'r dreftadaeth ddiwylliannol.<br>• Parhau i ddatblygu ac ehangu'r cynllun Parcmyn Ifanc (Young Rangers)<br>• Archwilio cysylltiad gydag ysgolion lleol er mwyn cynnig cy-fleoedd Bagloriaeth Cymru ar gyfer Cyfnodau Allweddol 4 & 5 ac elfennau gwirfoddoli Cynllun Gwobr Tywysog Cymru<br>• Ymchwilio cydweithio gyda chynlluniau dychwelyd i'r gwaith er mwyn cynyddu ymhellach cyfleoedd i breswylwyr ddod i gysylltiad â'r Parc | Bydd wardeniaid APCE a'r Cydlynydd Gwir-foddoli yn arwain ar yr elfennau hyn gan adrodd yn ôl i'r Awdurdod yn flynyddol er mwyn mesur cynnydd.<br>Bydd cynnydd yn nifer y gwirfoddolwyr yn cael ei gofnodi. | APCE<br>Partneriaeth Awyr Agored<br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br>CNC<br>Cymdeithas Eryri |

***Adroddiad cynnydd:*** *APCE: Mae cyfyngiadau Covid mewn perthynas â theithio wedi effeithio ar ddatblygu cyfleoedd gwirfoddoli mewn cynlluniau dychwelyd i'r gwaith. Gweler y cynnydd gan Bartneriaeth y Carneddau yn A5.1.*

*Eryri gyfan – darparu llawer o gyfleoedd y flwyddyn.*

*YNGC: cyfleoedd gwirfoddoli rheolaidd ym mhob un o'n gwarchodfeydd ac ar brosiectau*

*PAA: Rhaglen Hyfforddai Ifanc a gwirfoddolwyr ar gyfer trigolion PCE*

## CANLYNIAD A6

**Mae Eryri yn enghraifft arweiniol yng Nghymru o'r modd i ofalu am y dreftadaeth ddiwylliannol a'r amgylchedd hanesyddol a'u hyrwyddo.**

Ydyn ni o fewn ein hamserlen? Ydym

A oes unrhyw beth yn atal y canlyniad rhag cael ei gyflawni erbyn 2025?

- Diffyg cyllid os nad yw'r cyfleoedd a amlinellwyd uchod yn llwyddiannus.
- Gall cloeon pellach Covid-19 atal gwaith ar lawr gwlad rhag cael ei gyflawni mewn rhai meysydd.

**Casgliad**:

Bu cynnydd amlwg yn erbyn pob mesur llwyddiant o fewn Cynllun Gweithredu Cynllun Eryri ar gyfer Canlyniad A6. Mae'r amcan yn dal ar y trywydd iawn i'w gyflawni erbyn 2025.

| Rhif canlyniad | Statws cynnydd | Trosolwg o'r Canlyniad a'r Camau | Mesurau llwyddiant | Sefydliad/au'n gyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **A6.1** | | Cefnogi trwsio ac adfer adeiladau rhestredig<br>• Archwilio ffynonellau cyllid sydd ar gael i gefnogi trwsio ac adfer, cymeriad hanesyddol a hanes lleol.<br>• Defnyddio arolwg Cadw (bob 5 mlynedd) o gyflwr adeiladau rhestredig er mwyn darparu cyllid wedi ei dargedu ar gyfer adeiladau sydd mewn perygl<br>• Gweithio gyda phartneriaid i gefnogi a datblygu sgiliau traddodiadol yn lleol; bydd hyn yn ei dro o gymorth i wella cyflwr adeiladau hanesyddol<br>• Bydd Partneriaeth y Carneddau yn gweithredu ar y naw prif thema yn ei phrosiect sydd yn cynnwys treftadaeth naturiol a diwylliannol y rhanbarth<br>• Archwilio'r posibilrwydd o weithredu methodoleg Peryglon Hinsawdd ar asedau naturiol a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol yn unol â pholisi A3.2 | Byddwn yn sicrhau lleihâd yn nifer yr adeiladau rhestredig sydd mewn perygl seiliedig ar arolwg Cadw, ac yn gweithio gyda'n partneriaid i ddatblygu strategaeth ar gyfer gweithdai sgiliau traddodiadol.<br>Bydd prosiectau penodol yn ystyried defnydd a dehongliad addas mewn adrannau dynodedig o'n amgylchedd hanesyddol. | APCE<br>Cadw<br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br>Amgueddfa Lechi Cymru<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Grwpiau Hanes Lleol a Grwpiau Archeoleg<br>Enwebiad Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru<br>Grŵp Llywio'r Bartneriaeth a phartneriaid perthnasol |
| ***Adroddiad Cynnydd:*** *APCE: Yn 2020-21 a 2021-22, mae tri adeilad rhestredig mewn perygl yn cael cymorth grant ar gyfer gwelliannau cyfalaf: Tŷ Uchaf ( Llandderfel ), Tŷ Cerrig ( Rhydymain ) a Wern ( Llanfrothen ). Mae cyfle am gymorth grant pellach ar gyfer adeiladau yn Ardal Gadwraeth Harlech yn 2021-22 a 2022-23 newydd gael ei gyhoeddi.* | | | | |
| **A6.2** | | Cefnogi perchnogion Henebion Cofrestredig i'w diogelu yn well<br>• Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod ffynonellau cyllid addas ar gael<br>• Defnyddio bas data Cadw ar gyflwr henebion, gweithio gyda phartneriiad i sefydlu rhaglenni gwaith wedi eu blaenoriaethu i wella cyflwr a (lle bo'n addas) mynediad a dehongli mewn henebion cofrestredig. | Gydol cyfnod y Cynllun byddwn yn sicrhau bod y bas data presennol yn cael ei ddefnyddio i flaenoriaethu cyllid a rhaglenni gwaith dynodedig. | APCE<br>Cadw<br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br>Cyngor Gwynedd<br>Grwpiau Hanes Lleol a Grwpiau Archeoleg |
| ***Adroddiad cynnydd:*** *APCE: Cwblhawyd gwaith cynnal a chadw ar Felin Lechi Ynysypandy ym mis Hydref 2020, cyn ymweliad Asesydd Tirwedd Llechi*<br>*Enwebiad Treftadaeth y Byd Gogledd Orllewin Cymru.* | | | | |

<table>
<tr><td>A6.3</td><td></td><td>Datblygu a gweithredu prosiectau graddfa tirwedd sydd o fantais i'r amgylchedd hanesyddol<br><br>• Datblygu prosiectau fydd yn gwella mynediad i'r amgylchedd hanesyddol, teimlad o le ac ardaloedd cadwraeth dynodedig o fewn y Parc Cenedlaethol<br>• Parhau i ddatblygu prosiectau fydd yn gwella cymeriad trefol o fewn y Parc Cenedlaethol<br>• Cydweithio ar flaenoriaethau allweddol a phrosiectau ar y cyd yn ymwneud â Harlech yng Nghynllun Rheoli Safle Treftadaeth y Byd 'Cestyll a Muriau Trefol y Brenin Edward yng Nghymru'<br>• Cydweithio ar flaenoriaethau allweddol yn ymwneud â'r Parc Cenedlaethol wrth enwebu 'Diwydiant Llechi Tirwedd Diwylliannol Gogledd Cymru' ar gyfer Rhestr Safleoedd Treftadaeth y Byd</td><td>Erbyn 2021 byddwn wedi sefydlu Fframwaith Monitro Strategaeth Treftadaeth Ddiwylliannol, ac wedi cwblhau ail gyfnod Menter Treftadaeth Trefwedd Dolgellau.<br><br>Byddwn hefyd yn sicrhau ein bod yn cydweithio ar flaenoriaethau allweddol yn ymwneud â Threftadaeth Ddiwylliannol o fewn y Parc Cenedlaethol ac ar ei gyrion.<br><br>Bydd Partneriaeth y Carneddau yn gweithredu ar y naw prif thema yn ei phrosiect sydd yn cynnwys treftadaeth naturiol a diwylliannol y rhanbarth.</td><td>APCE<br><br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br><br>Cadw<br><br>Cyngor Gwynedd<br><br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br><br>Grwpiau Hanes Lleol a Grwpiau Archeoleg</td></tr>
<tr><td colspan="5">Adroddiad cynnydd APCE: yn cychwyn ar brosiect newydd i reoli a gwella 14 Ardal Gadwraeth Eryri. Wedi'i ariannu gan gronfa Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, bydd y prosiect, a arweinir gan Chambers Conservation, yn sicrhau y gall cadwraeth gynaliadwy wella Ardaloedd Cadwraeth i'r dyfodol. Rydym yn parhau i gydweithio ar enwebiad Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru ar Restr Treftadaeth y Byd.<br><br>Mae gwelliannau cychwynnol i rai o nodweddion CP4 (Cwm Pennant a Chwmystradllyn) wedi'u cwblhau ac mae cynlluniau rheoli wedi'u mabwysiadu ar gyfer y safleoedd unigol o fewn CP4 a CP5 sy'n berthnasol i'r Parc Cenedlaethol, gan gynnwys Plas Tan y Bwlch a Chei Newydd. Bydd y gwaith hwn yn bwydo i mewn i gynllun dehongli ar gyfer yr ardal maes o law. Parhau i gyflawni cynllun Menter Treftadaeth Treflun Dolgellau, i'w gwblhau erbyn Rhagfyr 2022. Mae tîm a llywodraethu Cynllun Partneriaeth Tirwedd y Carneddau wedi'u sefydlu ac wedi cyrraedd y cyfnod / cam gweithredu.</td></tr>
</table>

## CANLYNIAD A7

**Mae ein Rhinweddau Arbennig wedi eu diogelu'n dda.**

Ydyn ni o fewn ein hamserlen? Ydym

A oes unrhyw beth yn atal y canlyniad rhag cael ei gyflawni erbyn 2025?

- APCE: Penodiad Pensaer Tirwedd wedi'i ohirio ar hyn o bryd.

Casgliad:

Bu rhywfaint o gynnydd yn erbyn pob mesur llwyddiant o fewn Cynllun Gweithredu Cynllun Eryri ar gyfer Canlyniad A7. Mae'r amcan yn dal ar y trywydd iawn i'w gyflawni erbyn 2025.

Adroddiad cynnydd manwl 2021/22

| Rhif canlyniad | Statws cynnydd | Trosolwg o'r Canlyniad a'r Camau | Mesurau llwyddiant | Sefydliad/au'n gyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| A7.1 | ● (melyn) | Trwy gyfrwng y Cynllun Datblygu Lleol, gwella gosodiad a sicrhau lleoliad addas i ddatblygiadau yn y tirwedd<br>• Sicrhau bod natur, lleoliad a gosodiad, uchder, ffurf a graddfa'r datblygiad yn cydweddu gyda maint a chymeriad y safle a'r ardal y lleolir ef ynddi.<br>• Gwarchod Safleoedd Treftadaeth Byd dynodedig a rhai yn yr arfaeth e.e. Tirlun Llechi Gogledd Orllewin Cymru<br>• Defnyddio Canllawiau Cynllunio Atodol: Tirweddau a Morweddau Eryri, Canllawiau Cynllunio Atodol: Asesu Sensitifrwydd a Gallu Tirwedd ac adnodd LANDMAP i asesu effaith ceisiadau cynllunio ar y tirwedd<br>• Penodi Pensaer Tirwedd i gynorthwyo swyddogion Rheoli Datblygu i asesu effaith ceisiadau cynllunio ar y tirwedd | Caiff Pensaer Tirwedd ei benodi cyn diwedd 2020.<br>Bydd canllawiau yn y CDLl – cânt eu monitro yn flynyddol a defnyddir hwy i asesu ceisiadau cynllunio. | APCE |
| *Adroddiad cynnydd:* *APCE: Penodiad Pensaer Tirwedd wedi'i ohirio ar hyn o bryd. Amserlen i'w diwygio hyd at ddiwedd y Cynllun.*<br>*CNC: Ymgynghorodd DPAS ar ddatblygiadau priodol a chynigion cynllunio ynghylch safleoedd dynodedig, effaith amgylcheddol ac ati* | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **A7.2** | | Trwy gyfrwng y Cynllun Datblygu Lleol, sicrhau bod datblygiadau mawr newydd yn diogelu'r golygfeydd i mewn i'r Parc Cenedlaethol ac allan ohono<br>• Sicrhau bod unrhyw gynnig am ddatblygiad mawr yn cael ei archwilio yn drwyadl - hyn yn cynnwys asesiad o'r effaith ar bwrpasau'r Parc Cenedlaethol<br>• Ystyried y dirwedd ac effaith weledol cynigion sydd gerllaw ffin y Parc Cenedlaethol a'r modd y gall y rhain effeithio ar bwrpasau'r Parc Cenedlaethol, gan gynnwys y golygfeydd i mewn i'r Parc Cenedlaethol ac allan ohono | Bydd canllawiau yn y CDLl a bydd APCE yn gweithio mewn partneriaeth gydag awdurdodau cyfagos er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu | APCE |
| ***Adroddiad Cynnydd:*** *APCE: Mae CDLlE yn nodi 'Ni chaniateir datblygiad mawr o fewn y Parc Cenedlaethol ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol lle dangosir bod angen cyhoeddus tra phwysig'. Mae'r polisi'n mynd ymlaen i nodi'r meini prawf y byddai datblygiad mawr hyd yn oed yn cael ei ystyried yn dderbyniol o bell ar eu cyfer.*<br>*CNC: fel uchod* | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **A7.3** | | Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys canllawiau clir ynghylch seilwaith anaddas ar gyfer datblygiadau mawr, megis ceblau ynni uwchlaw daear o fewn y ffin, ac yn annog - lle bo hynny'n bosibl -tanddaearu ceblau presennol sydd wedi eu lleoli yn anaddas<br>• Mae'r CDLl yn cynnwys polisi sydd yn rhwystro datblygiadau mawr anaddas o fewn y Parc Cenedlaethol<br>• Annog tanddaearu llinellau sydd uwchlaw'r ddaear<br>• Parhau i weithio mewn partneriaeth gyda'r Grid Cenedlaethol i leihau effaith weledol llinellau uwchlaw daear o fewn y Parc Cenedlaethol<br>• Bydd yr Awdurdod yn caniatáu datblygiadau telegyfathrebu cyn belled na fyddant yn niweidio amwynder gweledol a chymeriad tirwedd yr ardal<br>• Annog gweithredwyr telegyfathrebu i liniaru a/neu leihau effeithiau llinellau trosglwyddo presennol – defnyddio seilwaith cyfathrebu sydd yn addas i'r tirwedd<br>• Mae'r Awdurdod yn annog: Defnyddio safleoedd sydd yn amgylcheddol dderbyniol,<br>• Rhannu safle, mast, tŵr neu unrhyw strwythur sydd yno eisoes a<br>• Rhannu sianel tanddaearol sydd yno'n barod neu wedi ei chynllunio gyda darparwr arall<br>• Disgwylir bod y mast, antenâu ac unrhyw strwythur arall wedi eu dylunio'n dda ac yn cynrychioli'r opsiwn amgylcheddol gorau, yn ymarferol ac yn amgylcheddol | Bydd canllawiau yn y CDLl ar gyfer gwell tirlunio mewn datblygiadau presennol a newydd | APCE |
| ***Adroddiad cynnydd:*** *APCE: mae'r Awdurdod yn gweithio'n agos gyda'r Grid Cenedlaethol / SPEN ar brosiectau i 'danddaearu' ceblau pŵer 'dros y ddaear' presennol gyda phrosiectau naill ai'n mynd rhagddynt neu wedi'u cwblhau mewn sawl rhan o'r parc. Maent hefyd yn gwahodd unrhyw syniadau am brosiectau/meysydd y dyfodol ar gyfer y gwaith hwn .* | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| A7.4 | ● | Trwy gyfrwng y Cynllun Datblygu Lleol, sicrhau bod goleuo yn y datblygiadau newydd yn cymryd i ystyriaeth statws Gwarchodfa Awyr Dywyll Rhyngwladol a Diogelu a Gwella Safleoedd Daearegol a Geomorffig Rhanbarthol Pwysig (RIGS) a geoamrywiaeth yn gyffredinol<br>• Trwy gyfrwng y Cynllun Datblygu Lleol a'r canllawiau Cynllunio Atodol ar oleuadau ymwthiol, sicrhau na fydd y cynigion yn cael effaith niweidiol ar y Warchodfa Awyr Dywyll<br>• Gweithredu'r polisïau hynny yn y CDLl sydd yn sicrhau nad yw cynigion datblygu yn cael effaith niweidiol ar nodweddion daearegol o bwys(RIGS) | Mae'r canllawiau yn y CDLl | APCE |
| ***Adroddiad Cynnydd:*** *APCE: Diwygiwyd Polisi Datblygu 2: Datblygu a'r Dirwedd i gynnwys 'Gwarchodfa Awyr Dywyll Eryri, yn arbennig Ardaloedd Craidd', o fewn CDLlE diwygiedig newydd 2016-2031. Mae hefyd yn cael ei fonitro'n flynyddol bellach i sicrhau nad oes unrhyw ddatblygiad amhriodol yn digwydd o fewn y meysydd craidd hyn.* | | | | |
| A7.5 | ● | Meithrin gwell dealltwriaeth o Rinwedd Arbennig llonyddwch ac unigedd<br>• Ymchwil a chymhwyso methodoleg newydd o fesur llonyddwch o fewn y Parc Cenedlaethol.<br>• Diffinio llonyddwch fel y'i cymhwysir i Barc Cenedlaethol Eryri trwy gynnwys yn yr arolwg ymwelwyr a thrigolion i ddarganfod profiad llonyddwch yn Eryri<br>• Parhau i gysylltu â'r Weinyddiaeth Amddiffyn i annog gostyngiadau yn nifer y gweithgareddau hedfan isel sy'n digwydd dros Eryri | Bydd methodolegau newydd wedi cael eu hystyried a'u cynnwys ym mhroses fapio'r a diogelu'r rhinwedd arbennig hwn.<br>Cyflawnir diffiniad o dawelwch a dealltwriaeth o brofiad defnyddwyr o'r Rinwedd Arbennig hwn trwy arolwg defnyddwyr.<br>Bydd cyfarfodydd cyswllt wedi digwydd yn rheolaidd. | APCE |
| ***Adroddiad cynnydd:*** *APCE Mae methodoleg newydd ar gyfer mesur Llonyddwch o fewn ffin y Parc Cenedlaethol yn cael ei datblygu ar y cyd â Phrifysgol Winchester.* | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **A7.6** | | Sefydlu cofrestr risg ar gyfer asedau diriaethol ac anghyffyrddadwy'r Parc Cenedlaethol.<br>• Cynnal ymarfer o gadw cofrestr risg gan groesgyfeirio â Pholisi A3.3, gan sicrhau y rhagflaenir parodrwydd a mesurau lliniaru.<br>• Gweithio gyda phartneriaid allweddol i ystyried gwersi o bandemig COFID-19. | Erbyn 2022 bydd cofrestr risg ar gyfer asedau diriaethol ac anghyffyrddadwy'r Parc Cenedlaethol wedi cael ei chynhyrchu. | APCE |
| ***Adroddiad cynnydd:*** *APCE: Mae diweddariad i'r Gofrestr Asedau ar y gweill ar hyn o bryd gan Bennaeth yr Adain Eiddo a fydd yn sail i'r gwaith hwn yn y dyfodol.* | | | | |

## Iechyd a Llesiant yn Eryri: Mae Eryri yn darparu cyfoeth o gyfleoedd ar gyfer dysgu a darganfod ac yn gwella lles ein cenedl ar yr un pryd

### CANLYNIAD B1

**Mae'r Parc Cenedlaethol yn cael effaith bositif ar lesiant.**

**Ydyn ni o fewn ein hamserlen?**

Dylid addasu amserlen B1.1 i adlewyrchu effaith Covid-19.
Cafodd B1.3 ei oedi oherwydd cyfyngiadau Covid-19, ond, mae'r dathliadau pen-blwydd yn 70 oed (a oedd yn cynnwys llawer o'r un elfennau) wedi cymryd drosodd - ailasesu'r pwynt gweithredu hwn i weld a yw wedi'i gyflawni mewn fformat gwahanol.

A oes unrhyw beth yn atal y canlyniad rhag cael ei gyflawni erbyn 2025?

- Unrhyw gyfyngiadau pellach ar symud oherwydd y pandemig Covid-19

**Casgliad**:

Bu rhywfaint o gynnydd yn erbyn pob mesur llwyddiant o fewn Cynllun Gweithredu Cynllun Eryri ar gyfer Canlyniad B1. Mae'r amcan yn dal ar y trywydd cywir i'w gyflawni erbyn 2025.

## Adroddiad cynnydd manwl 2021/22

| Rhif canlyn-iad | Statws cynnydd | Trosolwg o'r Canlyniad a'r Camau | Mesurau llwyddiant | Sefydliad/au'n gyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **B1.1** | | Cynyddu'r gwaith gyda phartneriaid, gwasanaethau iechyd a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus trwy gynlluniau rhagnodedig sydd o fudd i gymdeithas.<br>• Adnabod cynulleidfaoedd targed<br>• Casglu data ar y rhwystrau y mae'r bobl hyn yn eu wynebu a cheisio cyfleoedd i ddileu'r rhwystrau hyn yn barhaol<br>• Adnabod a hyrwyddo cynlluniau sydd eisoes ar y gweill o fewn y Parc Cenedlaethol<br>• Sefydlu cynlluniau rhagnodedig newydd (ynghŷd â threfn gyfeirio) o fewn ac o amgylch y Parc Cenedlaethol ar gyfer y cynulleidfaoedd targed, yn seiliedig ar ymarfer gorau a chanlyniadau ymchwil | Erbyn diwedd 2020 byddwn wedi cwblhau'r gwaith ymchwil sydd ei angen ac wedi adnabod cynlluniau i'w hyrwyddo'n eang ar draws y Parc Cenedlaethol.<br>Erbyn diwedd y Cynllun, ein bwriad yw sefydlu cynlluniau cymdeithasol penodol i'w treialu gyda'r Parc Cenedlaethol yn bartner mewn o leiaf un prif gynllun yn gweithio tuag at strategaeth llesiant ffurfiol. | APCE<br>Let's Get Moving Gogledd Cymru<br>Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>Ramblers Cymru<br>Partneriaeth Awyr Agored<br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br>CNC<br>Chwaraeon Cymru<br>Prifysgol Bangor |

***Adroddiad cynnydd:*** *APCE: Mae cynlluniau presgripsiwn cymdeithasol peilot wedi'u sefydlu ar sail prawf (Dydd Mercher Llesiant) drwy Eventbrite – haf 2021 mewn partneriaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru.*

*ICC: Strategaeth Presgripsiwn Cymdeithasol ac Iechyd Gwyrdd i ddechrau ym mis Hydref 2021 gan alluogi'r holl ddarparwyr perthnasol i gofnodi gweithgareddau mewn cofrestr a rennir i feddygon teulu gael mynediad iddi ar draws Gogledd Cymru.*

*PAA: Mae'r Gronfa Iach ac Egnïol wedi datblygu cynlluniau Presgripsiwn Cymdeithasol sy'n rhoi cyfeiriad uniongyrchol i'r rheini ag anawsterau iechyd meddwl, a hynny'n llwyddiannus – i'w datblygu yn 2022 gyda mewnbwn gan aelodau eraill o Fforwm Eryri.*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **B1.2** | ● | Hyrwyddo a threfnu ystod eang o weithgareddau fydd yn gwella llesiant pobl<br>• Datblygu adnodd ar-lein yn ymwneud â gweithgareddau a llwybrau o fewn y Parc Cenedlaethol, wedi eu targedu a'u teilwrio ar gyfer y cynulleidfaoedd a ganfyddir o dan Bolisi B1.1<br>• Sicrhau darpariaeth ddigonol o ran mynediad at ddyfroedd mewndirol ar gyfer gweithgareddau dŵr, yn enwedig yng ngoleuni newidiadau deddfwriaethol yn y dyfodol.<br>• Parhau i ehangu cyfleoedd gwirfoddoli o fewn y Parc Cenedlaethol gan gynnwys gweithgareddau corfforol a diwylliannol (gweler hefyd bolisi A5.2)<br>• Datblygu cyfleoedd gwirfoddoli ar gyfer pobl anabl<br>• Ar gyfer pobl anabl a grwpiau difreintiedig, hyrwyddo gweithgareddau o fewn y Parc Cenedlaethol fydd yn gwella'u dealltwriaeth o'r Rhinweddau Arbennig<br>• Annog cyfleoedd ar gyfer cymdeithasu o fewn yr amgylchedd naturiol | Erbyn diwedd 2021, bydd adnoddau ar gael trwy wefan y Parc Cenedlaethol.<br><br>Erbyn 2025 bydd Cydlynydd Gwirfoddoli APCE yn adrodd ar y ddarpariaeth gynyddol o gyfleoedd i wirfoddolwyr a bydd tystiolaeth o gynlluniau a phrosiectau perthnasol ar gael. | APCE<br>CNC<br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br>Partneriaeth Awyr Agored<br>WCVA<br>Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Celfyddydau Cymru<br>Menter Iaith<br>Amgueddfa Lechi Genedlaethol Ymddiriedolaeth Archeolegol<br>Chwaraeon Cymru<br>Ymddiriedolaeth John Muir |

***Adroddiad cynnydd:*** *APCE: Mae gweithgareddau gwirfoddolwyr wedi'u hehangu'n sylweddol yn 2020-21, ac mae'r rhain yn amlwg yn cael effaith gadarnhaol ar lesiant y rhai sy'n cymryd rhan (gweler Strategaeth Gwirfoddoli APCE). Gan weithio gyda busnesau lleol, mae dau Tramper ar gael i'w defnyddio ar draws y Parc Cenedlaethol, sef sgwteri symudedd wedi'u dylunio'n arbennig ar gyfer pob tirwedd, a gellir eu defnyddio oddi ar y ffordd a hyd yn oed ar dir garw, mwdlyd a glaswellt - mae trydydd Tramper wedi'i archebu ymlaen llaw ar hyn o bryd. Mae Partneriaeth y Carneddau wedi bod yn cyflwyno sesiynau Cerdded er Llesiant mewn partneriaeth â Mind Conwy.*

*ICC: Hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor i nodi cynulleidfaoedd penodol a negeseuon i'w cyflwyno i grwpiau penodol er mwyn annog y rhai nad ydynt fel arfer yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn yr ardal.*

*CESS: Gweithio mewn partneriaeth ar y rhaglen Caru Eryri, yn ogystal â llawer o gyfleoedd sy'n amrywio o ran eu natur a'u lleoliad, gyda'r gallu i ddarparu cyfleoedd pwrpasol i bobl â rhwystrau iechyd ac ati.*

*AS: Cyflwyno prosiect Babi Actif yn barhaus, gan gynnwys sesiynau (buggyfit, ysgolion coedwig, teithiau natur ac ati) i famau beichiog a rhieni newydd, gan eu hannog i fod yn actif yn yr awyr agored.*

*PAA: gweithio mewn partneriaeth â Caru Eryri; rhaglen antur gynhwysol sy'n gwella mynediad i bobl ag anableddau a menywod; cynllun hyfforddeion ifanc; rhaglenni iechyd a llesiant mewn partneriaeth â rhagnodwyr cymdeithasol, clystyrau o feddygon teulu a TIMC; rhaglen wirfoddoli; cefnogi 100+ o glybiau awyr agored cymunedol ym Mharc Cenedlaethol Eryri a'r cyffiniau; rhaglen llwybrau i gyflogaeth a chyflogadwyedd.*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **B1.3** | | Cynllunio prosiect yn seiliedig ar y berthynas hir a chyfatebol rhwng pobl Eryri a'r tir<br>• Casglu grŵp o arbenigwyr yn y maes i adnabod ffyrdd posibl o weithredu'r prosiect hwn<br>• Adeiladu ar waith Partneriaeth Tirwedd y Carneddau sef y Prosiect Hanes Llafar<br>• Hyrwyddo gweithdai gyda nifer o gynrychiolwyr cymunedau er mwyn trafod y dulliau gorau o fynegi'r cysylltiadau cynhenid hyn<br>• Cefnogi a chynghori (fel bo angen) datblygiad y prosiect hyd ei ddiwedd, yn unol â phenderfyniad preswylwyr lleol | Erbyn 2021 byddwn yn sicrhau bod sesiwn map-io meddwl wedi digwydd a bod cysylltiadau wedi eu gwneud gyda chynry-chiolwyr perthnasol o'r gymuned.<br>Ar gyfer dathlu 70 mlynedd ers dynodi Parc Cenedlaethol Eryri, bydd gweithdai wedi eu cynnal a bydd y prosiect wedi ei lansio ac yn cael ei gydly-nu hyd ei derfyn. | APCE<br>Holl bartneriaid ac aelodau Cymuned perthnasol. |
| ***Adroddiad cynnydd:*** *Oedi oherwydd cyfyngiadau COVID-19 ac i'w adolygu yn sgil y gwaith a gwblhawyd ar gyfer dathliadau pen-blwydd Eryri yn 70 a Phrosiect Ffermydd Coll Ardudwy.* | | | | |

## CANLYNIAD B2

**Gall preswylwyr ac ymwelwyr ddefnyddio amrywiaeth o lwybrau yn y Parc Cenedlaethol gyda golwg ar wella iechyd y corff a'r meddwl.**

Ydyn ni o fewn ein hamserlen? Mae pandemig Covid-19 wedi gohirio'r amserlenni

A oes unrhyw beth yn atal y canlyniad rhag cael ei gyflawni erbyn 2025?

- Unrhyw gyfyngiadau pellach ar symud oherwydd y pandemig Covid-19

**Casgliad**:

Bu rhywfaint o gynnydd yn erbyn pob mesur llwyddiant o fewn Cynllun Gweithredu Cynllun Eryri ar gyfer Canlyniad B2. Mae'r amcan yn dal ar y trywydd cywir i'w gyflawni erbyn 2025.

## Adroddiad cynnydd manwl 2021/22

| Rhif canlyniad | Statws cynnydd | Trosolwg o'r Canlyniad a'r Camau | Mesurau llwyddiant | Sefydliad/au'n gyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **B2.1** | ● | Creu cynllun a chanolbwyntio adnoddau ar hyrwyddo, datblygu a chynnal llwybrau hirion sydd wedi eu diffinio'n glir, llwybrau hygyrch, llwybrau aml-ddefnydd (yn arbennig llwybrau beicio a llwybrau beicio mynydd), llwybrau a hyrwyddir a llwybrau cyswllt rhwng trefi a phentrefi<br>• Adnabod cynulleidfaoedd targed ar gyfer llwybrau yn unol â pholisi B1.1<br>• Adolygu Strategaeth Hamdden y Parc Cenedlaethol a sicrhau ei bod yn cyflawni Canlyniad B2 ac yn cynnwys safonau cenedlaethol ar gyfer arwyddion, celfi a hygyrchedd<br>• Ymestyn llwybrau hygyrch trwy symud rhwystrau a chaniatáu mynediad i bawb lle bo'n bosibl, a darparu dewisiadau cyfyngol o leiaf o ran celfi<br>• Llunio arolwg ymhlith pobl leol, rhanddeiliaid ac ymwelwyr er mwyn asesu eu hanghenion a'u gofynion o safbwynt mynediad yn eu hardal leol, ac hefyd unrhyw rwystrau y maent yn eu wynebu wrth fynd allan i'r awyr agored<br>• Yn seiliedig ar y canlyniadau creu cynllun map ar gyfer datblygu llwybrau, gan gynnwys archwilio dewisiadau ar draws y Parc Cenedlaethol mewn ardaloedd megis Bala - Traws, Bala - Dolgellau (yn amodol ar gydymffurfio â gweithred A2.5) a chanfod sut y gellir gwella mynediad ar gyfer pobl anabl i'r safleoedd mwyaf poblogaidd yn y Parc Cenedlaethol<br>• Adnabod ffynonellau arian a dilyn ceisiadau am gyllid er mwyn gwireddu'r cynllun<br>• Cefnogwch lwybrau pellter hir sydd eisoes yn bodoli fel Llwybr Llechi Eryri, Ffordd Cambrian, Taith Ardudwy, Ffordd y Pererinion, Cylchdaith yr Wyddfa, Llwybr Gogledd Cymru, Llwybr Arfordir Cymru ayyb. | Caiff y cynllun gweithredu yn y golofn 'Trosolwg o'r camau' ei weithredu dros y 5 mlynedd nesaf fel bod yr holl gamau gweithredu wedi'u cwblhau erbyn 2025. | APCE<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br>CNC<br>Fforymau Mynediad Lleol<br>Cymdeithas Eryri<br>Llwybr Llechi Eryri |

***Adroddiad cynnydd:*** *APCE: Strategaeth Hamdden ar ffurf drafft i'w chyflwyno i'r Tîm Rheoli (Medi 2021)*

*Cynlluniau gwella Hawliau Tramwy ar ffurf drafft, Conwy / Gwynedd gyda mewnbwn APCE a Fforymau Mynediad Lleol. Mae'r Strategaeth Parcio a Thrafnidiaeth yn datblygu llwybrau teithio llesol / hamdden drwy PyW.*

*CBSC: hyrwyddo llwybrau (cerdded, beicio ac ati) drwy ei wefan dwristiaeth a'i raglen Llysgenhadon Twristiaeth, er mwyn codi ymwybyddiaeth.*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **B2.2** | | Sicrhau bod gwaith Hawliau Tramwy yn cael ei flaenoriaethu'n effeithiol a bod cyfrifoldebau a safonau yn eglur, gydag APCE yn canolbwyntio ei adnoddau ar lwybrau aml-ddefnyddwyr a llwybrau'r ucheldir<br>• Creu cynllun blaenoriaethau a chynnal llwybrau i sicrhau bod adnoddau yn cael eu rheoli yn effeithiol ac wedi eu targedu<br>• Parhau i weithredu'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Chyngor Conwy a'i adolygu yn rheolaidd. Cytuno ar MD gyda Chyngor Gwynedd a'i weithredu<br>• Sicrhau bod yr holl bartneriaid sydd yn cwblhau gwaith Hawliau Tramwy o fewn y Parc Cenedlaethol yn gweithio i'r safonau a nodir yn y strategaeth mynediad o dan Bolisi B2.1 | Erbyn diwedd 2021, bydd y Cynllun Cynnal wedi ei lunio a'i weithredu. Bydd cytundebau mewn lle gyda Chyngor Gwynedd.<br>Erbyn diwedd 2022, bydd y ddogfen safonau mewn lle ac wedi ei harwyddo gan bartneriaid penodol.<br>Bydd arolygon system gwybodaeth ddaearyddol (GIS) yn darparu data mesuradwy ar gyfer rhwydwaith llwybrau Conwy | APCE<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br>CNC<br>Ramblers Cymru |

***Adroddiad cynnydd:*** *APCE: CLG yn ei le gyda Chyngor Conwy. Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar ffurf drafft gyda Chyngor Gwynedd (oedi oherwydd effaith COVID-19)*

*Mae arolygon GIS yn parhau gyda mewnbwn Gwasanaeth Wardeniaid APCE.*

*Mae gan CESS, mewn partneriaeth ag APCE, raglenni cynnal a chadw blynyddol ar yr Wyddfa, Lôn Gwyrfai, Llwybr Mawddach, Llwybr Llechi a CESS/YG y Glyderau / Carneddau*

*CNC: wedi dechrau rhaglen hirdymor o glirio HTC â gordyfiant yng nghoedwig Meirionnydd.*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **B2.3** | ● | Gwella cyfleoedd mynediad ar gyfer pobl anabl a grwpiau sydd wedi eu heithrio o gymdeithas Gweler hefyd bolisi B2.1<br>• O ran mynediad i'r Parc Cenedlaethol, ymchwilio i'r rhwystrau a wynebir gan y cyhoedd, gan gynnwys pobl anabl, rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is a grwpiau eraill sydd wedi'u hallgáu<br>• Datblygu camau o dan Bolisi B2.1 i wella cyfleoedd mynediad ar gyfer pobl anabl a grwpiau sydd wedi eu heithrio<br>• Gweithio gyda grwpiau targed ac elusennau penodol yng nghyfnod cynnar dylunio'r prif brosiectau mynediad | Erbyn diwedd 2025, bydd y gwaith ymchwil wedi ei gwblhau.<br>Byddwn yn sicrhau cynnydd mesuradwy yn y ddarpariaeth fydd ar gael erbyn diwedd cyfnod y Cynllun. | APCE<br>CNC<br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Chwaraeon Cymru |

***Adroddiad cynnydd:*** *APCE: Mae cyfres o fideos llawn gwybodaeth yn cael eu datblygu i hyrwyddo mynediad i bob llwybr. Mae tramper ychwanegol wedi ei leoli ym Meddgelert ynghyd ag un yn Nolgellau, ac mae un arall wedi'i archebu ar hyn o bryd. Mae ymgynghoriad yn parhau gyda chymunedau marchogaeth/beiciau mynydd a'r Cerddwyr ynglŷn ag unrhyw ddatblygiadau newydd.*

*CNC: mae egwyddorion y mynediad lleiaf cyfyngol drwy unrhyw fodd rhesymol yn llywio'r camau gweithredu. Bydd gwasanaeth symudedd tramper yn cael ei gynnig yng Nghoed y Brenin o fis Hydref, 2021 ymlaen.*

*PAA: Rhaglen Antur Gynhwysol yn gweithio gyda chymunedau ar draws y PC i wella mynediad pobl ag anableddau i weithgareddau awyr agored.*

## CANLYNIAD B3

### Caiff ein Rhinweddau Arbennig eu cydnabod yn eang

Ydyn ni o fewn ein hamserlen? Bydd llinellau amser yn B3.1, B3.2 a B3.3 yn cael eu hailasesu i adlewyrchu effaith Cofid-19 ar yr economi ymwelwyr

A oes unrhyw beth yn atal y canlyniad rhag cael ei gyflawni erbyn 2025?

Mae blaenoriaethau sefydliadau amrywiol wedi'u heffeithio gan yr angen i ymateb i Covid 19, bydd trafodaethau gyda Phartneriaid yn digwydd yn 2022 i gadarnhau bod y Mesurau Llwyddiant yn berthnasol neu fod angen eu haddasu.

Casgliad

Bu cynnydd amlwg yn erbyn pob mesur llwyddiant o fewn Cynllun Gweithredu Cynllun Eryri ar gyfer Canlyniad B3. Mae'r amcan yn dal ar y trywydd cywir i'w gyflawni erbyn 2025.

| Rhif canlyniad | Statws cynnydd | Trosolwg o'r Canlyniad a'r Camau | Mesurau llwyddiant | Sefydliad/au'n gyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **B3.1** | | Datblygu strategaeth marchnata brand ar gyfer Eryri yn seiliedig ar y Rhinweddau Arbennig a'i gweithredu yn gyson ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat<br>• Gan ddefnyddio dealltwriaeth a gwybodaeth lleol, creu darlun cadarn a chlir o hunaniaeth ddiwylliannol a hanesyddol y Parc Cenedlaethol.<br>• Yn dilyn datblygu egwyddorion ar gyfer Rheoli Ymwelwyr (gweler Polisi A1.1), datblygu strategaeth marchnata/brand ar gyfer Eryri wedi ei seilio ar hyrwyddo a diogelu ei Rhinweddau Arbennig. Dylai'r strategaeth ystyried: 'Brand Cymru' gan Croeso Cymru; cynulleidfaoedd targed a marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg; mynd i'r afael â gorlenwi ac effaith ar yr amgylchedd mewn mannau poblogaidd; pwysleisio elfennau eco a gwyrdd, mwynhâd tawel; manteision yr amgylchedd i lesiant; hyrwyddo diwylliant lleol, yr Iaith Gymraeg, bwyd a diod Cymreig<br>• Creu Strategaeth Treftadaeth Ddiwylliannol a Dehongli ar gyfer y Parc Cenedlaethol ochr yn ochr â'r brand marchnata (uchod)<br>• Datblygu cyfleoedd ar gyfer gwella profiadau i ymwelwyr trwy gyswllt gydag agweddau hanesyddol a diwylliannol e.e. safleoedd Treftadaeth y Byd, llwybrau llechi, hanes mynydda a hyrwyddo enwau lleoedd Cymraeg a'r iaith Gymraeg.<br>• Datblygu gwybodaeth ac adnoddau fydd yn dathlu safleoedd amlwg mewn llenyddiaeth a diwylliant Cymreig, ac annog parch a dealltwriaeth tuag at yr iaith Gymraeg<br>• Archwilio'r posibilrwydd o lansio cystadleuaeth flynyddol ar gyfer 'Prifddinas diwylliant Eryri' (gan ddefnyddio gwersi o'r model Dinas Diwylliant). Bydd y dref/pentref buddugol yn derbyn arian i hyrwyddo a threfnu gweithgareddau diwylliannol am y flwyddyn<br>• APCE i wella a moderneiddio ei wefan yn unol â'r strategaeth marchnata a brandio newydd<br>• Comisiynu ffotograffau newydd o'r ardal i adlewyrchu egwyddorion y strategaeth marchnata a brandio newydd: fideos cyfryngol; ffilmiau drôn; ffeiliau gpx o lwybrau ayyb | Erbyn diwedd 2021, byddwn wedi gweithio gyda'n partneriaid i greu strategaeth marchnata a brandio newydd yn seiliedig ar wybodaeth leol, a byddwn wedi datblygu strategaeth ddehongli yn sgil hyn.<br>Gan ddefnyddio gwefan wedi ei dylunio o'r newydd a darluniau, sefydlu nifer o brosiectau i gryfhau agweddau hanesyddol, diwylliannol a llenyddol o fywyd yr ardal.<br>Bydd adolygiad o'r brand newydd yn cael ei gynnal erbyn 2025. | APCE<br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br>Cadw<br>Cyngor y Celfyddydau<br>Menter Iaith<br>Amgueddfa Lechi Genedlaethol<br>Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd |

***Diweddariad ar Gynnydd:*** *APCE: Cynllun Dehongli Treftadaeth Ddiwylliannol yn cael ei ddrafftio. Mewnbwn helaeth gan arbenigwyr lleol ynglŷn â'r Cynllun Llysgenhadon busnes. Penodwyd cwmni i ddatblygu gwefan newydd ac maent wedi dechrau ar y gwaith cwmpasu. Mae Partneriaeth yr Wyddfa yn gweithio gydag MSPARC i ddatblygu Ap Ymwelwyr yn seiliedig ar argymhellion o Adolygiad Parcio a Thrafnidiaeth 2020 Yr Wyddfa ac Ogwen. Mae brandio yn rhan o gydweithio rhwng Cyngor Gwynedd APCE tuag at egwyddorion Twristiaeth Gynaliadwy. Amserlenni i'w diwygio i adlewyrchu hyn.*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **B3.2** | | Annog ymwelwyr i ddod ar wahanol amseroedd o'r flwyddyn ac i wahanol ardaloedd er mwyn lleihau'r pwysau yn ystod y cyfnod prysuraf ac er mwyn helpu busnesau i oresgyn anawsterau tymhorol<br>• Hyrwyddo tymor y gaeaf a 'lliwiau'r hydref'. Defnyddio darluniau tymhorol ar wefannau<br>• Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu cyfleoedd yn sgil "Ffordd Cymru"<br>• Defnyddio enghreifftiau sydd gennym ar gyfer ystyried y syniad o deithiau thematig fydd yn hyrwyddo Rhinweddau Arbennig Eryri | Bydd y syniadau blaengar hyn mewn lle erbyn diwedd 2021 | APCE<br>Croeso Cymru<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>CNC<br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br>Plas y Brenin<br>Eryri-Bywiol |

***Adroddiad cynnydd:*** *APCE: Mae dyluniad Cynllun Eryri yn adlewyrchu dull Lliwiau'r Hydref yn benodol.*

*Mae ein Swyddog Twristiaeth Gynaliadwy yn datblygu rhaglen ar hyn o bryd. Mae adrannau Ffeithiau a Mannau Arbennig Cynllun Eryri yn cael eu defnyddio fel sail ar gyfer hyn.*

*AS: Mae prosiect Curious Cymru yn gweithio gyda busnesau i ddatblygu profiadau twristiaeth newydd ac yn cynnig ffyrdd cyffrous ac unigryw o ddarganfod Eryri.*

*CBSC: maent wedi cynnal ymgyrchoedd marchnata penodol sy'n canolbwyntio ar yr hydref, y gaeaf, a'r gwanwyn.*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **B3.3** | | Defnyddio'r strategaeth marchnata fel man cychwyn, datblygu cynllun ar y cyd gyda phartneriaid ynghylch y wybodaeth yr ydym yn ei ddarparu ar gyfer ymwelwyr, gyda phwyslais ar y Rhinweddau Arbennig a newid mewn ymddygiad.<br>• Adnabod y gynulleidfa darged ar gyfer gwybodaeth a newid mewn ymddygiad<br>• Adnabod pa fath a pha fformat gwybodaeth sydd fwyaf effeithiol, a pha ieithoedd y mae mwyaf o alw amdanynt<br>• Datblygu cynllun ar y cyd i gynnwys canllawiau ar sut y byddwn yn darparu gwybodaeth cyn, yn ystod ac yn dilyn ymweliad, yn ogystal â rhesymoli'r gymysgedd a'r defnydd o ddulliau modern a thraddodiadol o ddarparu gwybodaeth<br>• Gwella gwybodaeth ar gyfleoedd hamdden gan dargedu grwpiau penodol yn unol â'r strategaeth brand a'r cynllun gwybodaeth, a llenwi unrhyw fylchau yn y wybodaeth<br>• Gweithio gyda busnesau twristiaeth i hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth am y Parc yn unol â'r strategaeth brand a'r cynllun gwybodaeth e.e. trwy gynllun llysgennad | Erbyn diwedd 2020, bydd cynulleidfaoedd targed wedi eu hadnabod fel rhan o gynhyrchu'r wefan newydd.<br>Bydd cynllun llysgennad peilot wedi ei sefydlu a bydd y gwersi gaiff eu dysgu yn cael eu cymhwyso ar draws y Parc Cenedlaethol.<br>Bydd y strategaeth brandio yn cyfrannu at y Cynllun ar y cyd ac yn ychwanegu at y wybodaeth a ddarperir erbyn diwedd 2022.<br>Bydd adolygiad o'r brand newydd yn cael ei gynnal erbyn 2025.. | APCE<br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br>Croeso Cymru<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Partneriaeth Awyr Agored<br>Chwaraeon Cymru<br>Eryri-Bywiol<br>GAT<br>CNC |
| ***Adroddiad cynnydd:*** *APCE: Bydd Arolwg Ymwelwyr 2021 yn dylanwadu ar ddatblygiad y strategaeth frandio. Mae'r Cynllun Llysgenhadon wedi'i lansio'n llwyddiannus yn unol â'r holl Awdurdodau Lleol. Bydd dyluniad y wefan newydd yn seiliedig ar y gofynion a amlinellir yma.*<br>*CNC: byddant yn darparu 4 digwyddiad hamdden mawr gyda phartneriaid yn y tymor tawel yng Nghoed y Brenin.*<br>*YBG: Treialu llwybrau cerdded yn 2021, gan ystyried llwybrau llai poblogaidd a theithio cynaliadwy.*<br>*AS: Hyrwyddo ymgyrch AdventureSmart yn Eryri yn barhaus i annog pobl i fwynhau Eryri yn ddiogel (yn arbennig o berthnasol i'r ymdrech i hybu twristiaeth yn ystod y tymor tawel)*<br>*CBSC: Mae'r Cynllun Llysgenhadon wedi'i lansio'n llwyddiannus yn unol â'r holl Awdurdodau Lleol*<br>*CG: Maent yn datblygu Cynllun Llysgenhadon yn unol â'r holl Awdurdodau Lleol*<br>*Bydd llinellau amser yn cael eu hymestyn i adlewyrchu effaith barhaus Cofid-19 ar dwristiaeth.* | | | | |

## CANLYNIAD B4

**Caiff dewisiadau cynaladwy ar gyfer parcio a thrafnidiaeth eu gweithredu.**

**Ydyn ni o fewn ein hamserlen? Bydd llinellau amser yn cael eu haddasu i adlewyrchu natur gymhleth y ddarpariaeth.**

A oes unrhyw beth yn atal y canlyniad rhag cael ei gyflawni erbyn 2025?

- Diffyg cyllid / buddsoddiad
- Partneriaid ddim yn cyfrannu at y Strategaeth Parcio a Thrafnidiaeth
- Datblygiadau ehangach yn cymryd lle'r weledigaeth a'r strategaeth wreiddiol

**Casgliad:**

Bu cynnydd mawr yn erbyn pob mesur llwyddiant o fewn Cynllun Gweithredu Cynllun Eryri ar gyfer Canlyniad B4. Ar hyn o bryd, mae'r amcan ar y trywydd cywir i'w gyflawni erbyn 2025.

| Rhif y canlyniad | Statws cynnydd | Trosolwg o'r Canlyniad a'r Camau | Mesurau llwyddiant | Sefydliad/au'n gyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| B4.1 | ● | Gwella cynaladwyedd ac argaeledd trafnidiaeth ar gyfer ymwelwyr a phreswylwyr a mynd i'r afael â phroblemau parcio<br>• Adolygu systemau trafnidiaeth cyhoeddus mewn ardaloedd poblogaidd er mwyn sicrhau eu bod yn cwrdd ag anghenion a gofynion preswylwyr ac ymwelwyr<br>• Sefydlu partneriaethau ymroddgar i sicrhau bod yna refeniw digonol i gynnal gofynion trafnidiaeth cyhoeddus<br>• Defnyddio trafnidiaeth cyhoeddus fel modd o drosglwyddo gwybodaeth i ymwelwyr<br>• Gwella perthnasoedd gwaith gyda busnesau, mentrau cymdeithasol, cymunedau a thir feddianwyr, gan annog datrysiadau ar sail cymunedol<br>• Sicrhau bod teithiau trafnidiaeth cyhoeddus wedi eu cysylltu'n sicr gyda llwybrau a hyrwyddir gennym<br>• Cefnogi mesurau teithio llesol fel y nodir yn neddfwriaeth Llywodraeth Cymru | Gweithio gyda'r holl argymhellion yr Adolygiad Parcio a Thrafnidiaeth Yr Wyddfa ac Ogwen 2020 i weithredu mesurau ar draws y Parc Cenedlaethol. Adolygu ac addasu mesurau yn ôl yr angen erbyn 2025. | APCE<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Trafnidiaeth Cymru<br>Holl dirfeddianwyr sy'n bartneriaid<br>Bwrdd Uchelgais Economiadd Gogledd Cymru<br>Llywodraeth Cymru |

***Adroddiad cynnydd:*** *APCE: Mae argymhellion o adolygiad parcio a thrafnidiaeth 2020 Yr Wyddfa ac Ogwen yn cael eu gweithredu gyda chefnogaeth*

*gan Lywodraeth Cymru drwy Trafnidiaeth Cymru.*

*Gan weithio gyda Chyngor Gwynedd a Chyngor Conwy, mae'r datblygiadau hyn yn cyd-fynd ag uchelgeisiau ehangach Metro Gogledd Cymru a fydd yn effeithio ar ranbarth cyfan y Parc Cenedlaethol. Bydd angen ymestyn yr amserlen i adlewyrchu cyfradd y cynnydd.*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **B4.2** | | Archwilio a sefydlu cyfleoedd i annog trafnidiaeth fwy gwyrdd<br><br>• Asesu effaith ymwelwyr ar yr amgylchedd o safbwynt allyriadau carbon er mwyn annog symudiad tuag at ddefnyddio technolegau mwy gwyrdd ar gyfer teithio megis ceir, bysiau a beiciau trydan<br>•<br>• Gwella gwybodaeth a marchnata o safbwynt teithio i'r Parc a theithio o'i gwmpas, gan sicrhau bod y dewisiadau mwyaf cynaladwy yn cael eu hyrwyddo a'u hamlygu<br>• Defnyddio technoleg smart er mwyn annog newid arferion (e.e. Cynllun Menter)<br>• Fel ym Mholisi A3.1 gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan mewn mannau strategol yn y Parc Cenedlaethol ar gyfer ymwelwyr a theithwyr | Gweithio gyda'r holl argymhellion yr Adolygiad Parcio a Thrafnidiaeth Yr Wyddfa ac Ogwen 2020 i weithredu mesurau ar draws y Parc Cenedlaethol. Adolygu ac addasu mesurau yn ôl yr angen erbyn 2025.<br>Bydd ffordd newydd o fesur cyfraniad ac effaith ymwelwyr ar yr ardal mewn lle erbyn 2021 a bydd yn asesu ffactorau amgylcheddol | APCE<br>CNC<br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Croeso Cymru<br>Partneriaeth Ogwen |
| ***Adroddiad Cynnydd**: APCE: Mae argymhellion o adolygiad parcio a thrafnidiaeth 2020 Yr Wyddfa ac Ogwen yn cael eu gweithredu gyda chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru drwy Trafnidiaeth Cymru. Mae ffyrdd newydd o fesur effaith ymwelwyr yn y rhanbarth yn cael eu datblygu gan y Swyddog Twristiaeth Gynaliadwy.*<br>*CG: Cynllun ar waith i gyflwyno pwyntiau gwefru ceir trydan ym maes parcio Llanberis* | | | | |

## CANLYNIAD B5

**Mae ein cyfleusterau ymwelwyr o ansawdd uchel ac yn parchu'r Dirwedd.**

**Ydyn ni o fewn ein hamserlen?**

Bydd astudiaeth ddichonoldeb ynghylch ehangu rôl canolfannau ymwelwyr yn cael ei chwblhau yn 2022 oherwydd oedi a achoswyd gan Covid-19

Strategaeth Ddehongli a Threftadaeth Ddiwylliannol wedi'i gohirio.

A oes unrhyw beth yn atal y canlyniad rhag cael ei gyflawni erbyn 2025?

Ddim ar hyn o bryd – mae'r amserlenni wedi'u haddasu i adlewyrchu'r aflonyddwch yn 2020-21, ond mae disgwyl i bob elfen gael ei chyflawni o hyd.

**Casgliad:**

Bu cynnydd amlwg yn erbyn pob mesur llwyddiant o fewn Cynllun Gweithredu Cynllun Eryri ar gyfer Canlyniad B5. Ar hyn o bryd, mae'r amcan ar y trywydd cywir i'w gyflawni erbyn 2025.

| Rhif canlyniad | Statws cynnydd | Trosolwg o'r Canlyniad a'r Camau | Mesurau llwyddiant | Sefydliad/au'n gyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| B5.1 | | Cyfleusterau ymwelwyr yn derbyn cyllid a buddsoddiad digonol i gyrraedd a gwella ar ddisgwyliadau ymwelwyr<br>• Asesu cyfleusterau ymwelwyr (canolfannau, toiledau ayyb) o fewn y Parc Cenedlaethol ac adnabod blaenoriaethau ar gyfer gwelliannau<br>• Trwy gyfrwng arolwg ymwelwyr, monitro'r farn ar gyfleusterau a gweithredu ar unrhyw argymhellion<br>• Asesu posibiliadau a chynaladwyedd ehangu Canolfannau Gwybodaeth a Chanolfannau Ymwelwyr i fod yn ganolfannau cymunedol / llesiant | Erbyn diwedd 2021, bydd canlyniadau'r asesiad cyfleusterau wedi eu derbyn, a bydd astudiaeth posibilrwydd ehangu rôl y canolfannau croeso wedi ei chwblhau.<br><br>Bydd canlyniadau'r arolwg ymwelwyr yn dylanwadu ar flaenoriaethau'r dyfodol. | APCE<br>CNC<br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Croeso Cymru<br>Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru<br>Cymdeithas Eryri |
| ***Adroddiad cynnydd:*** *APCE: Caiff arolwg ymwelwyr ei gwblhau yn 2021 i'w adrodd yn ôl ar ddechrau 2022. Mae'r Tîm Twristiaeth Gynaliadwy yn gwneud y gwaith ar Ganolfannau Ymwelwyr. Amserlen i gael ei hymestyn i adlewyrchu effaith Cofid-19.*<br><br>*Mae CBSC yn arwain ar ddod â'r staff sy'n gweithio mewn canolfannau ymwelwyr at ei gilydd, er mwyn gwella gwybodaeth a rhannu arferion gorau.* | | | | |
| B5.2 | | Cefnogi gweithgareddau sydd yn cydfynd â Rhinweddau Arbennig Eryri – yn enwedig tawelwch – a hyn yn annog ymwelwyr i newid amser eu gwyliau a dod yn ystod yr hydref a'r gaeaf er mwyn ysgafnu'r pwysau yn y tymor prysur<br>• Cefnogi a hyrwyddo gweithgareddau a mentrau perthnasol i'r statws Awyr Dywyll<br>• Cefnogi a hyrwyddo mentrau perthnasol i dwristiaeth gaeaf<br>• Gwella a hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer mynediad i'r amgylchedd hanesyddol a threftadaeth ddiwylliannol ehangach | Bydd ein Swyddog Awyr Dywyll yn gweithio i hyrwyddo dealltwiaeth o'r elfen bwysig hon yn Eryri, gan gyflwyno adroddiad perthnasol yn flynyddol.<br><br>Erbyn diwedd 2021, bydd ein Strategaeth Treftadaeth Ddiwylliannol a Dehongli yn cynnwys hyrwyddo'r amgylchedd hanesyddol yn unol â'r tymhorau (gweler polisi B3.1). | APCE<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br>Croeso Cymru<br>CNC<br>Cadw<br>Ymddiriedolaeth John Muir |

***Adroddiad cynnydd:*** *Mae Swyddog Awyr Dywyll APCE wedi cynhyrchu adroddiad blynyddol yn amlinellu llwyddiant anhygoel drwy addasu i ymgysylltu ar-lein yn ystod y cyfnodau cloi. Mae'r Swyddog wedi bod yn llwyddiannus yn hybu dealltwriaeth a diddordeb mewn nifer o ffyrdd arloesol sy'n cael eu dathlu'n genedlaethol ac yn rhyngwladol. Mae llinell amser y Strategaeth Treftadaeth Ddiwylliannol a Dehongli wedi'i hymestyn i 2023.*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **B5.3** | | Llety o ansawdd uchel, yn gweddu i'r dirwedd, yn cwrdd â disgwyliadau a gofynion ymwelwyr ac yn helpu i gynyddu gwariant y pen<br>• Ymchwilio i'r gofynion a'r bylchau o ran llety ymwelwyr o ansawdd uchel gan gynnwys llety fforddiadwy<br>• Gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd i ddatblygu Cynllun Rheolaeth Cyrchfan y Cyngor<br>• Trwy gyfrwng Cynllun Datblygu Lleol, cefnogi datblygu a hyrwyd-do llety ymwelwyr o ansawdd uchel sydd yn addas i'r dirwedd ac yn cwrdd â gofynion y farchnad | Erbyn diwedd 2020 bydd gwaith ymchwil wedi ei gwblhau a bydd y CDLI yn cynnwys y canllawiau hyn. | APCE<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

***Adroddiad cynnydd:*** *APCE: Mae Pennod 6 CDLIE ('Cefnogi Economi Wledig Gynaliadwy') yn amlygu'r polisïau a luniwyd i sicrhau bod datblygiad economaidd yn cael ei annog ond mewn modd sy'n gwarchod yr amgylchedd ac yn unol â phwrpasau'r Parc Cenedlaethol. Cafodd polisïau newydd eu cynnwys yn CDLIE diwygiedig 2016-2031, sef;*

*Polisi Datblygu 27: Ardal Fenter Eryri*

*Polisi Datblygu 28: Llety newydd â gwasanaeth*

*Polisi Datblygu 29: Llety gwyliau amgen*

*Roedd y polisïau hyn yn hybu'r potensial o ddatblygu economaidd o fewn y Parc Cenedlaethol ac yn cynnig cyfleoedd ar gyfer gwasanaethau llety newydd addas (ar yr amod eu bod yn cyd-fynd â'r meini prawf a ddyluniwyd i warchod rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol).*

*Er mwyn gwarchod y Parc Cenedlaethol mae polisi 22 a 23 yn nodi na chaniateir safleoedd carafanau sefydlog, sialeau / cabanau, safleoedd teithio na gwersylla newydd.*

## Cymunedau ac Economi Eryri: Lle Gwych i ddatblygu, byw a gweithio

### CANLYNIAD C1

**Iaith, diwylliant a threftadaeth Eryri yn cael eu dathlu, eu cefnogi a'u cryfhau.**

**Ydyn ni o fewn ein hamserlen? Ydym**

A oes unrhyw beth yn atal y canlyniad rhag cael ei gyflawni erbyn 2025?

Nid oes dim byd yn effeithio ar gyflawni'r amcanion ar hyn o bryd.

**Casgliad**:

Bu cynnydd amlwg yn erbyn pob mesur llwyddiant o fewn Cynllun Gweithredu Cynllun Eryri ar gyfer Canlyniad C1. Ar hyn o bryd, mae'r amcan ar y trywydd cywir i'w gyflawni erbyn 2025.

| Rhif canlyniad | Statws cynnydd | Trosolwg o'r Canlyniad a'r Camau | Mesurau llwyddiant | Sefydliad/au'n gyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **C1.1** |  | Hyrwyddo deall, mwynhau a gwarchod yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig<br>• Cefnogi a hyrwyddo digwyddiadau cymunedol lleol, grwpiau a phrosiectau creadigol sydd â chysylltiad gyda'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig<br>• Creu cyfleoedd ar gyfer pobl ifanc i fod yn llysgenhadon i iaith a diwylliant yr ardal<br>• Arwain trwy esiampl gan sicrhau bod yr iaith, diwylliant a threftadaeth Cymru yn cael eu hyrwyddo a'u defnyddio mewn digwyddiadau, gweithgareddau a gwybodaeth<br>• Gweithredu mesurau yn y Cynllun Datblygu Lleol a'r Canllawiau Cynllunio Atodol sydd yn annog datblygiadau newydd i gynnal neu wella datblygiad yr iaith Gymraeg<br>• Datblygu a gweithredu cynllun cyfathrebu i wella ymwybyddiaeth ymwelwyr o'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig<br>• Sicrhau fod yr iaith Gymraeg yn chwarae rhan flaenllaw mewn unrhyw brosiectau, gweithgareddau neu gynlluniau sy'n deillio o gamau A5.1, A5.2, A6.1, B1.1 B1.2, B1.3, C4.1 a C4.2, boed hynny trwy addysgu am yr iaith, arwain trwy enghraifft a / neu hyrwyddo'r defnydd trwy ddarparu cyfleoedd i gymdeithasu yn y Gymraeg. | Byddwn yn sicrhau bod y grwpiau hyn yn bwydo i mewn i bolisi B3.1 pan gaiff ei sefydlu, bod Cynllun Cyfathrebu yn cael ei weithredu cyn diwedd 2021, bod canllawiau mewn lle yn y CDLl a'u bod yn cael eu monitro yn flynyddol.<br><br>Bydd y camau hyn yn cael eu gwerthuso erbyn 2025. | APCE<br><br>Cyngor Gwynedd<br><br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br><br>Ymddiriedolaeth John Muir |

*APCE: Polisi Datblygu 18: Yr Iaith Gymraeg a gwead cymdeithasol a diwylliannol cymunedau (18) – gan fod yr iaith yn hanfodol i ddiwylliant Eryri, mae'r polisi hwn yn sicrhau bod anghenion a buddiannau'r iaith Gymraeg yn cael eu hystyried wrth benderfynu pob cais cynllunio o fewn y Parc. Yn ogystal, cyhoeddwyd dogfen ganllaw cynllunio atodol ddiwygiedig, 'Cynllunio a'r Iaith Gymraeg' ar wefan yr Awdurdod yn ystod Gorffennaf 2021. Mae strategaeth gyfathrebu newydd ar gyfer yr Awdurdod wedi'i datblygu a'i lansio.*

*Mae'r Ysgwrn yn parhau i gynnig cyfleoedd i gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg, trwy wirfoddoli, mynd i ddigwyddiadau a chymryd rhan mewn gweithgareddau. Roedd hyn yn cynnwys gweithgareddau rhithiol amrywiol i bobl o bob oedran yn ystod pandemig Covid-19.*

*Mae'r Ysgwrn wedi comisiynu rhaglen Cwricwlwm Yr Ysgwrn i'w fabwysiadu yng ngwanwyn 2022, a fydd yn galluogi ysgolion i ddefnyddio'r Ysgwrn i addysgu'r Cwricwlwm i Gymru i blant a phobl ifanc rhwng 7 a 14 oed yn seiliedig ar 6 thema sy'n cynnwys y 6 maes dysgu.*

*Mae'r Gymraeg a hyrwyddo diwylliant Cymru yn rhan annatod o brosiectau a rhaglenni ymgysylltu Menter Treftadaeth Treflun Dolgellau, Partneriaeth Tirwedd y Carneddau a Harlech a chynlluniau Ardudwy .*

*CNC: erthygl ar enwau lleoedd Cader Idris ym mwletin gwanwyn 2021 Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru.*

*CBSC: maent yn cefnogi'r Gymraeg a diwylliant Cymru trwy gyfrwng ein gwefan, cyfryngau cymdeithasol a rhaglen Llysgenhadon Twristiaeth, sydd â modiwlau penodol ar yr elfennau pwysig hyn.*

*Mae APCE, CBSC a CG i gyd yn arwain ar raglen Llysgenhadon Gogledd Cymru, gan hyrwyddo negeseuon craidd a rhinweddau arbennig pob rhanbarth.*

*Mae Gwobr John Muir ar gael yn ddwyieithog ac yn cael ei defnyddio gan Bartneriaeth y Carneddau*

<table>
<tr>
<td>C1.2</td>
<td></td>
<td>Darparu cyfleoedd ar gyfer dysgwyr Cymraeg yn yr ardal<br>• Hyrwyddo a chefnogi mentrau sydd yn annog ymfudwyr i'r ardal i ddysgu Cymraeg<br>• Creu cyfleoedd i ddysgwyr Cymraeg a siaradwyr rhugl gymdeithasu a defnyddio'r iaith, yn enwedig drwy grwpiau gwirfoddolwyr fel ym Mholisïau A5.2 a B1.2<br>• Fel rhan o Bolisi B3.1 a B3.3 darparu hyfforddiant ar yr iaith Gymraeg a'r diwylliant i fusnesau</td>
<td>Erbyn diwedd 2020 bydd Cynllun Llysgennad peilot wedi ei sefydlu ar gyfer Cynllun Partneriaeth yr Wyddfa. Rydym yn anelu at ehangu hyn i gynnwys y cyfan o ardal y Parc Cenedlaethol erbyn 2021.<br><br>Byddwn yn monitro nifer y dysgwyr Cymraeg a fydd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau grwpiau gwirfoddolwyr a gynigir gan yr holl Bartneriaid i fesur cynydd</td>
<td>APCE<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>CNC<br>Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>Partneriaeth Awyr Agored<br>Chwaraeon Cymru</td>
</tr>
<tr>
<td colspan="5">Adroddiad cynnydd APCE: Cynllun Llysgenhadon wedi'i lansio a'i ddatblygu ar draws rhanbarth cyfan y Parc Cenedlaethol. Mae gwirfoddolwyr Yr Wyddfa yn cael eu paru yn ôl eu gallu ieithyddol i sicrhau bod dysgwyr yn gallu ymarfer eu sgiliau iaith. Mae'r Ysgwrn yn ymgysylltu â dysgwyr Cymraeg i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar y safle, gan gynnwys gwirfoddoli.<br>Mae APCE, CBSC a CG i gyd yn arwain ar raglen Llysgenhadon Gogledd Cymru, gan hyrwyddo negeseuon craidd a rhinweddau arbennig pob rhanbarth.<br>CESS: maent yn darparu nifer o gyfleoedd sy'n ategu'r cynllun Llysgenhadon, unedau hyfforddi ac ati.</td>
</tr>
</table>

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **C1.3** | 🟢 | Diogelu enwau lleoedd Cymraeg<br>• Gweithredu mesurau yn y Cynllun Datblygu Lleol sydd yn annog defnyddio enwau lleoedd Cymraeg ar gyfer busnesau, datblygiadau, tai a strydoedd<br>• Gweithredu mesurau yn y Cynllun Datblygu Lleol sydd yn annog defnyddio arwyddion dwyieithog<br>• Dolen i raglen Ieithoedd Brodorol UNESCO er mwyn hyrwyddo enwau lleol y Parc Cenedlaethol a'i asedau mwyaf adnabyddus | Byddwn yn sicrhau bod canllawiau yn y CDLl a bod Canllawiau Cynllunio Atodol yn bodoli er mwyn hyrwyddo'r elfennau hyn. | Comisiynydd y Gymraeg a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol<br>Menter Iaith<br>APCE<br>Cadw<br>Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (RCAHMW) |

***Adroddiad cynnydd:*** *APCE: Polisi Datblygu 18 - nodir y meini prawf canlynol;*

*Annog cael pob arwydd yn ddwyieithog neu yn Gymraeg yn unig gan gyrff cyhoeddus a chwmnïau masnachol a busnes er mwyn gwarchod a hyrwyddo hunaniaeth ddiwylliannol arbennig y Parc Cenedlaethol*

*Annog defnyddio enwau lleoedd Cymraeg ar gyfer datblygiadau newydd, enwau tai a strydoedd.*

*Sefydlwyd Grŵp Tasg a Gorffen Enwau Lleoedd APCE ym mis Hydref 2020 i ddatblygu methodoleg ar gyfer hyrwyddo enwau lleoedd. Mae'r Grŵp yn cydweithio ar y gwaith hwn gyda Chomisiynydd y Gymraeg, Cadw a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru, yn ogystal ag arbenigwyr unigol.*

*Mae Cynlluniau Harlech ac Ardudwy yn cofnodi enwau lleoedd hanesyddol yn ardal y prosiect ac yn gweithio gyda chymunedau lleol a gwirfoddolwyr i godi ymwybyddiaeth a gwella dehongli ehangach.*

*Nod y prosiect Lleisiau ac Enwau'r Carneddau yw cofnodi a chodi ymwybyddiaeth o enwau lleoedd trwy sesiynau cofnodi cymunedol ar y cyd â'r Gymdeithas Enwau Lleoedd.*

## CANLYNIAD C2

**Swyddi a chyfleoedd yn annog pobl i aros yn yr ardal.**

**Ydyn ni o fewn ein hamserlen? Ydym**

A oes unrhyw beth yn atal y canlyniad rhag cael ei gyflawni erbyn 2025?

Unrhyw ddiffyg buddsoddiad mewn seilwaith digidol yn y rhanbarth.

Cyfyngiadau Covid pellach a mwy difrifol o bosibl.

Canlyniadau penderfyniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Sector Amaethyddol.

**Casgliad:**

Bu rhywfaint o gynnydd yn erbyn pob mesur llwyddiant o fewn Cynllun Gweithredu Cynllun Eryri ar gyfer Canlyniad C2. Mae’r amcan yn dal ar y trywydd cywir i’w gyflawni erbyn 2025.

| Rhif canlyniad | Statws cynnydd | Trosolwg o'r Canlyniad a'r Camau | Mesurau llwyddiant | Sefydliad/au'n gyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| C2.1 | | Gwella seilwaith cyfathrebu yn yr ardal ar gyfer busnesau a chymunedau mewn modd na fydd yn amharu ar y dirwedd<br>• Cefnogi partneriaid i gyflawni mentrau blaengar a sensitif i'r tirlun er mwyn gwella seilwaith ar gyfer band eang, data symudol a'r rhyngrwyd mewn ardaloedd gwledig<br>• Cefnogi mentrau o fewn y strategaethau twf rhanbarthol sydd yn gwella cysylltedd digidol ac hefyd yn gwarchod y tirlun<br>• Gweithio gyda Cyngor Gwynedd i ddatblygu'r cynigion ymhellach ar gyfer creu swyddi o werth uchel ar draws ystod o feysydd. | Cysylltedd digidol ar draws Eryri wedi gwella'n sylweddol.<br>Wi-fi rhad ac am ddim wedi ei gysylltu i ganolfannau cymunedol a hybiau hefyd ar gael. | APCE<br>Cyngor Gwynedd<br>Grwpiau Gweithredu Lleol<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru<br>Gogledd Cymru Creadigol<br>Mantell Gwynedd<br>BGC Conwy Sir Ddinbych |

***Adroddiad cynnydd:*** *APCE: Mae prosiectau lleol ar waith e.e. Wi-Fi yn Bwthyn Ogwen, cysylltiadau LoRaWAN mewn meysydd parcio a hybiau eraill*

*Mae'r broses ymgynghori ynglŷn â CCA ar Delathrebu wedi'i chwblhau a bydd yn cael ei hadrodd yn ôl i'r pwyllgor ym mis Medi 2021.*

*O fewn CDLlE, mae Polisi Datblygu 26: Telathrebu yn amlinellu'r meini prawf y bydd angen i ddatblygiadau telathrebu gadw atynt er mwyn cael eu caniatáu. Mae Polisi Datblygu 2 hefyd yn tanlinellu sut y bydd y dirwedd yn cael ei diogelu rhag datblygiadau amhriodol.*

*CBSC: Cyllid wedi'i sicrhau i ddatblygu menter Trefi Clyfar ym Metws-y-Coed ar ffurf pwyntiau mynediad Wi-Fi ychwanegol am ddim i gasglu data i ddeall yn well nifer yr ymwelwyr, patrymau ymwelwyr a lleoliadau preswylio, o ble mae ymwelwyr yn dod, am ba mor hir y maent yn aros ac ati.*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **C2.2** | | Cefnogi a hyrwyddo hyfforddiant, cyflogaeth a chyfleoedd busnes yn ymwneud â phwrpas 1af y Parc Cenedlaethol – neu yn cyd-fynd ag ef ac â'r Rhinweddau Arbennig - yn cynnwys sectorau yn ymwneud â'r amgylchedd<br>• Cefnogi a hyrwyddo cyfleoedd i reolwyr tir gymryd rhan mewn cynlluniau nwyddau cyhoeddus fel y nodir ym mholisi A2.1<br>• Annog a chefnogi datblygiad busnesau a sgiliau perthnasol i weithredu cynlluniau nwyddau cyhoeddus<br>• Cefnogi mentrau yn ymwneud â'r amgylchedd ac Ansawdd Arbennig gyda'r strategaethau twf rhanbarthol<br>• Gweithio gyda'r adrannau datblygu economaidd o fewn cynghorau lleol er mwyn datblygu cyfleoedd trwy Barth Menter Eryri, yr enwebiad Treftadaeth Byd Llechi Cymru neu gyfleon eraill i greu swyddi a chyflogaeth o ansawdd uchel<br>• Cefnogi prosiectau sydd yn anelu at fyrhau'r gadwyn darparu bwyd lleol<br>• Gweithio gyda'n' partneriaid i gefnogi amaethwyr i ymateb i'r newidiadau a ddaw yn sgil Brexit, o ran newid yn y farchnad ac o ran y gyfundrefn daliadau<br>• Cefnogi datblygu adnoddau a sgiliau ar gyfer adfer a chynnal adeiladau a nodweddion hanesyddol, yn cynnwys rhaglenni cynyddu gallu fel ym Mholisi A6.1<br>• Archwilio cyflleoedd ar gyfer datblygu fframwaith cydweithredu i ddatblygu cynlluniau stad-gyfan, trwy ymchwilio i weithredu llwyddiannus mewn ardaloedd eraill sydd dan warchodaeth | Rydym yn anelu at weld nifer y busnesau yn ymwneud â nwyddau cyhoeddus yn cynyddu. Trwy hyrwyddo a rhannu ymarfer da, bydd hyn yn cael effaith gronnus.<br><br>Bydd nifer y mentrau a gefnogir gan ein gwahanol bartneriaid wedi cynyddu a bydd fframweithiau newydd posibl wedi eu gwerthuso ac adroddiadau arnynt wedi eu llunio.<br><br>Bydd ein partneriaethau craidd yn cynnwys mwy o gynrychiolaeth o'r sectorau busnes a thwristiaeth | APCE<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Menter Môn<br>Grŵp Cynefin<br>Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd<br>Amgueddfa Lechi Genedlaethol<br>Menter Iaith<br>Gwynedd<br>Grŵp Gwaith a Sgiliau<br>Arloesi Gwynedd Wledig<br>Yr holl Bartneriaid perthnasol |

***Adroddiad cynnydd:*** *CNC: Mae Coed y Brenin yn darparu cyflogaeth uniongyrchol i 15 cyfystyr â llawn amser*

*CBSC: trwy ei dîm Busnes a Thwristiaeth, cefnogi a gweithio gyda busnesau lleol, gan eu cynorthwyo i dyfu. Rydym yn cynorthwyo gyda'r agenda sgiliau a materion recriwtio, mae'r Rhaglen Llysgenhadon Twristiaeth a lansiwyd yn ddiweddar bellach yn cael ei defnyddio gan lawer o fusnesau twristiaeth fel rhan o'u rhaglen anwytho staff.*

*Mae Coleg Glynllifon yn y broses o ddechrau Fframwaith Prentisiaeth mewn Cadwraeth Amgylcheddol Lefel 2, disgwylir i hyn ddechrau ym mis Medi 2021. Mae 3 opsiwn o fewn y brentisiaeth:- Cadwraeth Amgylcheddol, Mynediad a Hamdden neu Afonydd, Arfordiroedd a Dyfrffyrdd. Mae prosiectau o fewn y Parc wedi dangos diddordeb mewn rhoi gweithwyr ar y rhaglen brentisiaeth.*

*CG: cynnal prosiectau cyflogadwyedd ar gyfer trigolion sy'n byw ym Mharc Cenedlaethol Eryri.*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **C2.3** | 🟡 | Cefnogi a hyrwyddo hyfforddiant, cyflogaeth a chyfleoedd busnes yn ymwneud ag ail bwrpas y Parc Cenedlaethol neu yn cyd-fynd ag ef ac â'r Rhinweddau Arbennig a'r thema iechyd a llesiant<br>• Cefnogi cynllun nwyddau cyhoeddus fel y nodir ym mholisi A2.1<br>• Gweithio gyda'r adrannau datblygu economaidd o fewn awdurdodau lleol er mwyn datblygu cyfleoedd trwy Parth Menter Eryri a strategaethau creu cyflogaeth eraill<br>• Cefnogi cyfleoedd yn y sector twristiaeth sydd yn rhai gwerth uchel ac ansawdd uchel ac yn ystyriol o'r angen i ddiogelu amgylchedd y Parc Cenedlaethol<br>• Cynyddu nifer yr hyfforddwyr yn y sector awyr agored sy'n siarad Cymraeg<br>• Cefnogi mentrau hamdden awyr agored sydd yn gwella llesiant pobl<br>• Datblygu ymgyrch i annog busnesau TG a thechnoleg i sefydlu yn yr ardal | Gydol y Cynllun byddwn yn sicrhau: bod cyfarfodydd yn cael eu trefnu a'u mynychu er mwyn datblygu cyfleoedd newydd; bod canllawiau perthnasol yn y CDLl; bod cynlluniau a phrosiectau yn bodoli.<br><br>Bydd ymgyrch wedi ei sefydlu i ddenu mwy o fusnesau TG a thechnoleg i'r ardal, a bydd nifer yr hyfforddwyr yn y sector awyr agored sy'n siarad Cymraeg yn cynyddu o 20 i 30%.<br><br>Bydd ein partneriaethau craidd yn cynnwys mwy o gynrychiolaeth o'r sectorau busnes a thwristiaeth. | APCE<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Partneriaeth Awyr Agored<br>Menter Môn<br>Grŵp Cynefin<br>Menter Iaith<br>Arloesi Gwynedd Wledig<br>Yr holl Bartneriaid perthnasol<br>Mantell Gwynedd |

***Adroddiad cynnydd:*** *Mae APCE, CBSC a CG i gyd yn arwain ar raglen Llysgenhadon Gogledd Cymru, gan ddarparu cyfleoedd hyfforddiant, hyrwyddo negeseuon craidd a rhinweddau arbennig pob rhanbarth.*

*Mae CBSC, trwy ei dîm Busnes a Thwristiaeth, yn cefnogi ac yn gweithio gyda busnesau lleol, gan eu cynorthwyo i dyfu. Rydym yn cynorthwyo gyda'r agenda sgiliau a materion recri-wtio, mae'r Rhaglen Llysgenhadon Twristiaeth a lansiwyd yn ddiweddar bellach yn cael ei defnyddio gan lawer o fusnesau twristiaeth fel rhan o'u rhaglen anwytho staff.*

## CANLYNIAD C3

**Rydym yn canfod ffyrdd o fynd i'r afael â phroblem tai fforddiadwy i'w prynu a'u rhentu.**

**Ydyn ni o fewn ein hamserlen? Ydym**

A oes unrhyw beth yn atal y canlyniad rhag cael ei gyflawni erbyn 2025?

Gweler Adroddiad Cynnydd C3.2 ar gyfer y newid tebygol sydd ei angen yn y camau gweithredu a bennwyd – i'w adolygu i adlewyrchu'r sefyllfa wirioneddol yn adolygiad 2022 o Gynllun Eryri.

**Casgliad**:

Bu cynnydd amlwg yn erbyn pob mesur llwyddiant o fewn Cynllun Gweithredu Cynllun Eryri ar gyfer Canlyniad C3. Mae'r amcan yn dal ar y trywydd cywir i'w gyflawni erbyn 2025.

| Rhif Canlyniad | Statws Cynnydd | Trosolwg o'r Canlyniad a'r Camau | Mesurau llwyddiant | Sefydliad/au'n gyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| C3.1 | ● | Gweithio gyda phartneriaid i roi sylw i faterion sylfaenol a datblygu atebion blaengar i ddarparu tai fforddiadwy fydd yn cwrdd ag anghenion lleol<br>• Gweithio gyda galluogwyr tai gwledig i adnabod anghenion tai fforddiadwy o fewn ein cymunedau<br>• Gweithio i ddylanwadu a newid deddfwriaeth fel bod newid defnydd tai preswyl yn dai gwyliau angen caniatâd cynllunio<br>• Lobïo benthycwyr morgeisi i sicrhau bod cyllid ar gyfer tai fforddiadwy ar gael yn hawdd<br>• Gweithio gyda phartneriaid er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o gyfraniadau ariannol tai fforddiadwy, a helpu i hyrwyddo tai fforddiadwy<br>• Mae dadansoddiad manwl o argaeledd tai fforddiadwy o fewn y Parc Cenedlaethol wedi dylanwadu ar bolisïau cynllunio yn y CDLl<br>• Cefnogi'r gwaith o ganfod tai gwag i'w datblygu ar gyfer busnesau neu yn dai preswyl<br>• Annog tai deiliadaeth gymysg | Erbyn diwedd 2020 bydd manylion wedi eu cynnwys yn y CDLl a chaiff y CDLl ei gwerthuso'n rheolaidd yn y fonitro flynyddol. | APCE<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Grŵp Cynefin |

***Adroddiad cynnydd:*** *Mae Hwyluswyr Tai Gwledig wedi cynnal arolygon o anghenion tai ar gyfer sawl cymuned, gan helpu i ddarparu tai fforddiadwy gan ddatblygwyr preifat a Chymdeithasau Tai. Pasiwyd cynnig gan Awdurdod PCE yn cefnogi'r galw am newid deddfwriaeth fel bod newid defnydd annedd yn dŷ haf angen caniatâd cynllunio; anfonwyd llythyr at Lywodraeth Cymru.*

*Mae'r Awdurdod, mewn cydweithrediad â Chyngor Gwynedd a Thai Teg, wedi anfon nodyn briffio i roi gwybod i Froceriaid Morgeisi / Ymgynghorwyr Ariannol am argaeledd morgeisi ar gyfer safleoedd tai fforddiadwy gyda Chytundebau Adran 106. Y gobaith yw y bydd y nodyn yn codi ymwybyddiaeth ac yn cynorthwyo broceriaid i ddod o hyd i forgeisi ar gyfer tai fforddiadwy gyda Chytundebau Adran 106. Mae APCE wedi ariannu cynllun grant gyda chyfraniadau ariannol gohiriedig o Gytundebau Adran 106. CBSC sy'n rhedeg y cynllun a'i nod yw helpu prynwyr newydd i adnewyddu tai gwag.*

*Mae APCE yn trafod yn rheolaidd gyda dau Awdurdod Tai a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i sicrhau bod tai fforddiadwy yn cael eu darparu lle bo angen.*

*Mae APCE yn trafod gyda sawl partner ynghylch ariannu swydd Swyddog Tai newydd sy'n cael ei harwain gan y gymuned.*

*Aeth APCE i gyfarfodydd gyda phartneriaid eraill a chynrychiolwyr cymunedol i drafod pryderon ynghylch argaeledd tai.*

*Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer CDLlE 2016-2031 yn yr ail flwyddyn adrodd. Mae ymchwil hefyd yn cael ei gwneud i asesu effaith y cynnydd ym mhrisiau tai ac ail gartrefi/llety gwyliau. Bydd ymchwil yn llywio'r gwaith o lunio polisïau ar gyfer yr adolygiad nesaf o CDLlE.*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **C3.2** | 🟡 | Trwy'r CDLl creu polisïau fydd yn annog tai fforddiadwy<br>• Cyrraedd y targed tai fforddiadwy o 375 (cyfartaledd o 25 uned tai fforddiadwy y flwyddyn) dros gyfnod y Cynllun sef 2016-2031 | Bydd adroddiad monitro y CDLl yn mesur cynnydd drwy gydol tymor y Cynllun.<br>Mae'r CDLl yn cael ei adolygu'n gyson ac mae'r targedau'n cael eu diweddaru'n swyddogol bob pum mlynedd. | APCE<br>Llywodraeth Cymru<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Cyngor Gwynedd<br>Grŵp Cynefin<br>Adra<br>Gwasanaethau Hwylysydd Tai Gwledig Lleol |
| ***Adroddiad cynnydd:*** *APCE: dwy flynedd gyntaf o fonitro CDLlE 2016-2031 heb gyrraedd y targed o 25 uned fforddiadwy y flwyddyn - caniatawyd 2 uned o dai fforddiadwy yn y flwyddyn gyntaf, 14 uned fforddiadwy yn yr ail flwyddyn, gyda 3 uned o dai fforddiadwy wedi'u cwblhau yn y flwyddyn gyntaf a 19 o unedau fforddiadwy wedi'u cwblhau yn yr ail flwyddyn. Mae hyn oherwydd nifer o resymau, gan gynnwys llai o dai yn cael eu hadeiladu o fewn y Parc (dibyniaeth uchel ar gyflenwi tai fforddiadwy gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) a darpariaeth datblygu preifat yn isel). Gallai'r niferoedd isel hefyd fod yn gysylltiedig â chyflwr cyffredinol y farchnad dai a'r amgylchedd benthyca, gyda datblygwyr ac adeiladwyr bach yn llawer mwy parod i gymryd risg yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Mae'n debygol y bydd y pwynt gweithredu hwn yn cael ei adolygu i adlewyrchu'r sefyllfa wirioneddol yn y Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig newydd a fydd yn dechrau ddiwedd 2022/dechrau 2023 ac yn cael ei fabwysiadu yn 2026/27.* | | | | |
| **C3.3** | 🟢 | Trwy'r CDLl creu polisïau fydd yn annog tai cynaladwy<br>• Polisïau yn annog dylunio a datblygu tai yn gynaladwy | Bydd adroddiad monitro y CDLl yn mesur cynnydd drwy gydol tymor y Cynllun. | APCE<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Cyngor Gwynedd |
| ***Adroddiad cynnydd:*** *APCE: Mae polisïau CDLlE yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau datblygiad cynaliadwy* | | | | |

## CANLYNIAD C4

**Cefnogi cymunedau lleol i ffynnu ym mhob agwedd o lesiant.**

Ydyn ni o fewn ein hamserlen?

Oedi o ran sefydlu Siarter Gymunedol oherwydd goblygiadau personél / capasiti.

A oes unrhyw beth yn atal y canlyniad rhag cael ei gyflawni erbyn 2025?

Materion capasiti gydag ailstrwythuro rôl Swyddog Cymunedol / Tîm Ymgysylltu APCE

Casgliad:

Bu rhywfaint o gynnydd yn erbyn pob mesur llwyddiant o fewn Cynllun Gweithredu Cynllun Eryri ar gyfer Canlyniad C4. Mae'r amcan ar hyn o bryd ar y trywydd cywir i'w gyflawni erbyn 2025.

| Rhif canlyniad | Statws cynnydd | Trosolwg o'r Canlyniad a'r Camau | Mesurau llwyddiant | Sefydliad/au'n gyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| C4.1 | | Cynyddu cyfleoedd ar gyfer trafodaeth rhwng y Parc Cenedlaethol a sefydliadau sydd yn bodoli yn y cymunedau<br>• Datblygu siarter fydd yn gosod allan y trefniadau rhwng APCE a Chynghorau Cymuned a Chynghorau Tref, o ran y modd y gallwn gydweithio a datblygu gweithgareddau fydd o fudd i bawb<br>• Archwilio'r syniad o benodi Llysgenhadon Parc Cenedlaethol ym mhob cyngor cymuned, gan gychwyn gyda'r ardal sydd yn peilotio'r Cynllun llysgennad ym Mholisi B3.3 | Erbyn diwedd 2021, bydd Siarter wedi ei sefydlu a chaiff y gwersi yn y Cynllun Llysgennad eu gweithredu.<br><br>Byddwn yn adolygu'r camau hyn erbyn 2025. | APCE<br>Cynghorau Cymuned a Chynghorau Tref<br>Un Llais Cymru |
| ***Adroddiad cynnydd:*** *APCE: Gwaith cychwynnol ar lunio Siarter Gymunedol wedi dechrau. Trafod posibiliadau Llysgenhadon lleol gyda Chynghorau Cymuned* | | | | |
| C4.2 | | Gweithio gyda chymunedau i wella ymhellach ddealltwriaeth o Rinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol<br>• Adnabod y prif gymunedau a effeithir gan ddynodiad y Parc Cenedlaethol ond sydd y tu allan i'w ffin, a gweithio'n agos gyda'r cymunedau hyn i gyflawni amcanion y Parc Cenedlaethol<br>• Cefnogi uwchsgilio cymunedau sydd yn dymuno datblygu prosiectau i ddiogelu a gwella Rhinweddau Arbennig Eryri fel yn Canlyniad B3<br>• Gweithio gyda chynghorau Conwy a Gwynedd i nodi cyfleoedd pellach ar gyfer cydweithio<br>• Gweithio gyda sefydliadau cymunedol i ddatblygu Cynlluniau Ardal Warden, ar sail anghenion a blaenoriaethau lleol | Gydol y Cynllun byddwn yn sicrhau y caiff y cynlluniau eu cefnogi trwy'r Gronfa Cymunedau a Gwirfoddolwyr.<br>Bydd Cynlluniau Ardal Warden yn cael eu cynhyrchu ar y cyd gyda mewnbwn gan y gymuned.<br>Byddwn yn adolygu'r camau hyn erbyn 2025. | APCE<br>Grwpiau Gweithredu Lleol Gwynedd a Chonwy<br>Cynghorau Cymuned a Chynghorau Tref ar gyrion y Parc Cenedlaethol<br>Mantell Gwynedd<br>Un Llais Cymru<br>Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Ddinbych a Gwynedd |
| ***Adroddiad cynnydd:*** *Mae APCE wedi mabwysiadu'r Siarter Creu Lleoedd ym mis Hydref 2021. Mae Cronfa Cymunedol Eryri wedi cefnogi 13 o brosiectau cymunedol sy'n canolbwyntio ar Ddatgarboneiddio, Twristiaeth Gynaliadwy ac Adfer yn sgil Covid yn 2021-2.*<br><br>*CNC: wedi cymryd rhan mewn tri ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun (iau) Adnoddau Coedwig (CAC) ym Meirionnydd.* | | | | |

**EITEM RHIF 20**

**ADRODDIAD Y GWEITHGOR AELODAU A GYNHALIWYD AR 6ed EBRILL 2022**

***PRESENNOL:***

**Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Gwynedd**
Y Cynghorwyr Elwyn Edwards, Alwyn Gruffydd, Annwen Hughes (Cadeirydd), Judith Humphreys, Edgar Owen, John Pughe Roberts, Mike Stevens, Gethin Glyn Williams;

**Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
Y Cynghorwyr Philip Capper, Wyn Ellis Jones, Ifor Glyn Lloyd;

**Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru**
Ms. Tracey Evans, Mr. Brian Angell, Mrs. Sarah Hattle, Mr. Owain Wyn;

**Swyddogion**
Emyr Williams, G. Iwan Jones, Jonathan Cawley, Dafydd Edwards, Bethan Hughes, Helen Pye, Anwen Gaffey;

**Ymddiheuriadau**
Y Cynghorydd Elfed Roberts; Tim Jones.

1. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod y cyfarfod yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau Covid-19 ynghylch sut mae'r Awdurdod yn cynnal ei fusnes:-
   - nid oedd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd.
   - roedd y cyfarfod yn cael ei recordio i gynorthwyo i wirio'r cofnodion.

2. **Datgan Budd**
   Ni ddatganwyd unrhyw Fudd Personol mewn perthynas ag unrhyw eitem.

3. **Cofnodion**
   Yn amodol ar nodi bod y gair ' *Mr'* sy'n ymddangos yn adran ymddiheuriadau'r cofnodion Cymraeg yn gamgymeriad teipio, derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Gweithgor Aelodau a gynhaliwyd ar 2il Mawrth 2022 ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel cofnod cywir.

4. **Adroddiad ar waith y Grŵp Tasg a Gorffen Adolygu Llywodraethu**
   Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i'r Aelodau drafod argymhellion y Grŵp Tasg a Gorffen Llywodraethu i'w mabwysiadu'n ffurfiol gan yr Awdurdod yn y dyfodol.

   Adroddwyd – Cyflwynodd Mr. Owain Wyn, fel Cadeirydd y Grŵp Tasg a Gorffen Llywodraethu, ei ragair a diolchodd i'r staff a'r Aelodau am eu gwaith.

   Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a'r cefndir a dywedodd ei fod wedi rhannu'r adroddiad yn benawdau gwahanol gan fod hwn yn bwnc eang iawn. Cyflwynodd grynodeb o brif argymhellion y Grŵp Tasg a Gorffen (paragraff 3), a gofynnwyd i'r Aelodau ystyried pob adran ar wahân:-
   - <u>3.1 Y Cod Llywodraethu Corfforaethol: Hysbyswyd</u> yr Aelodau, ar ôl ystyried sawl model gwahanol, fod Cod Llywodraethu Corfforaethol yr Awdurdod bellach wedi'i baratoi i adlewyrchu fframwaith cyfredol CIPFA, sef y model a ffefrir gan y Grŵp Tasg a Gorffen (Atodiad 2).

- 3.2 Adolygu Perfformiad (Atodiad 3) : Cymeradwyodd yr Aelodau'r mecanwaith ar gyfer adolygu perfformiad mewn perthynas â Datganiad Llesiant a Rhaglen Waith Gorfforaethol yr Awdurdod, fel y'i cyflwynwyd.
- 3.3 Rôl Strategol yr Aelodau (Atodiad 4): Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod y Pwyllgor Safonau wedi ystyried canfyddiadau'r Gweithgor Tasg a Gorffen Llywodraethu yn eu cyfarfod ar 1 Ebrill 2022 a'u bod yn cefnogi'r pecyn o fesurau arfaethedig. Yn codi wedi hynny, roedd y Pwyllgor Safonau wedi gofyn a fyddai'n fuddiol cynnwys rhestr o ofynion hyfforddi sy'n orfodol i aelodau, megis safonau moesegol, y cod ymddygiad ac ati. Roeddent hefyd yn cefnogi ailgyflwyno proses adolygu flynyddol ffurfiol ar gyfer yr holl Aelodau, yn ogystal â sefydlu rhaglen fentora Aelodau newydd. Nododd yr aelodau fod gan Sarah Hattle brofiad yn y maes hwn a'i bod yn hapus i arwain ar fentora Aelodau.
- para 3.3.2 : Cynigiodd Aelod y dylai'r Rhaglen Hyfforddi a Datblygu fod yn berthnasol i bob Aelod newydd boed wedi'i benodi gan eu Hawdurdod Lleol neu gan Lywodraeth Cymru. Gofynnodd a allai Gweithgor Aelodau ddatblygu'r rhaglen hyfforddi ymhellach, i gynnwys materion megis yr angen i ganfod cydbwysedd rhwng blaenoriaethau cenedlaethol a chymunedol yng nghyd-destun Parc Cenedlaethol. Yn codi wedi hynny, nodwyd bod tensiynau achlysurol yn codi wrth wneud penderfyniadau yn y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad y gellid rhoi sylw iddynt fel rhan o hyfforddiant cynllunio. Cytunodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir y gellid cryfhau hyfforddiant cynllunio i archwilio'r berthynas rhwng buddiannau cenedlaethol a chymunedol mewn Parc Cenedlaethol, ac y byddai hyfforddiant yn cael ei drefnu ar ôl etholiad Llywodraeth Leol, o bosibl ym mis Medi 2022.
- para 3.3.2.5: Trafododd yr Aelodau'r weithdrefn adolygu flynyddol ffurfiol ar gyfer Aelodau Annibynnol a'r cais dilynol gan Lywodraeth Cymru y dylai adolygiadau fod yn berthnasol i bob Aelod. Teimlai rhai Aelodau fod hwn yn fater gwleidyddol ac felly yn fater i'r awdurdodau penodi. Cytunwyd bod angen rhagor o waith a theimlai'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, tra'n nodi bod ymdrechion y gorffennol wedi bod yn aflwyddiannus, y gallai gwerthusiadau blynyddol fod yn broses ddwy ffordd i Aelodau godi unrhyw faterion a allai fod ganddynt.
- nododd Aelod bryderon bod yr aelodaeth bresennol yn gwneud argymhellion, cyn yr etholiad Llywodraeth Leol, y bydd yn ofynnol i Aelodau newydd eu gweithredu. Nododd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y papur yn cael ei gyflwyno ar hyn o bryd er mwyn elwa ar arbenigedd yr aelodau presennol sydd â phrofiad o'r broses.
- mewn ymateb i gais gan Aelod, rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol sicrwydd na fyddai'r Awdurdod yn dyblygu hyfforddiant a ddarperir eisoes gan yr Awdurdodau Unedol ond y byddai'n canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â'r Parciau Cenedlaethol. Roedd yr Awdurdod hefyd yn hapus i gydweithio â'i bartneriaid.
- para. 3.3.2.2: diolchodd y Swyddog Adran 151 i'r Aelodau am eu hymroddiad i waith yr Awdurdod a chynigiodd ddarparu sesiwn hyfforddiant cyffredinol byr ar gyllid unwaith y byddai'r aelodaeth newydd wedi'i sefydlu. Croesawodd y Cadeirydd y cynnig ar ran yr Aelodau.
- para. 3.4.1: Roedd yr aelodau o blaid parhau â'r strwythur Pwyllgorau presennol. Nododd yr Aelodau fod y Grŵp Tasg a Gorffen wedi ystyried sawl model arall, gan gynnwys strwythurau'r ddau Barc Cenedlaethol arall yng Nghymru, a'u bod wedi dod i'r casgliad bod strwythur presennol yr Awdurdod yn gweithio'n dda ac yn addas ar gyfer y pwrpas.
- para. 3.4.2: mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y byddai'r Awdurdod yn adolygu cylch gorchwyl y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ac yn ehangu ei rôl i sicrhau y gall wneud penderfyniadau ar adroddiadau ariannol ac adroddiadau eraill, oni bai bod yr Awdurdod yn cymeradwyo hynny'n benodol,

yn hytrach na threfnu cyfarfod arbennig ychwanegol o'r Awdurdod ar gyfer un eitem . Nodwyd bod holl Aelodau'r Awdurdod yn aelodau o'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau.

- para. 3.4.4: eglurodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol y bydd yn ofynnol yn awr i Grwpiau Tasg a Gorffen gytuno ar eu cylch gorchwyl o'r cychwyn cyntaf i sicrhau nad oes gorgyffwrdd. Cadarnhaodd y byddai Grwpiau Tasg a Gorffen unigol yn cynnwys staff ac Aelodau i ddechrau ac arbenigwyr ychwanegol yn cael eu gwahodd i gyfrannu lle bo'n briodol. Cytunwyd hefyd y dylai para. 3.4.4 ddarllen "Pobl gydag arbenigedd neu *ddiddordeb yn* y pynciau ddylid eu penodi.'
- para. 3.4.7: dywedodd y Prif Weithredwr ei bod yn dal i aros am y llythyr cylch gwaith terfynol gan y Gweinidog.
- para. 3.5.4: er budd eglurder, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y byddai staff yn ymchwilio i'r lleoliad gorau ar gyfer pwyllgorau hybrid ac yn gwneud argymhellion '*i'r Awdurdod.'* Trafododd yr aelodau gyfarfodydd hybrid yn gyffredinol a nodwyd y byddai swyddogion yn treialu'r system cyn mynd yn fyw. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod rhai Aelodau wedi gofyn i'r opsiwn hybrid gael ei ystyried, tra bod Aelodau eraill yn croesawu'r cyfle i gyfarfod wyneb yn wyneb. Nid oedd y penderfyniad terfynol wedi'i wneud eto, ac er y dylai cyfarfodydd hybrid roi hyblygrwydd i bawb, pe baent yn peri problemau, byddai angen ailasesu. Nododd yr aelodau ei bod yn bwysig cynnal rhai cyfarfodydd wyneb yn wyneb gyda'r aelodau newydd.

**PENDERFYNWYD**

1. **nodi'r adroddiad.**
2. **yn ddarostyngedig y cynhwysir y newidiadau a amlinellwyd, cymeradwyo'r adroddiad i'w fabwysiadu'n ffurfiol gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 27 Ebrill 2022.**

5. **Cefnogi Diwygiad yr Iaith Gymraeg**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Prif Weithredwr i'r Aelodau drafod sut i symud ymlaen â Rhybudd o Gynnig gan Mr. Owain Wyn a ofynnodd i'r Awdurdod ystyried sut i gefnogi adfywiad yr iaith Gymraeg a chynyddu nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg yn eu bywydau bob dydd yn Eryri, ac i'r Awdurdod a'i bartneriaid ymateb yn gadarnhaol i'r heriau.

Adroddwyd – Rhoddodd Mr. Owain Wyn gyflwyniad byr i'r Aelodau. Gofynnodd i'r Aelodau gytuno ar gyfeiriad yr Awdurdod a thrafod sut i gyfrannu at yr adfywiad ieithyddol. Tra'n nodi na fyddai Parc Cenedlaethol Eryri, gyda phoblogaeth o 26,000 yn unig, yn cael effaith arwyddocaol, teimlai mai cryfder yr Awdurdod oedd annog a dylanwadu ar ei bartneriaid ac eraill i gyflawni'r nod hwn.

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad ac amlinellodd y prif ystyriaethau. Gofynnwyd i'r aelodau ddatblygu gweledigaeth a strategaeth glir, nodi pwysigrwydd y data a'r wybodaeth, cytuno pa bartneriaethau i'w sefydlu a'u rolau, a pha mor eang i osod yr ardal ddaearyddol. Gofynnwyd hefyd i'r Aelodau nodi bod Strategaeth yr Awdurdod ar gyfer Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd.

Trafododd yr Aelodau a'r swyddogion y canlynol:-

- mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir y byddai'r adolygiad sydd i ddod o'r Cynllun Datblygu Lleol yn caniatáu i Aelodau ddiwygio'r polisi sy'n gofyn ar hyn o bryd i ymgeiswyr/datblygwyr ddarparu "Datganiad Cymunedol ac Ieithyddol." Gellid adolygu hyn i ofyn am adroddiad ieithyddol annibynnol i gyd-fynd â'r cais cynllunio. Mae hyn yn wir ar hyn o bryd lle mae datblygiadau ar raddfa fwy, er enghraifft

cais Rheilffordd Llyn Tegid sydd ar ddod, lle mae angen asesiad manylach, a fydd wedyn yn cael ei anfon ymlaen i'w graffu gan arbenigwyr ieithyddol allanol.

- cadarnhaodd y Prif Weithredwr y bydd Aelodau'n cael cyfle pellach i graffu'r Cynllun Datblygu Lleol, Cynllun Eryri, y Cynllun Corfforaethol a Strategaeth yr Iaith Gymraeg.
- dywedodd Aelod y dylai'r Awdurdod barhau i lobïo Llywodraeth Cymru i warchod yr iaith Gymraeg a nododd fod prosiectau Wylfa a Gorsaf Bŵer Niwclear Trawsfynydd yn ôl ar yr Agenda a allai gael effaith ar yr iaith. Gofynnodd yr Aelod a ddylid sefydlu is-grŵp i arwain ar y mater hwn.
- argymhellodd Aelod y dylai'r weledigaeth ddarllen "mae'r Gymraeg yn cael ei ystyried yn fwy ffafriol na'r Saesneg," ac er nad oes gan Eryri boblogaeth fawr mae ganddi'r mandad i arwain drwy esiampl.
- teimlai Aelod y dylai'r Gymraeg fod yn amod cynllunio ar gyfer y dyfodol a chyfeiriodd at adroddiad diweddar gan Dr. Simon Brook 'Ail gartrefi: Datblygu polisïau newydd yng Nghymru', a oedd wedi gwneud deuddeg argymhelliad, a dim ond tri ohonynt a fabwysiadwyd gan Cyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru.
- teimlai Aelod fod y broses o gytuno ar weledigaeth ar gyfer Cynllun Eryri a'r Cynllun Datblygu Lleol wedi gweithio'n dda gyda hwyluso allanol.
- Awgrymodd yr Aelodau y dylid ystyried setiau data eraill megis yr hyn a gasglwyd gan ysgolion lleol ee iaith y cartref ayb, er y gall y wybodaeth hon fod yn anfanwl hefyd.
- mewn ymateb i bryder a godwyd gan Aelod ynghylch yr amser y mae'r Grŵp Tasg a Gorffen Enwau Lleoedd yn ei gymryd, dywedodd y Prif Weithredwr y bydd dyddiad adrodd terfynol yn cael ei nodi yn y dyfodol i sicrhau bod y grwpiau'n parhau i ganolbwyntio. Nododd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir fod y gwaith hwn, a wnaed gyda Phrifysgol Caerdydd, wedi bod yn gymhleth. Manteisiodd ar y cyfle i ddiolch i Naomi Jones, Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol am ei gwaith, a dywedodd y byddai papur cefndir a chanllawiau'n cael eu cyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod ym mis Medi 2022.
- mae Cyngor Gwynedd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi sefydlu Fforymau Iaith Gymraeg y gellid eu cynnwys fel partneriaid, neu gallai'r Awdurdod sefydlu ei fforwm cyffredinol ei hun.

**I gloi, argymhellodd yr Aelodau:-**

- **o ystyried y bydd adolygiad sydd i ddod o'r Strategaeth ar gyfer Hyrwyddo'r Gymraeg yn cwmpasu llawer o'r gwaith hwn, y dylid sefydlu grŵp llywio yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr Awdurdod ym mis Mehefin o dan arweiniad y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer.**
- **dylid cytuno ar y weledigaeth fel rhan o Strategaeth Hybu'r Gymraeg a dylai'r Awdurdod ystyried a ddylai fod gwahaniaethu cadarnhaol yn ei bolisïau tuag at y Gymraeg: "mae'r Gymraeg yn cael ei gweld yn fwy ffafriol na'r Saesneg."**
- **Cytunodd yr Aelodau ar bwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth a'r angen i ddiffinio pa bartneriaid y dylid eu cynnwys.**
- **y gwaith i ddechrau unwaith y bydd data'r cyfrifiad ar gael.**
- **alinio 4 prif ddogfen gorfforaethol yr Awdurdod, Cynllun Eryri, Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol, Cynllun Datblygu Lleol Eryri, a'r Strategaeth ar gyfer Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg â'r weledigaeth hon ar yr adeg briodol.**

Mynegodd y Cadeirydd ddymuniadau gorau i'r holl Aelodau Awdurdod Lleol a oedd â seddi a gystedlir amdanynt yn yr etholiad Llywodraeth Leol sydd i ddod a diolchodd hefyd i'r Aelodau hynny a oedd yn mynychu eu cyfarfod olaf o'r Gweithgor Aelodau a dymuno'n dda iddynt.

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.50**

**EITEM RHIF 21 (iii)**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| **DYDDIAD:** | 15 Mehefin, 2022 |
| **TEITL:** | **CYNHADLEDD FFEDERASIWN EUROPARC, 5 -7 Hydref, 2022.**<br><br>**“MAE'R HINSAWDD YN NEWID! SUT GALL ARDALOEDD GWARCHODEDIG ADDASU?**<br><br>**Fédération des Réserves Naturelles Catalanes (FRNC) yn Argelès-sur-Mer, Pyrénées Orientales, Ffrainc** |
| **ADRODDIAD GAN** | Y Prif Weithredwr |
| **PWRPAS:** | Ystyried cynrychiolaeth yng Nghynhadledd EUROPARC 2022 |

## 1. CEFNDIR

1.1. Cafodd Ffederasiwn EUROPARC ei ffurfio bron 40 mlynedd yn ôl a hwn ydi’r corff sy’n cynrychioli Ardaloedd Gwarchodedig Ewrop. Mae 378 o awdurdodau cyfrifol yn aelodau o’r Ffederasiwn, mewn dros 36 o wledydd, ac mae’n hwyluso cydweithrediad rhyngwladol ym mhob agwedd o Reoli Ardaloedd Gwarchodedig er mwyn gwella a chadw ein hetifeddiaeth naturiol. Mae’r Ffederasiwn hefyd wedi’i gydnabod yn fyd-eang fel rhwydwaith proffesiynol o Ardaloedd Gwarchodedig Ewropeaidd, yn darparu fforwm ar gyfer rhannu profiadau proffesiynol, cydweithio ar brosiectau technegol a symud ymlaen efo materion sy’n gyffredin i nifer o’r aelodau.

1.2 Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol (APC) Eryri wedi bod yn aelod o Ffederasiwn EUROPARC ers dros 25 mlynedd ac wedi cynnal Cynhadledd EUROPARC 2006 yn Eryri.

## 2. CYNHADLEDD FFEDERASIWN EUROPARC 2022

2.1 Am y ddwy flynedd diwethaf mae Cynhadledd EUROPARC wedi’i chynnal yn rhithwir ond eleni mae’r Gynhadledd yn dychwelyd i’w fformat arferol o gael ei chynnal mewn Parc Cenedlaethol sy’n ei chroesawu. Y Parc Cenedlaethol sy’n ei chroesawu mis Hydref yw “Fédération des Réserves Naturelles Catalanes (FRNC) yn **Argelès-sur-Mer, Pyrénées Orientales, Ffrainc,** 5 – 7 Hydref. (teithio allan ar y 4ydd Hydref)

2.2 Thema'r Gynhadledd yw "**Mae'r hinsawdd yn newid! Sut gall Ardaloedd Gwarchodedig addasu?**

2.3 Bydd y Gynhadledd yn canolbwyntio ar Addasu i Newid yn yr Hinsawdd o fewn ac o amgylch Ardaloedd Gwarchodedig. Drwy gydol y rhaglen a gyda chymorth ymarferwyr, arbenigwyr ac ymchwilwyr profiadol bydd y gynhadledd yn trafod ac yn ceisio deall yn well:

- Sut y bydd newid hinsawdd yn effeithio ar Ardaloedd Gwarchodedig a'u cyffiniau?
- Sut i asesu bregusrwydd?
- Sut i baratoi ar y cyd i addasu ar gyfer y dyfodol

## 3. PRESENOLDEB YNG NGHYNHADLEDD EUROPARC, 2022

3.1 Yn hanesyddol mae Parc Cenedlaethol Eryri wedi enwebu dau gynrychiolydd i fynychu'r Gynhadledd. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, dewiswyd cynrychiolwyr ar eu disgyblaeth broffesiynnol a chan ystyried thema'r Gynhadledd.

## 4. ARGYMHELLION:

**4.1 Gofynnir i'r Aelodau benderfynu a ddylid anfon cynrychiolaeth o APCE i Gynhadledd EUROPARC yn Ffrainc, ac os hynny, cymeradwyo nifer y gynrychiolaeth.**

**4.2 Yn unol â 4.1 uchod gofyn am enwebiadau (aelod/staff) o Eryri i fynychu Cynhadledd EUROPARC 2022 ac i'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr gymeradwyo'r ddirprwyaeth.**


## 5. DOGFENNAU CEFNIDROL:

5.1 Safle We gyda manylion pellach am y Gynhadledd, y Gweithdai a'r Ymweliadau Safle:

https://europarcconference.com/programme/

JO/Awdurdod 15 06 22
Europarc 2022






Parciau National
Cendlaethol Parks

**CYFARFOD GWEITHREDIAETH PARCIAU CENEDLAETHOL CYMRU**
**DYDD GWENER 19 TACHWEDD 2021**
**CYFARFOD RHITHIOL, 1.30pm – 3.00pm**

**YN BRESENNOL:**

| | | |
|---|---|---|
| (PH) | Cyng. Paul Harries | Cadeirydd Parciau Cenedlaethol Cymru (PCC) ac APC Arfordir Penfro (APCAP) |
| (DC) | Cyng. Di Clements | Dirprwy Gadeirydd APCAP (ymunodd â'r cyfarfod ar ôl i Eitem 1 isod gael ei thrafod) |
| (TJ) | Tegryn Jones | Prif Weithredwr APCAP (Ysgrifenyddiaeth PCC) |
| (WEJ) | Cyng. Wyn Ellis-Jones | Cadeirydd APC Eryri (APCE) (ymunodd â'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar y materion oedd yn codi o gofnodion y cyfarfod diwethaf [Eitem 2 isod] |
| (AH) | Cyng. Annwen Hughes | Dirprwy Gadeirydd APCE |
| (EW) | Emyr Williams, | Prif Weithredwr APCE |
| (GR) | Cyng. Gareth Ratcliffe | Cadeirydd APC Bannau Brycheiniog (APCBB) |
| (CMJ) | Catherine Mealing-Jones | Prif Weithredwr APCBB |

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Janet Evans | APCAP |

## 1. GAIR O GROESO GAN Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i bawb i'r cyfarfod. Rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf i bawb am gyfarfodydd a/neu ddigwyddiadau yr oedd wedi'u mynychu ers y cyfarfod diwethaf, a'r rhan fwyaf ohonynt wedi'u mynychu o bell. Ymhlith y rhain oedd y canlynol:

- cyfarfod â Chadeiryddion Parciau Cenedlaethol eraill y DU i drafod y 26ain Cynhadledd Partïon y Cenhedloedd Unedig (COP26) ar Newid Hinsawdd;
- cyfarfodydd Fforwm Gwledig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, lle trafodwyd yr argyfwng tai gwledig, rhoi'r gorau i gynlluniau ffyrdd, a gweledigaeth wledig. Ychwanegodd bod adborth




**Parciau Cenedlaethol Cymru**
**National Parks Wales**
Parc Llanion, Doc Penfro SA72 6DY
Llanion Park, Pembroke Dock SA72 6DY
Ffôn / Tel: 01646 624800
e-bost / e-mail:
gwasanaethauaelodau@arfordirpenfro.org.uk
memberservices@pembrokeshirecoast.org.uk







diddorol wedi dod i law yn y cyfarfodydd am yr anghenion o ran tai, ac am gyllid y Gronfa Datblygu Gwledig;

- mynychu digwyddiad yn Aberdyfi i ddathlu pen-blwydd APCE yn 70 oed, a diolchodd i'r Cadeirydd ac i'r Prif Weithredwr am hyn;
- seminar Tirweddau Cymru gyda'r Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol;
- cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig, lle'r oedd GR hefyd yn bresennol;
- lansio 'Cynllun Sero Net i Gymru' Llywodraeth Cymru;
- cyfarfod ffosffadau gyda Janet Finch-Saunders, AoS, a
- Fforwm Cadeiryddion Parciau Cenedlaethol y Deyrnas Unedig.

Ychwanegodd ei fod wedi anfon llythyr at Julie James, y Gweinidog dros Newid Hinsawdd, ynghylch COP26, ac roedd wedi derbyn ateb. Yn olaf, cyhoeddodd mai 20 Tachwedd 2021 oedd Diwrnod Byd-eang y Plant, ac y byddai ganddo ddiddordeb mewn gwybod pa drefniadau fyddai gan y ddau APC arall ar gyfer yr ieuenctid ar y diwrnod hwn.

**2. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF, 19 Mawrth 2021**

Nodwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir.

Materion yn Codi

**a) Adolygiad llai manwl o 'gwerthfawr a chydnerth' (Cofnod 7)**

Dywedodd TJ nad oedd yr adolygiad wedi digwydd eto ac nad oedd yn glir ar hyn o bryd a fyddai cyfarwyddyd LIC yn cael ei ddarparu drwy'r adolygiad hwn neu drwy'r llythyrau cylch gwaith priodol.

**NODWYD.**

**b) COP26 (Cofnod 8)**

Dywedodd EW bod y Bartneriaeth Parciau Cenedlaethol wedi rhoi cyflwyniad i'r gynhadledd COP26 a bod y fideos a rannwyd ar y prosiectau "sero net â natur" yn werth eu gweld.

**NODWYD.**





Parciau National Cenedlaethol Parks

**c) Cyrraedd y targedau carbon 2030 (Cofnod 9)**

Dywedodd TJ bod dau gwmni wedi eu comisiynu i weithio ar y prosiect arbennig hwn ac y disgwylir eu hadroddiadau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon. Ychwanegodd bod pawb dan sylw yn gwybod beth yw'r heriau, ond yn aros i weld pa opsiynau oedd ar gael i'w lliniaru.

**NODWYD.**

**d) Creu parciau carbon niwtral 2050 – comisiwn Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy (Cofnod 10)**

O ran yr eitem flaenorol a'r ddau brosiect cydweithredol a gomisiynwyd, dywedwyd bod methodoleg ar ddatblygu gwaelodlin carbon ar gyfer y tirweddau dynodedig wedi'i datblygu yn Ardal y Llynnoedd gyda Phrifysgol Caerhirfryn. Roedd gwaith eisoes wedi dechrau yn APCBB ac yn APCE, gydag APCAP yn dechrau yn y Flwyddyn Newydd. Y nod oedd cyhoeddi adroddiad erbyn mis Mawrth 2022, y gallai'r tri APC wedyn ei rannu â'u cymunedau.

**e) Caffael – diwallu gofynion newydd – cyfleoedd ar gyfer gweithio ar y cyd (Cofnod 13)**

Dywedodd EW ei fod wedi braslunio brîff ar gyfer proses newydd o ran caffael, fyddai'n cael ei rannu gyda Geldards. Dywedodd bod y broses wedi bod yn fwy cymhleth nag a ragwelwyd yn y lle cyntaf, a bod angen gwneud llawer o newidiadau o ran y safonau caffael. Byddai'n adrodd ymhellach unwaith y byddai camau pellach wedi'u cymryd ar y mater hwn.

**NODWYD.**

**f) Partneriaeth y Parciau Cenedlaethol (Cofnod 14)**

Roedd EW ar hyn o bryd yn cyflawni rôl cynrychiolydd Cymru ar y Bartneriaeth, ond dywedodd bod CMJ yn awyddus i gymryd drosodd unwaith y byddai ei thîm rheoli yn ei le. Ychwanegodd bod disgwyl derbyn cynigion ar y cynllun busnes 3 blynedd nesaf yn ystod y mis nesaf.

**NODWYD.**





Parciau National
Cenedlaethol Parks

**3. CYLLIDEB PARCIAU CENEDLAETHOL CYMRU 2020/21**

Cyflwynwyd sefyllfa’r gyllideb fel yr oedd fis Tachwedd 2021. Nodwyd bod gwariant wedi bod yn isel, ond bod swm o £500 wedi ei neilltuo i noddi cystadleuaeth y Triniwr Ifanc gorau yn Ffair Aeaf Sioe Frenhinol Cymru. Ychwanegodd TJ bod yr RSPB wedi mynd ati i gael y sector amgylcheddol i gymryd rhan mewn gwaith gyda phobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a’u bod wedi gofyn yn benodol i PCC fod yn rhan o’r prosiect. Roedd yr RSPB a CNC wedi cyfrannu £10,000 yr un i’r prosiect ac roedd TJ wedi cadarnhau y byddai’r tri APC gyda’i gilydd yn cyfrannu arian cyfatebol i’r swm hwnnw ar gyfer 2022/23.

Dywedodd EW ei bod yn dibynnu ar yr hyn oedd yn y cynllun busnes, ac efallai y byddai angen ailystyried y gyllideb.

**NODWYD.**

**4. ADBORTH O’R CYFARFOD GYDA’R GWEINDOG DROS NEWID HINSAWDD**

Dywedodd TJ bod y materion allweddol a gododd o’r cyfarfod â’r Gweinidog dros Newid Hinsawdd yn cynnwys:

a) Cyllideb 2022/23: nid oedd unrhyw arwydd o rybudd wedi codi o’r trafodaethau yn ddiweddar gyda swyddogion LlC ar y gyllideb sydd i ddod. Roeddent ar hyn o bryd yn gweithio ar ragdybiaeth gyllidebu o 1%. Dywedodd EW bod swyddogion LlC yn cyfeirio o'r diwedd at fodel ariannu dros dair blynedd, oedd i'w groesawu;

b) Llywodraethu'r Parc Cenedlaethol: roedd gan y Gweinidog ddiddordeb mewn protocol yr Aelodau a hyfforddi ac adolygu Aelodau LlC yn flynyddol. Roedd hi hefyd yn ymddangos yn frwd iawn dros swyddogion ar y cyd (megis Swyddog Monitro). Awgrymodd TJ bod y tri APC yn cyflwyno rhai awgrymiadau eu hunain ar y mater hwn. Dywedodd PH bod APCAP wedi cael gwybod yn anffurfiol eu bod wedi llwyddo i dderbyn y Siarter Uwch am Gynorthwyo a Datblygu Aelodau;

c) ail gartrefi: roedd cyhoeddiad ar fin cael ei wneud allai gyfrannu at y mater hwn, a’r

d) cyd-bwyllgorau corfforedig: awgrymodd TJ bod angen amlygu’r baich costau posibl ar APC. Dywedodd GR bod ardal APCBB yn ymestyn dros dri cyd-bwyllgor

Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Arfordir Penfro ac Eryri yn gweithio mewn partneriaeth
Brecon Beacons, Pembrokeshire Coast and Snowdonia National Parks, working in partnership

Rydym yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, a byddwn yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh, and will respond to any correspondence in Welsh. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

**Parciau Cenedlaethol Cymru**
**National Parks Wales**
Parc Llanion, Doc Penfro SA72 6DY
Llanion Park, Pembroke Dock SA72 6DY
Ffôn / Tel: 01646 624800
e-bost / e-mail:
gwasanaethauaelodau@arfordirpenfro.org.uk
memberservices@pembrokeshirecoast.org.uk







corfforedig ac y gallai’r Awdurdod gael trafferthion ariannol o ganlyniad. Roedd angen deall, felly, lle’r oedd y Gweinidog yn sefyll ar y mater hwn.

Cododd PH y mater o ddiwygio tirwedd Parciau Cenedlaethol y DU, a dywedodd TJ bod newidiadau yn debygol yn Lloegr o ganlyniad i Adolygiad Glover, ac y gallai trydydd diben fod yn ymwneud â bioamrywiaeth. Gallai hyn hidlo i lawr i APC Cymru yn ogystal. Dywedodd EW bod LlC yn blaenoriaethu sefydlu pedwerydd Parc Cenedlaethol yng Nghymru, fyddai mwy na thebyg yn cymryd y rhan fwyaf o'u hamser craffu.

Cyfeiriodd GR at yr uwchgynhadledd COP26 yn ddiweddar a holodd a oedd gan LlC unrhyw ddisgwyliadau am y parciau cenedlaethol. Dywedodd CMJ bod y Gweinidog wedi siarad mewn Cynhadledd Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad yn ddiweddar ac, er bod parciau cenedlaethol wedi'u crybwyll, aeth hi ddim i fanylder. Cafodd y Gweinidog gryn dipyn o farnu gan y gymuned ffermio ynglŷn â’r ffaith mai Cymru oedd yr unig wlad nad oedd ganddi drefniadau cyfnod pontio ar waith hyd yn hyn i gefnogi ffermwyr, ac roedd CMJ yn meddwl tybed a oedd angen i PCC edrych ar hyn. Awgrymodd WEJ bod angen i'r tri APC weithio gyda'r Gweinidog i ddangos bod yr Awdurdodau yn effeithiol ac mewn sefyllfa dda, ac felly nad oedd angen newid.

Cyfeiriodd PH at ymgynghoriad LlC ar ail gartrefi, gan nodi ei bod yn ymddangos nad oedd llawer i'w ychwanegu at ymatebion Un Llais Cymru a Fforwm Gwledig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Roedd o'r farn mai'r ateb aml-ochrog a gyflwynwyd gan LlC oedd y ffordd orau ymlaen. Dywedodd EW ei bod yn fwriad gan y Gweinidog i wneud datganiad ar ail gartrefi am 4.00pm ddydd Mawrth, y 23ain o Dachwedd 2021. Gofynnodd GR a ellid cynnwys Air B&B mewn unrhyw ymateb gan yr ymddengys eu bod yn dod o hyd i ffordd o gwmpas y ddeddfwriaeth gyfredol. Atebodd EW y byddai'n rhaid newid y ddeddfwriaeth gynllunio i ddarparu ar gyfer Air B&B. Awgrymodd WEJ y dylid trefnu cyfarfod i drafod ymateb i'r ymgynghoriad ar ail gartrefi, a **CHYTUNWYD** ar hyn.

**5. CYFRANNU TUAG AT GYFLAWNI'R RHAGLEN LYWODRAETHU**

Cyfeiriodd EW at Raglen Lywodraethu LlC, oedd yn nodi'r ymrwymiadau y byddai'r llywodraeth yn eu cyflawni dros y pum mlynedd nesaf. Tynnodd sylw at y 10 amcan yr oedd yn eu hystyried yn berthnasol a/neu o ddiddordeb i PCC a/neu i Dirweddau Dynodedig Cymru, a holodd a oedd angen cynnwys rhai ohonynt yng nghynllun busnes PCC.



Parciau Cenedlaethol Cymru
National Parks Wales
Parc Llanion, Doc Penfro SA72 6DY
Llanion Park, Pembroke Dock SA72 6DY
Ffôn / Tel: 01646 624800
e-bost / e-mail:
gwasanaethauaelodau@arfordirpenfro.org.uk
memberservices@pembrokeshirecoast.org.uk



Nodwyd yr adroddiad, ynghyd â'r angen i'r Awdurdodau alinio eu gwaith i'r meysydd lle gellid cael yr effaith fwyaf.

**NODWYD.**

**6. CYNLLUN BUSNES PCC 2022**

Dywedodd TJ bod y cynllun busnes cyfredol yn ymwneud â'r cyfnod 2019-2021 ac felly bod angen datblygu cynllun newydd. Roedd ei adroddiad yn canolbwyntio ar yr amcanion hynny o Raglen Lywodraethu LlC a allai effeithio ar dirweddau dynodedig, a nododd y meysydd allweddol posibl y gellid eu blaenoriaethu, tra hefyd yn tynnu sylw at y cyfyngiadau o ran staff ac adnoddau ariannol o wneud hynny. Roedd angen ystyried hefyd pa feysydd gwaith i'w cynnwys o dan Tirweddau Cymru a pha rai i'w cynnwys o dan PCC.

Tynnodd CMJ sylw at yr angen i ddangos gwerth a dangos i LlC bod APC yn cyflawni eu hamcanion. Adfer natur a thrafnidiaeth oedd yn flaenllaw yn ei meddwl. Dywedodd EW bod y ddogfen Gwerthfawr a Chydnerth wedi bod yn ffocws ar gyfer y cynllun busnes cyfredol, felly awgrymodd y dylent aros am gyhoeddiad y Gweinidog oedd ar fin digwydd ac, o bosibl, Llythyr Cylch Gwaith LlC, cyn cytuno ar yr hyn y dylid ei gynnwys. Gofynnodd hefyd a ddylai pob APC wthio'r Gweinidog am Lythyr Cylch Gwaith tair blynedd, o ystyried bod swyddogion LlC yn edrych ar raglen ariannu tair blynedd yn y dyfodol. Cytunodd PH â hyn.

Er ei fod yn cytuno ag EW, nid oedd TJ am aros tan y cyfarfod nesaf o'r PCC fis Ebrill 2022 cyn cytuno ar y cynllun busnes newydd. Awgrymodd felly bod y tri Prif Weithredwr yn cydweithio ac yn dosbarthu cynllun busnes drafft maes o law. **CYTUNWYD** ar hyn.

**7. CYD-BWYLLGORAU CORFFOREDIG**

Dywedodd CMJ bod APCBB wedi cynnal cyfarfod Aelodau/Swyddogion yn gynharach y diwrnod hwnnw i drafod mater y cyd-bwyllgorau corfforedig a'r ffaith y byddai'r Awdurdod yn ymwneud â thri cyd-bwyllgor oherwydd yr ardal ddaearyddol dan sylw. Barnai bod rhai pethau cadarnhaol yn deillio o hyn ac y byddai'n rhannu eu safbwynt gyda phawb maes o law. Awgrymodd LD y dylai'r tri APC gyda'i gilydd wthio am hyfforddiant a sefydlu priodol i'r Aelodau hynny fyddai'n aelodau o'r cyd-bwyllgorau. Gofynnodd hefyd a fyddai'r cyd-bwyllgorau yn peryglu swydd unrhyw un ac a fyddai cyfleoedd i staff APC gael eu secondio i'r cyd-bwyllgorau.



Parciau Cenedlaethol Cymru
National Parks Wales
Parc Llanion, Doc Penfro SA72 6DY
Llanion Park, Pembroke Dock SA72 6DY
Ffôn / Tel: 01646 624800
e-bost / e-mail:
gwasanaethauaelodau@arfordirpenfro.org.uk
memberservices@pembrokeshirecoast.org.uk





Parciau National
Cenedlaethol Parks

Roedd PH o'r farn bod APC wedi'i roi mewn rôl ategol, tra bod TJ wedi dweud bod APCAP wedi amlygu rôl y Parciau Cenedlaethol, gan ddadlau y dylent hefyd allu cael dweud eu dweud ar lywodraethu ac ar y gyllideb. Mewn ymateb i sylwadau LD, atebodd TJ bod y mater staffio yn bwynt dilys, gan feddwl tybed a ddylai unrhyw swyddog(ion) gael eu secondio i weithio ar gynllun datblygu strategol y cyd-bwyllgorau. Byddai'n ddiddorol gweld sut fydd pethau'n datblygu.

Dywedodd EW nad oedd APCE wedi clywed dim yn ffurfiol am y cyd-bwyllgorau yng ngogledd Cymru. Roedd yn ymwybodol bod penawdau'r telerau wedi'u drafftio gan y chwe awdurdod lleol dan sylw, a'u bod yn bwriadu "mynd yn fyw" ar y 30ain o Fehefin 2022 (yn hwyrach nag yn ne Cymru). Fodd bynnag, roedd yr awdurdodau dan sylw wedi gwrthod rhannu unrhyw bapurau, er gwaethaf y ffaith y byddai'r Awdurdod yn ymwneud â'r cyd-bwyllgorau. Roedd hefyd yn poeni am y llwyth gwaith ychwanegol ar yr Aelodau ac yn meddwl tybed a fyddai Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn cydnabod yr ymrwymiad ychwanegol hwn.

**NODWYD.**

**8. SEMINAR AELODAU PARCIAU CENEDLAETHOL CYMRU 2022**

Dywedodd CMJ bod APCBB yn awyddus i gynnal y Seminar a'u bod yn meddwl ar y trywydd o fabwysiadu model economaidd y "doughnut economics" ar gyfer eu Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol. Fodd bynnag, nid oedd y logisteg o gynnal y Seminar wedi'i ystyried eto, a byddai'n dod â rhagor o fanylion gerbron y cyfarfod nesaf.

Roedd PH ac EWJ yn croesawu'r newyddion, gan eu bod o'r farn – cyn belled â bod y pwnc yn berthnasol ac yn addysgiadol – bod y Seminarau wedi bod o fudd mawr i'r rhai a fynychodd ac yn ffordd dda o rwydweithio'n anffurfiol hefyd. Barnai DC ei bod yn bwysig cynnal digwyddiad wyneb yn wyneb os yn bosibl gan y byddai carfan newydd o Aelodau ym mhob Awdurdod erbyn hynny a'i bod yn bwysig cael cysylltiad rhwng y tri APC. Mater arall, fodd bynnag, oedd a fyddai hyn yn bosibl.

**NODWYD.**



Parciau Cenedlaethol Cymru
National Parks Wales
Parc Llanion, Doc Penfro SA72 6DY
Llanion Park, Pembroke Dock SA72 6DY
Ffôn / Tel: 01646 624800
e-bost / e-mail:
gwasanaethauaelodau@arfordirpenfro.org.uk
memberservices@pembrokeshirecoast.org.uk







**9. NEWYDDION O GWMPAS PARCIAU CENEDLAETHOL CYMRU**

APC Arfordir Penfro

- Roedd yr Awdurdod wedi cael gwybod yn answyddogol ei fod wedi llwyddo i dderbyn y Siarter Uwch am Gynorthwyo a Datblygu Aelodau.
- Roedd cyhoeddiad Coast to Coast yr Awdurdod wedi derbyn gwobr aur yng ngwobrau Pride CIPR Cymru yn ddiweddar am ei gyhoeddiad Coast to Coast.
- Roedd yr Awdurdod yn cefnogi Pencampwriaethau Rhwyfo Môr y Byd 2022 a gynhelir yn Saundersfoot. Roedd Hannah Buck yn ceisio annog trefnwyr y digwyddiad i fod mor gynaliadwy â phosibl, gyda'r bwriad o weld y bencampwriaeth yn dod yn fodel ar gyfer y cyntaf erioed i gyrraedd safon cynaliadwyedd amgylcheddol.
- Roedd rhaglen ail-flaenoriaethu ar waith yn yr Awdurdod.
- Roedd ymchwil ar y gweill ar ddatblygu strategaeth gwirfoddoli, gyda phrosiect “Profiadau i Bawb” yn cael ei gomisiynu i annog mynediad mwy eang i'r Parc Cenedlaethol. Disgwylir adroddiad yn y dyfodol agos.
- Roedd PH wedi cwblhau’r daith o gerdded Llwybr Cenedlaethol Arfordir Penfro mewn 13 diwrnod yn olynol fis Medi.
- Cyfeiriodd TJ at y newidiadau i'r Cynllun Rheoli Traethlin, fyddai'n debygol o effeithio ar APCE yn ogystal.

APC Eryri

- Roedd yr Awdurdod wedi cychwyn ar ymgyrch recriwtio i lenwi dwy swydd wag Aelod LIC yn 2022. Derbyniwyd cyllid gan LIC ar gyfer y broses recriwtio.
- Yn dilyn adroddiad diweddar gan Archwilio Cymru, roedd yr Awdurdod wedi comisiynu adroddiad gan Gyngor Sir Gwynedd. Dywedodd EW nad oedd eu cyflogau yn gystadleuol â gweddill Gogledd Cymru, felly roedd strwythur newydd o gyflogau yr Awdurdod (ac eithrio'r Tîm Rheoli) yn cael ei ystyried.
- Roedd 2021 yn flwyddyn dathlu pen-blwydd yr Awdurdod yn 70 oed , ac roedd y staff wedi cymryd rhan mewn nifer o ddigwyddiadau i ddathlu'r ffaith. Roedd S4C hefyd wedi comisiynu rhaglen ar bobl Eryri.
- Ni fyddai Hafod Eryri yn agor eto yn 2022 gan fod angen gwneud gwaith ar y rheilffordd.
- Byddai'r Awdurdod yn arwyddo Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar egwyddorion twristiaeth gynaliadwy gyda Chyngor Sir Gwynedd.



**Parciau Cenedlaethol Cymru**
**National Parks Wales**
Parc Llanion, Doc Penfro SA72 6DY
Llanion Park, Pembroke Dock SA72 6DY
Ffôn / Tel: 01646 624800
e-bost / e-mail:
gwasanaethauaelodau@arfordirpenfro.org.uk
memberservices@pembrokeshirecoast.org.uk





Parciau National
Cenedlaethol Parks

<u>APC Bannau Brycheiniog</u>

- Roedd CMJ yn dymuno diolch i TJ ac i EW am eu holl gefnogaeth ers iddi ddechrau yn ei swydd ddiwedd mis Gorffennaf.
- Roedd yr Awdurdod yn recriwtio ar gyfer Uwch Dîm Rheoli newydd o ddau Gyfarwyddwr i gymryd gofal o bortffolio'r Awdurdod.
- Roedd llawer o ymgysylltu â'r gymuned yn digwydd ar hyn o bryd fel rhan o ymgynghoriad yr Awdurdod ar ei Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol.
- Roedd yr Awdurdod yn edrych ar ei anghenion adeiladau yn y tymor hwy.
- Roedd yr Awdurdod wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer gwobr fflyd werdd.
- Roedd CMJ yn ailgychwyn partneriaeth ymchwil yr Awdurdod gyda Phrifysgol Caerdydd.
- Roedd Gŵyl Awyr Dywyll gyntaf yr Awdurdod wedi mynd yn dda iawn.
- Roedd yr Awdurdod yn edrych ar ad-drefnu fel rhan o'r broses cynllunio corfforaethol.
- Roedd yr Awdurdod yn helpu i sefydlu Bwrdd Rheoli Maetholion Brynbuga, ynghyd ag Ymddiriedolaeth Partneriaeth a Menter Gymunedol Aberhonddu.

**10. UNRHYW FATER ARALL**

Nid oedd unrhyw fater arall.

**11. DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF:**

**CYTUNWYD** y byddai'r cyfarfod 'ffurfiol' nesaf yn cael ei gynnal fis Ebrill, ond y byddai APCAP yn trefnu dyddiad i drafod ymgynghoriad LIC ar ail gartrefi yn y dyfodol agos.

Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Arfordir Penfro ac Eryri yn gweithio mewn partneriaeth
Brecon Beacons, Pembrokeshire Coast and Snowdonia National Parks, working in partnership

Cymraeg
Rydym yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, a byddwn yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh, and will respond to any correspondence in Welsh. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Parciau Cenedlaethol Cymru
National Parks Wales
Parc Llanion, Doc Penfro SA72 6DY
Llanion Park, Pembroke Dock SA72 6DY
Ffôn / Tel: 01646 624800
e-bost / e-mail:
gwasanaethauaelodau@arfordirpenfro.org.uk
memberservices@pembrokeshirecoast.org.uk

**EITEM RHIF 23 (2)**

**PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU**
**DYDD MERCHER 23 MAWRTH 2022**

Cynghorydd Alwyn Gruffydd (Gwynedd) (Cadeirydd)

***YN BRESENNOL*** :

**Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Gwynedd**
Y Cynghorwyr Elwyn Edwards, Judith Humphreys, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Mike Stevens;

**Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
Y Cynghorydd Phil Capper, Wyn Ellis Jones, Ifor Glyn Lloyd;

**Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru**
Ms. Tracey Evans, Mrs Sarah Hattle, Mr. Owain Wyn;

**Swyddogion**
Mr. E. Williams, Mr. G.I. Jones, Mr. J. Cawley, Mr. D. Edwards, Ms. S. Owen, Mr. E. Jones, Mrs. A. Gaffey;

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y cyfarfod yn ddarostyngedig i Reoliadau Covid-19 ar sut mae'r Awdurdod yn cynnal ei fusnes, ac:-

- mae Hysbysiad o'r Cyfarfod wedi'i gyhoeddi ac mae'r Agenda a'r adroddiadau ar gael ar wefan yr Awdurdod.
- nid oedd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd.
- roedd y cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn cynorthwyo i wirio'r cofnodion ond gellir ei roi ar gael ar-lein yn ddiweddarach .

1. **Ymddiheuriadau**
   Cynghorwyr Annwen Hughes, Gethin Glyn Williams; Mr. Brian Angell, Mr. Tim Jones.

2. **Datgan Budd**
   Datganodd Mr. Emyr Williams, Mr. G. Iwan Jones a Mr. Jonathan Cawley ddiddordeb yn eitem 10 ar y Rhaglen ac aethant allan o'r cyfarfod tra roedd y mater yn cael ei drafod.

3. **Cofnodion**
   Derbyniwyd cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 24$^{ain}$ Tachwedd, 2021 ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

4. **Adroddiad Diweddaru ar Gyllid Grant Allanol**
   Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Prif Weithredwr i roi diweddariad ar brosiectau a gefnogir gan yr Awdurdod ac i gymeradwyo'r broses briodol ar gyfer derbyn prosiectau/rhaglenni ar gyfer blynyddoedd i ddod yn ffurfiol.

   Adroddwyd – Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad a'r cefndir. Dywedodd fod trafodaethau gyda Swyddfa'r Gweinidog ar gymhlethdodau darparu grantiau tymor byr wedi arwain at Lywodraeth Cymru yn ceisio sicrwydd bod aelodau'n cymryd rhan yn y broses o gymeradwyo cyllid grant. Gofynnwyd i'r aelodau ystyried a ddylid adolygu'r drefn bresennol ar gyfer cymeradwyo cyllid grant aelodau. (Atodiad 3)

   Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth fanwl i'r adroddiad a gwnaethant y sylwadau a ganlyn:-

- Atodiad 1 : mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Prif Weithredwr fod y risg o arian cyfatebol anwarantedig ar gyfer prosiectau a ariennir gan grantiau Ewropeaidd bellach wedi'i leihau gyda chontract cyfreithiol rwymol ar waith ar gyfer prosiect LIFE.
- cytunodd y Prif Weithredwr i roi rhagor o fanylion i Aelod am leoliad stad dai 'Adra'
  sy'n cael ei hadeiladu o fewn y Parc Cenedlaethol.
- gofynnodd Aelod a oedd trefniant i wyth Tirwedd Ddynodedig Cymru ystyried prosiectau cydweithredol ar gyfer 2022/23?
- dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'r rhestr o brosiectau yn y dyfodol, a amlinellwyd ym mharagraff 3, yn cael ei hystyried ymhellach unwaith y byddai aelodaeth newydd yr Awdurdod wedi'i sefydlu.
- Ystyriodd yr Aelodau a oedd y 'status quo' yn ddigon i ganiatáu i'r Aelodau ddarparu trosolwg strategol a monitro'r rhaglen grantiau neu a ddylid sefydlu trothwy ariannol. Daeth yr aelodau i'r casgliad eu bod yn fodlon gyda'r broses bresennol.
- roedd y Prif Swyddog Cyllid yn cefnogi swyddogion i barhau i ddatblygu a chyflwyno bidiau o fewn y meysydd strategol y cytunwyd arnynt gan yr Aelodau, ac i dderbyn cynigion grant. Gallai swyddogion wedyn, os yw'n briodol, ofyn am gymeradwyaeth yr aelodau ar y cyfle cyntaf yn dilyn cynnig grant.
- Cynghori Llywodraeth Cymru am y penderfyniad i barhau â'r sefyllfa bresennol. Pe bai Llywodraeth Cymru yn parhau i geisio newid y drefn, bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno bryd hynny.
- mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Prif Weithredwr fod y polisi ar gyfer prynu tir neu eiddo wedi'i ddiwygio i roi mwy o hyblygrwydd.

**PENDERFYNWYD**

1. **nodi bod prosiectau TCLIC 2021/22 wedi'u cwblhau.**
2. **nodi cynnydd ar brosiectau byw (Atodiad 1).**
3. **cadarnhau meysydd blaenoriaeth ar gyfer bidiau yn y dyfodol (Atodiad 2).**
4. **nodi'r cwmpas posibl ar gyfer cyflwyno grant TCLIC 2022/23.**
5. **hysbysu Llywodraeth Cymru bod yr Awdurdod wedi penderfynu cadw'r trefniadau presennol ar gyfer datblygu a derbyn grantiau.**

5. **Log / Cofnod Gweithredu**

Cyflwynwyd – Log o gamau gweithredu strategol yn deillio o benderfyniadau a wnaed yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau, er gwybodaeth ac i'w gweithredu.

**PENDERFYNWYD nodi'r Log Gweithredu fel y'i cyflwynwyd.**

6. **Diweddariad ar y Gyllideb 2021/22**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Cyllid i hysbysu'r aelodau ynghylch trosglwyddiadau sylweddol o fewn cyllideb y flwyddyn ariannol gyfredol a rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar gynnydd yn erbyn y cyllidebau refeniw a chyfalaf.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid yr adroddiad, a oedd yn crynhoi'r cyllidebau refeniw a chyfalaf diwygiedig ar gyfer unarddeg mis cyntaf 2021/22 ac yn rhoi rhagamcan o sefyllfa'r Awdurdod ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Nododd yr Aelodau'r tanwariant a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn o £100,500 sy'n cynrychioli 1.25% o gyfanswm y gyllideb.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad, er gwybodaeth.**

7. **Proffil Risg yr Awdurdod**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i roi diweddariad i'r Aelodau ar Broffil Risg yr Awdurdod.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a'r proffil risg ac amlinellodd y 4 prif newid i'r gofrestr.

Yn codi wedi hynny,
Risg Cyf. 2 Targed Cynhyrchu Incwm (Plas Tan y Bwlch)
Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, er bod Plas Tan y Bwlch wedi cyflawni ei darged cynhyrchu incwm, yr oedd costau ychwanegol wedi cael ei achosi, megis costau tanwydd a staff. Roedd y Pennaeth Cyllid wrthi'n paratoi adroddiad manwl ac roedd Rheolwr Tŷ'r Plas yn y broses o baratoi Cynllun Busnes a fydd yn cynorthwyo swyddogion i ddarparu rhagolygon gwell ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Risg Cyf. 4 – Risg i enw da par. rheolaeth yr Awdurdod o'r Ysgwrn
Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir fod y risg yn parhau i fod yn ganolig (melyn) a chadarnhaodd fod Rheolwr Profiad Ymwelwyr newydd yn cael ei benodi.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a'r Gofrestr Risg fel yr amlinellwyd.**

8. **Rhaglen Waith Gorfforaethol 2021/22**

Cyflwynwyd – Adroddiad cynnydd gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol am drydydd chwarter y flwyddyn ariannol. Dywedodd ymhellach, lle'r oedd y gwaith wedi'i gwblhau, fod diweddariadau chwarter pedwar hefyd wedi'u cynnwys os oedd y wybodaeth ar gael.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a diweddariadau trydydd chwarter. Trafododd aelodau a swyddogion rai o'r tueddiadau a ddangosir mewn coch yn fanylach.

- Gwella Rheolaeth a Dealltwriaeth o Dreftadaeth Ddiwylliannol
  cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol y bydd y wefan newydd yn manylu ar yr holl deithiau cerdded sy'n cael eu trefnu gan y Gwasanaeth Wardeniaid a fydd, gobeithio, yn cynyddu diddordeb. Cadarnhaodd y Pennaeth Ymgysylltu fod Cwmni Nod Glas wedi cysylltu â'r Awdurdod ac y bydd modd darparu gwybodaeth ar ran 3ydd partïon, unwaith y bydd y wefan newydd yn cael ei lansio.
- Cefnogi Pobl Ifanc
  Dywedwyd wrth yr aelodau y byddai'r Swyddog Ieuenctid yn dechrau yn ei swydd yn ystod Ebrill 2022. Bydd gwaith i gefnogi pobl ifanc yn dechrau fel blaenoriaeth.
- Hyrwyddo a Chefnogi'r Iaith Gymraeg yn Weithredol
  mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer fod disgwyl data'r cyfrifiad ym mis Mai 2022. Dylai'r amserlen newydd ganiatáu digon o amser i swyddogion gyflwyno adroddiad cychwynnol i'r Aelodau yn amlinellu meysydd blaenoriaeth ar gyfer Strategaeth Hybu'r Gymraeg ym mis Gorffennaf 2022.
- dywedodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir fod y Panel Craffu Enwau Lleoedd wedi cytuno ar y sail i swyddogion baratoi nodyn canllaw i'w gyflwyno i'r Awdurdod naill ai ym mis Gorffennaf neu fis Medi 2022.
- croesawodd Aelod ymrwymiad yr Awdurdod i ymgysylltu â grwpiau anodd eu cyrraedd a grwpiau difreintiedig a gofynnodd a allai hyn ffurfio rhan o rôl y Swyddog Gwirfoddoli a Lles?

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

9. **Diwygio Ffioedd Llyn Tegid**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Eiddo yn ceisio diwygio Ffioedd presennol Llyn Tegid.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Pennaeth Eiddo'r adroddiad a'r cefndir a chadarnhaodd y byddai deiliaid bathodynnau glas yn dal i gael parcio am ddim. Dywedodd fod yr Awdurdod wedi elwa o newid y dull o gasglu ffioedd â llaw i ddull electronig. Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y caniateir parcio tan hanner nos yn unig a bod parcio anghyfreithlon dros nos yn fater i'w drafod mewn ymgynghoriad â Chyngor Gwynedd. Gofynnodd y Pennaeth Eiddo i'r Aelodau hysbysu swyddogion am unrhyw dorri rheolau parcio ar ymyl y ffordd a fyddai'n cael eu codi wedyn gydag Awdurdod Priffyrdd Gwynedd ac Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a chymeradwyo'r adolygiad ffioedd fel yr amlinellwyd ym mharagraff 3.1 o'r adroddiad, a ddaw i rym ar 1 Ebrill 2022.**

10. **Datganiad Polisi Tâl 2022/23 ac Adroddiad Blynyddol Polisi Tâl ar gyfer 2021/22**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Dynol, Cyngor Gwynedd i'r Aelodau gymeradwyo'r Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2022/23 a derbyn yr Adroddiad Polisi Tâl ar gyfer 2021/22.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth AD yr adroddiad a'r cefndir a rhoddodd wybod am y Dyfarniad Cyflog Cenedlaethol o 1.75% ar gyfer 2021/22.

**PENDERFYNWYD**

1. **cymeradwyo'r Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2022/23.**
2. **cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Polisi Tâl ar gyfer 2021/22.**

11. **Rhyddid Gwybodaeth**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer ar geisiadau gwybodaeth a dderbyniwyd gan yr Awdurdod o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer yr adroddiad, er gwybodaeth.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

12. **Adroddiad Blynyddol ar gyfer Blwyddyn 2021: Dangosyddion Perfformiad Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Ymgysylltu ynghyd ag adroddiad blynyddol ar ddangosyddion perfformiad y Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu a chynnydd ar y cynllun gweithredu.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Pennaeth Ymgysylltu'r adroddiad, y cefndir ac Adroddiad Cynnydd 2021 yn fanwl.

Yn codi wedi hynny , gofynnodd Aelod, yng ngoleuni'r blaenoriaethau a nodir yn natganiad Gwerthfawr a Chydnerth Llywodraeth Cymru, i ba raddau yr oedd y strategaeth yn canolbwyntio ar grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a sut y gellid gwella hyn ar gyfer y dyfodol. Hefyd, gofynnodd am gofnodi llwyddiant staff yr Awdurdod wrth gynorthwyo Llywodraeth Cymru yn eu hymgyrch recriwtio ddiweddar ar gyfer Aelodau newydd, a fu'n llwyddiannus iawn.

**PENDERFYNWYD nodi'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer Blwyddyn 2021: Dangosyddion Perfformiad y Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu.**

13. **Cofnodion Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch**
Cyflwynwyd – Cofnodion cyfarfod Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch a gynhaliwyd ar 24[ain] Tachwedd 2021, er gwybodaeth.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod adroddiad y syrfewyr, a oedd yn helaeth, wedi'i dderbyn a bod swyddogion yn awr yn aros am y crynodeb gweithredol. Y camau nesaf fyddai pecynnu a blaenoriaethu'r gwaith i'w wneud yn fforddiadwy a byddai'r gwaith wedyn yn cychwyn yn Haf 2023. Yn y cyfamser, bydd peth gwaith dros dro yn cael ei wneud oherwydd does dim byd angen sylw'n syth bin ond maent angen sylw yn y tymor canolig.

**PENDERFYNWYD nodi'r cofnodion.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.50**

**PWYLLGOR SAFONAU DYDD GWENER
1 EBRILL 2022**

***YN BRESENNOL*** :

**Aelod wedi ei benodi gan Gyngor Gwynedd**
Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd;

**Aelod wedi ei benodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
Y Cynghorydd Philip Capper;

**Aelod wedi'i benodi gan Lywodraeth Cymru**
Ms Sarah Hattle;

**Aelodau Annibynnol**
Ms Rachael LJ Davies (Cadeirydd), Mr. Martin J. Hughes, Ms Sharon Warnes;

**Swyddogion**
Mr G. Iwan Jones, Mrs Anwen Gaffey.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod y cyfarfod yn ddarostyngedig Reoliadau Covid-19 ar sut mae'r Awdurdod yn cynnal ei fusnes, a bod:-

- Hysbysiad o'r Cyfarfod wedi'i gyhoeddi ac roedd yr Agenda a'r adroddiadau ar gael ar wefan yr Awdurdod.
- nid oedd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd.
- roedd y cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn cynorthwyo i wirio'r cofnodion ond gellir ei roi ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

1. **Ymddiheuriadau am Absenoldeb**
   Ni chynigiwyd unrhyw ymddiheuriadau.

2. **Datgan Budd**
   Ni ddatganwyd unrhyw Fudd Personol mewn perthynas ag unrhyw eitem.

3. **Cofnodion**
   Derbyniwyd cofnodion y ddau gyfarfod o'r Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 3 Medi 2021ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

   Yn codi wedi hynny,
   Eitem 6 – Gwrandawiad Apêl
   Darparodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol adborth yn dilyn penderfyniad y Pwyllgor Safonau a dywedodd hefyd ei fod yn deall bod y sianeli cyfathrebu ym Mhlas Tan y Bwlch bellach wedi gwella.

4. **Adroddiad Blynyddol i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr Awdurdod**
   Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i'r Aelodau gytuno ar gynnwys yr Adroddiad Blynyddol.

   Adroddwyd – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a'r cefndir. Trafododd yr aelodau y gofyniad ychwanegol i bob pwyllgor safonau baratoi adroddiadau blynyddol i'w "hawdurdod perthnasol" i hyrwyddo a sicrhau safonau uchel o ymddygiad. Bu aelodau a swyddogion hefyd yn trafod canfyddiadau allweddol y Grŵp Tasg a Gorffen Llywodraethu mewn perthynas â rôl strategol yr Aelodau.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad a gwnaethant y sylwadau a ganlyn:-

- cefnogodd y Pwyllgor Safonau y pecyn o fesurau a gynigiwyd, fel yr amlinellwyd ym mhara. 4.2 yr adroddiad.
- gofynnodd Aelod a fyddai'n fuddiol cynnwys rhestr o ofynion hyfforddi gorfodol ar gyfer aelodau, megis safonau moesegol, cod ymddygiad ac ati, i'w cyflawni dros gyfnod o amser, naill ai'n bersonol neu drwy fodiwlau e-ddysgu. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod hyfforddiant GDPR a Seiberddiogelwch yn orfodol ar hyn o bryd i'r holl staff ac Aelodau.
- Cytunodd yr Aelodau y dylid ailgyflwyno proses adolygu flynyddol ffurfiol ar gyfer yr holl Aelodau gyda matrics sgiliau i adnabod bylchau sgiliau unigol. Adroddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ar y rheswm pam fod ymdrechion yn y gorffennol wedi bod yn aflwyddiannus ond cytunodd fod hwn yn gyfle i ailosod a dechrau system newydd a hefyd i gymell aelodau presennol i gymryd rhan.
- Cytunodd yr Aelodau y byddai sefydlu rhaglen fentora Aelodau newydd yn fuddiol, yn enwedig gan nad oedd cyfarfodydd o bell yn ddefnyddiol yn hyn o beth. Cytunwyd y dylid dilyn y rhaglen fentora ochr yn ochr â hyfforddiant. Nododd yr Aelodau fod gan Sarah Hattle brofiad yn y maes hwn ac efallai y byddai ganddi ddiddordeb mewn cymryd yr awenau ar fentora Aelodau.
- Dylai para. 7.1 gynnwys bod y Pwyllgor Safonau wedi cyfarfod yn ddiweddar i benderfynu ar wrandawiad apêl yn unol â Threfn Gwyno'r Awdurdod.
- gofynnodd Aelod i'r adroddiad blynyddol gynnwys gwybodaeth gefndirol am y Pwyllgor Safonau er budd Aelodau newydd. Dylid cyfeirio hefyd at gyfraniad y Pwyllgor Safonau i Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru yn ystod yr adolygiad o'r Cod Ymddygiad er mwyn dangos bod gan y Pwyllgor Safonau gyrhaeddiad ehangach nag ar lefel leol yn unig.
- nododd Aelod fod templed adroddiad a ddefnyddiwyd gan Bwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn (16 Mehefin 2021) ar gael ar eu gwefan ac y gallai fod o gymorth wrth baratoi'r Adroddiad Blynyddol.
- cytunwyd y dylid paratoi'r adroddiad drafft fel yr amlinellwyd a'i ddosbarthu'n electronig i Aelodau'r Pwyllgor Safonau gyda chais i unrhyw sylwadau gael eu cyflwyno yn ôl. Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau wedyn yn cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr Awdurdod ar 15 Mehefin 2022.

**PENDERFYNWYD yn ddarostyngedig y cynhwysir yr ychwanegiadau/diwygiadau a amlinellwyd uchod, cytuno ar gynnwys yr Adroddiad Blynyddol i'w gyflwyno i'r Awdurdod fel y nodir yn Adran 6 yr adroddiad.**

5. **Datgan Buddiannau Aelodau**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i'r Pwyllgor Safonau fonitro gweithrediad y cod ymddygiad.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a'r cefndir. Yn codi wedi hynny, tynnodd Aelod sylw at y ffaith nad oedd rhai Aelodau wedi llenwi'r adran sy'n gofyn, "A yw'r Buddiant Personol yn fuddiant sy'n rhagfarnu." Cytunodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol y bydd swyddogion yn y dyfodol yn sicrhau bod y cwestiwn yn cael ei ateb ar y ffurflen, ac er mwyn cadw cofnod clir bydd y profforma yn cael ei ddiwygio i gynnwys blychau ticio i'r Aelodau eu ticio naill ai Ydi neu Nac ydi, fel bod trywydd papur cyflawn ar gael, bydd swyddogion yn y dyfodol yn argraffu copi o e-bost yr Aelod ynghyd â'r datganiad atodedig.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad, er gwybodaeth.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 14.50**